

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 23/01/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)  
[Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol](#)  
[Questions to the Counsel General](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)  
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Cynnig Gweithdrefnol](#)  
[Procedural Motion](#)

[Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Brentisiaethau yng Nghymru](#)  
[The Enterprise and Business Committee's Inquiry into Apprenticeships in Wales](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ad-drefnu'r GIG](#)  
[Welsh Conservatives Debate: NHS Reconfiguration](#)

[Dadl Plaid Cymru: y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol](#)  
[Plaid Cymru Debate: The Arts and Creative Industries](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd  
(Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer  
(Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

The National Assembly for Wales is now in session.

Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

## Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Ymddiriedolaeth Thalidomide

## Questions to the Minister for Health and Social Services

### Thalidomide Trust

13:30 **Russell George** [Bywgraffiad Biography](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad cyllid Llywodraeth Cymru at Ymddiriedolaeth Thalidomide. OAQ(4)0218(HSS)*

*1. Will the Minister make a statement regarding the Welsh Government's funding contribution to the Thalidomide Trust. OAQ(4)0218(HSS)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you for that question; it is very timely. I am pleased to announce that we will be providing over £7.5 million for the next 10 years from 2013-14 to the Thalidomide Trust. This will provide an annual grant of just over £750,000 to provide stability and security for thalidomide survivors in Wales and help them to lead independent lives.

Diolch am y cwestiwn hwnnw, mae'n amserol iawn. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi y byddwn yn rhoi dros £7.5 miliwn ar gyfer y 10 mlynedd nesaf o 2013-14 i'r Ymddiriedolaeth Thalidomide. Bydd hyn yn darparu grant blynyddol o ychydig dros £750,000 i roi sefydlogrwydd a diogelwch i unigolion sydd wedi goroesi thalidomid yng Nghymru a'u helpu i fyw bywydau annibynnol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:31	<p><b>Russell George</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I thank the Minister for her answer and I am very pleased to hear that today. Constituents of mine have asked me that question and I am sure that they will be delighted to hear your answer. You will appreciate that this is a direct result of the scandal in the 1950s and 1960s. In December, the Department of Health announced that it would provide an extra £80 million over 10 years to the trust and funding has also been pledged by the Scottish and Northern Irish Governments. So, I am delighted to hear your answer today, Minister. Could you tell me when further details will be available?</p>	<p>Diolch i'r Gweinidog am ei hateb ac rwy'n falch iawn o glywed hynny heddiw. Mae rhai o'm hetholwyr wedi gofyn y cwestiwn hwnnw imi ac rwy'n siŕr y byddant yn falch o glywed eich ateb. Byddwch yn gwerthfawrogi bod hyn yn deillio'n uniongyrchol o'r sgandal yn y 1950au a'r 1960au. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd yr Adran Iechyd y byddai'n darparu £80 miliwn ychwanegol dros 10 mlynedd i'r ymddiriedolaeth ac mae Llywodraethau'r Alban a Gogledd Iwerddon hefyd wedi addo arian. Felly, mae'n bleser gennyf glywed eich ateb heddiw, Weinidog. A allwch ddweud wrthyf pryd y bydd rhagor o fanylion ar gael?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:31	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>As I said, the funding is from 2013-14 for 10 years and I know that you have had constituents contact you. As you mentioned, the increased annual grant matches the contribution of England and of Scotland and ensures that thalidomide survivors in Wales are not disadvantaged at all.</p>	<p>Fel y dywedais, mae'r arian yn dechrau o 2013-14 am gyfnod o 10 mlynedd a gwn fod etholwyr wedi cysylltu â chi. Fel y crybwyllwyd gennyf, mae'r grant blynyddol uwch yn cyfateb i gyfraniad Lloegr a'r Alban ac yn sicrhau na fydd unigolion sydd wedi goroesi thalidomid yng Nghymru o dan unrhyw anfantais o gwbl.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Arian Cyflafalaf</b>		<b>Capital Funding</b>	
13:32	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>2. A yw'r Gweinidog wedi dyrannu'r arian cyfalaf angenrheidiol i alluogi byrddau iechyd lleol i gyflawni eu cynlluniau ail-strwythuro arfaethedig. OAQ(4)0229(HSS)</i></p>	<p><i>2. Has the Minister allocated the necessary capital funding to enable Local Health Boards to carry out their proposed restructuring plans. OAQ(4)0229(HSS)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:32	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am currently reviewing the all-Wales capital programme in the light of emerging health board service change plans and will continue to allocate funding to schemes that are of strategic importance and support the delivery of sustainable services.</p>	<p>Rwyf wrthi'n adolygu rhaglen gyfalaf Cymru gyfan o ystyried y cynlluniau newid gwasanaethau byrddau iechyd newydd a byddaf yn parhau i ddyrannu arian i gynlluniau sydd o bwysigrwydd strategol ac sy'n helpu i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:32	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, you will be aware, as far as some of the proposals of Betsi Cadwaladr University Local Health Board in north Wales are concerned, that some community hospital closures are predicated on the provision of new primary care facilities. If the review of the capital programme has not been completed at the time that the announcements are made, what reassurance can north Wales citizens have that those facilities will be provided, given that there are examples in Chirk and other areas of primary healthcare facilities being on programme for a number of years?</p>	<p>Weinidog, byddwch yn ymwybodol, mewn perthynas â rhai o gynigion Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y Gogledd, bod penderfyniadau i gau rhai ysbytai cymunedol yn cael eu gwneud ar y sail y darperir cyfleusterau gofal sylfaenol newydd. Os na fydd yr adolygiad o'r rhaglen gyfalaf wedi'i gwblhau ar yr adeg y gwneir y cyhoeddiadau, pa sicrwydd y gellir ei roi i ddinasyddion y Gogledd y caiff y cyfleusterau hynny eu darparu, o gofio bod enghreifftiau yn y Waun ac ardaloedd eraill lle y bu cyfleusterau gofal iechyd sylfaenol yn yr arfaeth am sawl blwyddyn?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:33	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The mid-year review that I had indicated that there would be a requirement to reconsider, re-profile and reshape the entire capital programme. In light of reconfiguration plans, that will be an issue. I am confident that there is enough capital funding in the system, but we will have to look at the specifics as we go through the reconfiguration process.</p>	<p>Awgrymodd yr adolygiad canol-blwyddyn a gefais y byddai angen ailystyried, ailbroffilio ac ail-lunio'r rhaglen gyfalaf gyfan. O ystyried cynlluniau ad-drefnu, bydd hynny'n broblem. Rwy'n hyderus bod digon o arian cyfalaf yn y system, ond bydd yn rhaid inni ystyried y manylion wrth inni roi'r broses ad-drefnu ar waith.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 13:33 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, not long before Christmas, you gave local health boards an additional £82 million, partly as a result of capital programme slippage. What assurances can you give me and the people of Wales that the £82 million that you provided is sufficient to allow local health boards to meet their obligations to break even by the end of the year, particularly in north Wales and in Cardiff and the Vale health board areas, which have both indicated that their gaps in funding were much greater than the gaps that were, effectively, plugged by your recent bailout?
- Weinidog, ychydig cyn y Nadolig, rhoddwyd £82 miliwn ychwanegol i'r byrddau iechyd lleol, yn rhannol o ganlyniad i lithriad o fewn y rhaglen gyfalaf. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i mi a phobl Cymru bod yr £82 miliwn a roddwyd gennych yn ddigon i alluogi byrddau iechyd lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau i fantoli'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn, yn enwedig yn ardaloedd byrddau iechyd y Gogledd a Chaerdydd a'r Fro, y mae'r ddaau wedi nodi bod eu bylchau ariannol yn llawer mwy na'r bylchau y gwnaethoch, i bob pwrpas, eu llenwi, wrth roi help llaw iddynt yn ddiweddar?
- 13:34 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The health boards have a statutory responsibility to come in on budget and I expect them to do so at the end of March. The £82 million, which came from my contingency budget, was as a response to the mid-year review that I had, which looked at finances as one part of the review. I am very confident that they will come in on budget.
- Mae gan y byrddau iechyd gyfrifoldeb statudol i weithredu o fewn y gyllideb a disgwyliaf iddynt wneud hynny erbyn diwedd mis Mawrth. Cyflwynwyd yr £82 miliwn, a ddaeth o'm cyllideb wrth gefn, mewn ymateb i'r adolygiad canol-blwyddyn a gynhaliais, a oedd yn ystyried cyllid fel un rhan o'r adolygiad. Rwy'n hyderus y byddant yn llwyddo i weithredu o fewn y gyllideb.
- 13:34 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae arian cyfalaf yn cael ei ddefnyddio i brynu peiriannau hefyd, wrth gwrs, ac mae peiriannau ar gyfer triniaeth trawsblannu celloedd 'stem' yn Ysbyty Gwynedd. Mae'r sgiliau a'r arbenigedd yno ond am ryw reswm mae'r driniaeth hon wedi stopio yn Ysbyty Gwynedd ers mis Tachwedd. Mae un o'm hetholwyr yn wynebu treulio mis ym Manceinion yn cael y driniaeth hon er bod y peiriannau, yr arbenigedd a'r sgiliau yn bodoli yn Ysbyty Gwynedd a fyddai'n caniatáu iddo ef a'i wraig fynd adref bob nos ar ôl y driniaeth. A wnewch chi sicrhau bod peiriannau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael eu defnyddio'n llawn er budd pobl gogledd Cymru yng ngogledd Cymru, os gwelwch yn dda?
- Minister, capital funding is also used to buy machinery, of course, and there is machinery for stem cell transplants at Ysbyty Gwynedd. The expertise and skills are also there, but, for some reason, that treatment has not been provided at Ysbyty Gwynedd since November. A constituent of mine is facing spending a month in Manchester to receive this treatment, although the expertise, skills and machinery exists in Bangor that would allow him and his wife to return home each night after treatment. Will you ensure that Betsi Cadwaladr LHB's machinery is used to its full potential for the benefit of the people of north Wales in north Wales, please?
- 13:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I was not aware of the issue that you have just raised with me, but it is certainly something that I will take up with the chair of Betsi Cadwaladr LHB. It is very important that any machinery, which, as you say, in some cases a large amount of money, is used to its full capacity.
- Nid oeddwn yn ymwybodol o'r mater yr ydych newydd ei godi gyda mi, ond yn sicr, mae'n rhywbeth y gwnaf ei drafod gyda chadeirydd BILI Betsi Cadwaladr. Mae'n bwysig iawn bod unrhyw beiriannau, sydd, fel y dywedwch, mewn rhai achosion yn costio cryn dipyn o arian, yn cael eu defnyddio cymaint â phosibl.
- 13:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am told that question 3, OAQ(4)0222(HSS), will not be asked.
- Dywedir wrthyf na fydd cwestiwn 3, OAQ(4)0222(HSS), yn cael ei ofyn.

## Amseroedd Agor Meddygfeydd

## GP Surgery Opening Times

- 13:35 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd agor meddygfeydd meddygon teulu yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0217(HSS)
4. Will the Minister make a statement on GP surgery opening times in South Wales East. OAQ(4)0217(HSS)

- 13:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. Improving access to GP services in South Wales East and across the whole of Wales is a programme for government commitment. The aim is to improve the accessibility of GP services for working people by ensuring appointments are available at times that are convenient to them, while also improving the continuity and quality of healthcare.
- Gwnaf. Mae gwella mynediad i wasanaethau meddygon teulu yn Nwyrain De Cymru a ledled Cymru gyfan yn un o ymrwymadau'r rhaglen lywodraethu. Y nod yw gwella hygyrchedd gwasanaethau meddygon teulu i bobl sy'n gweithio drwy sicrhau bod apwyntiadau ar gael ar adegau sy'n gyfleus iddynt, a gwella parhad ac ansawdd gofal iechyd ar yr un pryd.
- 13:36 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You are probably aware that last year, Aneurin Bevan Local Health Board awarded almost £400,000 to surgeries as part of its 'A' is for Access scheme. Twenty-six of the 91 surgeries attained an A or B rating for accessibility. Can you tell me when the majority of the surgeries will have extended opening hours?
- Byddwch fwy na thebyg yn ymwybodol bod Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan wedi rhoi bron £400,000 i feddygfeydd y llynedd fel rhan o'i gynllun "A' is for Access". Llwyddodd 26 o'r 91 o feddygfeydd i ennill gradd A neu B am hygyrchedd. A allwch ddweud wrthyf pryd y bydd y mwyafrif o'r meddygfeydd yn gweithredu oriau agor estynedig?
- 13:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- At the current time, 99% of GP practices located in Aneurin Bevan LHB's area of operation offer appointments between 5 p.m. and 6.30 p.m. on at least two week nights each week. We have seen an improvement there. You will be aware that in 2013, going over into 2014, the focus is going to be on increasing the availability of later evening appointments, after 6.30 p.m., and early morning appointments before 8 a.m. The following year, 2014 going into 2015, the focus will be on enhancing access at the weekend.
- Ar hyn o bryd, mae 99% o bractisau meddygon teulu o fewn ardal weithredu BILL Aneurin Bevan yn cynnig apwyntiadau rhwng 5 y.h. a 6.30 y.h. o leiaf ddwywaith yn ystod yr wythnos bob wythnos. Rydym wedi gweld gwelliant yn hynny o beth. Byddwch yn ymwybodol, yn 2013, ac ymlaen i 2014, y bydd y ffocws ar sicrhau bod mwy o apwyntiadau hwyrach gyda'r nos ar gael, ar ôl 6.30 y.h., ac apwyntiadau yn gynnar yn y bore cyn 8 y.b. Y flwyddyn ganlynol, o 2014 i 2015, bydd y ffocws ar wella mynediad ar benwythnosau.
- 13:37 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, one of Labour's key pledges in the last Assembly elections was to require GPs to make surgeries more accessible to working people in the evenings and on Saturday mornings at no extra cost. We have just heard Jocelyn Davies say that only 26 surgeries out of 91 in Gwent are opening more, at a cost of nearly £400,000. When do you expect to deliver on your manifesto promise and what is the latest estimate of the cost of your policy?
- Weinidog, un o addewidion allweddol Llafur yn ystod etholiadau diwethaf y Cynulliad oedd ei gwneud yn ofynnol i feddygon teulu sicrhau bod meddygfeydd yn fwy hygyrch i bobl sy'n gweithio gyda'r nos ac ar fore Sadwrn heb unrhyw gost ychwanegol. Rydym newydd glywed Jocelyn Davies yn dweud mai dim ond 26 o feddygfeydd allan o 91 yng Ngwent sydd ar agor fwy, am gost o bron £400,000. Pryd rydych yn disgwyl cyflawni eich addewid maniffesto a beth yw'r amcangyfrif diweddaraf o ran cost eich polisi?
- 13:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have just set out how we will take that commitment through to 2015. Therefore, by the end of this Assembly, we will expect that commitment to have been delivered. In relation to funding, there is no intention to change the GP contract. With regard to the first part of the enhancing access scheme, it is not about GPs working longer hours for free; it is about them, within their current contractual arrangements, allowing their surgeries to reschedule appointments up to 6.30 p.m. Following that, the arrangements for access after 6.30 p.m. are not mandatory, because at the moment they have to prove that enhanced access is required to meet a reasonable need. In relation to Saturday morning access, again, there is no intention to change the GP contract or to force GPs to provide this service. We will do that through a new, innovative model that is currently being developed. Dr C.D.V. Jones is undertaking that work for me.
- Rwyf newydd nodi sut y byddwn yn rhoi'r ymrwymiad hwnnw ar waith hyd at 2015. Felly, erbyn diwedd y Cynulliad hwn, byddwn yn disgwyl y bydd yr ymrwymiad hwnnw wedi'i gyflawni. O ran arian, nid oes unrhyw fwiad i newid y contract meddygon teulu. O ran rhan gyntaf y cynllun gwella mynediad, nid oes a wnelo â meddygon teulu yn gweithio oriau hwy am ddim; mae a wnelo â chaniatáu, o fewn eu trefniadau cytundebol cyfredol, i'w meddygfeydd aildrefnu apwyntiadau hyd at 6.30 y.h. Yn dilyn hynny, nid yw'r trefniadau ar gyfer mynediad ar ôl 6.30 y.h. yn orfodol, oherwydd ar hyn o bryd, rhaid iddynt brofi bod angen oriau agor estynedig er mwyn diwallu angen rhesymol. O ran apwyntiadau ar fore Sadwrn, unwaith eto, nid oes unrhyw fwiad i newid y contract meddygon teulu nac i orfodi meddygon teulu i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Gwnawn hynny drwy fodel newydd, arloesol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae Dr C.D.V. Jones yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw ar fy rhan.

## Blaenoriaethau

13:39 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*5. Beth yw blaenoriaethau adran y Gweinidog am y chwe mis nesaf. OAQ(4)0214(HSS)*

13:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
They are to deliver on the plans and priorities set out in our programme for government and 'Together for Health'.

13:39 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Minister, have you and the First Minister decided yet whether it is appropriate for you to take any decision relating to the future of neonatal services in north Wales, given that the decision taken by Betsi Cadwaladr LHB last week involves the closure of a service in your constituency?

13:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
You will be aware from the First Minister's answer yesterday that, at the present time, I have to wait to see whether the community health council refers any aspects of the plans from the Betsi Cadwaladr or Hywel Dda health boards in relation to that.

13:39 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I would suggest to you, Minister, that it is not appropriate for you to take such a decision. That would, of course, free you to have a view on the reforms relating to your constituency. Given everything that you have said against the NHS reforms in England, are you proud of the fact that one of your local health boards last week took the decision to close a neonatal service in north Wales and preferred to invest in and commission a replacement service from the reformed health service in England? Do you consider that to be a decision that should not have been taken by a local health board but should be a decision for the Welsh Government?

13:40 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
In relation to your reference to my constituency, obviously, I do not make any decisions that affect my constituency. This affects north Wales and, if the community health council refers it to me, I will have to have discussions with the First Minister, who would be the Minister to make any decisions that relate to my constituency. What we have to accept about Betsi Cadwaladr LHB's decision is that it received authoritative clinical advice that informed its proposals and the most important thing is that we know that babies, particularly very sick babies, are greatly affected by receiving the correct care from the word 'go'.

## Priorities

*5. What are the Minister's department's priorities for the next six months. OAQ(4)0214(HSS)*

Cyflawni'r cynlluniau a'r blaenoriaethau a nodir yn ein rhaglen lywodraethu a 'Law yn Llaw at Iechyd'.

Weinidog, a ydych chi a'r Prif Weinidog wedi penderfynu eto a yw'n briodol ichi wneud unrhyw benderfyniad o ran dyfodol gwasanaethau newyddenedigol yn y Gogledd, o ystyried bod y penderfyniad a wnaed gan BILL Betsi Cadwaladr yr wythnos diwethaf yn golygu cau gwasanaeth yn eich etholaeth?

Byddwch yn ymwybodol o ateb y Prif Weinidog ddoe, bod yn rhaid inni, ar hyn o bryd, aros i weld a fydd y cyngor iechyd cymuned yn cyfeirio unrhyw agweddau ar y cynlluniau o fyrddau iechyd Betsi Cadwaladr neu Hywel Dda yn hynny o beth.

Awgrymwn, Weinidog, nad yw'n briodol ichi wneud penderfyniad o'r fath. Byddai hynny, wrth gwrs, yn golygu y gallech leisio barn ar y diwygiadau sy'n effeithio ar eich etholaeth. O ystyried popeth a ddywedwyd gennych yn erbyn diwygiadau'r GIG yn Lloegr, a ydych yn falch o'r ffaith bod un o'ch byrddau iechyd lleol yr wythnos diwethaf wedi penderfynu cau gwasanaeth newyddenedigol yn y Gogledd a bod yn well ganddo yn lle hynny fuddsoddi mewn gwasanaeth newydd gan y gwasanaeth iechyd diwygiedig yn Lloegr a chomisiynu'r gwasanaeth hwnnw? A ydych o'r farn na ddylai bwrdd iechyd lleol fod wedi gwneud y penderfyniad hwnnw ac mai Llywodraeth Cymru ddylai wneud y penderfyniad hwnnw?

Mewn perthynas â'ch cyfeiriad at fy etholaeth, yn amlwg, nid wyf yn gwneud unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar fy etholaeth. Mae hyn yn effeithio ar y Gogledd ac, os caiff ei gyfeirio ataf gan y cyngor iechyd cymuned, bydd yn rhaid imi drafod gyda'r Prif Weinidog, sef y Gweinidog a fyddai'n gwneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â'm hetholaeth. Yr hyn sy'n rhaid inni ei dderbyn am benderfyniad BILL Betsi Cadwaladr yw iddo gael cyngor clinigol awdurdodol i lywio ei gynigion a'r peth pwysicaf yw ein bod yn gwybod bod rhoi'r gofal priodol i fabanod o'r cychwyn cyntaf yn cael effaith fawr arnynt, yn enwedig babanod sâl iawn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:41	<p><b>Keith Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, last week, Hywel Dda Local Health Board opted to remodel the current services at Llanelli Prince Philip Hospital's accident and emergency unit to provide a doctor-supported, primarily nurse-delivered service and a 24/7 medical assessment and admission service. However, much further detail is needed on what the latter will offer and on levels of co-operation between the two units. I have asked the board to provide that further detail as soon as it is practical to do so. Despite these being the final recommendations, do you agree that it is essential that the public is consulted continuously and openly at every future stage?</p>	<p>Weinidog, yr wythnos diwethaf, dewisodd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ailfodelu'r gwasanaethau presennol yn uned damweiniau ac achosion brys Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli er mwyn darparu gwasanaeth a ddarperir yn bennaf gan nyrsys gyda chymorth meddygon a gwasanaeth asesu meddygol a derbyn 24/7. Fodd bynnag, mae angen llawer mwy o fanylion am yr hyn y bydd yr ail yn ei gynnig ac am lefelau cydweithredu rhwng y ddwy uned. Rwyf wedi gofyn i'r bwrdd roi manylion pellach cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny. Er gwaethaf y ffaith mai argymhellion terfynol yw'r argymhellion hyn, a gytunwch ei bod yn hanfodol ymgynghori'n barhaus â'r cyhoedd a hynny mewn ffordd agored ar bob cam yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:41	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, I agree with you on that, and I think that we have seen consultation on a level that we have not seen before. It is important that health boards realise that this now has to be the norm and that this has to be part of a continual process of engagement with both the public and other interested bodies. However, what is really important is that any future engagement, which you referred to in relation to Hywel Dda LHB, is taken against the backdrop of its having decided that emergency services at Prince Philip Hospital will have to be remodelled to ensure that we have the safe and sustainable services that we all want to see.</p>	<p>Cytunaf â chi yn hynny o beth, a chredaf ein bod wedi gweld trefniadau ymgynghori ar lefel na welwyd mo'i thebyg o'r blaen. Mae'n bwysig bod byrddau iechyd yn sylweddoli mai dyma y dylid ei wneud fel y norm bellach a bod yn rhaid iddo fod yn rhan o broses ymgysylltu barhaus â'r cyhoedd a chyrff eraill â diddordeb. Fodd bynnag, yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw y cynhelir unrhyw waith ymgysylltu yn y dyfodol, y gwnaethoch gyfeirio ato mewn perthynas â BILI Hywel Dda, yng nghyd-destun y ffaith ei fod wedi penderfynu y bydd yn rhaid ailfodelu gwasanaethau brys yn Ysbyty Tywysog Philip er mwyn sicrhau'r gwasanaethau diogel a chynaliadwy y mae pob un ohonom am eu gweld.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:42	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call the opposition spokesperson, Darren Millar.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Darren Millar.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:42	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, can you tell us what a health board ought to do in the event that its own clinical reference group, the British Medical Association, the Royal College of Nursing and the Royal College of Midwives oppose a specific part of its reorganisation proposals? Should it listen to those concerns and that opposition, or should it ignore them?</p>	<p>Weinidog, a allwch ddweud wrthym beth y dylai bwrdd iechyd ei wneud os bydd ei gr?p cyfeirio clinigol ei hun, sef Cymdeithas Feddygol Prydain, Coleg Brenhinol y Nyrsys a Choleg Brenhinol y Bydwagedd yn gwrthwynebu rhan benodol o'i gynigion ad-drefnu? A ddylai wrando ar y pryderon hynny a'r gwrthwynebiad hwnnw, neu a ddylai eu hanwybyddu?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:42	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>It should listen.</p>	<p>Dylai wrando.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:42	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>It should listen. Given that Betsi Cadwaladr University Local Health Board has made a decision to, effectively, ignore the views of those extremely important organisations and its own clinical reference group, and given that there was overwhelming public opposition to those proposals, will you now listen to the four Assembly Members—Ann Jones, Llyr Huws Gruffydd, Aled Roberts and me—who have written to you today to ask you to intervene in that particular decision and to take a decision yourself?</p>	<p>Dylai wrando. O gofio bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gwneud penderfyniad, i bob diben, i anwybyddu barn y sefydliadau hynod bwysig hynny a'i gr?p cyfeirio clinigol ei hun, ac o ystyried bod gwrthwynebiad llethol ymhlith y cyhoedd i'r cynigion hynny, a wnewch chi wrando yn awr ar y pedwar Aelod Cynulliad—Ann Jones, Llyr Huws Gruffydd, Aled Roberts a fi—sydd wedi ysgrifennu atoch heddiw i ofyn ichi ymyrryd yn y penderfyniad penodol hwnnw a gwneud penderfyniad eich hun?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 13:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have not had the letter yet, and I will certainly have a look at it. However, my role is very clearly set out: I can do nothing until the community health council decides whether it will refer any part of the plans to me. It has up to six weeks to do that. It may not take the six weeks, but, until the six weeks are up, I can do nothing.
- Nid wyf wedi cael y llythyr eto, ac yn sicr, edrychaf arno. Fodd bynnag, nodir fy rôl yn glir iawn: ni allaf wneud unrhyw beth nes bydd y cyngor iechyd cymuned yn penderfynu pa un a ddylid cyfeirio unrhyw ran o'r cynlluniau ataf. Mae ganddo hyd at chwe wythnos i wneud hynny. Efallai na wnaiff gymryd y chwe wythnos, ond, tan ddiwedd y chwe wythnos, ni allaf wneud unrhyw beth.
- 13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Kirsty Williams.
- Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.
- 13:43 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- Could the Minister explain the capital allocations in the health technologies fund announced last week?
- A allai'r Gweinidog egluro'r dyraniadau cyfalaf yn y gronfa technolegau iechyd a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf?
- 13:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I can. We have £5 million for this financial year and £10 million for the next two financial years.
- Gallaf. Mae gennym £5 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a £10 miliwn ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf.
- 13:44 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, when the First Minister said that he would be taking forward the Liberal Democrats' proposals for an innovative health technologies fund, there was a great deal of hope that that would mean that the very latest technology would be employed in the NHS, yet the allocations last week seemed to be nothing more than the replacement of existing kit in hospitals. While it is very welcome that that ageing existing kit is replaced, it is not exactly innovative. Velindre hospital hopes to be able to treat 30% of its patients with the latest radiotherapy techniques, intensity-modulated radiation therapy, by 2016. Yet, if you were a patient in England, such treatment would be routine at the Royal Marsden Hospital. When will Welsh cancer patients have access to the latest life-saving radiotherapy techniques?
- Weinidog, pan ddywedodd y Prif Weinidog y byddai'n bwrw ymlaen â chynigion y Democratiaid Rhyddfrydol am gronfa technolegau iechyd arloesol, roedd cryn obaith y byddai hynny'n golygu y byddai'r dechnoleg ddiweddaraf un yn cael ei defnyddio yn y GIG, ond ymddengys mai unig fwrriad y dyraniadau yr wythnos diwethaf oedd adnewyddu'r offer sy'n bodoli eisoes mewn ysbytai. Er ei bod yn beth da iawn bod yr hen offer sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cael ei adnewyddu, nid yw hynny'n arloesol o bell ffordd. Mae ysbyty Felindre yn gobeithio gallu trin 30% o'i gleifion gan ddefnyddio'r technegau radiotherapi diweddaraf, sef therapi ymbelydredd wedi'i fodiwrleiddio yn ôl dwysedd, erbyn 2016. Ond, pe byddech yn glaf yn Lloegr, byddai triniaeth o'r fath yn cael ei chynnig fel mater o drefn yn Ysbyty Brenhinol Marsden. Pryd y cynigir y technegau radiotherapi diweddaraf i achub bywydau ar gyfer cleifion canser yng Nghymru?
- 13:45 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- In relation to the first question about how we have spent the money this year, you will appreciate that that £5 million has to be spent before the end of March. I had to look at the bids and business cases that were submitted to make sure that it was appropriate for the money to be spent in that way.
- O ran y cwestiwn cyntaf ynghylch sut rydym wedi gwario'r arian eleni, byddwch yn gwerthfawrogi bod yn rhaid gwario'r £5 miliwn hwnnw cyn diwedd mis Mawrth. Bu'n rhaid imi edrych ar y ceisiadau a'r achosion busnes a ddaeth i law er mwyn sicrhau ei bod yn briodol gwario'r arian yn y ffordd honno.
- In relation to the next two years, we will have time to look at more innovative equipment. I met with my advisory committee on radiotherapy on Monday, and we are looking very closely at things such as stereotactic radiotherapy and stereotactic body radiation therapy. I would be very happy to meet with you to discuss anything that you think that we can look at over the next two years with regard to new innovation.
- O ran y ddwy flynedd nesaf, bydd amser gennym i ystyried offer mwy arloesol. Cefais gyfarfod â'm pwyllgor cynghori ar radiotherapi ddydd Llun, ac rydym yn rhoi ystyriaeth ofalus iawn i bethau fel radiotherapi stereotactig a therapi ymbelydredd y corff stereotactig. Byddwn yn fwy na pharod i gwrrdd â chi i drafod unrhyw gynigion arloesol newydd y credwch y gallwn eu hystyried yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

13:45 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The previous question was about Velindre Cancer Centre, and I know that cancer treatment is one of the Minister's priorities. Therefore, will she join me in congratulating Velindre Cancer Centre for being awarded cancer team of the year at the recent UK Quality in Care Excellence in Oncology Awards?

Roedd a wnelo'r cwestiwn blaenorol â Chanolfan Ganser Felindre, a gwn fod triniaeth cancer yn un o flaenoriaethau'r Gweinidog. Felly, a wnaiff ymuno â mi i longyfarch Canolfan Ganser Felindre ar ennill tîm cancer y flwyddyn yn yr 'UK Quality in Care Excellence in Oncology Awards' a gynhaliwyd yn ddiweddar?

13:46 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, absolutely. I join you in congratulating the team for the award. As you say, it was won by the significant clinical incident forum, which is a very novel multiprofessional group that investigates clinical incidence and untoward clinical outcomes very thoroughly and impartially, with the aim of fostering an open culture in relation to this issue.

Gwnaf, ar bob cyfrif. Hoffwn ymuno â chi i longyfarch y tîm ar y wobr. Fel y dywedwch, enillwyd y wobr gan y fforwm digwyddiadau clinigol o bwys, sef grŵp amlbroffesiwn arloesol iawn sy'n ymchwilio i ddigwyddiadau clinigol a chanlyniadau clinigol annisgwyl yn drylwyr iawn ac mewn ffordd ddiuedd, gyda'r nod o feithrin diwylliant agored mewn perthynas â'r mater hwn.

13:46 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, figures released yesterday showed that in the past two years there has been a 30% increase in suicides in Wales. The figures need to be studied, of course, but the dataset appears to show that the Samaritans' research from last year is correct, namely that males aged in their 30s, 40s and 50s in the most deprived areas are more likely to commit suicide than any other social group. What work is the Welsh Government doing to tackle suicide, and is there potential for further research to be carried out to enable us to better understand the causes?

Weinidog, dangosodd ffigurau a ryddhawyd ddoe y bu cynnydd o 30% mewn achosion o hunanladdiad yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Wrth gwrs, bydd angen astudio'r ffigurau, ond ymddengys fod y set data yn dangos bod gwaith ymchwil y Samariaid y llynedd yn gywir, sef bod dynion yn eu 30au, eu 40au a'u 50au yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o gyflawni hunanladdiad nag unrhyw grŵp cymdeithasol arall. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â hunanladdiad, ac a fyddai'n bosibl cynnal rhagor o waith ymchwil er mwyn inni allu deall yr achosion yn well?

13:47 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We are aware that more men than women choose to take their own lives. You mentioned the research by the Samaritans that found that there are a variety of reasons why this is so, such as socioeconomic conditions, age, traditional expectations around masculinity and the role of men in modern society. There is evidence that men are reluctant to discuss their mental health and that much more should be done to encourage more open discussion. I pay tribute to you, Ken, and the other three Assembly Members who made sure that that happened and that we got that much more out in that debate before Christmas. We all need to look at how we can support friends, families and colleagues much better than we do.

Rydym yn ymwybodol bod mwy o ddynion na merched yn dewis lladd eu hunain. Bu ichi sôn am y gwaith ymchwil gan y Samariaid a ganfu fod yna amrywiaeth o resymau am hynny, megis amodau economaidd-gymdeithasol, oedran, disgwyliadau traddodiadol ynghylch gwrywdod a rôl dynion o fewn cymdeithas fodern. Mae tystiolaeth bod dynion yn amharod i drafod eu hiechyd meddwl ac y dylid gwneud llawer mwy i annog trafodaeth fwy agored. Hoffwn dalu teyrnged ichi, Ken, a'r tri Aelod arall o'r Cynulliad a wnaeth yn siŵr bod hynny'n digwydd, ac y bu'r ddadl honno cyn y Nadolig yn llawer mwy buddiol. Mae angen i bob un ohonom ystyried sut y gallwn helpu ffrindiau, teuluoedd a chydweithwyr yn llawer gwell nag yr ydym yn ei wneud.

As a Government, we have 'Talk to Me', which is our action plan to reduce suicide and self-harm. I also believe that our new strategy. 'Together for Mental Health' will address a lot of these issues.

Fel Llywodraeth, cyflwynwyd 'Beth am Siarad â Fi?', sef ein cynllun gweithredu i leihau achosion o hunanladdiad a hunan-niwed. Credaf hefyd y bydd ein strategaeth newydd. 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn ymdrin â llawer o'r materion hyn.

## Canolfannau Argyfyngau

## Emergency Centres

13:47 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganolfannau argyfyngau lleol mewn ysbtyai yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0215(HSS)

6. Will the Minister make a statement on local emergency centres at hospitals in South Wales East. OAQ(4)0215(HSS)



- 13:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Local health boards are responsible for providing effective, timely and clinically safe emergency care service facilities at hospitals across Wales. Local emergency centres form part of the range of services that are available to provide urgent and emergency care.
- Mae byrddau iechyd lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal argyfwng effeithiol, amserol sy'n glinigol ddiogel mewn ysbytai ledled Cymru. Mae canolfannau argyfyngau lleol yn rhan o'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i ddarparu gofal brys ac argyfwng.
- 13:48 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Thank you, Minister. You will no doubt be aware of the very lively campaign to secure a doctor-led accident and emergency department at Ysbyty Ystrad Fawr. Residents are concerned, and I share their concerns, that after waiting for several hours at Ysbyty Ystrad Fawr, they will be told to go to the A&E unit at the Royal Gwent Hospital, where their wait for surgery begins again. What discussion have you had about a doctor-led service at Ysbyty Ystrad Fawr?
- Diolch, Weinidog. Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r ymgyrch fywiog iawn i sicrhau adran damweiniau ac achosion brys o dan arweiniad meddygon yn Ysbyty Ystrad Fawr. Mae trigolion yn bryderus, a rhannaf eu pryderon, y byddant, ar ôl aros sawl awr yn Ysbyty Ystrad Fawr, yn cael cyfarwyddyd i fynd i'r uned damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Gwent, lle y bydd eu cyfnod aros am lawdriniaeth yn dechrau eto. Pa drafodaethau a gawsoch ynghylch gwasanaeth o dan arweiniad meddygon yn Ysbyty Ystrad Fawr?
- 13:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I am fully aware of the campaign. Aneurin Bevan Local Health Board consulted very widely on the current model that is in place at Ysbyty Ystrad Fawr. Perhaps people need to realise what treatment they can get at a minor injuries unit. There is no need to go to an A&E all the time—you can go to a minor injuries unit. It goes back to choosing well, and I would encourage everyone to download the Choose Well app, because it is about making that decision about where to go. The nurse-led minor injuries unit at Ysbyty Ystrad Fawr is open 24 hours a day, seven days a week, so it is an improvement on the facility that was available at the old Caerphilly hospital.
- Rwy'n gwbl ymwybodol o'r ymgyrch. Ymgynghorodd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn helaeth ar y model presennol sydd ar waith yn Ysbyty Ystrad Fawr. Efallai bod angen i bobl sylweddoli pa driniaeth y gallant ei chael mewn uned mân anafiadau. Nid oes angen mynd i adran damweiniau ac achosion brys bob tro-gallwch fynd i uned mân anafiadau. Mater o wneud dewisiadau doeth ydyw, a byddwn yn annog pawb i lawrlwytho'r app 'Dewis Doeth', gan ei fod yn ymwneud â phenderfynu ble i fynd. Mae'r uned mân anafiadau o dan arweiniad nyrsys yn Ysbyty Ystrad Fawr ar agor 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos, felly mae'n well na'r cyfleuster a oedd ar gael yn hen ysbyty Caerffili.
- 13:49 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Minister, I am sure that you are aware that the Monnow Vale joint health social care facility in Monmouth was a state-of-the-art facility when it was built, and it is still seen as a pioneering type of modern health centre. I agree with what you said about the place for doctor-led and nurse-led facilities, but do you agree that it is also important that people know exactly what services are provided at each centre? We want to take the pressure off A&E departments, but if patients are not aware of exactly what is being provided and where, then the system can be very inefficient.
- Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod cyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd Monnow Vale yn Nhrefynwy, ar adeg ei adeiladu, yn un o'r radd flaenaf, a'i fod yn cael ei ystyried o hyd yn fath arloesol o ganolfan iechyd fodern. Cytunaf â'r hyn a ddywedwyd gennych am bwysigrwydd cyfleusterau o dan arweiniad meddygon a chyfleusterau o dan arweiniad nyrsys, ond a gytunwch ei bod hefyd yn bwysig bod pobl yn gwybod yn union pa wasanaethau a ddarperir ymhob canolfan? Rydym yn awyddus i leihau'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys, ond os nad yw cleifion yn gwybod yn union beth a ddarperir a ble, gall y system fod yn aneffeithlon iawn.
- 15:50 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I absolutely agree. That is exactly what the Choose Well campaign is designed to do; it is designed to support people to access the right service that they need for their treatment or injuries.
- Cytunaf yn llwyr. Dyna union fwiad yr ymgyrch Dewis Doeth; fe'i cynlluniwyd i helpu pobl i gael gafael ar y gwasanaeth priodol sydd ei angen arnynt mewn perthynas â'u triniaeth neu eu hanafiadau.

13:50	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Minister, what assessment have you made for the provision of mental health first aid through local emergency centres, given that the report that Ken Skates mentioned a few minutes ago suggests that the incidence of suicide is increasing rapidly in Wales and is already 30% higher than it is in England? Are you satisfied with the emergency care for mental health issues? What steps do you hope to take to improve that care?	Weinidog, pa asesiad a wnaed gennych o ran darparu cymorth cyntaf iechyd meddwl drwy ganolfannau argyfyngau lleol, o ystyried bod yr adroddiad a grybwyllwyd gan Ken Skates ychydig funudau yn ôl yn awgrymu bod nifer yr achosion o hunanladdiad yng Nghymru yn cynyddu'n gyflym a'i fod eisoes 30% yn uwch na'r nifer yn Lloegr? A ydych yn fodlon ar y gofal argyfwng o ran materion iechyd meddwl? Pa gamau rydych yn gobeithio eu cymryd i wella'r gofal hwnnw?
13:50	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	We need to look at this very closely in light of yesterday's figures. There is more that needs to be looked at in relation to the figures that you mentioned. I know that there are suggestions, and I know that some A&E departments have a mental health nurse on duty to help. That is a model that we can look at within NHS Wales.	Mae angen inni ystyried y mater hwn yn ofalus iawn yn dilyn ffigurau ddoe. Mae mwy i'w ystyried mewn perthynas â'r ffigurau a grybwyllwyd gennych. Gwn fod yna awgrymiadau, a gwn fod nyrs iechyd meddwl ar ddyletswydd mewn rhai adrannau damweiniau ac achosion brys i helpu. Mae hynny'n fodel y gallwn ei ystyried o fewn GIG Cymru.
	<b>Ysmygu</b>	<b>Smoking</b>
13:51	<b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu. OAQ(4)0224(HSS)</i>	<i>7. Will the Minister make a statement on the steps the Welsh Government is taking to stop young people from taking up smoking. OAQ(4)0224(HSS)</i>
13:51	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	The tobacco control action plan for Wales sets out how we aim to tackle smoking in Wales. The action plan includes continuing to invest in measures to discourage young people from starting smoking. The tobacco control delivery board will consider the one-year review of the plan next month.	Mae cynllun gweithredu Cymru ar reoli tybaco yn nodi sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael ag ysmygu yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys parhau i fuddsoddi mewn mesurau i atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu. Bydd y bwrdd cyflawni ar reoli tybaco yn ystyried yr adolygiad blwyddyn o'r cynllun fis nesaf.
13:51	<b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Thank you for that answer. Minister, the recent news that there will be a dedicated service in Wales to help young people quit smoking is fantastic and organisations such as Action on Smoking and Health Cymru should take huge credit. However, the key is that we do all that we can to stop people from taking up the habit in the first place. With this in mind, do you agree with me that the tobacco industry's attempt to design young-people-friendly packaging is disgraceful?	Diolch am yr ateb hwnnw. Weinidog, mae'r newyddion diweddar y bydd gwasanaeth penodol yng Nghymru i helpu pobl ifanc i roi'r gorau i ysmygu yn newyddion ardderchog a dylid canmol sefydliadau megis Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd Cymru yn fawr yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae'n allweddol ein bod yn gwneud popeth y gallwn i atal pobl rhag dechrau ysmygu yn y lle cyntaf. O ystyried hyn, a gytunwch â mi bod ymgais y diwydiant tybaco i ddylunio deunydd pecynnu sy'n ddeniadol i bobl ifanc yn warthus?
13:51	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Yes, absolutely. As a Government, we are working very closely with the Department of Health and other devolved administrations on the recent UK-wide consultation on standardised tobacco packaging. I know that a very large number of responses have been received during the consultation and officials are currently collating and analysing those responses. Any decisions that need to be taken on the future policy action on tobacco packaging can be made in light of that.	Cytunaf yn llwyr. Fel Llywodraeth, rydym yn gweithio'n agos iawn â'r Adran Iechyd a gweinyddiaethau datganoledig eraill ar yr ymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd ledled y DU ar ddeunydd pecynnu tybaco safonol. Gwn fod nifer fawr iawn o ymatebion wedi dod i law yn ystod yr ymgynghoriad ac mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn coladu ac yn dadansoddi'r ymatebion hynny. Gellir gwneud unrhyw benderfyniadau y bydd angen eu gwneud ar gamau polisi yn y dyfodol mewn perthynas â deunydd pecynnu tybaco gan ystyried hynny.

13:52 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am interested to hear your view on the call for cigarettes to be sold in plain packaging with large health warnings. Packaging is, arguably, the main advertising tool of the tobacco industry. I suppose that you could say that it is a sort of silent salesman. Many of the packs are deliberately fashionable, colourful and attractive to young smokers, especially slimline packets that fit nicely into a handbag. It is worth noting that all cigarettes sold in Australia will have to be sold in olive green plain packaging, with health warnings covering 75% of the front and 90% of that back of the packet. Is this a model that the Government in Wales could consider?

Weinidog, hoffwn glywed eich barn am y cais i werthu sigarêts mewn pecynnau plaen gyda rhybuddion iechyd mawr. Deunydd pecynnu, yn ddiau, yw prif arf hysbysebu'r diwydiant tybaco. Mewn gwirionedd, gallech ei ddisgrifio fel math o werthwr tawel. Mae llawer o'r pecynnau yn fwiadol ffasiynol, yn lliwgar ac yn ddeniadol i ysmygwyr ifanc, yn enwedig pecynnau tenau o faint addas ar gyfer bag llaw. Mae'n werth nodi y bydd yn rhaid i'r holl sigarêts a gaiff eu gwerthu yn Awstralia gael eu gwerthu mewn pecynnau plaen lliw gwyrdd olewydd, gyda rhybuddion iechyd ar 75% o glawr y pecyn a 90% ar y cefn. A yw hwn yn fodel y gallai'r Llywodraeth yng Nghymru ei ystyried?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:53 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I mentioned the current consultation that has been carried out by the Department of Health, given that it holds the powers in relation to this issue. However, we are very closely involved with it, along with Scotland and Northern Ireland. Once officials have looked at the responses and have collated and analysed them, that model is certainly something that we can look at. From talking to young people, I think that they recognise that if the packaging was not attractive, it would help to stop many young people from smoking in the first place.

Ydy. Soniais am yr ymgynghoriad presennol a gynhaliwyd gan yr Adran Iechyd, o gofio mai'r adran honno sydd â'r pwerau mewn perthynas â'r mater hwn. Fodd bynnag, rydym yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith hwnnw, felly hefyd yr Alban a Gogledd Iwerddon. Unwaith y bydd swyddogion wedi edrych ar yr ymatebion ac wedi eu coladu a'u dadansoddi, mae'r model hwnnw yn sicr yn rhywbeth y gallwn ei ystyried. Wrth siarad â phobl ifanc, credaf eu bod yn cydnabod, pe na bai'r deunydd pecynnu yn ddeniadol, y byddai'n helpu i atal llawer o bobl ifanc rhag ysmegu yn y lle cyntaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Weinidog, fel ffan o gyfresi fel 'Mad Men', rwy'n derbyn bod rheswm dilys weithiau i ddangos ysmegu mewn cyfresi drama; mae hynny'n hollol dderbyniol. Fodd bynnag, pa neges y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i bobl ifanc yng Nghymru wrth ystyried a ddylid caniatáu ysmegu mewn un gweithle yn unig, sef gweithleoedd dramâu, teledu ac ati? Ai dyna'r neges rydych eisiau ei rhoi i bobl ifanc?**

**Minister, as a fan of series such as 'Mad Men', I accept, therefore, that it is valid to show smoking in drama series; that is entirely acceptable. However, what message does it send to young people in Wales that the Government is considering changing the law to allow smoking in one workplace only, namely drama sets in Wales and television studios? Is that the message that you wish to send to young people in Wales?**

15:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member will be aware that this was due to be debated back in the autumn and that, because of the level of concern that was raised by many Assembly Members, we have asked for the Chairs of both the Enterprise and Business Committee and the Health and Social Care Committee to meet to take evidence from all interested parties on this matter. I understand that the committees met yesterday and I will await their final report. What the Welsh Government does not want to see is Wales being disadvantaged, given that we know that the BBC has said that it would move its drama sets over the border to Bristol. We do not want Wales to be disadvantaged.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol ein bod wedi bwriadu trafod y mater hwn nôl yn yr hydref ac, oherwydd lefel y pryderon a godwyd gan nifer o Aelodau'r Cynulliad, ein bod wedi gofyn i Gadeiryddion y Pwyllgor Menter a Busnes a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfarfod i gymryd tystiolaeth gan bawb sydd â diddordeb yn y mater hwn. Deallaf fod y pwyllgorau wedi cyfarfod ddoe ac arhosaf am eu hadroddiad terfynol. Yr hyn nad yw Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w weld yw Cymru o dan anfantais, o gofio ein bod yn gwybod bod y BBC wedi dweud y byddai'n symud ei setiau drama dros y ffin i Fryste. Nid ydym am i Gymru fod o dan anfantais.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, research tells us that smoking among young people can be associated with social deprivation, truancy and alcohol and drug abuse. How is the Welsh Government ensuring that anti-smoking resources are most effectively targeted and that support to give up smoking is included as part of the wider range of initiatives to support disengaged young people?

Weinidog, dywed gwaith ymchwil wrthym y gellir cysylltu ysmegu ymysg pobl ifanc ag amddifadedd cymdeithasol, triwantaeth a chamddefnyddio alcohol a chyffuriau. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adnoddau gwrth-ysmegu yn cael eu targedu yn y ffordd fwyaf effeithiol a bod cymorth i roi'r gorau i ysmegu wedi'i gynnwys fel rhan o'r amrywiaeth ehangach o fentrau i helpu pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:55

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You will be aware of many initiatives that we have aimed at young people to try to stop them from smoking in the first place. This was discussed before in an answer about packaging. We have particular programmes such as Assist, which is a peer-nomination process that recruits influential pupils, if you like, from year 8 to discourage children from taking up smoking. It is important that we have that peer group aspect to it. We also have SmokeBugs!, which is aimed at younger, primary school-aged children. These clubs talk about the benefits of not smoking and the dangers of smoking and encourage young people to stay smoke-free, if that is what they wish, showing them the benefits of doing so.

Byddwch yn ymwybodol o nifer o fentrau a gyflwynwyd gennym sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc er mwyn ceisio eu hatal rhag ysmegu yn y lle cyntaf. Trafodwyd hyn eisoes wrth drafod deunydd pecynnu. Mae gennym raglenni penodol fel y Treial Rhoi'r Gorau i Ysmegu mewn Ysgolion ('Assist'), sef proses enwebu cyfoedion sy'n recriwtio disgyblion dylanwadol, os mynnwch chi, o flwyddyn 8 i annog plant i beidio â dechrau ysmegu. Mae'n bwysig bod grwpiau cyfoedion yn rhan o'r broses honno. Ceir Bygiau Baco! hefyd sydd wedi'i anelu at blant iau o oedran ysgol gynradd. Mae'r clybiau hyn yn trafod manteision peidio ag ysmegu a pheryglon ysmegu ac yn annog pobl ifanc i aros yn ddi-fwg, os mai dyna yw eu dymuniad, gan ddangos manteision gwneud hynny iddynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Blaenoriaethau Iechyd ar gyfer Pobl Aberafan**

**Health Priorities for the People of Aberavon**

13:56

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*8. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau iechyd ar gyfer pobl Aberafan yn 2013. OAQ(4)0223(HSS)*

*8. Will the Minister outline her health priorities for the people of Aberavon in 2013. OAQ(4)0223(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My priority for the people of Aberavon, and for everybody else in Wales, is to help keep them as healthy as possible and to provide high-quality care when they fall ill or get injured.

Fy mlaenoriaeth ar gyfer pobl Aberafan, ac i bawb arall yng Nghymru, yw helpu i sicrhau eu bod mor iach â phosibl a darparu gofal o ansawdd uchel pan fyddant yn mynd yn sâl neu'n cael eu hanafu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. Over the Christmas period, local emergency services experienced high demand and, therefore, huge pressure was placed on them. I am aware of a patient who was taken to Morriston Hospital, but was treated outside that hospital's accident and emergency department in the ambulance that took her. This follows on from the case already highlighted by Bethan Jenkins. What will the Welsh Government do to ensure that this does not happen again and that Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board increases capacity at Morriston to handle the increased workload that it is facing?

Diolch am yr ateb hwnnw, Weiniidog. Dros gyfnod y Nadolig, profodd gwasanaethau brys lleol alw uchel ac, felly, rhoddwyd pwysau enfawr arnynt. Gwn am glaf a gludwyd i Ysbyty Treforys, ond a gafodd ei drin y tu allan i adran damweiniau ac achosion brys yr ysbyty hwnnw yn yr ambiwlans a'i cludodd. Mae hyn yn ychwanegol at yr achos a amlygwyd eisoes gan Bethan Jenkins. Beth a wnaiff Llywodraeth Cymru i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto a bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cynyddu'r adnoddau sydd ar gael yn Nhreforys i ymdopi â'r llwyth gwaith cynyddol y mae'n ei wynebu?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:56

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I answer your question, I would like to pay tribute to ambulance staff, front-line health service staff and volunteers who have had such a difficult job and have faced such high demand over the last week with the snow. High demand was also seen over the Christmas period, as you referred in your specific question. Unfortunately, patient handover delays can sometimes occur, and I expect health boards to be able to deal with them. These delays affect the patient experience, and the ability of ambulances to respond to other calls in the community. That is one of the reasons why I have asked for an ambulance review, because it is important that we provide the best service possible to the people of Wales.

Cyn imi ateb eich cwestiwn, hoffwn dalu teyrnged i staff ambiwlans, staff rheng flaen y gwasanaeth iechyd a gwirfoddolwyr y bu eu gwaith mor anodd ac a wynebodd alw mor uchel yn ystod yr wythnos ddiwethaf o ganlyniad i'r eira. Cafwyd galw uchel hefyd dros gyfnod y Nadolig, fel y crybwyllwyd gennych yn eich cwestiwn penodol. Yn anffodus, gall achosion o oedi ddigwydd weithiau wrth drosglwyddo cleifion, ac rwy'n disgwyl i fyrddau iechyd allu ymdrin â hwy. Mae'r achosion hyn o oedi yn effeithio ar brofiad y claf, a gallu ambiwlansys i ymateb i alwadau eraill yn y gymuned. Dyna un o'r rhesymau pam fy mod wedi gofyn am adolygiad o'r gwasanaeth ambiwlans, gan ei bod yn bwysig ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:57 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Minister, only 52% of category A 999 calls in Aberavon receive a response within the eight-minute target. You will also have heard other Members refer to the delays in discharge when ambulances arrive in hospitals. Given that there are now problems routinely with ambulance response times at the beginning of a journey and with discharge times at the end of a journey, what can you tell us about your ambulance review that will be enough to reassure residents of all parts of Aberavon who face losing access to accident and emergency services at the Princess of Wales Hospital in Bridgend?
- Weinidog, dim ond 52% o alwadau 999 categori A yn Aberafan sy'n cael ymateb o fewn y targed o wyth munud. Byddwch hefyd wedi clywed Aelodau eraill yn cyfeirio at yr achosion o oedi wrth ryddhau cleifion pan fydd ambiwlansys yn cyrraedd ysbytai. O gofio bod problemau o ran amseroedd ymateb ambiwlansys ar ddechrau taith a phroblemau o ran amseroedd rhyddhau ar ddiwedd y daith bellach yn gyffredin, beth y gallwch ei ddweud wrthym am eich adolygiad o'r gwasanaeth ambiwlans a fydd yn ddigon i dawelu meddyliau trigolion o bob rhan o Aberafan na fyddant o bosibl yn gallu defnyddio gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr mwyach?
- 13:58 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- One of the reasons why I instigated the review was because of concerns that I have heard and that have been raised with me by other Assembly Members. The review has just started, and Professor Siobhan McClelland is chairing it. It will be a short, sharp review and I will, hopefully, have her report by the end of March.
- Un o'r rhesymau pam y penderfynais gynnal yr adolygiad oedd y pryderon a glywais ac a godwyd gyda mi gan Aelodau eraill o'r Cynulliad. Mae'r adolygiad newydd ddechrau, ac mae'r Athro Siobhan McClelland yn ei gadeirio. Adolygiad byr a chyflym fydd yr adolygiad hwn a chaiff ei hadroddiad ei gyflwyno imi, gobeithio, erbyn diwedd mis Mawrth.
- 13:58 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- When acute medical services were removed from Neath Port Talbot last year, Abertawe Bro Morgannwg told me that it had been forced into that position because it had not been able to recruit enough doctors. I am aware that you recently announced £82 million for nursing and other healthcare professionals to maintain services, and I believe that that was for children's nursing services. When are you considering enhancing services in relation to do with the recruitment of doctors, again in this area, because we, as politicians in the area, have all identified this as a pressing concern, especially in the Aberavon area?
- Pan ddiddymwyd gwasanaethau meddygol aciwt o Gastell-nedd Port Talbot y llynedd, dywedodd Abertawe Bro Morgannwg wrthyf fod y penderfyniad hwnnw wedi'i orfodi arno am nad oedd wedi gallu recriwtio digon o feddygon. Rwy'n ymwybodol ichi gyhoeddi'n ddiweddar bod £82 miliwn ar gael ar gyfer gweithwyr nyrsio proffesiynol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau, a chredaf mai ar gyfer gwasanaethau nyrsio i blant yr oedd hynny. Pryd rydych yn bwriadu gwella gwasanaethau mewn perthynas â recriwtio meddygon, unwaith eto yn yr ardal hon, gan ein bod ni, fel gwleidyddion yn yr ardal, oll wedi nodi bod hyn yn bryder sylweddol, yn enwedig yn ardal Aberafan?
- 13:59 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- We are looking at this and it is part of the medical recruitment campaign that has been going on for nearly a year. The next stage of that is coming on Monday. We can certainly look at this, because what happened in Neath Port Talbot was untimely. If we are to see services removed, I do not want to see it done in that way. It is important that we look at that.
- Rydym yn ystyried y mater ac mae'n rhan o'r ymgyrch recriwtio feddygol sydd wedi bod yn mynd rhagddi ers bron i flwyddyn. Cynhelir cam nesaf y gwaith hwnnw ddydd Llun. Gallwn yn sicr ystyried y mater hwn, gan fod yr hyn a ddigwyddodd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn affodus. Os oes rhaid diddymu gwasanaethau, nid wyf am weld hynny'n digwydd yn y fath fodd. Mae'n bwysig inni ystyried hynny.
- 13:59 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Like other Members who have just spoken, I have had casework from constituents coming to me about handover issues at Morriston A&E department and also about unacceptable delays at accident and emergency departments. There is strong anecdotal evidence to show that those particular issues have worsened following the removal of acute medicine from Aberavon and Neath Port Talbot Hospital. Under these circumstances and given that this is the case, what work are you carrying out to study the impact of the removal of acute medicine from Neath Port Talbot Hospital and the impact on services in adjoining hospitals?
- Fel yr Aelodau eraill sydd newydd lefaru, cyflwynwyd gwaith achos imi gan etholwyr yn cyfeirio at broblemau trosglwyddo yn adran damweiniau ac achosion brys Treforys a hefyd am achosion o oedi annerbyniol mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Ceir tystiolaeth anecdotaidd gref i ddangos bod y problemau penodol hynny wedi gwaethygu ers diddymu gwasanaethau meddygaeth aciwt o Ysbyty Aberafan a Chastell-nedd Port Talbot. O dan yr amgylchiadau hyn ac o ystyried mai felly y mae, pa waith rydych yn ei wneud i astudio effaith diddymu gwasanaethau meddygaeth aciwt o Ysbyty Castell-nedd Port Talbot a'r effaith ar wasanaethau mewn ysbytai cyfagos?

14:00	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>This is something that I have asked officials to look at, not just in terms of following on from what happened in Neath Port Talbot, but in relation to the south Wales plan. We need to have a look at whether some hospitals need to have a look at their bed numbers and capacity in light of that.</p>	<p>Mae hyn yn rhywbeth rwyf wedi gofyn i swyddogion ei ystyried, nid yn unig o ran yr hyn a ddiwyddodd yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond mewn perthynas â chynllun de Cymru. Mae angen inni ystyried a oes angen i rai ysbytai fwrw golwg ar nifer eu gwelyau a'u gallu ac adnoddau yn hynny o beth.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Gwasanaethau Newyddenedigol</b>		<b>Neonatal Services</b>	
14:00	<p><b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>9. A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0219(HSS)</i></p>	<p><i>9. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's plans for neonatal services in North Wales. OAQ(4)0219(HSS)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:00	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I expect Betsi Cadwaladr University Local Health Board to ensure that the people of north Wales have access to safe and sustainable neonatal services.</p>	<p>Rwy'n disgwyl i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau bod gwasanaethau newyddenedigol diogel a chynaliadwy ar gael i bobl y Gogledd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:00	<p><b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, the decision to transfer level 3 neonatal care in north Wales across the border has met with considerable local opposition from clinicians and residents. There is now disbelief that the director of nursing at the Betsi has been appointed to a new position with the health trust that oversees the operations at Arrowe Park Hospital. Minister are you at all concerned that this interest was never declared at any of the public consultation events at which this official argued so strongly in favour of the transfer?</p>	<p>Weinidog, bu cryn dipyn o wrthwynebiad ymhlith clinigwyr a thrigolion i'r penderfyniad i drosglwyddo gofal newyddenedigol lefel 3 yn y Gogledd dros y ffin. Ac mae'n anodd ganddynt gredu bod cyfarwyddwr nyrsio Betsi bellach wedi cael ei benodi i swydd newydd o fewn yr ymddiriedolaeth iechyd sy'n goruchwyllo gwaith yn Ysbyty Arrowe Park. Weinidog, a ydych yn pryderu o gwbl na ddatganwyd y buddiant hwn erioed yn unrhyw un o'r digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus lle y dadleuodd y swyddog hwn mor gadarn o blaid y cynnig i drosglwyddo?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:01	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am confident that there was no conflict of interest at all with Jill Galvani accepting the position of director of nursing at Wirral university hospital trust.</p>	<p>Rwy'n hyderus na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau o ran penderfyniad Jill Galvani i dderbyn swydd cyfarwyddwr nyrsio yn ymddiriedolaeth ysbyty prifysgol Wirral.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:01	<p><b>Llyr Huws Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, a oes gennych hyder yn y ffigurau y mae Betsi Cadwaladr wedi'u defnyddio wrth ddweud mai dim ond 36 o fabanod a fydd angen derbyn gofal dwys yn Arrowe Park? Yn ardal Hywel Dda, sydd â thua hanner poblogaeth ardal Betsi Cadwaladr, anfonwyd dros ddwywaith gymaint o fabanod, sef 79 o fabanod, i'r uned gofal dwys yn Abertawe yn 2011. Byddai ffigur cymharol ar gyfer y gogledd yn golygu y byddai'r nifer yn nes at 140, ac felly'n cynyddu'r gost bedair gwaith. A wnech chi ymateb yn ffafriol, felly, i alwad Aelodau o bob plaid yma sydd wedi ysgrifennu atoch heddiw i edrych o ddifrif ar y ffigurau y mae Betsi Cadwaladr wedi'u defnyddio, a hynny er mwyn gwyrddo'r penderfyniad hurt hwn, a fydd—yn fy marn i ac ym marn nifer o glinigwyr—yn peryglu bywydau?</p>	<p>Minister, do you have confidence in the figures that Betsi Cadwaladr LHB has used in saying that only 36 babies will need intensive care in Arrowe Park? In the Hywel Dda LHB area, which has around half the population of the Betsi Cadwaladr area, over twice as many babies, namely 79 babies, were sent to the intensive care unit in Swansea in 2011. A comparable figure for north Wales would mean that the number would be closer to 140, and therefore would increase the cost fourfold. Will you respond favourably, therefore, to the demand of Members of all parties here, who have written to you today, to look seriously at the figures that Betsi Cadwaladr has used and to overturn this ridiculous decision, which will—in my opinion and in the opinion of many clinicians—put lives at risk?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:02	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>You heard me say in an earlier answer that I have not seen the letter as of yet. However, I will certainly look at the letter and respond in due course.</p>	<p>Fe'm clywsoch yn dweud mewn ymateb cynharach nad wyf wedi gweld y llythyr eto. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn edrych ar y llythyr ac yn ymateb maes o law.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Cydweithio Ar Draws Ffiniau</b>		<b>Cross-Border Collaboration</b>		
14:02	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fyrddau iechyd Cymru yn cydweithio ar draws ffiniau. OAQ(4)0228(HSS)</p>	<p>10. Will the Minister make a statement on cross-border collaboration between Welsh Health Boards. OAQ(4)0228(HSS)</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:02	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>The Welsh Government recognises the importance of cross-border collaboration between health boards and expects them to work together to manage cross-border flows.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio ar draws ffiniau rhwng byrddau iechyd ac yn disgwyl iddynt weithio gyda'i gilydd i reoli llifoedd ar draws y ffin.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:02	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Rwyf yn deall, Weinidog, eich bod yn edrych ar y materion hyn ar hyn o bryd. Yn y gorffennol, rydych wedi dweud y byddwch yn edrych ar enghreifftiau o fethiannau o ran cydweithio ar draws ffiniau. Mae grŵp cefnogi cleifion Glanaman wedi cysylltu â mi gan ei fod yn poeni am ddifffyg cysondeb rhwng y gwasanaethau sydd ar gael yn ardal Hywel Dda a'r gwasanaethau sydd ar gael yn ardal Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r grŵp wedi dod i'r casgliad nad oes fawr o drafod yn digwydd rhwng y ddau fwrdd iechyd—yn wir, prin eu bod yn siarad â'i gilydd. A wnewch chi ymchwilio i'r mater hwn?</p>	<p>I understand, Minister, that you are looking at these issues at present. In the past, you have said that you would look at examples of failures of cross-border collaboration. The Glanaman patient support group has contacted me because it is worried about the lack of consistency between the services available in the Hywel Dda area and those available in the Abertawe Bro Morgannwg area. The group has come to the conclusion that there is very little discussion between the two health boards—indeed, they barely to talk to each other. Will you look into this issue?</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:03	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Yes, I will look into it. I expect health boards to engage on their services and to ensure that, if a patient has to go over into another health board area for services, that takes place. However, I will certainly look into that issue and write to you.</p>	<p>Gwnaf, ymchwiliad i'r mater hwnnw. Rwy'n disgwyl i fyrddau iechyd ymgysylltu â'i gilydd o ran eu gwasanaethau a sicrhau, os bydd claf yn gorfod croesi ffin i ardal bwrdd iechyd arall i gael gwasanaethau, y bydd hynny'n digwydd. Fodd bynnag, ymchwiliad yn sicr i'r mater hwnnw ac ysgrifennaf atoch.</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:03	<b>Russell George</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Minister, during Hywel Dda's recent clinical services review, one of the major sticking points for many of my constituents living in the west of Montgomeryshire was the very inadequate level of public engagement that the health board had with those residents who, although falling outside the LHB boundaries, are equally reliant on the services provided by the health board as those who live within its footprint. When all of the reviews are completed, will your department be conducting an assessment of how the review processes were handled, identifying best practice if necessary, and setting out guidance on how LHBs should undertake cross-border engagement in the future?</p>	<p>Weinidog, yn ystod adolygiad gwasanaethau clinigol diweddar Hywel Dda, un o'r pryderon mwyaf i lawer o'm hetholwyr sy'n byw yng ngorllewin sir Drefaldwyn oedd y lefel annigonol iawn o waith ymgysylltu â'r cyhoedd a wnaeth y bwrdd iechyd gyda'r trigolion hynny sydd, er nad ydynt o fewn ffiniau'r BILL, yn dibynnu llawn cymaint ar y gwasanaethau a ddarperir gan y bwrdd iechyd â'r rhai sy'n byw o fewn ei ôl troed. Ar ôl cwblhau'r holl adolygiadau, a fydd eich adran yn cynnal asesiad o'r ffordd yr ymdriniwyd â phrosesau'r adolygiad, gan nodi arfer gorau os bydd angen, a llunio canllawiau ar sut y dylai BILLau gynnal gwaith ymgysylltu trawsffiniol yn y dyfodol?</p>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 14:04 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that Hywel Dda engaged at a level where it has never engaged before. However, once the service change plans come in, I certainly want to have a look at all of the plans across Wales. That is one aspect at which we can certainly look.
- Credaf fod Hywel Dda wedi ymgysylltu ar lefel na welwyd mo'i thebyg erioed o'r blaen ganddo. Fodd bynnag, unwaith y caiff y cynlluniau newid gwasanaethau eu cyflwyno, byddaf yn sicr yn bwrw golwg ar bob un o'r cynlluniau ledled Cymru. Dyna un agwedd y gallwn ei hystyried yn sicr.
- 14:04 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, with the campaign to maintain accident and emergency services at Bronglais hospital appearing to have been largely successful, thanks to the strength of local sentiment and the cogent campaign that was run., there are, nevertheless, some concerns around the loss of beds at mid Wales's only district general hospital. In the context of those concerns, and the welcome news from Betsi Cadwaladr LHB just last Friday regarding the concordat that is planned between it, Powys Teaching Local Health Board and the Hywel Dda Local Health Board, what assurances can you make that the practical workings of that concordat, going forward, will be adequately resourced so that that can achieve the outcomes that are desired?
- Weinidog, gan ei bod yn ymddangos bod yr ymgyrch i gadw gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Bronglais wedi bod yn llwyddiannus i raddau helaeth, diolch i gryfder teimladau lleol a'r ymgyrch rymus a gynhaliwyd, mae, rhai pryderon, serch hynny, ynghylch y ffaith bod nifer y gwelyau yn unig ysbyty dosbarth cyffredinol y Canolbarth yn gostwng. Yng nghyd-destun y pryderon hynny, a'r newyddion cadarnhaol gan BILI Betsi Cadwaladr ddydd Gwener ddiwethaf ynghylch y concordat arfaethedig rhwng y BILI hwnnw, Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd digon o adnoddau ar gael i roi'r concordat hwnnw ar waith yn ymarferol, yn y dyfodol, er mwyn sicrhau y caiff y canlyniadau dymunol eu cyflawni?
- 14:05 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- That is a matter for the health boards to work out between themselves. Again, it is something that I reiterated when I met with my chairs last week. The chairs and chief executives had met earlier that morning and it was something that they were discussing. So, it is very much on the agenda. I am sure that those services will be adequately resourced.
- Mater i'r byrddau iechyd ei drafod yw hynny. Unwaith eto, mae'n fater a ail-bwysleisiwyd gennyf pan gyfarfûm â'm cadeiryddion yr wythnos diwethaf. Roedd y cadeiryddion a'r prif weithredwyr wedi cyfarfod yn gynharach y bore hwnnw ac roedd yn fater yr oeddent yn ei drafod. Felly, mae'r mater yn sicr ar yr agenda. Rwy'n siŕr y bydd digon o adnoddau ar gael i'r gwasanaethau hynny.
- 14:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 11, OAQ(4)0220(HSS), has been withdrawn. Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(4)0220(HSS), yn ôl.

## Gwasanaethau Cymdeithasol

## Social Services

- 14:05 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 12.Pa gamau gweithredu y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ymwreiddio egwyddorion cyd-gynhyrchu wrth lunio a darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. OAQ(4)0226(HSS)*
- 12. What action is the Minister taking to embed the principles of co-production in the design and delivery of social services in Wales. OAQ(4)0226(HSS)*
- 14:06 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Children and Social Services*
- 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' gives our commitment to our broader aims of social services built around citizens. The draft social services and wellbeing (Wales) Bill includes duties to promote development of co-productive delivery models, such as social enterprises.
- Noda 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' ein hymrwymiad i'n nodau ehangach o wasanaethau cymdeithasol sy'n seiliedig ar ddinasyddion. Mae Bil gwasanaethau cymdeithasol a lles drafft (Cymru) yn cynnwys dyletswyddau i hyrwyddo'r broses o ddatblygu modelau cyflawni cyd-gynhyrchiol, megis mentrau cymdeithasol.



14:06

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog. We look forward to the publication of the Bill, hopefully next week. In thinking about what it might say about co-production, are there lessons that you believe that we might learn in Wales from developments in other parts of the United Kingdom, such as Scotland, where thinking about co-production and practical policies based on those principles have already been put into practice?

Diolch, Weinidog. Edrychwn ymlaen at gyhoeddi'r Bil, yr wythnos nesaf gobeithio. Wrth ystyried yr hyn y gallai ei nodi am gyd-gynhyrchu, a oes gwersi y credwch y gallwn eu dysgu yng Nghymru o ddatblygiadau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, megis yr Alban, lle mae'r broses o feddwl am gyd-gynhyrchu a pholisïau ymarferol yn seiliedig ar yr egwyddorion hynny eisoes wedi'u rhoi ar waith?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that supplementary question. I am pleased by the learning and expertise being shared by the joint Scotland and Wales co-production network on how co-production is being developed, embedded and taken forward in our respective countries. During the visit, the Wales delegation looked at social services in Midlothian where co-production is embedded in the way that the local authority works, and learned about Talking Points—a personal outcomes approach that combines user and carer involvement with an outcomes approach to planning, delivering, evaluating and improving services. Talking Points takes a similar approach to that taken in the 'Together for Mental Health' strategy, in which measurable outcomes are being developed from a service user perspective through a co-production process involving mental health third sector organisations.

Diolch am y cwestiwn atodol hwnnw. Rwy'n falch bod gwersi ac arbenigedd yn cael eu rhannu gan rwydwaith cyd-gynhyrchu Cymru a'r Alban ar y cyd o ran sut y mae prosesau cyd-gynhyrchu yn cael eu datblygu, eu hymgorffori a'u rhoi ar waith yn ein gwledydd unigol. Yn ystod yr ymweliad, edrychodd cynrychiolwyr Cymru ar wasanaethau cymdeithasol yn ardal Midlothian lle mae prosesau cyd-gynhyrchu wedi'u rhoi ar waith yng ngweithdrefnau'r awdurdod lleol, a gwnaethant ddysgu am 'Talking Points'-dull gweithredu canlyniadau personol sy'n cyfuno cyfranogiad y defnyddiwr a'r gofalwr â dull gweithredu canlyniadau o gynllunio, darparu, gwerthuso a gwella gwasanaethau. Mae 'Talking Points' yn gweithredu ar sail debyg i'r strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', lle y caiff canlyniadau mesuradwy eu datblygu o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau drwy broses gyd-gynhyrchu sy'n cynnwys sefydliadau iechyd meddwl y trydydd sector.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The network demonstrates a two-way learning process. Scottish counterparts were interested in initiatives that we have in Wales, including Book Prescription Wales bibliotherapy scheme, the Educating Patients Programme, and the whole role of service users in co-producing care and treatment plans under the Mental Health (Wales) Measure 2010. Inspired by these programmes, counterparts in Scotland are looking to take these forward in their country.

Mae'r rhwydwaith yn gweithredu proses ddysgu ddwy ffordd. Roedd gan gydweithwyr yn yr Alban ddiddordeb mewn mentrau sydd gennym ar waith yng Nghymru, gan gynnwys cynllun bibliotherapi Presgripsiwn Llyfrau Cymru, y Rhaglen Addysgu Cleifion a rôl gyfan defnyddwyr gwasanaethau wrth gyd-gynhyrchu cynlluniau gofal a thriniaeth o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Fe'u hysbrydolwyd gan y rhaglenni hyn ac mae ein cydweithwyr yn yr Alban yn awyddus i'w rhoi ar waith yn eu gwlad.

14:08

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is now almost three years since the Wales Council for Voluntary Action-led coalition attended all party conferences in Wales hosting round-table discussions, focusing on community resource teams, a whole-service approach to primary care, and delivering co-production that puts people in communities rather than service deliverers at the centre. However, Empower has said this month that, despite the voluntary sector support scheme and the development of local service boards, real meaningful joint working largely still evades us. What consideration have you therefore given or could give to the role that voluntary sector brokers can play as members of community resource teams in brokering services for the delivery of care from third sector providers?

Mae bellach bron i dair blynedd ers i glymblaid o dan arweiniad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fynd i gynadleddau hollbleidiol yng Nghymru gan gynnal trafodaethau bord gron yn canolbwyntio ar dimau adnoddau cymunedol, dull gwasanaeth cyfan o weithredu gofal sylfaenol a rhoi prosesau cyd-gynhyrchu ar waith sy'n sicrhau bod pobl yn y gymuned wrth wraidd y broses yn hytrach na darparwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, dywedodd Empower y mis hwn, er gwaethaf cynllun cymorth y sector gwirfoddol a'r broses o ddatblygu byrddau gwasanaethau lleol, mewn gwirionedd, nad oes trefniadau cydweithio gwirioneddol ystyrion ar waith o hyd. Felly pa ystyriaeth rydych wedi'i rhoi neu y gallech ei rhoi i'r rôl y gall broceriaid o'r sector gwirfoddol ei chwarae fel aelodau o dimau adnoddau cymunedol wrth drefnu gwasanaethau gofal gan ddarparwyr trydydd sector?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:09	<b>Gwenda Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you, Mark Isherwood, for that. The Bill will show that we can look at any option to develop alternative service models. I believe that the most effective way of achieving positive outcomes is by co-producing services. The central idea in co-production is that people who use services are hidden resources. The question that you ask fits into that. I am sure that we are all looking forward to see what the Bill states on developing these alternative services.</p>	<p>Diolch, Mark Isherwood, am hynny. Bydd y Bil yn dangos y gallwn ystyried unrhyw opsiwn er mwyn datblygu modelau gwasanaeth amgen. Credaf mai cyd-gynhyrchu gwasanaethau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Cysyniad canolog cyd-gynhyrchu yw mai'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yw'r adnoddau cudd. Mae eich cwestiwn yn gydnaws â hynny. Rwy'n siŵr bod pob un ohonom yn edrych ymlaen at weld beth y mae'r Bil yn ei ddatgan o ran datblygu'r gwasanaethau amgen hyn.</p>
	<b>Parlys yr Ymennydd</b>	<b>Cerebral Palsy</b>
14:09	<b>Jenny Rathbone</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau i blant sydd â pharlys yr ymennydd. OAQ(4)0225(HSS)</i></p>	<p><i>13. Will the Minister make a statement on the future of services for children with Cerebral Palsy. OAQ(4)0225(HSS)</i></p>
14:09	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Services for children with neurological conditions, including cerebral palsy, are set out in 'All Wales Neurosciences Standards for Children and Young People's Specialised Healthcare Services', published in 2009. It forms the foundation for establishing managed clinical networks to deliver services, including diagnosis and treatment aspects of cerebral palsy.</p>	<p>Nodir gwasanaethau i blant â chyflyrau niwrolegol, gan gynnwys parlys yr ymennydd, yn 'Safonau Niwrowyddorau Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc', a gyhoeddwyd yn 2009. Maent yn gweithredu fel sail ar gyfer rhoi rhwydweithiau clinigol rheoledig ar waith i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys agweddau ar barlys yr ymennydd sy'n gysylltiedig â gwneud diagnosis o'r cyflwr a'i drin.</p>
14:10	<b>Jenny Rathbone</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Many families are putting a lot of hope in selective dorsal rhizotomy, which is an operation that helps to reduce spasticity in children, enabling them to stand, walk and, in some cases, even run. It reduces their pain levels, it increases their quality of life and it reduces their dependence on services. The child of a constituent of mine travelled to the United States to have this operation, and a number of primary care trusts in England and Scotland are agreeing to fund SDR surgery. Could the Minister tell us what the plans are for considering SDR as an effective intervention, in some cases, for children with cerebral palsy in Wales?</p>	<p>Mae rhisotomi dorsal dewisol, sef llawdriniaeth sy'n helpu i leihau sbastigedd mewn plant, gan eu galluogi i sefyll, cerdded ac, mewn rhai achosion, hyd yn oed redeg, yn rhoi cryn o baith i lawer o deuluoedd. Mae'n lleihau eu lefelau poen, yn gwella ansawdd eu bywyd ac yn lleihau eu dibyniaeth ar wasanaethau. Teithiodd plentyn un o'm hetholwyr i'r Unol Daleithiau i gael y llawdriniaeth hon, ac mae nifer o ymddiriedolaethau gofal sylfaenol yn Lloegr a'r Alban yn cytuno i ariannu'r llawdriniaeth. A allai'r Gweinidog ddweud wrthym beth yw'r cynlluniau o ran ystyried y llawdriniaeth hon fel ymyriad effeithiol, mewn rhai achosion, i blant â pharlys yr ymennydd yng Nghymru?</p>
14:11	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>The Welsh Health Specialised Services Committee agreed its policies on the use of SDR back in January 2012, and then, six months later, in July, guidelines from the National Institute for Health and Clinical Excellence changed. In view of that, the committee is now undertaking a review of the evidence for SDR surgery. At the current time, if there is anyone in the interim who wishes to apply for funding, that can be done through the individual patient funding request process.</p>	<p>Cytunodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ei bolisiau ar gyfer defnyddio'r llawdriniaeth hon ym mis Ionawr 2012, ac wedyn, chwe mis yn ddiweddarach, ym mis Gorffennaf, newidiodd canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. O ystyried hynny, mae'r pwyllgor yn awr yn cynnal adolygiad o'r dystiolaeth ar gyfer y llawdriniaeth. Ar hyn o bryd, os bydd unrhyw un yn awyddus i wneud cais am arian yn y cyfamser, gellir gwneud hynny drwy'r broses ceisiadau ariannu cleifion unigol.</p>

14:11 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I agree with Jenny Rathbone on this matter; it is important that Welsh patients have the opportunity to access this very important treatment, which can result in a significant improvement in quality of life not just for those suffering from cerebral palsy, but for those people who care for them. Could you therefore ask WHSSC to look at this issue again to see whether there is an opportunity to widen access to SDR for those patients who are likely to benefit from it?

Weinidog, rwy'n cytuno â Jenny Rathbone ar y mater hwn, mae'n bwysig bod cyfle i gleifion yng Nghymru gael gafael ar y driniaeth bwysig iawn hon, a all wella ansawdd bywyd yn sylweddol, nid yn unig i'r rheini sy'n dioddef o barlys yr ymennydd, ond hefyd i'r bobl hynny sy'n gofalu amdanynt. Felly, a allech ofyn i'r Pwyllgor ystyried y mater hwn eto i weld pa un a ellid cynnig y llawdriniaeth hefyd i'r cleifion hynny y mae'n debygol o fod o fudd iddynt?

14:12 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The Member will have heard me say in my answer to Jenny Rathbone that WHSSC is looking at it. Its report will be with me by the end of this month, and that will then make recommendations for commissioning going into next year.

Bydd yr Aelod wedi fy nghlywed yn dweud yn fy ateb i Jenny Rathbone fod y Pwyllgor wrthi'n ei ystyried. Bydd yn cyflwyno ei adroddiad i mi erbyn diwedd y mis, a bydd hwnnw wedyn yn gwneud argymhellion comisiynu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Bwyta'n iach

## Healthy Eating

14:12 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*14. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo bwyta'n iach yng Nghymru. OAQ(4)0212(HSS)*

*14. What is the Welsh Government doing to promote healthy eating in Wales. OAQ(4)0212(HSS)*

14:12 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We continue to invest in a range of initiatives to raise awareness, highlight the benefits of, and improve access to, a healthy, balanced diet. This includes the social marketing campaign, Change4Life. Over 43,000 families and adults have signed up in Wales to receive personalised advice and support to eat healthily.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn ystod o fentrau i wella ymwybyddiaeth, gan dynnu sylw at fuddiannau deiet iach a chytbwys a'i gwneud yn haws dilyn deiet o'r fath. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch farchnata gymdeithasol, Newid am Oes. Mae dros 43,000 o deuluoedd ac oedolion yng Nghymru wedi cofrestru i gael cyngor a chymorth personol i fwyta'n iach.

14:12 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister; that is positive. However, figures published at the end of last year show that 67% of Welsh adults did not eat enough fruit and vegetables. We know that food prices have increased 12% since 2006, and that, during the same period, household incomes fell by 12%. Inevitably, it is the poorest families that take the hit, and in the light of the welfare changes imposed by the UK Government, what is the Welsh Government doing to tackle this and the likely knock-on effect it will have on widening health inequalities?

Diolch, Weinidog, mae hynny'n gadarnhaol. Fodd bynnag, dengys ffigurau a gyhoeddwyd ddiwedd y llynedd nad oedd 67% o oedolion Cymru yn bwyta digon o ffrwythau a llysiau. Gwyddom fod prisiau bwyd wedi cynyddu 12% ers 2006, ac, yn ystod yr un cyfnod, bod incwm cartrefi wedi gostwng 12%. Yn anochel, y teuluoedd tlotaf sy'n dioddef fwyaf, ac o ystyried y newidiadau lles a orfodwyd gan Lywodraeth y DU, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn a'r effaith ganlyniadol debygol ar ehangu anghydraddoldebau iechyd?

14:13 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that question. I do recognise that inflated food prices and reduced household incomes are particularly affecting those on low incomes, as rises in food prices have a disproportionately larger impact on them.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Rwy'n cydnabod bod y cynnydd o ran prisiau bwyd a'r gostyngiad o ran incwm cartrefi yn effeithio'n arbennig ar y rheini ar incwm isel, gan fod cynnydd mewn prisiau bwyd yn cael effaith anghymesur arnynt.

Earlier this month, I was at Coleg Morgannwg to launch the new Change4Life campaign, called Food Smart, which shows how to feed a family on a budget much more healthily. Also, I think that the Green Paper that we have out at the moment on whether or not to have a public health Bill will start a debate on healthy eating, and fruit and veg in particular. I was in the supermarket in Wrexham on Saturday, when a gentleman came up to me and started a discussion about that—I hope that he was not looking in my trolley at the time. It is really good that people are starting to talk about this and think about it.

Yn gynharach y mis hwn, roeddwn yng Ngholeg Morgannwg i lansio'r ymgyrch Newid am Oes newydd, sef Bwyta'n Gall, sy'n dangos sut i fwydo teulu yn llawer iachach ar gyllideb. Hefyd, credaf y bydd y Papur Gwyrdd sy'n destun ymgyngoriad ar hyn o bryd o ran pa un a ddylid llunio Bil iechyd y cyhoedd ai peidio yn dechrau trafodaeth ar fwyta'n iach, ac ar ffrwythau a llysiau yn arbennig. Roeddwn yn yr archfarchnad yn Wrecsam ddydd Sadwrn, pan ddaeth g?r bonheddig ataf a dechrau trafod y pwnc-gobeithio nad oedd yn edrych yn fy nhroli ar y pryd. Mae'n galonogol iawn bod pobl yn dechrau trafod y peth a'i ystyried.

14:14 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Being such a fine figure of a man as I am, this is possibly not the best issue to have a supplementary question on—especially having had a scotch egg with curry sauce for lunch. [Assembly Members: 'Oh.'] That is perhaps a little bit too much detail. The fact of the matter, Minister, is that 57% of Welsh men are classed as being obese, as are 35% of children. The list that you gave in your opening remarks is very impressive, but what assessment is made of the effectiveness of the campaigns? The sentiment behind each and every one of those campaigns is welcome, but they consume a lot of Government resource, in money and effort, and, going by the figures that I have just given you, it is clear that something is happening in our society to make the mindset change that we require.

A minnau'n esiampl cystal, efallai nad dyma'r cwestiwn atodol gorau imi-yn enwedig o ystyried imi gael ?y selsig â saws cyri i ginio. [Aelodau'r Cynulliad: 'O'.] Efallai fy mod wedi rhoi gormod o fanylion. Y gwir amdani, Weinidog, yw bod 57% o ddynion Cymru yn cael eu hystyried yn ordeu, fel y mae 35% o blant. Mae'r rhestr a roesoch yn eich sylwadau agoriadol yn drawiadol iawn, ond sut y caiff effeithiolrwydd yr ymgyrchoedd ei asesu? Dylid croesawu'r farn sy'n sail i bob un o'r ymgyrchoedd hynny, ond maent yn defnyddio cryn dipyn o adnoddau'r Llywodraeth, o ran arian ac ymdrech, ac yn ôl y ffigurau rwyf newydd eu cyflwyno, mae'n amlwg bod rhywbeth yn digwydd yn ein cymdeithas i newid meddyliau pobl yn y ffordd sydd ei hangen.

14:15 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I could not possibly comment on your own personal situation, but you are quite right that obesity is a matter of concern for us as a Government. It is something that is going to lead to a lot of problems unless we tackle it now. As you say, it affects 35% of children, so it is important that we evaluate our different programmes. You will be aware that we have a new chief medical officer, Dr Ruth Hussey, starting in September and it is something that she is very keen on. We are having a look at all our health improvement plans, including those that tackle obesity at the current time.

Ni fyddai'n briodol imi gyflwyno sylwadau ar eich sefyllfa bersonol, ond rydych yn llygad eich lle bod gordewdra yn bryder inni fel Llywodraeth. Mae'n rhywbeth a wnaiff arwain at lawer o broblemau onid eir i'r afael ag ef yn awr. Fel y dywedwch, mae'n effeithio ar 35% o blant, felly mae'n bwysig inni werthuso ein rhaglenni gwahanol. Byddwch yn ymwybodol bod prif swyddog meddygol newydd, Dr Ruth Hussey, yn dechrau ym mis Medi ac mae'n rhywbeth sydd o ddiddordeb mawr iddi. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn bwrw golwg ar ein holl gynlluniau gwella iechyd, gan gynnwys y rheini sy'n mynd i'r afael â gordewdra.

14:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call Nick Ramsay to ask question 15.

Galwaf ar Nick Ramsay i ofyn cwestiwn 15.

14:15 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

How am I supposed to follow that, Presiding Officer?

Sut y gallaf ddilyn hynny, Lywydd?

## Amseroedd Aros

## Waiting Times

14:15 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud er mwyn helpu i leihau amseroedd aros yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. OAQ(4)0216(HSS)

15. What is the Minister doing to help reduce waiting times in the Aneurin Bevan Health Board area. OAQ(4)0216(HSS)

14:15 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Health boards are subject to performance management arrangements, as set out in the delivery framework. All health boards in Wales have been asked to provide profiles to the delivery and support unit to show progress against Welsh Government targets to shorten waiting times. I expect improvements over the coming year.

Mae byrddau iechyd yn ddarostyngedig i drefniadau rheoli perfformiad, fel y nodir yn y fframwaith cyflenwi. Gofynnwyd i bob bwrdd iechyd yng Nghymru ddarparu profffiliau i'r uned cyflenwi a chymorth i ddangos cynnydd yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru i gwtogi amseroedd aros. Disgwyliaf welliannau yn ystod y flwyddyn nesaf.

14:16 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am glad that you hope for improvements. I am sure that you are aware that the latest Welsh Government figures highlight that the percentage of patients waiting to start treatment for between 26 and 36 weeks in the Aneurin Bevan Local Health Board area is considerably higher than the Welsh average. The percentage of patients waiting less than 26 weeks is the second lowest in Wales—it is 1% below the Welsh average. I am sure that you share my concern about these figures in my health board area. What advice and guidance are you giving to the Aneurin Bevan health board to try to help it to improve these worrying figures?

Rwy'n falch eich bod yn gobeithio gweld gwelliannau. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol fod ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn nodi bod canran y cleifion sy'n aros rhwng 26 a 36 wythnos i ddechrau triniaeth yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos yw'r isaf ond un yng Nghymru—sef 1% yn is na chyfartaledd Cymru. Rwy'n siŵr eich bod yn rhannu fy mhryder am y ffigurau hyn yn ardal fy mwrdd iechyd. Pa gyngor ac arweiniad rydych yn eu rhoi i fwrdd iechyd Aneurin Bevan i geisio ei helpu i wella'r ffigurau hyn sy'n peri pryder?

14:16 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I met with the chair last week and it is something that I discussed with him. I mentioned the delivery and support unit and my officials continue to monitor progress on a weekly basis. We will support organisations so that they can improve their processes to build sustainable solutions in tackling waiting times.

Cyfarfûm â'r cadeirydd yr wythnos diwethaf, ac mae'n fater a drafodais ag ef. Soniais am yr uned cyflenwi a chymorth ac mae fy swyddogion yn parhau i fonitro cynnydd bob wythnos. Byddwn yn helpu sefydliadau er mwyn iddynt bob gwella eu prosesau gan greu atebion cynaliadwy wrth fynd i'r afael ag amseroedd aros.

## Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

### Trafodaethau gyda'r Proffesiwn Cyfreithiol

## Questions to the Counsel General

### Discussions with the Legal Profession

14:17 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*1. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r proffesiwn cyfreithiol. OAQ(4)0043(CGE)*

*1. What recent discussions has the Counsel General had with the legal profession. OAQ(4)0043(CGE)*

14:17 **Theodore Huckle** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Good afternoon, everyone. I regularly have discussions with members of the legal profession.

Prynhawn da, bawb. Rwy'n cynnal trafodaethau rheolaidd gydag aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol.

14:17 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r cwnsler am ei ateb. Mae'n dysgu gormod gan Weinidogion y Llywodraeth, rwy'n meddwl. Serch hynny, mewn cyfweiliad yn y 'Western Mail' ar 29 Rhagfyr, gwnaethoch gyhoeddi eich pryder ynglŷn â'r ffaith bod y proffesiwn cyfreithiol yn datblygu'n fwy mewnblyg nag erioed. Dywedasoch:

'You just can't have a legal profession which doesn't reflect the society it serves.'

I thank the Counsel General for that answer. He is learning too much from Government Ministers, I think. However, in an interview in the 'Western Mail' on 29 December, you announced your concern about the fact that the legal profession was becoming more introverted than ever. You said:

'You just can't have a legal profession which doesn't reflect the society it serves.'

O gofio hynny a'r her bod angen proffesiwn yng Nghymru sy'n gallu ymateb i'r cyfreithiau sy'n cael eu gwneud yn y Siambr hon, pa arweiniad yr ydych chi'n ei roi ar ran y Llywodraeth i wneud yn siŵr bod y proffesiwn yng Nghymru mor agored ag sy'n bosibl ac yn tynnu o ffnhonnell mor eang a dwfn ag sy'n bosibl?

## Theodore Huckle

Thank you for the question. It is a difficult one this, because while I have strong views on this subject, I have to recognise that this is not a devolved area in general terms. Nevertheless, there are issues around devolution and the running of the Assembly and the Government upon which I am at liberty to make representations and express opinions, and you have identified one of those in particular. It is obviously the case that we need to encourage and develop as strong a legal profession in Wales as we possibly can, for a number of reasons. I am always amused at the number of people who are quick to criticise the legal profession, but are very quick to send their children into it. The general point that you make is a good one: particularly with the development of the organs of governance in Wales, we need a legal profession that can not only serve its communities in Wales in the way that it has done traditionally, but that is also modern and able to serve the needs of that Government.

As for steps, because of the boundaries of devolution, it is difficult. I engage with the legal professions, mainly in an informal way, as often as I can. For example, I went to a reception held by the Criminal Bar Association just before Christmas, as did the First Minister. To say that I have regular discussions is probably putting it too high because there is nothing formal about them, but I certainly have regular contact with members of the legal profession, for example, at the Legal Wales conference and in London, at events held by the Department for Business, Enterprise, Technology and Science to encourage the movement into Wales of professional services, including the law. I take those opportunities to have conversations and to encourage people within and outside Wales to help us to build an appropriate legal profession for the future.

Bearing that in mind and also the challenge that we need a profession in Wales that can respond to the laws now being made in this Chamber, what guidance are you giving on behalf of the Government to ensure that the profession in Wales is as open as possible and draws from as broad a source as possible?

Diolch am y cwestiwn. Mae'n un anodd, oherwydd, er bod gennyf safbwyntiau cryf ar y pwnc hwn, rhaid imi gydnabod nad yw'n gyffredinol yn faes datganoledig. Serch hynny, mae materion o ran datganoli a rhedeg y Cynulliad a'r Llywodraeth y gallaf gyflwyno sylwadau arnynt a mynegi barn arnynt, ac rydych wedi nodi un o'r rheini yn benodol. Mae'n amlwg bod angen inni annog a datblygu proffesiwn cyfreithiol mor gryf â phosibl yng Nghymru, am nifer o resymau. Mae nifer y bobl sy'n barod i feirniadu'r proffesiwn cyfreithiol, ond sy'n awyddus iawn i'w plant ymuno ag ef bob amser yn fy synnu. Mae'r pwynt cyffredinol a wneuch yn un da: yn arbennig wrth i'r organau llywodraethu ddatblygu yng Nghymru, mae angen proffesiwn cyfreithiol arnom a all nid yn unig wasanaethu ei gymunedau yng Nghymru yn y ffordd a wnaed ganddo'n draddodiadol, ond sydd hefyd yn fodern ac yn gallu diwallu anghenion y Llywodraeth honno.

O ran camau, oherwydd ffiniau datganoli, mae'n anodd. Rwy'n cynnal trafodaethau gyda'r proffesiynau cyfreithiol, mewn ffordd anffurfiol gan fwyaf, mor aml â phosibl. Er enghraifft, euthum i dderbynwest a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Bar Troseddol ychydig cyn y Nadolig, fel y gwnaeth y Prif Weinidog. Fwy na thebyg bod datgan fy mod yn cael trafodaethau rheolaidd yn gor-ddweud, gan nad oes elfen ffurfiol iddynt, ond yn sicr dof i gysylltiad rheolaidd ag aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol, er enghraifft, yng nghynhadledd Cymru'r Gyfraith ac yn Llundain, mewn digwyddiadau a gynhelir gan yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i annog gwasanaethau proffesiynol i symud i Gymru, gan gynnwys y gyfraith. Achubaf ar y cyfleoedd hyn i sgwrsio ac annog pobl yng Nghymru a thros y ffin i'n helpu i ddatblygu proffesiwn cyfreithiol priodol ar gyfer y dyfodol.

### 14:20 Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A yw'r cwnsler yn debyg o gwrdd yn fuan â rhai o farnwyr y Goruchaf Lys? A yw'n cytuno ei fod yn beth ardderchog bod materion datganoli yn cael eu cyfeirio atynt gan ddwyn cyhoeddusrwydd mawr i ddeddfwriaeth Cymru?

Is the Counsel General likely to meet soon with some of the Supreme Court judges? Does he agree that it is an excellent thing that devolved issues are referred to them, bringing great publicity to Welsh law-making?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

### 14:20 Theodore Huckle

As to meeting with Supreme Court justices, I have met with them a few times recently, in a formal and an informal setting. It is always a good thing to encourage those links, in an appropriately formalised way, of course, between Government in Wales and the senior judiciary. Again, I take every opportunity that I am given to foster good relations in that regard.

O ran cyfarfod ag ustusiaid y Goruchaf Lys, rwyf wedi cyfarfod â hwy sawl gwaith yn ddiweddar, mewn sefyllfa ffurfiol ac anffurfiol. Mae annog y cysylltiadau hynny rhwng y Llywodraeth yng Nghymru a'r uwch farnwriaeth, mewn ffordd briodol ffurfiol wrth gwrs, bob amser yn fuddiol. Unwaith eto, achubaf ar bob cyfle a gaf i feithrin cydberthnasau da yn hynny o beth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As to the rest of your question, I suppose it was a matter of profile, really. Again, yes, of course I am concerned that the profile of the Assembly in law-making terms is as high as it possibly can be, and I am also concerned that the role of the law officer for Wales—which happens to be me at the moment—is given the profile that I and members of the Government consider it should have.

## Rheoliadau

14:21

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*2. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei ddyletswyddau o ran rheoliadau. OAQ(4)0044(CGE)*

14:21

**Theodore Huckle**

I may be asked to advise on regulations, although any such advice will be subject to the usual convention on confidentiality.

14:22

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rhag ofn nad ydych wedi sylwi, mae'r lle hwn wedi cael ei alw tair gwaith i ystyried—gwnaf aros nes eich bod yn 'plugged in'; mae'n digwydd pan rydych yn gwthio'r allweddell yn erbyn y 'controls'.

Fel rydych yn cofio, mae'n siŵr, mae'r lle hwn wedi cael ei alw tair gwaith nawr i ystyried rheoliadau budd-dal y dreth gyngor, a phob tro mae'r rheoliadau wedi bod yn rhai gwahanol. Yn ystod yr holl broses honno, dim ond unwaith—a hynny ar fyrder—cafwyd cyfle gan un pwyllgor, sef y pwyllgor rwy'n aelod ohono, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, i graffu ar y rheoliadau hyn. Gan fod y rheoliadau hyn a rhai eraill yn bwysig iawn ac yn ffordd bwysig o ddeddfu hefyd, a ydych yn credu bod gennych rôl ddigon cryf yn y broses? A ydych yn credu bod y rheoliadau diweddar ynglŷn â'r dreth gyngor wedi cael y craffu priodol?

14:23

**Theodore Huckle**

I think that you are inviting me to comment on political matters and the running of the processes of the Assembly and Government. If you forgive me, I decline to make a comment. As you will perhaps know, I was asked to issue guidelines on the question of affirmative and negative procedures in relation to regulations. However, I do not have any standing role in relation to regulations as such, as compared, for example, with my role in relation to whether a primary legislative provision should be referred to the Supreme Court. There is no corresponding role for the Counsel General in that respect, and therefore the role that I fulfil in relation to regulatory matters is an advisory one. I will advise as and when I am asked to advise.

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

### Dysgu Cymraeg

O ran gweddill eich cwestiwn, roedd a wnelo â phroffil, mewn gwirionedd. Unwaith eto, rwy'n awyddus, wrth gwrs, i sicrhau bod proffil y Cynulliad o ran llunio cyfreithiau mor uchel â phosibl, ac rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau bod rôl swyddog y gyfraith i Gymru-sef fi fy hun ar hyn o bryd, fel mae'n digwydd-yn cael y proffil yr wyf i ac aelodau'r Llywodraeth yn credu y dylai ei gael.

## Regulations

*2. Will the Counsel General make a statement on his duties regarding regulations. OAQ(4)0044(CGE)*

Gellir gofyn imi roi cyngor ar reoliadau, er y bydd unrhyw gyngor o'r fath yn amodol ar y confensiwn arferol o ran cyfrinachedd.

In case you have not noticed, this place has been called upon on three occasions to consider-I will wait for you to get plugged in; it happens when you push the keyboard against the controls.

As I am sure you will remember, this place has been called upon on three occasions to consider council tax benefit regulations, and on each occasion those regulations have been different. During all of that process, only once-and that was as a matter of urgency-was there an opportunity for one committee, namely the committee that I am a member of, the Constitutional and Legislative Affairs Committee, to scrutinise those regulations. As these regulations and others are very important and are an important way of legislating, do you think that you have a robust enough role in the process? Do you think that the recent regulations on council tax were given appropriate scrutiny?

Credaf eich bod yn estyn gwahoddiad imi gyflwyno sylwadau ar faterion gwleidyddol a'r ffordd y caiff prosesau'r Cynulliad a'r Llywodraeth eu rhoi ar waith. Os maddeuwch imi, ni wnaaf hynny. Fel y gwyrddoch o bosibl, gofynnwyd imi gyhoeddi canllawiau ar weithdrefnau cadarnhaol a negyddol mewn perthynas â rheoliadau. Fodd bynnag, nid oes gennyf unrhyw rôl sefydlog o ran rheoliadau fel y cyfryw, o gymharu, er enghraifft, â'm rôl o ran pa un a ddylid cyfeirio darpariaeth ddeddfwriaethol sylfaenol at y Goruchaf Lys. Nid oes rôl gyfatebol i'r Cwnsler Cyffredinol yn hynny o beth, ac felly rôl gynghorol yw'r rôl a gyflawnaf mewn perthynas â materion rheoliadol. Byddaf yn rhoi cyngor yn ôl y gofyn.

## Questions to the Assembly Commission

### Learning Welsh

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:24	<p><b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>1. A wnaiff y Comisiwn amlinellu sut y mae'n helpu staff i ddysgu Cymraeg. OAQ(4)0069(AC)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>1. Will the Commission outline how it is helping staff to learn Welsh. OAQ(4)0069(AC)</p>
14:24	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner</p> <p>Mae'r Comisiwn yn sefydliad dwyieithog sy'n darparu cefnogaeth i bob aelod o staff sydd am ddysgu Cymraeg. Trefnir dosbarthiadau ar gyfer ystod o lefelau naill ai yn Nhŷ Hywel neu yn y lleoliad mwyaf cyfleus i aelodau o staff nad ydynt wedi eu lleoli yn y Cynulliad. Gellir trefnu gwersi allanol y tu allan i oriau gwaith os yw hynny'n addas.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>The Commission is a bilingual organisation and provides support for all staff wanting to learn Welsh. Classes are organised across a range of levels, either at Tŷ Hywel or at the most convenient location for staff working away from the Assembly. External tuition can be provided outside working hours if this is more suitable.</p>
14:24	<p><b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Diolchaf i'r Comisiynydd am ei ateb a chydabod y gwaith y mae'r Comisiwn yn ei wneud yn annog a chynorthwyo staff i ddysgu Cymraeg. Mae'n siŵr bod yr Aelodau i gyd wedi dod ar draws ambell i aelod o staff sydd wedi llwyddo i ddysgu Cymraeg a bod hynny wedi cyfoethogi'r gwaith y maent yn ei wneud gydag Aelodau. Dywedoch, Gomisiynydd, ei bod hi'n glir bod hwn yn sefydliad dwyieithog. A fedrwn chi gadarnhau ei bod hefyd yn fwrriad gwneud yn siŵr bod y gweithlu sy'n gweithio i sefydliad dwyieithog hefyd yn dod yn ddwyieithog, cymaint ag sy'n bosibl, gan felly ateb galw Aelodau sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yma?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>I thank the Commissioner for his response and also acknowledge the work that the Commission does in encouraging and assisting staff with learning Welsh. I am sure that all Members will have met a member of staff who has been able to learn Welsh and who has found that that has enhanced the work that they do with Members. You said, Commissioner, that it is clear that this is a bilingual institution. Can you confirm that it is also an intention to ensure that the workforce working for a bilingual institution also becomes bilingual, as far as possible, to therefore meet the demands of Members who wish to work through the medium of Welsh here?</p>
14:25	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yn sicr, dyna'r bwriad. Rydym yn cynnig cefnogaeth i bob aelod o staff sydd am ddysgu'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu gwersi Cymraeg i 58 o aelodau o staff cymorth a 36 o aelodau o staff y Comisiwn ac mae 17 o Aelodau'r Cynulliad yn cael gwersi Cymraeg. Yr wythnos hon clywais fod cais wedi ei wneud i sefydlu grŵp arall o ddysgwyr a fydd yn cael gwersi. Yr anogaeth yw: i unrhyw un sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg, mae'r gwasanaeth yno; mae Comisiwn y Cynulliad yn talu amdano, a buaswn yn annog pobl i fanteisio ar hynny. Agorwyd ystafell y Gymraeg yn y Senedd yn 2012, ac mae hon wedi ei sefydlu er mwyn bod yn lle penodol lle gall aelodau o staff ddysgu'r Gymraeg. Yn sicr, byddwn yn falch o weld mwy o bobl yn manteisio ar y gwasanaeth gwych hwn sy'n cael ei gyflwyno.</p> <p>O ran ail ran y cwestiwn, rydym yn edrych yn awr ar sut y gallwn gryfhau'r gwasanaeth yn y Gymraeg i Aelodau er mwyn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob elfen o'u gwaith yn y lle hwn a thu allan hefyd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Certainly, that is the aim. We offer support for every member of staff who wishes to learn Welsh. At present, we provide Welsh lessons for 58 members of support staff and 36 members of Commission staff and 17 Assembly Members are in receipt of Welsh-language lessons. This week, I heard that a request has been made to establish another group of learners who will have lessons. The encouragement is: to anyone who wishes to learn Welsh, the service is there; it is paid for by the Assembly Commission, and I would urge people to take advantage of that. The Welsh room was opened at the Senedd in 2012, and that was established as a dedicated space where members of staff can learn Welsh. Certainly, we would like to see more people taking advantage of this excellent service that is being introduced.</p> <p>On your second question, we are now looking at how we can strengthen the service provided to Members through the medium of Welsh, in order to enable them to use the Welsh language in every element of their work in this place and outwith this place.</p>
14:26	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The second question will be answered by Sandy Mewies, and I call on Elin Jones to ask that question.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Caiiff yr ail gwestiwn ei ateb gan Sandy Mewies, a galwaf ar Elin Jones i ofyn y cwestiwn hwnnw.</p>
<b>Bwyd</b>	<b>Food</b>	
14:27	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>2. A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am ddarparu bwyd ar ystad y Cynulliad. OAQ(4)0068(AC)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>2. Will the Commission make a statement on the provision of food on the Assembly estate. OAQ(4)0068(AC)</p>



- 14:27 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner
- I thank the Member for Ceredigion for the question. Food for the Assembly estate's catering outlets is provided as part of our catering contract with Charlton House Ltd. The food provided is managed in line with the Assembly's specification for services to ensure compliance with statutory regulations as well as a wide range of quality and service objectives.
- Diolch i'r Aelod dros Geredigion am y cwestiwn. Caiff bwyd ar gyfer safleoedd arlwyo ystad y Cynulliad ei ddarparu fel rhan o'n contract arlwyo gyda Charlton House Ltd. Caiff y bwyd a ddarperir ei reoli yn unol â manyleb y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau statudol yn ogystal ag ystod eang o amcanion ansawdd a gwasanaeth.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 14:27 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- There were some good-looking burgers on sale in the canteen today. Can you confirm, Commissioner, that, since the Tesco-horse-burger fiasco, the authenticity of the meat supply to the National Assembly has been checked, and that it is, hopefully, 100% Welsh meat, and that if we were ever to be offered horse burgers in the Assembly, they will be clearly labelled horse burgers and not disguised as beef burgers?
- Roedd byrgyrs a oedd yn edrych yn arbennig o flasus ar werth yn y ffreutur heddiw. A allwch gadarnhau, Gomisiynydd, ers helbul byrgyrs cig ceffyl Tesco, fod dilysrwydd cyflenwad cig y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gadarnhau, ac mai cig, gobeithio, sy'n dod yn gyfan gwbl o Gymru ydyw, a phe byddem byth yn cael cynnig byrgyrs ceffyl yn y Cynulliad, y caent eu labelu'n glir fel byrgyrs ceffyl yn hytrach na'u cyflwyno fel byrgyrs cig eidion?
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 14:27 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I think that they were chicken burgers today, and that they were genuine chickens and not equine chickens. To ensure the provenance of food supplied on the Assembly estate, Charlton House's suppliers are selected following thorough due diligence procedures to ensure compliance with food safety regulations and provenance of supply. Approved suppliers are re-audited on an annual basis. These processes and systems ensure that the wide range of food provided on the Assembly estate is from audited and approved suppliers.
- Rwy'n credu mai byrgyrs cyw iâr oedd ar gael heddiw, ac mai ieir go iawn oeddent ac nid ieir ceffyllog. Er mwyn sicrhau tarddiad y bwyd a gyflenwir ar ystad y Cynulliad, caiff cyflenwyr Charlton House eu dewis yn dilyn gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy trylwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelwch bwyd a tharddiad y cyflenwad. Caiff cyflenwyr cymeradwy eu hailarchwilio bob blwyddyn. Mae'r prosesau a'r systemau hyn yn sicrhau y daw'r amrywiaeth eang o fwyd a ddarperir ar ystad y Cynulliad gan gyflenwyr a archwiliwyd ac a gymeradwywyd.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 14:28 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- In a recent UK-wide national survey it was found that one in three workers eat their food, usually their lunch, at their desks and that sometimes people eat their breakfast and lunch at their desks. I wonder whether you have any information about what percentage of staff here in the Commission eat their food at their desks, and whether the Commission has any views on that.
- Mewn arolwg cenedlaethol diweddar a gynhaliwyd ledled y DU, cafwyd bod un o bob tri gweithiwr yn bwyta eu bwyd, eu cinio fel arfer, wrth eu desgiau ac weithiau bod pobl yn bwyta eu brecwast a'u cinio wrth eu desgiau. Tybed a oes gennych unrhyw wybodaeth am ba ganran o'r staff yma yn y Comisiwn sy'n bwyta eu bwyd wrth eu desgiau, a beth yw barn y Comisiwn am hynny.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 14:29 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- The simple answer is that we do not know how many people sit at their desks for how many meals. I dare say that we could ask people to let us know or to do a survey on that. However, we do encourage staff to take lunch breaks; I am sure that Members do. A staff restaurant is available for that purpose. That is a facility that is very well used on a daily basis. It is down to personal choice, in terms of how and where staff choose to eat their lunch. We also encourage staff to take regular breaks away from their computer equipment and workstations as part of the display screen equipment policy.
- Yr ateb syml yw nad ydym yn gwybod faint o bobl sy'n eistedd wrth eu desgiau am faint o brydau bwyd. Mae'n si? r y gallm ofyn i bobl roi gwybod inni neu gynnal arolwg ar hynny. Fodd bynnag, rydym yn annog aelodau o staff i gymryd egwyl cinio; rwy'n si?r bod yr Aelodau yn gwneud hynny. Mae bwyty ar gael i'r staff at y diben hwnnw. Mae'n gyfleuster y gwneir defnydd da ohono bob dydd. Dewis personol ydyw, o ran pa sut a ble y mae'r staff yn dewis bwyta eu cinio. Rydym hefyd yn annog aelodau o staff i adael eu cyfarpar cyfrifiadurol a'u gweithfannau a chael seibiant rheolaidd fel rhan o'r polisi cyfarpar sgrin arddangos.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

## Cynnig Gweithdrefnol

## Procedural Motion

Y Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have been informed by Kirsty Williams that she wishes to postpone today's short debate and has nominated Aled Roberts to move a procedural motion under Standing Order No. 12.32 on her behalf. I call on Aled Roberts to move the motion.

Cefais wybod gan Kirsty Williams ei bod am ohirio dadl fer heddiw a'i bod wedi enwebu Aled Roberts i gynnal cynnig gweithdrefnol o dan Reol Sefydlog Rhif 12.32 ar ei rhan. Galwaf ar Aled Roberts i gynnal y cynnig.

Cynnig gweithdrefnol

Procedural motion

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Reol Sefydlog Rhif 12.32, yn gohirio'r dadl fer a gyflwynwyd yn enw Kirsty Williams.

The National Assembly for Wales, under Standing Order No. 12.32, postpones the short debate tabled in the name of Kirsty Williams.

14:30

### Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

Cynigial y cynnig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the procedural motion to postpone the short debate today. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw y dylid cytuno ar y cynnig gweithdrefnol i ohirio'r dadl fer heddiw. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, cytunir ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Brentisiaethau yng Nghymru

Cynnig NDM5142 Nick Ramsay

## The Enterprise and Business Committee's Inquiry into Apprenticeships in Wales

Motion NDM5142 Nick Ramsay

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr ymchwiliad i Brentisiaethau yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Hydref 2012.

Notes the report of the Enterprise and Business Committee on the inquiry into Apprenticeships in Wales, which was laid in the Table Office on 25 October 2012.

14:30

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee to move the motion.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i gynnal y cynnig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:30

### Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

Cynigial y cynnig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As Chair of the Enterprise and Business Committee, I am delighted to open today's debate on our report on apprenticeships in Wales. To start at the beginning, what are apprenticeships? Apprenticeships are paid jobs, which give people the chance to learn and study for qualifications while earning a weekly wage. They are therefore vital for the recruitment, development, training and retention of the workforce in Wales, even more so in the current economic climate.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, rwy'n falch iawn o gael agor y dadl heddiw ar ein hadroddiad ar brentisiaethau yng Nghymru. Gan ddechrau ar y dechrau, beth yw prentisiaethau? Swyddi â thâl yw prentisiaethau, sy'n rhoi cyfle i bobl ddysgu ac astudio ar gyfer cymwysterau tra'n ennill cyflog wythnosol. Maent felly yn hanfodol o ran recriwtio datblygu, hyfforddi a chadw'r gweithlu yng Nghymru, hyd yn oed yn fwy felly yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Apprentices are often stereotyped as being young, male, and in oily-rag professions. That is not the case in reality, although far more needs to be done to change those perceptions and increase the appeal and esteem of apprenticeships—something to which I will return in a moment.

Why did the committee look at apprenticeships in Wales? Our inquiry aimed to find out whether the current apprenticeships system in Wales properly meets the needs of the current and potential workforce, of employers and of the Welsh economy as a whole. How did we go about our inquiry? We held the usual evidence sessions with stakeholders and many others sent us their comments in writing. I am very grateful to all those people who took the time and effort to contact us with their views. We also experimented with other media, such as the video produced by our outreach team, which captured the experiences of young people and professionals in the sector, and presented some of the problems that they have faced. I recommend the video to all Assembly Members. It is plain-speaking and it is available on the Assembly's website.

We launched our report on 25 October at the Pencoed campus of Bridgend College. The launch was well-attended by apprentices at the college, by the college lecturer staff and by some of the other stakeholders who contributed to our inquiry. I thank everyone at Bridgend College for arranging that event and for participating in the useful discussion that we held; many interesting questions were raised afterwards as well. On the same day as we published our report, the Welsh Government committed a further £5 million to apprenticeships. I welcomed that announcement and also welcome the Welsh Government's considered response to our report.

We made 20 recommendations for improving the apprenticeships system in Wales. I am pleased that 14 of those have been accepted outright, although we would like the Deputy Minister to give further consideration to the five recommendations he has accepted in principle and, of course, the one recommendation that has been rejected.

Moving on to what our inquiry found, we found that there are fewer apprenticeships in Wales than there used to be. On the other hand, more positively, more people who start an apprenticeship finish it. Competition for some kinds of apprenticeships can be very great, but this is not true for all types of apprenticeships. Some parts of Wales, rural areas for example, have very few opportunities for people wanting to take up an apprenticeship. We found that apprenticeships can suffer from a bad image for many different reasons. They are not always valued or understood, and are often seen as a second-class option compared to going to college or university.

Mae prentisiaid yn aml yn cael eu stereoteipio fel dynion ifanc â chlytiau o fewn yr eu dwylo. Nid yw hynny'n wir o gwbl, er bod angen gwneud llawer mwy i newid y canfyddiadau hynny a chynyddu apêl prentisiaethau a'r parch tuag atynt-rhywbeth y byddaf yn dychwelyd ato mewn eiliad.

Pam yr edrychodd y pwyllgor ar brentisiaethau yng Nghymru? Nod ein hymchwiliad oedd canfod a yw'r system brentisiaethau bresennol yng Nghymru yn diwallu anghenion y gweithlu presennol a'r darpar weithlu, cyflogwyr ac economi Cymru yn ei chyfanrwydd yn briodol. Sut yr aethpwyd ati i gynnal ein hymchwiliad? Cynhaliwyd y sesiynau tystiolaeth arferol gyda rhanddeiliaid ac anfonodd llawer o bobl eraill eu sylwadau atom yn ysgrifenedig. Rwy'n ddiolchgar i'r holl bobl hynny a roddodd o'u hamser i gysylltu â ni i roi eu barn. Aethom ati hefyd i arbrofi â chyfryngau eraill, megis y fideo a gynhyrwyd gan ein tîm allgymorth, a gyfleodd brofiadau pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol yn y sector, gan gyflwyno rhai o'r problemau y maent wedi eu hwynebu. Rwy'n argymhell y fideo i holl Aelodau'r Cynulliad. Mae'n ddiflwyn ar dafod ac mae ar gael ar wefan y Cynulliad.

Lansiwyd ein hadroddiad ar 25 Hydref ar gampws Pencoed Coleg Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd nifer sylweddol o brentisiaid y coleg, staff darlithio'r coleg a rhai o'r rhanddeiliaid eraill a gyfrannodd at ein hymchwiliad yn bresennol. Hoffwn ddiolch i bawb yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr am drefnu'r digwyddiad hwnnw ac am gymryd rhan yn y drafodaeth ddefnyddiol a gynhaliwyd gennym, codwyd nifer o gwestiynau diddorol wedyn hefyd. Ar yr un diwrnod ag y cyhoeddwyd ein hadroddiad, neilltuodd Llywodraeth Cymru £5 miliwn arall at brentisiaethau. Croesewais y cyhoeddiad hwnnw a hefyd ymateb ystyriol Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad.

Gwnaethom 20 o argymhellion ar gyfer gwella'r system brentisiaethau yng Nghymru. Rwy'n falch bod 14 o'r rhain wedi cael eu derbyn yn llwyr, er yr hoffem i'r Dirprwy Weinidog roi ystyriaeth bellach i'r pum argymhelliad y mae wedi'u derbyn mewn egwyddor ac, wrth gwrs, yr un argymhelliad sydd wedi cael ei wrthod.

Gan symud ymlaen at ganfyddiadau ein hymchwiliad, gwelsom fod llai o brentisiaethau yng Nghymru nag yr arferai fod. Ar y llaw arall, yn fwy cadarnhaol, mae mwy o bobl sy'n cychwyn ar brentisiaeth yn ei gorffen. Gall y gystadleuaeth am rai mathau o brentisiaethau fod yn frwd iawn, ond nid yw hyn yn wir am bob math o brentisiaeth. Mewn rhai rhannau o Gymru, mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft, ychydig iawn o gyfleoedd sydd i bobl sydd am fwrw brentisiaeth. Canfuwyd bod delwedd wael gan brentisiaethau weithiau, a hynny am nifer o wahanol resymau. Nid ydynt yn cael eu gwerthfawrogi na'u deall bob amser, ac fe'u hystyrir yn aml yn opsiwn ail ddsbarth o'i gymharu â mynd i'r coleg neu'r brifysgol.

One of the apprentices who attended the launch of our report referred to the importance of apprenticeships resulting either in permanent employment in a company or a meaningful qualification valued by employers, otherwise people were, in his words, 'gambling a year of their life on a glorified work trial.' Information about apprenticeships is not always as good or as timely as it should be, or can be biased. We heard that some people go into apprenticeships more through luck than good planning. Other barriers, particularly to young people taking up apprenticeships, can be that the apprenticeship does not pay enough or young people do not have transport. Young women often think that apprenticeships are more geared towards jobs that are mainly done by men.

On the other side of the fence, we were told that employers find that many young people lack basic skills and are not ready for the workplace, and the system of apprenticeships can often be too confusing and complicated for small businesses to enter into.

Moving on to what the committee recommended, apprenticeships, we felt, need to be simplified, and better explained and marketed. Small businesses need to be given more support so that they can provide more apprenticeships and benefit from the experience of larger employers with more established apprenticeship schemes. We believe that we need more Jobs Growth Wales opportunities to be turned into apprenticeships. The supply and demand for apprenticeships needs to be brought into line and matched with the needs of local areas. Further, the apprenticeship-matching service, which connects employers with potential apprentices, needs to be reviewed and improved. There should definitely be closer links between training providers, employers and schools. Young people and their parents need better advice about apprenticeships—importantly, well before they decide on GCSE or vocational course options. It is too late to wait until GCSE age to try to introduce young people to the idea in a rushed sense. It needs to be considered at primary school level. Parents in particular should be persuaded that apprenticeships are as good as going to university. That was a key finding. The Government should consider giving grants so that young people from the poorest households can take up apprenticeships. Careers advisers and teachers should not be biased in the advice that they give to young men or women. Those were just some of the recommendations contained in our report, and my committee will be keeping a close eye on how the Welsh Government implements our recommendations as we go forward.

Cyfeiriodd un o'r prentisiaid a fu'n bresennol yn achlysur lansio ein hadroddiad at bwysigrwydd prentisiaethau sydd naill ai'n arwain at gyflogaeth barhaol mewn cwmni neu gymhwyster ystyrlon a werthfawrogi gan gyflogwyr, fel arall roedd pobl, yn ei eiriau ef, yn mentro blwyddyn o'u bywyd ar ddim byd amgenach na phrawf gwaith.' Nid yw gwybodaeth am brentisiaethau bob amser mor amserol na chystal ag y dylai fod, neu gall ddangos tuedd. Clywsom fod rhai pobl yn dechrau prentisiaethau drwy lwc yn hytrach na chynllunio da. Ymhlith y rhwystrau eraill, yn enwedig i bobl ifanc gael prentisiaethau, mae'r ffaith nad yw prentisiaeth yn talu digon neu nad oes gan bobl ifanc gludiant. Mae merched ifanc yn aml yn meddwl mai rhywbeth sydd wedi'i anelu at swyddi a wneir gan ddynion yn bennaf yw prentisiaethau.

Ar yr ochr arall, dywedwyd wrthym fod cyflogwyr yn gweld nad oes gan lawer o bobl ifanc y sgiliau sylfaenol ac nad ydynt yn barod ar gyfer y gweithle, a gall y system brentisiaethau yn aml fod yn rhy ddrylyd a chymhleth ar gyfer busnesau bach.

Gan symud ymlaen at yr hyn a argymhellodd y pwyllgor, mae angen i brentisiaethau, yn ein barn ni, fod yn symlach, a chael eu hegluro a'u marchnata'n well. Mae angen i fusnesau bach gael mwy o gymorth er mwyn iddynt allu cynnig mwy o brentisiaethau a chael budd o brofiad cyflogwyr mwy o faint gyda chynlluniau prentisiaeth mwy sefydledig. Credwn fod angen inni sicrhau bod mwy o gyfleoedd Twf Swyddi Cymru yn cael eu troi'n brentisiaethau. Mae angen i'r cyflenwad a'r galw am brentisiaethau gael eu cysoni ag anghenion ardaloedd lleol. At hynny, mae angen i'r gwasanaeth paru prentisiaethau, sy'n cysylltu cyflogwyr â darpar brentisiaid, gael ei adolygu a'i wella. Yn sicr dylai fod cysylltiadau agosach rhwng darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr ac ysgolion. Mae angen i bobl ifanc a'u rhieni gael gwell cyngor ar brentisiaethau-yn bwysig ddigon, ymhell cyn iddynt benderfynu ar ddewisiadau TGAU neu opsiynau galwedigaethol. Mae aros tan oedran TGAU i geisio cyflwyno'r syniad i bobl ifanc ar frys yn rhy hwyr. Mae angen iddo gael ei ystyried ar lefel yr ysgol gynradd. Dylai rhieni yn enwedig gael eu darbwyllo bod prentisiaethau cystal â mynd i'r brifysgol. Dyna'r canfyddiad allweddol. Dylai'r Llywodraeth ystyried rhoi grantiau fel y gall pobl ifanc o'r cartrefi tlotaf fanteisio ar brentisiaethau. Ni ddylai cynghorwyr gyrfaol nac athrawon ddangos tuedd yn y cyngor a roddant i ddynion neu ferched ifanc. Dyma ond ychydig o'r argymhellion yn ein hadroddiad, a bydd fy mhwyllgor yn cadw llygad barcud ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar ein hargymhellion yn y dyfodol.

In conclusion, our inquiry revealed that progress is being made, but the full potential and capacity of apprenticeships for supporting the Welsh economy remains unrealised. We believe that the Welsh Government needs to work to break down the many barriers to apprenticeships, both real and perceived, and we have identified in our report some of the ways in which we think that can be done. Fundamentally, there needs to be a change of culture in relation to apprenticeships so that they are held in much higher esteem. They are an investment, not a cost. They are a high-value learning pathway to a successful career and a skilled, productive workforce. Above all, they are relevant, useful and should be available to people of any age. I trust that, by responding positively to our recommendations, the Welsh Government will be able to improve the quality of apprenticeships available in Wales and employer engagement in the apprenticeship system. It may be a 'long haul', to quote one of our witnesses, but it is a highly rewarding path in the long term. Apprenticeships should be available more widely to young people and to people of all ages in Wales. I look forward to the Deputy Minister's response today.

I gloi, dangosodd ein hymchwiliad fod cynnydd yn cael ei wneud, ond nad yw potensial na gallu llawn prentisiaethau i gefnogi economi Cymru yn cael eu gwireddu eto. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fynd ati i ddileu'r rhwystrau lu i gael prentisiaeth, rhai gwir a rhai canfyddedig, ac rydym wedi nodi yn ein hadroddiad rai o'r ffyrdd y gellir gwneud hynny, yn ein barn ni. Yn y bôn, mae angen newid diwylliant mewn perthynas â phrentisiaethau fel eu bod yn cael eu parchu llawer mwy. Buddsoddiad ydynt, yn hytrach na chost. Maent yn llwybr dysgu gwerthfawr i yrfa lwyddiannus a gweithlu medrus, cynhyrchiol. Yn anad dim, maent yn berthnasol, yn ddefnyddiol a dylent fod ar gael i bobl o unrhyw oedran. Hyderaf, drwy ymateb yn gadarnhaol i'n hargymhellion, y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gwella safon prentisiaethau sydd ar gael yng Nghymru a diddordeb cyflogwyr yn y system brentisiaethau. Gall fod yn daith hir, a dyfynnu un o'n tystion, ond mae'n llwybr hynod fuddiol yn yr hirdymor. Dylai prentisiaethau fod ar gael yn fwy cyffredinol i bobl ifanc ac i bobl o bob oedran yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at ymateb y Dirprwy Weinidog heddiw.

14:37

### David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity to speak in this debate. I am a member of the committee, and it is important that committee members have an opportunity to do so. I begin by thanking the clerk and her staff for their hard work and all the witnesses for their evidence. I believe that this has ensured that we have produced a precise and reflective commentary on apprenticeships in Wales. The Business, Innovation and Skills Select Committee in Westminster came to similar conclusions in its inquiry last November. The report of the Policy Exchange think tank, 'Technical Matters', published on Monday, also highlighted similar views. There is no doubt in my mind—or, I hope, in the minds of most of you—that apprenticeship programmes can be of huge benefit to the employers that engage with them, as well as to the people that follow them. They help us to create a more skilled workforce, increase employment and generate sustainable economic growth. As important is that apprenticeships can alter the self-belief and future prospects of the individuals who take part in them. They are far more than simply training someone to do their job. They give people—young people, in the main—every chance to fulfil their potential in work and life.

The purpose of the inquiry was to explore whether the current system of apprenticeships in Wales is effectively serving the needs of today's and tomorrow's Welsh economy. Is it serving the needs of employers and, more importantly, is it serving the needs of our young people? In light of this, as we have already heard, we identified 20 recommendations. However, in my opinion, and understanding the current actions of the Government, it identified that there are three key questions that we have to answer. First, how can we encourage schools and parents to recognise apprenticeships as an appropriate and important pathway to a career at an early age? Secondly, how do we ensure that there are different entry levels so that people can take up apprenticeships that are appropriate for them at an appropriate level and time and encourage them to do so? Thirdly, how can we encourage and support more small and micro businesses to take on apprentices with a view to providing long-term employment? I will try to address these in turn and be as brief as I can.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddatl hon. Rwy'n aelod o'r pwyllgor, ac mae'n bwysig bod aelodau'r pwyllgor yn cael cyfle i wneud hynny. Dechreuaf drwy ddiolch i'r clerck a'i staff am eu gwaith caled ac i'r holl dystion am eu tystiolaeth. Credaf i hyn sicrhau ein bod wedi paratoi sylwadau manwl a myfyriol ar brentisiaethau yng Nghymru. Daeth y Pwyllgor Dethol ar Fusnes, Arloesedd a Sgiliau yn San Steffan i gasgliadau tebyg yn ei ymchwiliad yntau fis Tachwedd diwethaf. Nododd adroddiad y felin drafod Policy Exchange, 'Technical Matters', a gyhoeddwyd ddydd Llun, safbwyntiau tebyg. Nid oes unrhyw amheuaeth gennyf-na chan y rhan fwyaf ohonoch, gobeithio-y gall rhaglenni prentisiaeth fod o fudd mawr i'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan ynddynt, yn ogystal â'r bobl sy'n eu dilyn. Maent yn ein helpu i greu gweithlu mwy medrus, cynyddu cyflogaeth a chreu twf economaidd cynaliadwy. Yr un mor bwysig yw'r ffaith y gall prentisiaethau newid hunan-gred unigolion sy'n cymryd rhan ynddynt a'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Maent yn llawer mwy na hyfforddi rhywun i wneud ei waith. Maent yn rhoi cyfle i bobl-pobl ifanc yn bennaf-gyflawni eu potensial yn y gwaith ac mewn bywyd.

Diben yr ymchwiliad oedd ystyried a oedd y system brentisiaethau bresennol yng Nghymru yn effeithiol o ran diwallu anghenion economi Cymru heddiw ac yfory. A yw'n diwallu anghenion cyflogwyr ac, yn bwysicach na dim, a yw'n diwallu anghenion ein pobl ifanc? Yng ngoleuni hyn, fel y clywsom eisoes, nodwyd 20 o argymhellion gennym. Fodd bynnag, yn fy marn i, a deall camau gweithredu presennol y Llywodraeth, mae'n nodi bod tri chwestiwn allweddol y mae'n rhaid inni eu hateb. Yn gyntaf, sut y gallwn annog ysgolion a rhieni i gydnabod prentisiaethau fel llwybr priodol a phwysig tuag at yrfa ar oedran cynnar? Yn ail, sut rydym yn sicrhau bod lefelau mynediad gwahanol fel y gall pobl fanteisio ar brentisiaethau sy'n briodol iddynt hwy ar lefel ac amser priodol a'u hannog i wneud hynny? Yn drydydd, sut y gallwn annog a chefnogi mwy o fusnesau bach a microfusnesau i dderbyn prentisiaid gyda'r bwriad o roi cyflogaeth hirdymor? Byddaf yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain yn eu tro a hynny mewn ffordd mor gryno ag y gallaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

First, we have to tackle the problems of prestige associated with following an apprenticeship. Crucial to tackling this is encouraging young people and, perhaps more significantly, their parents to see that an apprenticeship is a genuinely respected and valued alternative to university. A perceived lack of parity between vocational and academic qualifications has meant that many young people are not receiving the necessary information at an early age that will allow them, in conjunction with their parents, to make informed decisions about their subject choices and future careers. Careers Wales told us that some schools focus upon the academic pathway because A-level attainment is something that their school desires and the academic route is better for them in that regard. We have to change that attitude among teachers in schools. Parents also do not always understand the value of an apprenticeship. In my day, they would have done so, but that is not so much the case today.

That leads me to my second point. We have treated vocational education and university education as two separate paths, meaning that many young people consider the path of an apprenticeship and the path of higher education as being mutually exclusive and as one-way streets instead of seeing them as a flexible and intertwined way of pursuing their potential. To tackle this, we have to ensure that there are appropriate entry levels so that people can join an apprenticeship using the skills that they learned at GCSE, A-level or even university and vice versa, so that those who have taken up apprenticeships can see opportunities to go into further and higher education to supplement the practical skills that they have already learned.

The third point is about the solid foundation we need of employers willing to offer people these opportunities. The Federation of Small Businesses highlighted that only 11% of the small businesses surveyed in Wales had taken on apprentices in 2010. In fact, a recent survey showed that, last year, 9% of its membership had employed a new apprentice. Across the UK, the figures are the same: 99% of businesses are small or medium-sized enterprises and only around 10% of them employ apprentices. We have to tackle that. The FSB told us that the main barriers to employers taking on apprentices were time and money. Other employers also expressed caution, because of the current economic climate and the long-term commitments of an apprentice. All of the evidence suggests that apprenticeships can add massive value to the employers who engage in such programmes. However, we have to be able to convince such employers of the importance and cost-effectiveness of an apprenticeship as part of a more strategic approach to planning their long-term skills needs.

Yn gyntaf, rhaid inni fynd i'r afael â phroblemau o ran bri prentisiaeth. Yr allwedd i fynd i'r afael â hyn yw annog pobl ifanc ac, efallai yn bwysicach na hynny, eu rhieni i weld bod prentisiaeth yn ddewis gwirioneddol barchus a gwerthfawr yn lle mynd i'r brifysgol. Mae diffyg cydraddoldeb ymddangosiadol rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academiaidd wedi golygu nad yw llawer o bobl ifanc yn cael y wybodaeth angenrheidiol ar oedran cynnar a fydd yn rhoi cyfle iddynt, ynghyd â'u rhieni, wneud penderfyniadau hyddysg am eu dewisiadau o bynciau a gyrfaeoddd yn y dyfodol. Dywedodd Gyrfa Cymru wrthym fod rhai ysgolion yn canolbwyntio ar y llwybr academiaidd am fod cyrhaeddiad ar Safon Uwch yn rhywbeth y mae'r ysgol yn ei ddymuno a bod y llwybr academiaidd yn well iddynt yn hynny o beth. Rhaid inni newid yr agwedd honno ymhlith athrawon mewn ysgolion. Nid yw rhieni ychwaith bob amser yn deall gwerth prentisiaeth. Yn fy nghyfnod i, byddent wedi deall hynny, ond nid yw mor wir heddiw heddiw.

Mae hynny yn fy arwain at fy ail bwynt. Rydym wedi trin addysg alwedigaethol ac addysg brifysgol fel dau lwybr ar wahân, sy'n golygu bod llawer o bobl ifanc yn ystyried bod y llwybr prentisiaeth a'r llwybr addysg uwch yn annibynnol ar ei gilydd ac yn stryd unffordd yn hytrach na'u hystyried yn ffordd hyblyg, wedi'i chydblythu o wireddu eu potensial. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rhaid inni sicrhau bod lefelau mynediad priodol fel y gall pobl ymuno â phrentisiaeth gan ddefnyddio'r sgiliau y maent wedi'u dysgu ar lefel TGAU, Safon Uwch neu hyd yn oed yn y brifysgol ac fel arall, fel y gall y rhai sydd wedi manteisio ar brentisiaethau weld cyfleoedd i fynd ymlaen at addysg bellach ac addysg uwch er mwyn ychwanegu at y sgiliau ymarferol y maent wedi'u dysgu eisoes.

Mae'r trydydd pwynt yn ymwneud â'r sylfaen gadarn sydd ei hangen o gyflogwyr sy'n barod i gynnig y cyfleoedd hyn i bobl. Tynnodd y Ffederasiwn Busnesau Bach sylw at y ffaith mai dim ond 11% o'r busnesau bach yn yr arolwg yng Nghymru a gyflogodd brentisiaid yn 2010. Yn wir, dangosodd arolwg diweddar mai 9% o'i aelodaeth a gyflogodd brentis newydd y llynedd. Ledled y DU, mae'r ffigurau yr un fath: mae 99% o fusnesau yn fusnesau bach neu ganolig eu maint, a dim ond tua 10% ohonynt sy'n cyflogi prentisiaid. Rhaid inni fynd i'r afael â hynny. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrthym mai'r rif rwystrau i gyflogwyr dderbyn prentisiaid oedd amser ac arian. Mynegodd cyflogwyr eraill bryder hefyd, oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol a'r ymrwymadau hirdymor sy'n gysylltiedig â phrentis. Awgryma'r holl dystiolaeth y gall prentisiaethau ychwanegu cryn werth at y cyflogwyr sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni o'r fath. Fodd bynnag, rhaid inni allu argyhoeddi'r cyflogwyr hynny o bwysigrwydd a chosteffeithiolrwydd prentisiaeth fel rhan o ymagwedd fwy strategol tuag at gynllunio eu hanghenion sgiliau yn yr hirdymor.

I think that it is obvious from these comments that this is a complex, multi-faceted issue of which I have covered only a few points. If we want it to succeed, tackling the prestige associated with apprenticeships, the perception of finality and inflexibility in our education system, and entrenched stereotypes will be vital. To complement this, we must galvanise employers, especially our small and medium-sized enterprises, to recognise the responsibilities and opportunities and, more importantly, to recognise that apprenticeships are an extremely effective way for them to tap into raw talent, upskill their staff and grow their businesses.

14:43

## **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a member of the Enterprise and Business Committee, I welcome the opportunity to make a contribution and take part in this debate. The topic of apprenticeships and tackling youth unemployment is a most important issue. It is one of the key issues that I believe the Welsh Government must get a grip on and I hope that our report goes some way towards addressing this.

The report is quite extensive, as our Chairman, Nick Ramsay, has outlined, and I do not wish to repeat the points that have already been made. I accept that the Welsh Government has broadly accommodated many of the recommendations, barring recommendation 5, and I welcome that. I also recognise and welcome the priority that the Welsh Government continues to place on apprenticeships and tackling youth unemployment. While it is, indeed, commendable, there is much to do, which, in fairness, the Deputy Minister would probably accept.

I will start with my main point, which is echoed by the Federation of Small Businesses, namely the need to include employers thoroughly in the design and delivery of apprenticeships in Wales. It has often been said, but it is worth stressing again and again, that, if we are able to work with our SMEs effectively across Wales and encourage a good section of those to offer a meaningful and long-term apprenticeship, while this issue would not evaporate overnight, it would certainly be alleviated to a great degree. The question that we have tried to tease out in this report is how we can manage this. This is clearly demonstrated by many of the recommendations. I would like to briefly touch again on recommendation 5, which reads:

'Consider mainstreaming and ring-fencing funding for the Pathways to Apprenticeships programme into the proposed planning and funding system for post-16 education, with safeguards to ensure that the programme is relevant to economic needs and demands within local areas.'

I believe that this recommendation is common sense. We need to ensure that the vocational route post-16 education is as easy, accessible and as publicised as our further academic studies. In the past, there was clear acceptance that there were two routes post-16: some students went on to further studies in university, and the other route, as respectable and rewarding, was a vocational course. This must become the norm again.

Credaf ei bod yn amlwg o'r sylwadau hyn bod hon yn broblem gymhleth ac iddi sawl agwedd nad wyf ond wedi sôn am ychydig ohonynt. Os ydym am i hyn lwyddo, bydd yn hanfodol mynd i'r afael â bri prentisiaethau, y canfyddiad o derfynoldeb ac anhyblygrwydd yn ein system addysg, a hen stereoteipiau. Er mwyn ategu hyn, rhaid inni symblu cyflogwyr, yn enwedig ein busnesau bach a chanolig, i gydnabod y cyfrifoldebau a'r cyfleoedd ac, yn bwysicach na dim, i gydnabod bod prentisiaethau yn ffordd hynod effeithiol iddynt fanteisio ar dalent amrwd, gwella sgiliau eu staff a thyfu eu busnesau.

Fel aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes, croesawaf y cyfle i wneud cyfraniad a chymryd rhan yn y ddadl hon. Mae prentisiaethau a mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yn fater hynod bwysig. Mae'n un o'r materion allweddol y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef, yn fy marn i, a gobethiaf y bydd ein hadroddiad yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ymdrin â hyn.

Mae'r adroddiad yn eithaf helaeth, fel yr amlinellodd ein Cadeirydd, Nick Ramsay, ac nid wyf am ailadrodd y pwyntiau a wnaed eisoes. Derbyniaf fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn llawer o'r argymhellion ar y cyfan, ac eithrio argymhelliad 5, a chroesawaf hynny. Rwyf hefyd yn cydnabod ac yn croesawu'r flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i'w rhoi i brentisiaethau a mynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc. Er bod hynny, yn wir, yn glodwiw, mae llawer i'w wneud, sef rhywbeth y byddai'r Dirprwy Weinidog yn ei dderbyn, a bod yn deg.

Dechreuaf gyda fy mhrif bwynt, a ategir gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, sef yr angen i gynnwys cyflogwyr ar bob cam o'r broses o gynllunio a darparu prentisiaethau yng Nghymru. Dywedwyd yn aml, ond mae'n werth pwysleisio hyn dro ar ôl tro, os gallwn weithio gyda'n busnesau bach a chanolig yn effeithiol ledled Cymru ac annog cyfran dda o'r rheini i gynnig prentisiaeth ystyrlon a hirdymor, er na fyddai'r broblem hon yn diflannu dros nos, y byddai'n sicr yn cael ei lleddfu i raddau helaeth. Y cwestiwn yr ydym wedi ceisio ymdrin ag ef yn yr adroddiad hwn yw sut y gallwn reoli hyn. Dangosir hyn yn glir gan lawer o'r argymhellion. Hoffwn sôn yn gryno eto am argymhelliad 5, sy'n darllen:

'Dylai Llywodraeth Cymru ystyried prif ffrydio a chlustnodi cyllid ar gyfer y rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau ar gyfer system gynllunio a chyllido arfaethedig ar gyfer addysg ôl-16, gyda mesurau diogelwch i sicrhau bod y rhaglen yn berthnasol i anghenion economaidd a gofynion ardaloedd lleol.'

Credaf mai synnwyr cyffredin yw'r argymhelliad hwn. Mae angen inni sicrhau bod y llwybr galwedigaethol addysg ôl-16 yr un mor hawdd, hygyrch a hysbys â'n hastudiaethau academaidd pellach. Yn y gorffennol, ceid derbyniad clir fforddau llwybr ôl-16: byddai rhai myfyrwyr yn mynd yn eu blaen i astudiaethau pellach yn y brifysgol, a'r llwybr arall, yr un mor barchus a buddiol, oedd cwrs galwedigaethol. Rhaid i hyn ddod yn beth arferol unwaith eto.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to Byron Davies for giving way. Does he agree that one of the ways in which we can achieve what he is seeking, which I agree with, is to put more emphasis on higher skills on the vocational side, so that the apprenticeship route is not seen as being in some way inferior to the degree route, and that skills are built up over a longer period. An emphasis on higher skills may enrich the experience of those people.

Rwy'n ddiolchgar i Byron Davies am ildio. A yw'n cytuno mai un o'r ffyrdd y gallwn gyflawni'r hyn y mae'n ei geisio, y cytunaf â hynny, yw rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau uwch ar yr ochr alwedigaethol, fel nad yw'r llwybr prentisiaeth yn cael ei weld yn israddol rywsut neu'i gilydd o'i gymharu â'r llwybr gradd a bod sgiliau yn cael eu meithrin dros gyfnod hwy. Efallai y bydd pwyslais ar sgiliau uwch yn cyfoethogi profiad y bobl hynny.

**Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I totally accept that point, and I believe that that should be started at an early age in school.

Derbyniaf yn llwyr y pwynt hwnnw, a chredaf y dylid dechrau ar hynny yn gynnar yn yr ysgol.

The Pathways to Apprenticeships programme needs to become a mainstream programme. I am therefore disappointed that you did not accept this recommendation.

Mae angen i'r rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau ddod yn rhaglen brif ffrwd. Felly rwy'n siomedig na dderbyniwyd yr argymhelliad hwn.

To re-emphasise my first point, we must ensure that businesses large and small across Wales buy into and have a sense of ownership of this scheme. They must be included from start to finish, and I would go further by suggesting that the private sector must lead the strategy and that the Welsh Government should follow with support and funding. I know that there are many first-class apprenticeship programmes across Wales in large-scale and small businesses. I recently visited Airbus in Broughton and saw at first-hand the length that the company goes to to make the experience meaningful. Indeed, that experience, in most cases, leads to employment.

Er mwyn ailbwysleisio fy mhwynt cyntaf, rhaid inni sicrhau bod busnesau mawr a bach ledled Cymru yn cefnogi'r cynllun hwn ac yn teimlo eu bod yn berchen arno. Rhaid iddynt gael eu cynnwys o'r dechrau i'r diwedd, a byddwn yn mynd ymhellach drwy awgrymu bod yn rhaid i'r sector preifat arwain y strategaeth ac y dylai Llywodraeth Cymru ddilyn gyda chymorth a chyllid. Gwn fod llawer o raglenni prentisiaeth o'r radd flaenaf ledled Cymru mewn busnesau mawr a bach. Yn ddiweddar, ymwelais ag Airbus ym Mrychdyn, a gweld dros fy hun yr ymdrech a wna'r cwmni i wneud y profiad yn ystyrlon. Yn wir, mae'r profiad hwnnw, yn y rhan fwyaf o achosion, yn arwain at gyflogaeth.

Meeting the apprentices giving evidence to the committee and on-site in Airbus showed the willingness and enthusiasm of our younger generations. They are able and eager to contribute to our society—they just need those opportunities. I was really impressed by how articulate these young people were when they came to give evidence.

O gyfarfod â'r prentisiaid a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor ac ar y safle yn Airbus gwelais barodrwydd a brwdfrydedd ein to ifanc. Maent yn awyddus i gyfrannu at ein cymdeithas-ond iddynt gael y cyfleoedd i wneud hynny. Gwnaeth huodled y bobl ifanc hyn pan ddaethant i roi tystiolaeth argraff fawr arnaf.

I would sound a note of caution to your response to the report, where you said that the Welsh Government could

Byddwn yn rhoi ychydig o rybudd ynghylch eich ymateb i'r adroddiad, lle y dywedasoch y gallai Llywodraeth Cymru

'Develop and implement an engaging marketing and communications strategy, which raises awareness and participation in apprenticeships, with a particular focus on small to medium-sized companies.'

'Datblygu a gweithredu strategaeth cysylltu, marchnata a chyfathrebu sy'n cynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogaeth mewn prentisiaethau, gyda ffocws penodol ar gwmnïau bach a chanolig eu maint.'

While it is perhaps hard to disagree with that sentence, because it could have come straight from the mouth of Sir Humphrey himself, we must see action and real engagement with the private sector. It must have real ownership of the programme, and I want to see evidence that SMEs are at the core of policy development and implementation. Therefore, the Welsh Government must play more of a supporting and constructive role with our private sector across Wales.

Er ei bod yn anodd anghytuno â'r frawddeg honno o bosibl, oherwydd gallai fod wedi dod yn syth o enau Syr Humphrey ei hun, rhaid inni weld camau gweithredu ac ymgysylltu gwirioneddol â'r sector preifat. Rhaid iddo gael ymchredogaeth wirioneddol o'r rhaglen, ac rwyf am weld tystiolaeth bod busnesau bach a chanolig wrth wraidd y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi. Felly, rhaid i Lywodraeth Cymru chwarae rôl fwy cefnogol ac adeiladol gyda'n sector preifat ledled Cymru.

Thank you for the opportunity to contribute, and, as a member of the committee, I commend this report to the Chamber.

Diolch ichi am y cyfle i gyfrannu, ac, fel aelod o'r pwyllgor, cymeradwyaf yr adroddiad hwn i'r Siambr.



Rwyf innau hefyd yn falch o gael cyfle i gyfrannu fel aelod o'r pwyllgor, ac rwyf innau am ddiolch i'r tystion a'r tîm cymorth a wnaeth waith mor ardderchog yn dod â'r adroddiad hwn at ei gilydd.

Mae'r cefndir i'r adroddiad hwn yn un difrifol iawn, gyda diweithdra uchel iawn ymhlith pobl ifanc—yr uchaf ers cenedlaethau. Mae'r adroddiad hwn yn gyfraniad tuag at geisio mynd i'r afael â'r broblem honno. Mae'r cytundeb a wnaethpwyd rhwng Plaid Cymru a'r Llywodraeth ar y gyllideb, sy'n rhoi arian ychwanegol o £20 miliwn ar gyfer prentisiaethau, yn gam cadarnhaol a fydd yn ein galluogi, efallai, i weithredu rhai o'r argymhellion a wnaeth a'r pwyllgor ac a dderbyniwyd gan y Llywodraeth.

Mae Cadeirydd y pwyllgor, ac rwy'n credu bod Simon Thomas ac eraill wedi tanlinellu hyn, wedi rhoi ei fys ar un mater a ddaeth allan dro ar ôl tro, sef statws prentisiaethau a'r angen i godi eu proffil ar bob lefel, wrth inni symud at fodel sydd efallai yn nes at yr un y bu'r Almaen mor llwyddiannus yn ei weithredu ar hyd y blynyddoedd, sydd wedi cadw'r ochr ymarferol ochr yn ochr â'r ochr academaidd. Dylem felly roi cyfle i bobl ifanc weld prentisiaethau fel dewis go iawn, hyd yn oed i'r rhai mwyaf galluog. Yn fy rhan i o Gymru, yn y gogledd-orllewin, roedd prentis y flwyddyn y llynedd yn ferch, ac roedd ganddi dair lefel A gradd A mewn prentisiaeth ddylunio. Mae hynny yn dangos i chi efallai bod y rhod yn troi a bod merched yn gweld prentisiaethau fel y ffordd ymlaen.

Yn sicr, credaf mai un o'r pethau allweddol yw sicrhau bod cwmnïau bach a mawr yn gallu cymryd prentisiaid ymlaen. Mae'r cwmnïau bach iawn yn aml yn ei weld fel baich trwm, heb sicrwydd bod manteision iddynt. Felly, credaf fod angen i'r Llywodraeth weithredu cynllun sy'n sicrhau bod cwmnïau bychan yn cael help i gymryd prentisiaid ymlaen, efallai am y tro cyntaf. Mae Twf Swyddi Cymru wedi bod yn llwyddiant, ond nid oes amod i gyflogwr symud yr unigolyn ymlaen o fod yn brentis a datblygu ei sgiliau yn y tymor hir. Felly, mae angen anogaeth mewn rhyw ffurf ar y cwmnïau hynny.

Mynegwyd pryder gan dystion nad oes gan ddisgyblion, yn aml, y wybodaeth gywir ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch a yw prentisiaeth yn ffordd ymlaen neu beidio. Mae'r wasgfa ar y cwmni gyrfa efallai yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Felly, mae angen ymgyrch farchnata a hyrwyddo ac mae'n rhaid i honno fod wedi'i thargedu'n ofalus ac yn gywrain iawn. Fy mhrofiad gyda fy mhlant i oedd nad oedd fawr ddim gwybodaeth nac arweiniad i'w gael ar eu cyfer. Mae darparwyr yn gwneud hyn ar raddfa fach yn barod, ond digon aneffeithiol yw hynny, yn ôl y dystiolaeth a gawsom.

Er fy mod wedi cyfeirio at bobl ifanc, mae'n bwysig nad ydym yn cyfyngu prentisiaethau, neu'r cymorth sydd ar gael ar gyfer prentisiaethau, i bobl sydd o dan 24 oed. Mae cyfleoedd i bobl symud eu gyrfa brentisiaethol ymlaen ar ôl yr oedran hwnnw yn eithriadol o bwysig. Mae hynny yn fwyfwy gywir mewn ardaloedd gwledig, ond efallai ei fod yn wir yn yr ardaloedd trefol hefyd.

I am very pleased to have the opportunity to contribute as a member of the committee, and I would also wish to thank the witnesses and the support team which did such excellent work in bringing this report forward.

The background to this report is a very serious one, with exceptionally high unemployment among young people—the highest for generations. This report is certainly a contribution towards addressing that problem. The agreement made between Plaid Cymru-The Party of Wales and the Government on the budget, which gives additional funding of £20 million for apprenticeships, is certainly a positive step that will, possibly, enable us to implement some of the recommendations that the committee has made and that the Government has accepted.

The committee Chair, and I believe that Simon Thomas and others have underscored this, has put his finger on one issue that came up time and again, namely the status of apprenticeships and the need to raise their profile on every level as we move towards a model that may be closer to the German model, which has been implemented in Germany for a number of years, and which has kept the practical side hand in glove with the academic side. We should give young people the opportunity to view apprenticeships as a real choice, even for the most able. In my part of Wales, in the north-west, the apprentice of the year last year was a woman, and she had three A-levels at grade A in design. That shows you that the tables are turning and that women are also seeing apprenticeships as the way forward.

I believe that one of the key factors is to ensure that large and small companies are able to take on apprentices. Small companies very often see it as a heavy burden, without any guarantee of any advantages for them. Therefore, I believe that it is time for the Government to implement a scheme that ensures that small companies can see that this is a way of assisting small companies to take on apprentices, very often for the first time. Jobs Growth Wales has been a success but there is no way of ensuring that apprentices are kept on and that their skills are developed in the long term. Therefore, we need some kind of encouragement in some form for those companies.

There was concern expressed by witnesses that pupils very often do not have the right information to make the decision about whether an apprenticeship would be the way forward or not. The squeeze on the careers company is perhaps also making it worse. Therefore, there is a need for a marketing and a promotion campaign, which will need to be finely focused. In my experience with my children, there was very little information or guidance available for them. Providers are doing this on a small scale already, but that it is quite ineffective, according to the evidence that we received.

Although I have referred to young people, it is important that we do not restrict apprenticeships, or the support that is available for apprenticeships, to people under the age of 24. It is possible for people to move on in their apprenticeship careers post-24, and that is exceptionally important. That is exceptionally true in rural areas, but it might be true in the urban areas too.

Felly dyna rai o'r pwyntiau sydd yn yr adroddiad, ac maent yn dod o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed a sgysiau yr wyf wedi'u cael gydag ymarferwyr yn y maes. Nid yw cynyddu nifer y prentisiaethau ynddo'i hun yn ddigonol; mae natur ac ansawdd y prentisiaethau yn bwysig. Mae'n ddigon hawdd ichi ehangu nifer y prentisiaid drwy hyfforddi miloedd ar filoedd o bobl i drin gwallt, ond nid wyf yn gwybod faint mwy o siopau trin gwallt y gallwn eu cael yn ein trefi a'n pentrefi yng Nghymru. Felly, mae'n bwysig targedu a cheisio arwain pobl i feysydd lle gallant gael cyflogaeth dda a gyrra lwyddiannus, wrth edrych ymlaen at weddill eu bywydau. Diolch yn fawr am y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth.

Those are some of the points that have cropped up in the report, and they are from the evidence that we have heard and also from conversations that I have had with practitioners in the field. Increasing the number of apprenticeships in itself is not enough; the nature and quality of those apprenticeships is important. It is easy enough to enhance the number of apprenticeships by training thousands of people to become hairdressers, but I do not know how many more hairdressers we can have in our towns and villages in Wales. Therefore, it is important to target and to try to lead people to areas where they can secure good employment and a successful career, while looking forward to the future. Thank you for the opportunity to contribute to the debate.

14:52

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I too would like to welcome this report today and thank the staff of the committee, particularly the outreach team, who did a very important job meeting young people in person and gathering excerpts from interviews where they discussed the issues and the challenges that they had faced. I think that that brought many of the issues around apprenticeships to life for the committee and helped us to understand why young people choose to take up, or not to take up, an apprenticeship.

Looking at the context in which this report is being published, we have seen news today that employment is rising and unemployment is falling—in Wales as across the UK—and figures from the Federation of Small Businesses recently showed that business confidence is higher. However, we still have this stubbornly high problem with young people who have not been able to find education placements. They are not in employment, they are not in training, and they are becoming disengaged from the economic system. They are becoming disengaged from education, and they are losing hope and faith that they will be able to connect with that at some time in the future.

An apprenticeship is a wonderful opportunity for those young people to move forward with their lives and to build a career. However, unfortunately, while it has become clear through our inquiry over the last year that the value of apprenticeships is very high, it has also become clear that there are some significant challenges that we will need to tackle if we want to see those apprenticeships become not only an economic driver, but wonderful opportunities for the individuals involved to grow socially and personally and to develop a better life for themselves and their families.

In terms of the challenges that we face, the complexity of the system is one of the things on which I want to focus. As it was described to us in the inquiry, the complexity is a little like the Paris Métro, it is fine if you know where you want to start from and where you want to go to, but for everyone else, it is almost incomprehensible. I know that the Deputy Minister accepted, when he came to the committee, that that was a challenge that he would like to tackle, and I note that the UK Government is also looking at a review of apprenticeships. I wonder whether there is an opportunity to work together on a streamlining programme to help people to understand what it means to be an apprentice in modern Wales and in modern Britain.

Hoffwn innau hefyd groesawu'r adroddiad hwn heddiw a diolch i staff y pwyllgor, yn enwedig y tîm allgymorth, a wnaeth waith pwysig iawn yn cyfarfod â phobl ifanc yn bersonol a chasglu darnau o gyfweiliadau lle trafodwyd y materion a'r heriau y maent wedi eu hwynebu. Credaf fod hynny wedi dod â llawer o'r materion sy'n ymwneud â phrentisiaethau yn fyw i'r pwyllgor ac wedi ein helpu i ddeall pam mae pobl ifanc yn dewis derbyn, neu beidio â derbyn, brentisiaeth.

O edrych ar gyd-destun cyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym wedi cael newyddion heddiw bod cyflogaeth yn codi a bod diweithdra yn gostwng-yng Nghymru a ledled y DU—a dangosodd ffigurau gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yn ddiweddar fod hyder busnes yn uwch. Fodd bynnag, erys problem fawr o hyd o ran pobl ifanc nad ydynt wedi gallu dod o hyd i leoliadau addysg. Nid ydynt mewn cyflogaeth, nid ydynt mewn hyfforddiant, ac maent yn dechrau ymddieithrio oddi wrth y system economaidd. Maent yn dechrau ymddieithrio oddi wrth addysg, ac yn colli gobaith a ffydd y byddant yn gallu cysylltu â hi rywbryd yn y dyfodol.

Mae prentisiaeth yn gyfle gwych i'r bobl ifanc hynny symud ymlaen â'u bywydau a datblygu gyrra. Fodd bynnag, yn anffodus, er iddi ddod yn amlwg drwy ein hymchwiliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fod gwerth prentisiaethau yn uchel iawn, daeth yn amlwg hefyd fod rhai heriau sylweddol y bydd angen inni fynd i'r afael â hwy os ydym am weld y prentisiaethau modern hynny nid yn unig yn dod yn sbardun economaidd, ond yn gyfleoedd gwych i'r unigolion dan sylw dyfu yn gymdeithasol ac yn bersonol a datblygu gwell bywyd iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd.

O ran yr heriau a wynebwn, cymhlethdod y system yw un o'r pethau yr wyf am ganolbwyntio arno. Fel y'i disgrifwyd yn yr ymchwiliad, mae'r cymhlethdod ychydig fel Métro Paris, mae'n iawn os ydych yn gwybod o ble yr hoffech ddechrau ac i ble yr hoffech fynd, ond i bawb arall, mae bron yn annealladwy. Gwn i'r Dirprwy Weinidog dderbyn, pan ddaeth i'r pwyllgor, fod hynny'n her yr hoffai fynd i'r afael â hi, a nodaf fod Llywodraeth y DU hefyd yn edrych ar adolygiad o brentisiaethau. Tybed a oes cyfle i gydweithio ar raglen symleiddio er mwyn helpu pobl i ddeall yr hyn y mae bod yn brentis yn y Gymru fodern ac ym Mhrydain fodern yn ei olygu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The lack-of-esteem issue has been mentioned, and it became very clear that that was a challenge in terms of young people. There are also some practical issues with that, namely a lack of knowledge and of independent advice. Teachers at secondary schools are able to provide young people with good-quality, experienced advice about how to do A-levels and then progress to university, because that is the route that the vast majority of them progressed through to get into a good career. In our school system, unfortunately, we have a lack of independent advice to help young people through a process in which they will go from school to an apprenticeship to a meaningful career. We need to think about how we will tackle that, because if it is the perception of the advisers to young people that apprenticeships are another option rather than a strong, viable first choice, then that immediate preconception will trickle down to the young people involved and to their parents and, basically, it will be impossible for us to change this culture and to turn around this lack of esteem and these poor perceptions that people have.

Another challenge that we need to look at is the inequalities within the system. There is inequality in the availability of apprenticeships between rural and urban areas—the availability of apprenticeships is very patchy—and there is also inequality in terms of the opportunities that are sold to men and those that are sold to women. We really need to challenge that. As to how we go about that—

Cyfeiriwyd at broblem diffyg parch, a daeth yn amlwg iawn fod hynny'n her o ran pobl ifanc. Cyfyd rhai problemau ymarferol hefyd gyda hynny, sef diffyg gwybodaeth a chynngor annibynnol. Gall athrawon mewn ysgolion uwchradd roi cynngor o safon dda ar sail profiad i bobl ifanc yngl?n â sefyll arholiadau Safon Uwch ac yna fynd i'r brifysgol, oherwydd dyna'r llwybr a ddilynodd y mwyafrif helaeth ohonynt tuag at yrfa dda. Yn ein system ysgolion, yn anffodus, mae diffyg cynngor annibynnol i helpu pobl ifanc drwy broses lle maent yn mynd o'r ysgol i brentisiaeth ac wedyn yn dilyn gyrfa ystyrlon. Mae angen inni feddwl yngl?n â sut y byddwn yn mynd i'r afael â hynny, oherwydd, os yw cynghorwyr pobl ifanc yn credu mai dewis amgen yw prentisiaethau yn hytrach na dewis cyntaf cadarn ac ymarferol, yna bydd y rhagdybiaeth honno yn treiddio i feddwl y bobl ifanc dan sylw ac i feddwl eu rhieni ac, yn y bôn, bydd yn amhosibl inni newid y diwylliant hwn ac unioni'r diffyg parch hwn a newid y canfyddiadau gwael sydd gan bobl.

Her arall y mae angen inni ei hystyried yw'r anghydraddoldebau o fewn y system. Ceir anghydraddoldeb o ran y prentisiaethau sydd ar gael rhwng ardaloedd gwledig a threfol-mae argaeledd prentisiaethau yn anghyson iawn-a hefyd anghydraddoldeb o ran y cyfleoedd sy'n cael eu hyrwyddo i ddynion a'r rhai sy'n cael eu hyrwyddo i ferched. Mae gwir angen herio hynny. O ran sut yr ydym yn bwrw ati i wneud hynny-

14:57

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is about people's perception of their opportunities that is the problem. We need to get them to understand that there are wider opportunities available to them; they have a narrow perception of their opportunities.

Canfyddiad pobl o'u cyfleoedd yw'r broblem. Mae angen inni eu cael i ddeall bod cyfleoedd ehangach ar gael iddynt; mae ganddynt amgyffrediad cul o'u cyfleoedd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:57

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course; I take your point on board. One of the ideas that I would like to investigate is how we can improve the way that those opportunities are presented to young people. I note that the Deputy Minister launched a new website for apprenticeship matching in the autumn. I hope that he will update us on that today. However, there is also an opportunity to work in a similar way to universities, with schools liaison programmes working with young people in a much more integrated fashion to support them through their career choices and to give them an equality of advice between the two different routes that they could potentially choose.

Wrth gwrs; derbynaf eich pwynt. Un o'r syniadau yr hoffwn ymchwilio iddo yw sut y gallwn wella'r ffordd y cyflwynir y cyfleoedd hynny i bobl ifanc. Nodaf i'r Dirprwy Weinidog lansio gwefan paru prentisiaethau newydd yn yr hydref. Gobeithiaf y bydd yn rhoi'r diweddaraf inni ar hynny heddiw. Fodd bynnag, mae cyfle hefyd i weithio mewn ffordd debyg i brifysgolion, gyda rhaglenni cyswllt ysgolion sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn ffordd lawer mwy integredig i'w helpu i ddewis gyrfa a rhoi iddynt gyngor cydradd rhwng y ddau lwybr gwahanol y gallent o bosibl eu dewis.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I definitely welcome this report, but I also welcome the Welsh Government's commitment to apprenticeships by making it a flagship policy, which I applaud. Schemes like the Young Recruits programme are having a real-world impact and are encouraging employers to recruit more apprentices. However, I would like to concentrate my contribution to the debate on smaller businesses. In Mid and West Wales, we are mostly talking about small and medium-sized enterprises, and the challenge is to tailor the system so that it is attractive and accessible to smaller employers as well as to the traditional large employers. A number of witnesses described the cautious attitude of SMEs and, understandably, it is an extra commitment to take on apprentices at a time when financial pressures are uppermost in people's thoughts.

Therefore, the challenge here has to be to sell the product. More than once, the committee heard how apprenticeships, when they are successful, are win-win or win-win-win: good for the business that employs apprentices, which is good for the economy, and good for the apprentices themselves. Other Members have mentioned that today. We have heard that between 80% and 90% of businesses that have run apprenticeships tick the boxes marked 'more satisfied workforce', 'better skilled workforce' and 'more productive workforce' as an outcome. That is a powerful message, and we would certainly all want to keep the momentum that is gathering behind that.

There are specific issues, however, with services such as the apprenticeship-matching service, which was launched in July 2011. The direct interface between employers and prospective apprentices is a sound one. However, as Careers Wales pointed out, it also has to act as a sort of chaperone, especially with small and medium-sized enterprises. We had evidence about bureaucracy, and confusion over various schemes, criteria and conditions was cited.

However, to stick with the dating metaphor, the big sticking point for SMEs is fear of commitment. As I have said, this is understandable, especially for financial reasons, but there are ways around this, and shared apprenticeships are one such example. I have had a lot of involvement in the Carmarthenshire shared apprenticeship scheme. It is especially useful in the building sector because of the short-term nature of many contracts. The Carmarthenshire scheme currently employs more than 50 apprentices who benefit from learning different skills. Therefore, in working through the recommendations in our report, I ask the Deputy Minister to work with organisations representing SMEs in Wales in order to facilitate collaboration in other sectors.

Croesawaf yr adroddiad hwn yn sicr, ond croesawaf hefyd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i brentisiaethau drwy eu gwneud yn bolisi blaenllaw, a chymeradwyaf hynny. Mae cynlluniau fel y rhaglen Recriwtiaid Ifanc yn cael effaith byd go iawn ac maent yn annog cyflogwyr i recriwtio mwy o brentisiaid. Fodd bynnag, yn fy nghyfraniad, hoffwn ganolbwyntio ar y ddadl ynglŷn â busnesau llai. Yn y canolbarth a'r gorllewin, rydym yn sôn am fentrau bach a chanolig eu maint yn bennaf, a'r her yw teilwra'r system fel ei bod yn ddeniadol ac yn hygyrch i gyflogwyr llai yn ogystal â chyflogwyr mawr traddodiadol. Disgrifiodd nifer o dystion agwedd ofalus busnesau bach a chanolig ac, yn ddealladwy, mae derbyn prentisiaid ar adeg pan fo pwysau ariannol ar flaen meddyliau pobl yn ymrwymiad ychwanegol.

Felly, yr her yma, mae'n rhaid, yw'r angen i hyrwyddo hyn. Fwy nag unwaith, clywodd y pwyllgor am y ffordd y mae pawb ar ei ennill pan fo prentisiaethau yn llwyddiannus: mae'n fuddiol i'r busnes sy'n cyflogi prentisiaid, sy'n fuddiol i'r economi, ac yn fuddiol i'r prentisiaid eu hunain. Soniodd Aelodau eraill am hynny heddiw. Clywsom fod rhwng 80% a 90% o fusnesau sydd wedi cynnal prentisiaethau yn ticio'r blychau ar gyfer 'gweithlu mwy bodlon', 'gweithlu mwy medrus a 'gweithlu mwy cynhyrchiol' o ganlyniad. Mae honno yn neges rymus, a byddem i gyd yn sicr am gadw'r momentwm sy'n cronni y tu ôl i hynny.

Fodd bynnag, cyfyd problemau penodol gyda gwasanaethau fel y gwasanaeth paru prentisiaethau, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2011. Mae'r rhyngwyneb uniongyrchol rhwng cyflogwyr a darpar brentisiaid yn un cadarn. Fodd bynnag, fel y nododd Gyrfa Cymru, mae hefyd wedi gweithredu fel rhyw fath o warchodwr, yn enwedig gyda busnesau bach a chanolig eu maint. Cawsom dystiolaeth am fiwrocratiaeth, a nodwyd dryswch ynghylch gwahanol gynlluniau, meini prawf ac amodau.

Fodd bynnag, os caf gadw at y trosiad o gael oed, y broblem fawr o hyd i fusnesau bach a chanolig yw ofn ymrwymo. Fel y soniais, mae hyn yn ddealladwy, yn enwedig am resymau ariannol, ond mae ffyrdd o oresgyn hyn, ac mae prentisiaethau ar y cyd yn un enghraifft o'r fath. Rwyf wedi cael tipyn o ymwneud â'r cynllun rhannu prentisiaethau yn sir Gaerfyrddin. Mae'n arbennig o ddefnyddiol yn y sector adeiladu oherwydd natur fyrdymor llawer o gontractau. Ar hyn o bryd mae cynllun sir Gaerfyrddin yn cyflogi dros 50 o brentisiaid sy'n cael budd o ddysgu sgiliau gwahanol. Felly, wrth weithredu ar yr argymhellion yn ein hadroddiad, gofynnaf i'r Dirprwy Weinidog weithio gyda sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau bach a chanolig yng Nghymru er mwyn hwyluso cydweithio mewn sectorau eraill.

Hoffwn innau hefyd groesawu adroddiad y pwyllgor yn gynnes iawn. Daeth yr adroddiad hwn ar adeg gyfleus iawn, fel y mae Alun Ffred Jones eisoes wedi sôn. Pan oeddem yn cynnal trafodaethau â'r Llywodraeth am yr arian a oedd i fynd tuag at brentisiaethau, roedd yr adroddiad yn dipyn o gymorth inni. Rhoddodd gyfle inni ystyried y llyfudd priodol i roi'r arian ychwanegol a fydd yn mynd i brentisiaethau o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Rwy'n diolch hefyd i'r pwyllgor am dynnu sylw at rai o'r problemau a'r rhwystrau sy'n golygu ar hyn o bryd nad yw rhai pobl ifanc a phobl hŷn yn manteisio ar gynlluniau prentisiaeth.

Hoffwn gymryd y cyfle heddiw i ddangos maint y sialens sy'n wynebu ein cymunedau yng Nghymru yn sgîl methiannau sy'n ymwneud â sgiliau sylfaenol pobl. Bydd prentisiaethau, wrth gwrs, yn chwarae rhan yn y broses o ateb rhai o'r problemau hynny. Rydym yn gwybod beth yw effaith economaidd diffyg sgiliau sylfaenol; mae'r effaith honno'n eithaf amlwg. Serch hynny, mae problemau ehangach yn bodoli hefyd, fel y problemau cymdeithasol y mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yn eu hwynebu. Mae ystadegau a gyhoeddwyd yn gymharol ddiweddar yn dangos nad oes gan oddeutu 12% o oedolion sgiliau sylfaenol llythrennedd, ac yn dangos bod gan 51% o oedolion broblemau o ran sgiliau rhifedd. Mae'r ffigur hwnnw'n rhyfeddol o uchel. Mae Eluned Parrott wedi cyfeirio at rai o'r problemau y mae rhai pobl ifanc yn eu wynebu wrth geisio cael sgiliau, ac, yn hyn o beth, mae'r ffigurau yn waeth. Mae gan 20% o bobl ifanc ddiffyg o ran sgiliau sylfaenol llythrennedd, ac mae gan 60% ohonynt ddiffyg o ran sgiliau sylfaenol rhifedd. Felly, mae gennym 0.25 miliwn o bobl sydd o oed gweithio ond nad ydynt yn meddu ar sgiliau sylfaenol llythrennedd, ac mae gennym bron filiwn o bobl sydd â phroblemau rhifedd. Yn gyffredinol, mae'r ffigurau yng Nghymru yn uwch nag y maent yn Lloegr, yn yr Alban ac yn y Deyrnas Unedig. Mae dros chwarter o gyflogwyr yn dweud bod bwlbwch sgiliau yn y gweithle, ac mae cysylltiad amlwg rhwng y sefyllfa honno ac anweithgarwch economaidd. Rydym i gyd yn cydnabod y ffaiht fod lefelau diweithdra yn dod i lawr, ond mae Cymru'n dioddef o broblemau sy'n ymwneud ag anweithgarwch economaidd yn ddirifol iawn. Mae pocedi lle mae'r ffigurau hyn yn aruthrol o uchel, ac mae'r rhain nid yn unig yn rhai o Gymoedd y de ond yn rhai o'n hardaloedd gwledig hefyd. Felly, mae'r sialens yn un aruthrol.

Meddyliwch am effaith gymdeithasol y sefyllfa hon. Er enghraifft, mae 80% o'r bobl sydd yn ein carchardai â lefelau rhifedd, darllen a llythrennedd sy'n is na'r rhai a ddisgwylir gan blentyn 11 oed yn mynd i'r ysgol uwchradd. Felly, mae diffyg sgiliau sylfaenol yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd pobl. Mae pobl nad oes ganddynt sgiliau sylfaenol yn fwy tebygol o ddioddef digartrefedd; felly mae effeithiau cymdeithasol dirifol yn y maes hwn.

I, too, would like to warmly welcome the committee's report. It came at a very apt time, as Alun Ffred Jones has mentioned. During our negotiations with the Government on funding for apprenticeships, the report was of considerable assistance to us. It gave us the opportunity to consider where would be appropriate to target the funding going to apprenticeships from next year onwards. I am grateful to the committee for highlighting some of the problems and barriers that currently prevent some young people, and older people, from following apprenticeships.

I would like to take the opportunity today to demonstrate the scale of the challenge faced by our communities in Wales as a result of deficiencies in terms of people's basic skills. Apprenticeships will, of course, play a part in addressing some of those deficiencies. We know what the economic impact of a lack of basic skills is; that impact is quite apparent. However, there are wider problems too, such as the social issues faced by individuals, families and communities. Statistics published relatively recently demonstrate that somewhere in the region of 12% of adults lack basic literacy skills, and that 51% of adults have numeracy problems. That figure is staggeringly high. Eluned Parrott referred to some of the problems that some young people face in trying to gain skills and, in this respect, the figures are even worse. Some 20% of young people lack basic literacy skills, and 60% lack basic numeracy skills. Therefore, we have 0.25 million people of a working age who do not have basic literacy skills and we have almost a million people of working age who have numeracy problems. Generally speaking, these figures are higher in Wales than they are in England, in Scotland and in the United Kingdom as a whole. More than a quarter of employers state that there is a skill gap in the workplace, and there is a clear link between that position and economic inactivity. We all recognise the fact that unemployment levels are falling, but Wales is suffering serious problems related to economic inactivity. There are pockets where the figures are staggeringly high, and these are not only in some of the south Wales Valleys but in some of our rural areas. Therefore, the challenge is immense.

Think about the social impact of this situation. For example, 80% of the people in our prisons have numeracy, reading and literacy levels that are lower than those expected of an 11-year-old child entering secondary school. Therefore, a lack of basic skills has a detrimental effect on people's life chances. People who do not have basic skills are more likely to suffer homelessness; therefore, there are serious social impacts in this area.

Felly, dyma yw maint y sialens a wynebwn. Roedd Simon Thomas yn cyfeirio at yr angen i gael sgiliau uwch sy'n cyfateb i gymhwyster prifysgol, ac mae hynny'n gwbl angenrheidiol. Mae'n rhaid inni godi gwerth yn yr economi, gan wneud hynny heb anghofio'r sgiliau y mae eu hangen ar y lefelau isaf hefyd. Rwy'n derbyn nad mater tymor byr yw hwn. Nid yw'n fater o daflu ceiniog neu ddwy rŵan ac yn y man; mae angen strategaeth tymor hir. Rwy'n gwybod bod y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol o hynny, ac rwy'n siŵr ei fod yn gweithio gyda'i swyddogion i geisio goresgyn rhai o'r problemau hynny. Rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn symleiddio'r broses i ddechrau, ac yn wynebu'r sialens o gynnal trafodaethau gyda'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn meddu ar y sgiliau. Mae pobl weithiau'n anffodlon cydnabod nad oes ganddynt y sgiliau sylfaenol hynny. Mae cael mynediad i drafod y broblem gyda hwy yn hanfodol.

Mae amser wedi ein curo ni yma heddiw, ond rwy'n gobeithio inni gael cyfle o leiaf i gydnabod bod pobl Cymru yn wynebu problem fawr ar fater sgiliau sylfaenol.

So, that is the scale of the challenge we face. Simon Thomas made reference to the need for higher level skills corresponding to a university qualification, which is entirely necessary. We must add value in our economy, yet we must not forget the skills that are required at the very lowest levels. I accept that this is not a short-term issue. It is not a matter of throwing a few pounds here and there; we need a long-term strategy to address this. I know that the Deputy Minister is very much aware of that, and I am sure that he is working with his officials to try to overcome some of those problems. I hope that the Government will simplify the process, initially, and face the challenge of getting into discussions with those young people who do not currently have the skills. There is an unwillingness, at times, in people to acknowledge that they do not have those basic skills. Getting access to discuss the problem with those people is crucial.

Time is against us here today, but I hope that we have had the opportunity at least to acknowledge that the people of Wales face a major problem on the issue of basic skills.

15:06

### Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf am ddiolch i'r tystion ac i'r staff am eu gwaith. Roedd hi'n hyfryd bod yn rhan o'r pwyllgor wrth drafod prentisiaethau. Rwyf wedi treulio fy mywyd proffesiynol ym myd addysg, a dyna paham rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma. Mae prentisiaethau'r un mor bwysig â chyrsgiau academaidd. Mae'r geiriau 'apprenticeships' ac 'academic' yn dechrau gyda'r llythyren 'a', ac mae iddynt werth economaidd ac academaidd. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn ystyried prentisiaethau fel prosiect blaenllaw ac yn cynnig sawl rhaglen i'w dechrau, eu hannog a'u cynorthwyo. I gymryd trywydd ychydig yn wahanol, un o'r rhesymau blaengar y tu ôl i gynnig bagloriaeth Cymru yn y lle cyntaf oedd paratoi sgiliau ar gyfer y gweithle. Mae hyn yn dangos y pwys a roddir ar gymwysterau yng Nghymru, o'i chymharu â Lloegr, lle mae Michael Gove heddiw wedi cadarnhau newidiadau i gymhwyster Safon Uwch. Cawn weld beth fydd yn digwydd yng Nghymru. Rwyf hefyd yn falch bod rhaglenni prentisiaeth i bobl o bob oed yn cael eu cynnig, sydd nid yn unig yn canolbwyntio ar yr ifanc di-waith, ond pobl sydd am ailhyfforddi. Rwy'n credu i Alun Ffred sôn am hynny yn gynharach.

Y llynedd, pwyleisiodd Ed Miliband yr angen i weld prentisiaethau fel cymwysterau o'r safon uchaf sy'n ennyn parch pawb. Cytunaf yn llwyr. Adroddwyd yn 'The Sunday Times' yr haf diwethaf fod mwy o gystadleuaeth i ennill lle yn BT nag ym mhrifysgol Rhydychen. Derbyniodd BT 18,000 o geisiadau am 500 o brentisiaethau, tra derbyniodd Rhydychen 17,000 o geisiadau am 3,000 o leoedd. Croesawaf y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad 13 er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyngor am gyfleoedd prentisiaeth cyn dewis eu hopsiynau TGAU. Mae'n hanfodol i'r economi ein bod yn sefydlu balans rhwng sgiliau a chymwysterau academaidd. Mae hyn hefyd yn dilyn argymhelliad 7, sydd wedi'i dderbyn ac sy'n dweud y dylem dargedu cyllid at brentisiaethau ar lefel uwch.

I thank the witnesses and staff for their work. It was wonderful to be part of the committee discussing apprenticeships. I spent my professional life in the world of education, which is why I am pleased to contribute to the debate this afternoon. Apprenticeships are as important as academic courses. If you think of the words 'apprenticeships' and 'academic', you will find that both words begin with the letter 'a', and both have economic and academic value. I am pleased that the Welsh Government is considering apprenticeships as a prominent project and is offering several programmes to initiate, encourage and assist them. To take a slightly different line, however, one of the innovative reasons behind proposing the Welsh baccalaureate in the first place was to offer workplace skills. This demonstrates the importance that we attach to qualifications in Wales, compared with England, where Michael Gove has today confirmed changes to A-level. We will see what will happen in Wales. I am also pleased that apprenticeship programmes for people of all ages are being offered, which focuses not only on the young unemployed, but on people who wish to retrain. I think that Alun Ffred mentioned that earlier.

Last year, Ed Miliband stressed the importance of having apprenticeships as qualifications of the highest standard that are respected by all. I completely agree. It was reported in 'The Sunday Times' last summer that there was greater competition to get a place in BT than at an Oxford university. BT received 18,000 applications for 500 apprenticeship placements, while Oxford received 17,000 applications for 3,000 placements. I also welcome the fact that the Welsh Government has accepted recommendation 13 to ensure that young people can be provided with advice on apprenticeship opportunities before deciding on their GCSE options. It is crucial to the economy that we maintain a balance between skills and academic qualifications. This also follows the acceptance of recommendation 7, which states that we should target funding at higher level apprenticeships.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rwy'n croesawu'r ffaith bod fframwaith drafft ar gyfer prentisiaethau uwch yn bodoli ers 2011. Dywedodd Airbus yn ei dystiolaeth fod y cwmni yn cadw prentisiaid yn hirach na'i fod yn cadw graddedigion. Ychwanegodd fod yn rhaid i'r cwmni sicrhau ei fod yn cael y bobl sydd â'r sgiliau y mae eu hangen arno fel busnes fel y gall barhau i ddatblygu. Dywedodd pe na bai'r cwmni yn hyfforddi pobl, ni fyddai neb arall yn gwneud. Wrth inni drafod gyda'r ddau grwt ifanc o Airbus a ddaeth i'n gweld ni fel pwyllgor, clywsom fod y ddau wedi penderfynu, ar ôl cael graddau Safon Uwch da, eu bod am fynd i weithio i Airbus. Peth da iawn, yr oeddwn i'n ei feddwl, gan fod Airbus yn talu iddynt fynd i'r brifysgol, a hwythau'n ennill £20,000 y flwyddyn gydag Airbus.

Un peth arall yr oeddem yn hapus i glywed amdano oedd rhaglen rhannu prentisiaethau yn sir Gâr. Buom yn sôn am fusesau bach. Wel, mae 'Constructing Carmarthenshire Together', sydd wedi bod yn rhedeg er 2008, yn cynnwys Coleg Sir Gâr, Cyngor Sir Gâr a busnesau bach yn yr ardal. Daw cwmnïau lleol a rhanbarthol na all gynnig prentisiaethau fel arall at ei gilydd i gydweithio â'r awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gynnig prentisiaethau. Rwyf wedi siarad â hwy o'r blaen, gan ddysgu mai hwn yw'r cynllun cyntaf yng Nghymru i rannu prentisiaid ymysg cyflogwyr. Mae'r prentisiaid yn gweithio ar brosiectau megis datblygiad East Gate yn Llanelli a rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Prentisiaid crefft ydynt: chwe gosodwr brics, 19 saer, 11 trydanwr, tri phlastrwr a 14 plymwr. Adeiladwyd tai fforddiadwy yn Llanelli y llynedd gan y cwmni adeiladu lleol Tycroes Group Ltd, a fu'n cyflogi tri o brentisiaid o dan y rhaglen hon a'u rhannu gyda chwmni arall. Credaf ei bod yn bwysig, o gael y busnesau bach hyn, fod busnesau bach yn gweithio gyda'i gilydd.

Yn ôl ein hadroddiad, o blith y rheini sy'n dilyn prentisiaeth, mae 44% yn fenywod a 56% yn ddynion.

I also welcome the fact that a draft framework for higher apprenticeships has been in place since 2011. Airbus stated in its evidence that it retains apprentices for far longer than it retains graduates. It added that it needs to ensure that it has people who have the skills that it needs as a business so that it can continue to develop. It said that if it did not train people, then no-one else would. When we had discussions with the two young boys from Airbus who came to the committee, they told us that both had decided, after getting good grades at A-level, that they wanted to go to work for Airbus. I thought that this was a very good thing, because Airbus sponsored them through university, while earning £20,000 a year with Airbus.

We were also pleased to hear about the apprenticeship sharing scheme in Carmarthenshire. We have already heard about small businesses. Well, 'Constructing Carmarthenshire Together', which has been running since 2008, includes Coleg Sir Gâr, Carmarthenshire County Council and small businesses in the area. Local and regional companies that could not on their own offer apprenticeships come together in collaboration with the local authority and other partners to offer apprenticeships. I have spoken to them before and know therefore that this is the first scheme in Wales where apprentices are shared between employers. The apprentices will be working on projects such as the East Gate development in Llanelli and the twenty-first century schools programme. They are trade apprentices: six bricklayers, 19 carpenters, 11 electricians, three plasterers and 14 plumbers. Affordable houses were built in Llanelli last year by local construction company Tycroes Group Ltd, which employed three apprentices under this programme through sharing them with another company. It is important that in getting these small companies on board, they should work together.

As outlined in our report, of those who take on apprenticeships, 44% are women and 56% are men.

- 15:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Order. Will you wind up, please? Trefn. A wnech chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?
- 15:11 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Dengys y ffigurau manwl ar gyfer y rhai a gychwynnodd brentisiaeth yn 2009-10 yr hyn a wyddom yn barod, sef bod sawl maes yn cynnwys nifer — The detailed figures outlining the number who took on an apprenticeship in 2009-10 tell us what we know already, which is that several areas have a number-
- 15:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
No, you really are out of time now. Sorry about that. I call Ken Skates. Na, mae eich amser ar ben bellach. Mae'n ddrwg gennyf am hynny. Rwy'n galw ar Ken Skates.
- 15:12 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I begin by thanking the clerk, all those who gave evidence and, indeed, the Chair of the committee for his leadership of it. There is tremendous support in the business and academic communities to get this agenda right. I know that, from the perspective of the Minister and the Welsh Government, apprenticeships have been, and continue to be, a flagship programme. Dechreuaf drwy ddiolch i'r clerc, i bawb a roddodd dystiolaeth ac, yn wir, i Gadeirydd y pwyllgor am ei arweiniad. Mae cefnogaeth aruthrol yn y cymunedau busnes ac academiaidd i gael yr agenda hon yn iawn. Gwn, o safbwynt y Gweinidog a Llywodraeth Cymru, fod prentisiaethau wedi bod yn rhaglen flaenllaw a'u bod yn parhau felly.

However, what concerned me most during the inquiry was the decline in the raw numbers of apprenticeships on offer across Wales. The number on modern apprenticeship schemes had fallen by over 3,000 from 2006. The number on foundation modern apprenticeships is down by over 8,000, and the number following modern skills diplomas has fallen by over 700. As David Rees has already outlined, the Federation of Small Businesses Wales told us that only 11% of the small businesses that it represents took on an apprentice in 2010.

One of the stark dilemmas for us is how the Welsh Government can increase the overall number of apprenticeships without diluting the overall quality of what is on offer. This is a particularly important challenge, because key groups are still finding themselves locked out. Alun Ffred Jones rightly identified the success of women in apprenticeship schemes, but Chwarae Teg said in its evidence that, overall,

'the proportion of women completing apprenticeships is in decline.'

While part of this pattern may be due to a very high staff turnover in sectors such as care, which have traditionally been female dominated, it is clear that certain sectors need more assistance in recruiting and retaining apprentices than others.

Employers, particularly small and medium-sized enterprises, need to be convinced of the importance of apprenticeships as part of a strategic approach to planning the medium and long-term skills needs of the economy. What we have suggested, and I think it is a good idea, is that the Welsh Government should publish according to destination sector the number of apprentices who progress into employment at the end of their apprenticeship. In this way, we can monitor effectively those sectors where we know there is a problem. One such way to tackle these problems is in understanding more about the patchwork of firms and the ways in which firms recruit apprentices, to help to share best practice.

Airbus told us that it recruits apprentices by growing its own employees, rather than by bringing in graduates, owing to the fact that it retained apprentices for far longer than it retained graduates. Kronospan, a firm in my constituency, has said that its recruitment policy was not dependent on the economic climate, and that it needed to bring in apprentices through the system at all times. What was impressive about both of these firms was the close relationships that they had developed with feeder schools in their areas, the supply chains and providers in order to match skills requirements. Of course, not all parts of Wales—particularly rural areas—have the benefit of close-at-hand private sector employers like Kronospan or Airbus that are ready to build positive relationships in their communities and take on apprentices. In those areas, the role of the public sector is even more crucial in raising the number of apprentices and providing training opportunities for young people.

Fodd bynnag, yr hyn a achosodd y pryder mwyaf imi yn ystod yr ymchwiliad oedd y lleihad yn nifer y prentisiaethau sydd ar gael ledled Cymru. Mae'r nifer sy'n rhan o gynlluniau prentisiaeth fodern wedi gostwng dros 3,000 ers 2006. Mae'r nifer sy'n rhan o brentisiaethau modern sylfaen wedi gostwng dros 8,000, ac mae'r nifer sy'n dilyn diplomâu mewn sgiliau modern wedi gostwng dros 700. Fel y mae David Rees eisoes wedi'i amlinellu, dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wrthym mai dim ond 11% o'r busnesau bach y mae'n eu cynrychioli a gyflogodd brentis yn 2010.

Un o'r problemau difrifol inni yw sut y gall Llywodraeth Cymru gynyddu cyfanswm y prentisiaethau heb wanhau ansawdd cyffredinol yr hyn sydd ar gael. Mae hon yn her arbennig o bwysig, oherwydd mae grwpiau allweddol yn parhau i gael eu allgáu. Nododd Alun Ffred Jones yn ddigon cywir lwyddiant y merched mewn cynlluniau prentisiaeth, ond dywedodd Chwarae Teg yn ei dystiolaeth, yn gyffredinol,

bod cyfran y merched sy'n cwblhau prentisiaethau yn lleihau.

Er y gall rhan o'r patrwm hwn fod o ganlyniad i drosgiant staff uchel iawn mewn sectorau megis gofal, sydd, yn draddodiadol wedi cyflogi merched yn bennaf, mae'n amlwg bod angen mwy o gymorth ar rai sectorau o ran recriwtio a chadw prentisiaid nag eraill.

Mae angen i gyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig eu maint, fod yn argyhoeddedig o bwysigrwydd prentisiaethau fel rhan o ymagwedd strategol tuag at gynllunio anghenion sgiliau'r economi yn y tymor canolig a'r tymor hir. Yr hyn a awgrymwyd gennym, a chredaf ei fod yn syniad da, yw y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi yn ôl sector cyrchfan nifer y prentisiaid sy'n mynd yn eu blaen i gael gwaith ar ddiwedd eu prentisiaeth. Yn y modd hwn, gallwn fonitro'r sectorau hynny lle y gwyddom fod problem yn effeithiol. Un ffordd o fynd i'r afael â'r problemau hyn yw deall mwy am y clytwaith o gwmnïau a'r ffyrdd y mae cwmnïau yn recriwtio prentisiaid, er mwyn helpu i rannu arfer gorau.

Dywedodd Airbus wrthym ei fod yn recriwtio prentisiaid drwy ddatblygu ei weithwyr ei hun, yn hytrach na thrwy gyflogi graddedigion, am ei fod yn cadw prentisiaid yn llawer hwy nag y mae'n cadw graddedigion. Dywedodd Kronospan, sef cwmni yn fy etholaeth i, nad yw ei bolisi recriwtio yn dibynnu ar yr hinsawdd economaidd, a bod angen iddo ddod â phrentisiaid drwy'r system drwy'r amser. Yr hyn a oedd yn drawiadol am y ddau gwmni hyn oedd y berthynas agos yr oeddent wedi'i datblygu gyda'r ysgolion bwydo yn eu hardaloedd, y cadwyni cyflenwi a'r darparwyr er mwyn cyfateb gofynion sgiliau. Wrth gwrs, nid yw pob rhan o Gymru-yn enwedig ardaloedd gwledig-yn elwa ar gyflogwyr lleol yn y sector preifat fel Kronospan neu Airbus sy'n barod i feithrin perthynas gadarnhaol yn eu cymunedau a derbyn prentisiaid. Yn yr ardaloedd hynny, mae rôl y sector cyhoeddus hyd yn oed yn fwy hollbwysig o ran codi nifer y prentisiaid a rhoi cyfleoedd hyfforddiant i bobl ifanc.



For me, as a north Wales Assembly Member, this really struck a chord. Economic growth in the UK and in Wales should be about more than just a big engine in the south-east driving growth elsewhere. We need to learn from employers with well-established programmes, mentoring schemes and link-ups with small and medium-sized employers to ensure that advice, training provision and opportunities are available in every corner of Wales to drive our regional economies. In particular, the Welsh Government could encourage work-based and apprenticeship training providers to develop closer links with employers and schools to support the development of skills and aid progression into work-based training and employment. Likewise, schools have a huge role to play in promoting apprenticeships as a viable alternative to higher education. The Welsh Government should work in partnership with headteachers to take up the challenge so that 15-year-olds and those aged below 15 are fully informed of their options.

Apprenticeships and the wider skills agenda are an extremely potent tool for stimulating economic development. It is therefore essential that the Government should ensure the provision of a strong supply of skills that matches the demands of a growing Welsh economy. I look forward to seeing this happen.

I mi, fel Aelod Cynulliad dros ogledd Cymru, mae hyn yn wir wedi taro tant. Dylai twf economaidd yn y DU ac yng Nghymru olygu mwy na dim ond peiriant mawr yn neddwyrain Lloegr yn sbarduno twf mewn mannau eraill. Mae angen inni ddysgu gan gyflogwyr sydd â rhaglenni, cynlluniau mentora a threfniadau chysylltu sefydledig â chyflogwyr bach a chanolig eu maint i sicrhau bod cyngor, darpariaeth hyfforddiant a chyfleoedd ar gael ym mhob cwr o Gymru er mwyn ysgogi ein heconomiau rhanbarthol. Yn benodol, gallai Llywodraeth Cymru annog darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith a phrentisiaethau i ddatblygu cysylltiadau agosach â chyflogwyr ac ysgolion er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau a helpu pobl i gael hyfforddiant seiliedig ar waith a chyflogaeth. Yn yr un modd, mae gan ysgolion rôl enfawr i'w chwarae yn y gwaith o hyrwyddo prentisiaethau fel dewis ymarferol angen i addysg uwch. Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â phenaethiaid i ateb yr her fel bod pobl ifanc 15 oed a'r rhai o dan 15 oed yn cael gwybodaeth lawn am eu dewisiadau.

Mae prentisiaethau a'r agenda sgiliau ehangach yn arf hynod rymus i ysgogi datblygiad economaidd. Felly, mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn sicrhau y darper cyflenwad cadarn o sgiliau sy'n cyfateb i ofynion economi Cymru sy'n tyfu. Edrychaf ymlaen at weld hyn yn digwydd.

15:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Skills to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau i siarad ar ran y Llywodraeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:16 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau / The Deputy Minister for Skills*

I will begin by welcoming the Enterprise and Business Committee's report, and thanking the Chair, Members and the officials that were involved in its production. Thank you also to all those who appeared as witnesses to help with the information-gathering process.

Dechreuaf drwy groesawu adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes, a diolch i'r Cadeirydd, yr Aelodau a'r swyddogion a fu'n rhan o'r gwaith o'i baratoi. Hoffwn ddiolch hefyd i bawb a ymddangosodd fel tystion i helpu gyda'r broses o gasglu gwybodaeth.

Having considered the detail and recommendations made in the report, I was pleased to see evidence demonstrating that the apprenticeship programme currently delivered in Wales is already of a very high standard. I have met enough apprentices over the last few years to know that when we say that an apprenticeship place is worth that of a place in university, that is certainly true. That said, good practice encourages us to review our policies regularly to ensure that we are delivering a programme that best reflects the needs of the Welsh economy and improves career opportunities for young people across Wales. A number of Members today have mentioned the issue of the apprentice-matching service and that scheme will be subject to a detailed evaluation to see whether it is effective as it can be and what improvements may need to be made.

Ar ôl ystyried y manylion a'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad, roeddwn yn falch o weld tystiolaeth yn dangos bod y rhaglen brentisiaeth a ddarperir ar hyn o bryd yng Nghymru eisoes o safon uchel iawn. Rwyf wedi cyfarfod â digon o brentisiaid dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i wybod, pan ddywedwn fod lle prentisiaeth yn gyfwerth â lle yn y brifysgol, fod hynny'n sicr yn wir. Wedi dweud hynny, mae arfer da yn ein hannog i adolygu ein polisiau yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn darparu rhaglen sy'n adlewyrchu anghenion economi Cymru orau ac yn gwella cyfleoedd gyrfaol i bobl ifanc ledled Cymru. Mae nifer o Aelodau heddiw wedi sôn am y gwasanaeth paru prentisiaethau a bydd y cynllun yn destun gwerthusiad manwl i weld a yw mor effeithiol ag y gall fod a pha welliannau y gall fod angen eu gwneud.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It was interesting to see that the 20 recommendations made in the committee's report fall into three themes: increasing employer engagement; engaging with young people; and strengthening the delivery mechanisms and the apprenticeship brand. According to the 2012 employer perspectives survey, 12% of all establishments in Wales offer formal apprenticeships. That is a small percentage, but it includes most of the large companies. Nevertheless, it is our aim to increase this existing employer base, and particularly to engage with small and medium-sized businesses. In this, I accept that the shared apprenticeship scheme in particular has a key role to play. In order to do so, we will work with our work-based learning provider network and other key stakeholders to identify perceived barriers to the programme, and consider how we might work to assist businesses to overcome these barriers. That will certainly include taking evidence about how we might simplify the offer. We will work with businesses engaged with the Jobs Growth Wales programme, encouraging them to convert their employment opportunities into apprenticeships. We will also work with Welsh employers, training providers and sector skills councils to increase the number of higher apprenticeship frameworks being delivered, thereby working towards our commitment to increase the average level of qualification held by working-age adults in Wales. It is interesting to note—and the Welsh baccalaureate was referred to particularly by Keith Davies—that we have come across good examples of where the core of the advanced level Welsh baccalaureate is used in the pursuit of engineering apprenticeships in particular. In order to engage more young people with the apprenticeship programme, we aim to strengthen the links between work-based learning providers, schools and employers, thereby maximising apprenticeship opportunities for school leavers.

Points were made about the reduction in the number of starters on apprenticeships, and of course that is true. One of the reasons is the problems of the economy, where there are fewer places available generally as firms tighten their belts, but also, and more importantly, the completion rate has risen dramatically from about 50% a few years ago to over 80%. Clearly, if young people are staying in their apprenticeships longer in order to complete them, which we want them to do, then the number of places available for new starters is bound to fall slightly. While we want to increase the figures, we need to understand why it is happening.

A point was made about working with England, and indeed the other home nations. We certainly want to work with England to maintain a good apprenticeship brand, because we do not want our apprentices to be in any way disadvantaged if they choose to go to work in England. That certainly includes working with the United Kingdom Council for Employment and Skills, for example, on the development of national occupational standards, which of course are the cornerstone of NVQs, and are therefore crucial to the apprenticeship framework.

Bu'n ddi-ddorol gweld bod yr 20 argymhelliaid a wnaed yn adroddiad y pwyllgor yn dod o dan dair thema: mwy o ymgysylltu â chyflogwyr; ymgysylltu â phobl ifanc; a chryfhau'r dulliau cyflwyno a brand prentisiaeth. Yn ôl arolwg 2012 o safbwyntiau cyflogwyr, mae 12% o'r holl sefydliadau yng Nghymru yn cynnig prentisiaethau ffurfiol. Mae honno yn ganran fach, ond mae'n cynnwys y rhan fwyaf o'r cwmnïau mawr. Serch hynny, ein nod yw cynyddu'r sylfaen cyflogwr presennol hon, ac yn arbennig ymgysylltu â busnesau bach a chanolig eu maint. Yn hyn o beth, derbyniaf fod gan y cynllun rhannu prentisiaethau yn arbennig rôl allweddol i'w chwarae. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn gweithio gyda'n rhwydwaith o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith a rhanddeiliaid allweddol eraill i nodi rhwystrau canfyddedig i'r rhaglen, ac ystyried sut y byddem yn mynd ati i helpu busnesau i oresgyn y rhwystrau hyn. Bydd hynny yn sicr o gynnwys cymryd tystiolaeth am sut y gallem symleiddio'r hyn a gynigir. Byddwn yn gweithio gyda busnesau sy'n ymwneud â rhaglen Twf Swyddi Cymru, gan eu hannog i droi eu cyfleoedd cyflogaeth yn brentisiaethau. Byddwn hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a chynghorau sgiliau sector yng Nghymru i gynyddu nifer y fframweithiau prentisiaeth uwch a ddarperir, a thrwy hynny weithio tuag at ein hymrwymiad i gynyddu lefel gyfartalog cymwysterau sydd gan oedolion o oedran gweithio yng Nghymru. Mae'n ddi-ddorol nodi-cyfeiriodd Keith Davies at fagloriaeth Cymru yn enwedig-ein bod wedi dod ar draws enghreifftiau da lle y defnyddir craidd bagloriaeth Cymru lefel uwch i geisio prentisiaethau peirianeg yn arbennig. Er mwyn ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc yn y rhaglen brentisiaethau, ein nod yw cryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr dysgu seiliedig ar waith, ysgolion a chyflogwyr, a thrwy hynny wneud y mwyaf o gyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol.

Gwnaethpwyd pwyntiau ynghylch y gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dechrau prentisiaethau, ac wrth gwrs mae hynny'n wir. Un o'r rhesymau yw problemau'r economi, lle mae llai o leoedd ar gael yn gyffredinol wrth i gwmnïau gyfyngu ar eu gwariant, ond hefyd, ac yn bwysicach na dim, mae'r gyfradd gwblhau wedi codi'n ddramatig o tua 50% ychydig flynyddoedd yn ôl i fwy nag 80%. Yn amlwg, os yw pobl ifanc yn aros yn eu prentisiaethau yn hwy er mwyn eu cwblhau, sef yr hyn yr ydym am iddynt ei wneud, yna mae nifer y lleoedd sydd ar gael i ddechreuwyr newydd yn sicr o ostwng ychydig. Er ein bod yn awyddus i gael ffigurau uwch, mae angen inni ddeall pam mae'n digwydd.

Gwnaethpwyd pwynt ynglŷn â chydweithio â Lloegr, ac yn wir gwledydd eraill y DU. Rydym yn sicr am weithio gyda Lloegr i gynnal brand prentisiaeth da, oherwydd nid ydym am i'n prentisiaid fod o dan anfantais mewn unrhyw ffordd os ydynt yn dewis mynd i Loegr i weithio. Mae hynny'n sicr yn cynnwys gweithio gyda Chyngor Cyflogaeth a Sgiliau'r Deyrnas Unedig, er enghraifft, ar ddatblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol, sef conglaen cymwysterau NVQ wrth gwrs, ac sy'n hanfodol felly i'r fframwaith prentisiaethau.

We will strive to ensure that potential apprentices, and their parents, have sufficient and clear information as required to assess whether an apprenticeship is the right route for them. This activity will be underpinned by an improved labour market intelligence base, which will ensure that individuals, employers, work-based learning providers and policy makers can utilise the data when planning their local curricula, thus ensuring that young people follow courses that should lead to future employment.

We will produce a comprehensive toolkit and marketing resource for the network of work-based learning providers to ensure clarity of message. We will continue to work closely with the sector skills councils to ensure that the depth and breadth of apprenticeship frameworks is available to meet demand. Certainly—and I have seen the report of the Federation of Small Businesses—we will talk to that organisation as well. We will commission Estyn to conduct a review on engagement and participation barriers facing ethnic minority and disabled groups entering the apprenticeship programme. In addition, it will identify and report on any specific occupational sectors where ethnicity, disability and/or gender issues present potential barriers, including a review of gender balance within occupational sectors.

As discussions are ongoing, I am not in a position as yet to disclose details. However, I am pleased that the additional £20 million that was announced in November will enable us to financially commit to making necessary changes, thereby strengthening the programme, particularly for those between the ages of 16 and 24. That may well improve the availability of means of helping apprentices with costs.

On the issue of recommendation 5 on Pathways to Apprenticeship, the reason it is rejected is because the current PTA, which is what was referred to in the recommendation, is coming to an end when the European social funding ends in August 2014. Nevertheless, the good practice that has been identified will be examined carefully to see whether there is a mechanism for incorporating it into future programmes.

Evidence of the quality of the apprenticeship programme was never more apparent than during the latter part of 2012, when Wales celebrated a number of apprenticeship successes. I travelled to Belgium with the UK delegation to attend the EuroSkills awards, where Gareth Jones, a young carpenter from Coleg Sir Gâr, won the gold medal. I was delighted again to hear in mid-December—I was not there, I was in north Wales—when Wales was represented by 37 learners competing at the Skills Show in Birmingham, that our apprentices took away 16 medals, including five gold medals. So, while the programme is clearly of a high standard, the recommendations within the Enterprise and Business Committee's report will help us to realign the programme to the Welsh economy's needs, thereby providing the best opportunities for the young people of Wales. I have faith and confidence in our young people, and it is up to us to give them the right way forward.

Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod darpar brentisiaid, a'u rhieni, yn cael gwybodaeth ddigonol a chlr yn ôl yr angen i asesu ai prentisiaeth yw'r llwybr cywir iddynt hwy. Ategir y gweithgarwch hwn gan sylfaen wybodaeth well am y farchnad lafur, a fydd yn sicrhau y gall unigolion, cyflogwyr, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a llunwyr polisi ddefnyddio'r data wrth gynllunio eu cwricwla lleol, a thrwy hynny sicrhau bod pobl ifanc yn dilyn cyrsiau a ddylai arwain at gyflogaeth yn y dyfodol.

Byddwn yn llunio pecyn cymorth cynhwysfawr ac adnodd marchnata ar gyfer y rhwydwaith o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith i sicrhau neges glir. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r cynghorau sgiliau sector i sicrhau bod hyd a lled fframweithiau prentisiaethau ar gael i ateb y galw. Yn sicr-ac rwyf wedi gweld adroddiad y Ffederasiwn Busnesau Bach-byddwn yn siarad â'r sefydliad hwnnw hefyd. Byddwn yn comisiynu Estyn i gynnal adolygiad o rwystrau o ran ymgysylltu a chymryd rhan sy'n atal lleiafrifoedd ethnig a grwpiau anabl rhag dechrau rhaglen brentisiaeth. Yn ogystal â hynny, bydd yn nodi ac yn cyflwyno adroddiad ar unrhyw sectorau galwedigaethol penodol lle mae materion ethnigrwydd, anabledd a/neu rywedd yn creu rhwystrau posibl, gan gynnwys adolygiad o'r cydbwysedd rhwng y rhywiau o fewn sectorau galwedigaethol.

Gan fod trafodaethau yn mynd rhagddynt, nid wyf mewn sefyllfa eto i ddatgelu manylion. Fodd bynnag, rwy'n falch y bydd y swm ychwanegol o £20 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd yn ein galluogi i ymrwymo'n ariannol i wneud y newidiadau angenrheidiol, a thrwy hynny gryfhau'r rhaglen, yn enwedig i'r rhai rhwng 16 a 24 oed. Mae'n ddigon posibl y bydd hynny'n gwella'r ffordd y gellir helpu prentisiaid gyda chostau.

O ran argymhelliad 5 ynglŷn â Llwybrau at Brentisiaethau, y rheswm dros ei wrthod yw bod y Llwybrau at Brentisiaethau presennol, sef yr hyn y cyfeiriwyd ato yn yr argymhelliad, yn dod i ben pan ddaw arian cronfa gymdeithasol Ewrop i ben ym mis Awst 2014. Serch hynny, bydd yr arfer da a nodwyd yn cael ei archwilio'n ofalus i weld a oes modd ei ymgorffori mewn rhaglenni yn y dyfodol.

Roedd tystiolaeth am ansawdd y rhaglen brentisiaethau yn fwy amlwg nag erioed yn ystod ail hanner 2012, pan ddathlodd Cymru nifer o lwyddiannau o ran prentisiaethau. Teithiais i Wlad Belg gyda dirprwyath y DU i fynd i achlysur gwobrwyo EuroSkills, lle yr enillodd Gareth Jones, saer ifanc o Goleg Sir Gâr, y fedal aur. Roeddwn wrth fy modd i glywed unwaith eto yng nghanol mis Rhagfyr—nid oeddwn yno, roeddwn yn y gogledd—pan gafodd Cymru ei chynrychioli gan 37 o ddysgwyr yn cystadlu yn y Sioe Sgiliau yn Birmingham, i'n prentisiaid ennill 16 o fedalau, gan gynnwys pum medal aur. Felly, er bod y rhaglen yn amlwg o safon uchel, bydd yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes yn ein helpu i ail-alinio'r rhaglen ag anghenion economi Cymru, a thrwy hynny roi'r cyfleoedd gorau i bobl ifanc Cymru. Mae gennyf ffydd a hyder yn ein pobl ifanc, a'n cyfrifoldeb ni yw eu rhoi ar ben ffordd.

I thank all the Members who have contributed to today's debate, which was an interesting and thought-provoking debate that followed a worthwhile inquiry by the committee. I also thank the clerk of the committee and her team for the support provided.

Many good points have been made in today's debate. I will touch on a few of them. Dave Rees, a fellow member of the committee, spoke about the need for the appropriate level of apprenticeship for young people, and the fact that they need it at the right time. You spoke about increasing the prestige of apprenticeships. That was an important point made in the inquiry: too often we look at apprenticeships as very much a poor man's version of higher education, and that should not be the case. You also quoted from the report, mentioning the way that many of the SMEs that have been involved in the process need to galvanised. We need to galvanise employers.

Byron Davies spoke of the impressiveness of the young people whom we spoke to and interviewed, who attended our launch and provided evidence in the video links that we did. You spoke about the need for young people and employers to have ownership of the programme and for them not to simply see apprenticeships as something that is put upon them by Government, but something that is good for them in the long run.

Alun Ffred Jones spoke about the need for pupils to have the right amount of information at an early enough point. The report is quite clear that it is too late when you get to GCSE level to give the pupils the option of apprenticeships. The pupils and their parents need to be involved in thinking about apprenticeships as an option much earlier. Alun Ffred Jones also said that we must not limit apprenticeships to people under the age of 24, and that they should be seen as an avenue open to people of all ages. That was something that we accepted in the report, although we did speak about the specific importance of helping people under the age of 24.

Eluned Parrott, you mentioned the disengagement of young people from education, which happens too often. You saw apprenticeships as an opportunity for young people to re-engage and to be re-engaged in the whole system at that age. You gave an analogy. You spoke about what is a modern apprenticeship and the importance of independent careers advice at the right point in time, and the need for the Government to support that. The analogy used was that of the Paris metro, where you said that that is fine because you know where you are going. I liked that analogy. We need to make sure that young people know where they are going with apprenticeships.

Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau a gyfrannodd at y ddadl heddiw, a oedd yn ddadl ddiddorol, sydd wedi sbarduno'r meddwl, a ddilynodd ymchwiliad buddiol gan y pwyllgor. Hoffwn hefyd ddiolch i glerc y pwyllgor a'i thîm am y cymorth a roddwyd.

Gwnaed nifer o bwyntiau da yn y ddadl heddiw. Soniaf am rai ohonynt. Soniodd Dave Rees, cyd-aelod o'r pwyllgor, am yr angen am lefel briodol o brentisiaeth i bobl ifanc, a'r ffaith bod angen hynny arnynt ar yr adeg gywir. Bu ichi sôn am roi mwy o fri ar brentisiaethau. Roedd hwnnw'n bwynt pwysig a wnaed yn yr ymchwiliad: yn rhy aml edrychwn ar brentisiaethau fel fersiwn israddol o addysg uwch, ac ni ddylem wneud hynny. Dyfynnwyd o'r adroddiad gennych hefyd, gan sôn am y ffordd y mae angen ysgogi llawer o'r busnesau bach a chanolig sydd wedi cymryd rhan yn y broses. Mae angen inni ysgogi cyflogwyr.

Soniodd Byron Davies am argraff dda a grëwyd gan y bobl ifanc y buom yn siarad â hwy ac yn eu cyfweled, a fu'n bresennol yn ein lansiad ac a roddodd dystiolaeth yn y cysylltiadau fideo a gynhaliwyd gennym. Bu ichi sôn am yr angen i bobl ifanc a chyflogwyr fod yn berchen ar y rhaglen ac iddynt beidio ag ystyried prentisiaethau yn rhywbeth sy'n cael ei orfodi arnynt gan y Llywodraeth, ond yn rhywbeth sy'n fuddiol iddynt yn yr hirdymor.

Soniodd Alun Ffred Jones am yr angen i ddisgyblion gael digon o wybodaeth ar adeg ddigon cynnar. Mae'r adroddiad yn gwbl glir ei bod yn rhy hwyr erbyn lefel TGAU i roi'r dewis o brentisiaethau i ddisgyblion. Mae angen i'r disgyblion a'u rhieni fod yn rhan o feddwl am brentisiaethau fel dewis yn llawer cynt. Dywedodd Alun Ffred Jones hefyd na ddylem gyfyngu prentisiaethau i bobl o dan 24 oed, ac y dylent gael eu hystyried yn rhywbeth sy'n agored i bobl o bob oedran. Dyna rywbeth a dderbyniwyd gennym yn yr adroddiad, er inni gyfeirio at bwysigrwydd penodol helpu pobl o dan 24 oed.

Eluned Parrott, bu ichi sôn am bobl ifanc yn ymddieithrio oddi wrth addysg, sy'n digwydd yn rhy aml. Gwelsoch brentisiaethau fel cyfle i ennyn diddordeb pobl ifanc unwaith eto yn y system gyfan ar yr oedran hwnnw a chyfle iddynt ddod yn rhan o'r system unwaith eto. Rhoesoch gyfatebiaeth. Bu ichi sôn am yr hyn y mae prentisiaeth fodern yn ei olygu a phwysigrwydd cyngor gyrfaal annibynnol ar yr adeg gywir, a'r angen i'r Llywodraeth gefnogi hynny. Fe'i cymharwyd â metro Paris, lle y dywedasoed fod hynny'n iawn oherwydd eich bod yn gwybod ble rydych yn mynd. Roeddwn yn hoffi'r gyfatebiaeth honno. Mae angen inni wneud yn si?r bod pobl ifanc yn gwybod i ble mae prentisiaethau yn mynd â hwy.

Joyce Watson concentrated on SMEs and the challenge of tailoring apprenticeships to smaller employers. I agree completely with what you said about those challenges. You spoke about marketing the service effectively: you can have good ideas, but they need to be marketed properly. Ieuan Wyn Jones gave a number of worrying statistics about literacy problems. Ieuan, you said that there are major problems not just in literacy, but numeracy, and you spoke of how those need to be addressed, along with the old issue of providing apprenticeships, because if people are not equipped with those life skills there will be problems later in life.

Keith Davies talked of the importance of economic and academic values being seen alongside each other, and not mutually exclusive. If someone wants to take an academic or an apprenticeship route, both of those should be seen as equally valid, which goes back to the argument about increasing the prestige of apprenticeships. Ken Skates spoke with his usual eloquence. Ken, a fellow member of the committee, showed insight and spoke highly of the Chair as well, which was, of course, welcome. Ken, you talked of the need for encouragement in all sectors. You said that the Welsh Government needs to publish figures about where apprentices end up. It is not enough to simply say that these are the apprenticeships and they are worthwhile; we need to see that, at the end of it, they are ending up in the jobs that we want them to have, because that is what it is all about at the end of the day.

I will briefly turn to the Government's response. I am pleased that most of the recommendations, Minister and Deputy Minister, have been accepted. I was disappointed that recommendation 5 was rejected, although I hear what you are saying. We called for the Welsh Government to consider mainstreaming funding for the Pathways to Apprenticeship programmes in post-16 education. I know what you said, Minister, about that proving awkward and about the way that the current scheme will be ending in its current form. However, I took on board your comments about making sure that we learn from the good practice that has been developed for the future. I hope that, whatever you do to address that recommendation, even if you do not accept it in its entirety, you carry it forward and we see that good practice extended through apprenticeships.

I thank everyone who has contributed today. I think that the heart of this inquiry is about providing greater opportunities for people in Wales, particularly young people. To conclude, apprenticeships are a great alternative to higher education, and they are a way in which we can really drive forward economic growth in Wales. We do not think that enough advantage has been taken of apprenticeships in the past and I hope that Members will take this report in the spirit in which it is given and will support the committee's inquiry into improving job opportunities in Wales.

Canolbwyntiodd Joyce Watson ar fusnesau bach a chanolig a'r her o deilwra prentisiaethau i gyflogwyr bach. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedasoch ynglŷn â'r heriau hynny. Bu ichi sôn am farchnata'r gwasanaeth yn effeithiol: efallai fod gennych syniadau da, ond mae angen iddynt gael eu marchnata'n gywir. Rhoddodd Ieuan Wyn Jones nifer o ystadegau am broblemau llythrennedd a fu'n achos pryder. Ieuan, dywedasoch fod problemau mawr nid yn unig o ran llythrennedd, ond rhifedd, a bu ichi sôn am sut y mae angen mynd i'r afael â'r rhain, ynghyd â hen fater cynnig prentisiaethau, oherwydd os nad yw pobl yn meddu ar y sgiliau bywyd hynny bydd problemau yn codi'n ddiweddarach mewn bywyd.

Soniodd Keith Davies am bwysigrwydd ystyried gwerthoedd economaidd ac academaidd ochr yn ochr â'i gilydd, ac nid yn annibynnol ar ei gilydd. Os bydd rhywun am ddewis llwybr academaidd neu lwybr prentisiaeth, dylai'r ddau gael eu hystyried yr un mor ddilys, sy'n dychwelyd at y ddadl am roi mwy o fri ar brentisiaethau. Siaradodd Ken Skates yn huawdl yn ôl ei arfer. Dangosodd Ken, cyd-aelod o'r pwyllgor, ddealltwriaeth graff a bu'n canmol y Cadeirydd hefyd, a oedd, wrth gwrs, i'w groesawu. Ken, bu ichi sôn am yr angen am anogaeth ym mhob sector. Dywedasoch fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau am yr hyn sy'n digwydd i brentisiaid yn y pen draw. Nid yw'n ddigon dweud mai dyma'r prentisiaethau a'u bod yn fuddiol; mae angen inni weld, yn y pen draw, eu bod yn cael y swyddi yr ydym am iddynt eu cael, oherwydd dyna'r nod yn y pen draw.

Trof am ychydig at ymateb y Llywodraeth. Rwy'n falch i'r rhan fwyaf o'r argymhellion, Weinidog a Dirprwy Weinidog, gael eu derbyn. Roeddwn yn siomedig bod argymhelliad 5 wedi cael ei wrthod, er fy mod yn deall yr hyn yr ydych yn ei ddweud. Galwyd ar Lywodraeth Cymru i ystyried prif ffyrddio cyllid ar gyfer rhaglenni Llwybrau at Brentisiaethau mewn addysg ôl-16. Deallaf yr hyn a ddywedasoch, Weinidog, fod hynny wedi bod yn lletchwith ac am y ffordd y bydd y cynllun presennol yn dod i ben ar ei ffurf bresennol. Fodd bynnag, derbyniais eich sylwadau am sicrhau ein bod yn dysgu o'r arfer da a ddatblygwyd ar gyfer y dyfodol. Gobeithiaf, beth bynnag a wnewch i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwnnw, hyd yn oed os nad ydych yn ei dderbyn yn ei gyfanrwydd, y byddwch yn gweithredu arno ac y byddwn yn gweld bod arfer da yn ymestyn drwy brentisiaethau.

Hoffwn ddioch i bawb a gyfrannodd heddiw. Credaf mai rhoi mwy o gyfleoedd i bobl yng Nghymru, yn enwedig pobl ifanc sydd wrth wraidd yr ymchwiliad hwn. I gloi, mae prentisiaethau yn ddewis amgen gwych yn lle addysg uwch, ac maent yn ffordd o sbarduno twf economaidd yng Nghymru o ddifrif. Yn ein barn ni, ni fanteiswyd ddigon ar brentisiaethau yn y gorffennol a gobeithiaf y bydd Aelodau yn derbyn yr adroddiad hwn yn yr ysbryd y'i rhoddir ac y byddant yn cefnogi ymchwiliad y pwyllgor i wella cyfleoedd gwaith yng Nghymru.

15:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw y dylid nodi adroddiad y pwyllgor. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd y cynnig.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.31 p.m.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ad-drefnu'r GIG

Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

Cynnig NDM5144 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder dwys ynghylch effaith negyddol bosibl y cynigion i ad-drefnu GIG Cymru ar gleifion.
2. Yn nodi pryderon eang ynghylch y ffordd anghyson y mae byrddau iechyd lleol yn cynnwys y cyhoedd o ran newid y GIG.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'i harweiniad ar gynnwys y cyhoedd yn y broses o newid gwasanaethau'r GIG i sicrhau na ellir anwybyddu barn y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol gwasanaethau'r GIG.

Motion agreed.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.31 p.m.

## Welsh Conservatives Debate: NHS Reconfiguration

The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Motion NDM5144 William Graham

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Expresses deep concern at the potential negative impact of Welsh NHS reconfiguration proposals on patients.
2. Notes widespread concerns over the inconsistent way in which local health boards involve the public in NHS change.
3. Calls on the Welsh Government to clarify its guidance on public involvement in NHS service change to ensure that the views of the public cannot be disregarded when decisions about the future of NHS services are made.

15:31

### Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

I cannot say that I am pleased to have to bring forward this debate today. We all know that the NHS is an essential and precious part of the fabric of public services in Wales and yet we have arrived at a time when those who fund the NHS—the public—seem to have less say in how it is being run than at any other time since it was established.

Before I go any further, I want to say that we will be supporting the Liberal Democrat amendment in the name of Aled Roberts. I recognise the importance of the ambulance service and I know that, at times, it struggles to perform. In fact, the recent reports that the police have had to deal with some emergency medical cases is a very worrying sign. I fear that some of the changes that have been announced in north and west Wales in the past week are likely to add further pressures to the ambulance service.

Cynigiaf y cynnig.

Ni allaf ddweud fy mod yn falch o orfod cyflwyno'r ddadl hon heddiw. Gwyddom oll fod y GIG yn rhan hanfodol a gwerthfawr o wead gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac eto rydym wedi cyrraedd adeg pan ymddengys bod gan y rhai sy'n ariannu'r GIG-y cyhoedd-lai o lais yn y ffordd y caiff ei redeg nag ar unrhyw adeg arall ers ei sefydlu.

Cyn imi fynd ymhellach, hoffwn ddweud y byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn enw Aled Roberts. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd y gwasanaeth ambiwlans, a gwn ei fod yn cael anhawster i berfformio ar adegau. Yn wir, mae'r adroddiadau diweddar bod yr heddlu wedi gorfod ymdrin â rhai achosion meddygol brys yn arwydd pryderus iawn. Ofnaf fod rhai o'r newidiadau a gyhoeddwyd yn y gogledd a'r gorllewin yn ystod yr wythnos diwethaf yn debygol o roi pwysau pellach ar y gwasanaeth ambiwlans.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Let us remind ourselves of some of those changes. Last week, Betsi Cadwaladr University Local Health Board and the Hywel Dda Local Health Board had their D-days. After a prolonged and unsettling period for NHS workers and their families, both boards embarked upon the biggest hospital closure programme and the biggest hospital downgrading programme in the history of the Welsh NHS. Community hospital closures were announced in Tumble, Blaenau Ffestiniog, Flint, Llangollen and Prestatyn. Minor injuries units are closing in Tenby, Pembroke Dock, Ruthin and Colwyn Bay. X-ray services are being axed in Tywyn and Ruthin. There is the closure of in-patient beds at Bryn Beryl and Dolgellau hospitals. Medical beds in district general hospitals are being axed. Perhaps most appalling of all are the closure of the special care baby unit at Withybush General Hospital and the relocation of long-term neonatal services from hospitals in north Wales to a hospital in the north-west of England that does not meet the neonatal standards required by this National Assembly. The latter decision was made in the face of significant clinical opposition from the British Medical Association, the Royal College of Nursing, the Royal College of Midwives and the health board's own clinical reference group.

All of these changes were approved, despite previous assurances from the Minister for Health and Social Services that no hospitals will be downgraded. 'None will be downgraded'—that is what the Minister for health told this Assembly on a number of occasions. Indeed, the First Minister said:

'No hospital is under threat, and no hospital was ever under threat in Wales.'

I do not know how they can live with themselves. I am surprised that their noses do not grow longer by the day—

15:04 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

15:04 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will take an intervention in a few moments, Joyce.

The decisions that have been made clearly show that Welsh Labour's slash-and-burn tactics on our precious NHS are having a real impact on communities across the country.

Before I take your intervention, I want to say that we know, Joyce, that one of the main drivers for service reconfiguration is the record-breaking NHS cuts that are being imposed by your Government in Wales. You might want to defend this when you intervene, so I am just making the point. We know that health boards themselves have acknowledged that the financial pressures that they are facing are contributing to and having a major driving effect on some of the configuration changes. I will take the intervention.

Gadewch inni atgoffa ein hunain o rai o'r newidiadau hynny. Yr wythnos diwethaf, cafodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda eu Dydd-D. Ar ôl cyfnod hir a chythryblus i weithwyr y GIG a'u teuluoedd, dechreuodd y ddau fwrdd ar y rhaglen fwyaf i gau ysbytai a'r rhaglen fwyaf i israddio ysbytai yn hanes y GIG yng Nghymru. Cyhoeddwyd y byddai ysbytai cymuned yn y Tymbl, Blaenau Ffestiniog, Y Fflint, Llangollen a Phrestatyn yn cau. Mae unedau mân anafiadau yn cau yn Ninbych-y-pysgod, Doc Penfro, Rhuthun a Bae Colwyn. Mae gwasanaethau pelydr-X yn cael eu dileu yn Nhywyn a Rhuthun. Mae gwelyau i gleifion mewnol yn cael eu cau yn ysbytai Bryn Beryl a Dolgellau. Mae gwelyau meddygol mewn ysbytai cyffredinol dosbarth yn cael eu dileu. Efallai mai'r enghraifft waethaf oll yw bod yr uned gofal arbennig i fabanod yn cau yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg a bod gwasanaethau newyddenedigol hirdymor yn cael eu hadleoli o ysbytai yn y gogledd i ysbyty yng ngogledd-orllewin Lloegr nad yw'n cyrraedd y safonau newyddenedigol sy'n ofynnol gan y Cynulliad Cenedlaethol hwn. Gwnaed y penderfyniad olaf yn wyneb gwrthwynebiad clinigol sylweddol gan Gymdeithas Feddygol Prydain, y Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol y Bydwraedd a gr?p cyfeirio clinigol y bwrdd iechyd ei hun.

Cymeradwywyd pob un o'r newidiadau hyn, er gwaethaf sicrwydd blaenorol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na chaiff unrhyw ysbytai eu hisraddio. 'Ni chaiff unrhyw rai eu hisraddio'-dyna'r hyn a ddywedodd y Gweinidog Iechyd wrth y Cynulliad hwn ar sawl achlysur. Yn wir, dywedodd y Prif Weinidog:

'Nid oes dim un ysbyty o dan fygythiad, ac ni fu dim un ysbyty erioed o dan fygythiad yng Nghymru.'

Ni wn sut y gallant fyw gyda hwy eu hunain. Synnaf nad yw eu trwynau yn tyfu yn hirach bob diwrnod-

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Byddaf yn derbyn ymyriad mewn ychydig funudau, Joyce.

Mae'r penderfyniadau a wnaed yn dangos yn glir bod tactegau torri a dileu Llafur Cymru ar ein GIG gwerthfawr yn cael effaith wirioneddol ar gymunedau ledled y wlad.

Cyn imi dderbyn eich ymyriad, hoffwn ddweud y gwyddom, Joyce, mai un o'r prif ysgogwyr ad-drefnu gwasanaethau yw'r toriadau mwyaf erioed i'r GIG sy'n cael eu gorfodi gan eich Llywodraeth yng Nghymru. Efallai y byddwch am amddiffyn hyn pan fyddwch yn ymyrryd, felly rwyf ond yn gwneud y pwynt. Gwyddom fod byrddau iechyd eu hunain wedi cydnabod bod y pwysau ariannol sy'n eu hwynebu yn cyfrannu at rai o'r newidiadau ad-drefnu ac yn cael effaith fawr ar y broses o'u hysgogi. Derbyniaf yr ymyriad.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:35 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention. I would like you to make it clear, when you are talking about Pembrokeshire and the special care baby unit in Haverfordwest—the town in which I live and know something about, which you clearly do not—and scaring people out there, that it is not closing, that there are no proposals to close it and that our promise of keeping district general hospitals is a real one that has been maintained. Will you please make those things clear? Otherwise, I should think that it will be your nose growing at night.

Diolch ichi am dderbyn yr ymyriad. Hoffwn ichi egluro, pan fyddwch yn sôn am Sir Benfro a'r uned gofal arbennig i fabanod yn Hwlfordd-y dref lle rwy'n byw ac yn gwybod rhywbeth amdani, ac mae'n amlwg nad yw hynny'n wir amdanoch chi-ac yn codi ofn ar y cyhoedd, nad yw'n cau, nad oes unrhyw gynigion i'w chau a bod ein haddewid i gadw ysbytai cyffredinol dosbarth yn un gwirioneddol a gadwyd. A fydddech cystal ag egluro'r pethau hynny? Fel arall, credaf mai eich trwyn chi fydd yn tyfu yn ystod y nos.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:35 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wonder how well Joyce Watson goes down on the streets of Haverfordwest these days with speeches—not interventions—like that trying to defend the closure of vital services for vulnerable, small children. It is an absolute disgrace. Let us talk about the impact on patients. Patients will have to travel much further for unscheduled care, putting extra pressure on our already struggling accident and emergency departments. I have been to Withybush General Hospital and seen people waiting there. Some of them had been waiting 19 hours to be seen in the accident and emergency department in that hospital. All of that is additional pressure caused by your Government. If you want to defend it, that is absolutely fine, but I doubt very much whether the people of Pembrokeshire would agree with you.

Tybed pa mor boblogaidd yw Joyce Watson ar strydoedd Hwlfordd y dyddiau hyn gydag areithiau-nid ymyriadau-felly yn ceisio amddiffyn cau gwasanaethau hanfodol i blant bach sy'n agored i niwed. Mae'n warth llwyr. Gadewch inni drafod yr effaith ar gleifion. Bydd cleifion yn gorfod teithio ymhellach o lawer i gael gofal heb ei drefnu, gan roi pwysau ychwanegol ar ein hadrannau damweiniau ac achosion brys sydd eisoes yn cael trafferth ymdopi. Rwyf wedi bod i Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg ac wedi gweld pobl yn aros yno. Roedd rhai ohonynt wedi bod yn aros 19 awr i gael eu gweld yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn yr ysbyty hwnnw. Mae hynny oll yn bwysau ychwanegol a achosir gan eich Llywodraeth chi. Os ydych am amddiffyn hynny, mae hynny'n hollol iawn, ond rwy'n amau'n fawr iawn a fyddai pobl Sir Benfro yn cytuno â chi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

There was overwhelming public opposition to these changes, which had to be 'put in context'—those were the words used by the professionals on consultation when they presented these findings to the health boards—and 'weighted' by board members in order to provide them with the reality of what people on the streets of Wales were thinking about their NHS services. Those words, 'put in context' and 'weighted', were used as an excuse by health boards to ignore the very important views of members of the public around the country.

Cafwyd gwrthwynebiad mawr ymhlith y cyhoedd i'r newidiadau hyn, y bu'n rhaid eu 'rhoi yn eu cyd-destun'-dyna oedd y geiriau a ddefnyddiwyd gan y gweithwyr proffesiynol ar yr ymgynghoriad pan gyflwynwyd y canfyddiadau hyn i'r byrddau iechyd-ac a 'bwysolwyd' gan aelodau'r bwrdd er mwyn iddynt gael barn wirioneddol y cyhoedd yng Nghymru ar y gwasanaethau a gânt gan y GIG. Defnyddiwyd y geiriau, 'rhoi yn eu cyd-destun' a 'pwysoli', fel esgus gan fyrdau iechyd i anwybyddu barn dra phwysig aelodau o'r cyhoedd ledled y wlad.

We also know that we had a sexed-up report by a so-called independent person. We know that these decisions were also made in the wake— [Interruption.]

Gwyddom hefyd inni gael adroddiad wedi'i orliwio gan unigolyn yr honnir ei fod yn annibynnol. Gwyddom i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud hefyd yn sgil- [Torri ar draws.]

15:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. [Interruption.] Order. I would appreciate it if Ministers and Deputy Ministers would not make remarks from a sedentary position when I am trying to control the Chamber. I have heard nothing—[Interruption.] Order. I am speaking. I have heard nothing that is out of order. If any Members wish to raise a point of order, I will take it at the end of this debate. We can expect to hear pungent remarks in debates in this Chamber. What is sauce for the goose is sauce for the gander and I will be calling Members from all sides of the Chamber.

Trefn. [Torri ar draws.] Trefn. Byddwn yn gwerthfawrogi pe na fyddai Gweinidogion na Dirprwy Weinidogion yn gwneud sylwadau ar eich eistedd pan fyddaf yn ceisio rheoli'r Siambr. Nid wyf wedi clywed dim- [Torri ar draws.] Trefn. Rwy'n siarad. Nid wyf wedi clywed dim sydd allan o drefn. Os oes unrhyw Aelod yn awyddus i godi pwynt o drefn, byddaf yn ei dderbyn ar ddiwedd y ddadl hon. Gallwn ddisgwyl clywed sylwadau brathog mewn dadleuon yn y Siambr hon. Mae'r hyn sy'n iawn i'r ?ydd yn iawn i'r ceiliagwydd a byddaf yn galw Aelodau o bob ochr i'r Siambr.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:38 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your ruling, Deputy Presiding Officer.

Diolch ichi am eich dyfarniad, Ddirprwy Lywydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



All of this was on top of this sexed up report and in the wake of serious questions, which have failed to be properly answered by the national clinical forum, about the way in which it changed 90% of a report, which was in response to a consultation, to suit a health board chief executive. It is no wonder that public confidence in decision making in the Welsh NHS is now at an all-time low. NHS changes are being bulldozed through walls of community opposition and the genuine concerns of local people are being disregarded and tossed into the dustbin by decision makers. What is the point of the Welsh Government's guidance on public engagement and consultation if the views of the public are ignored in this way? That is why we believe that there is a need for clarity on that guidance and an overhaul of it.

Let us consider the massive inconsistency in the way that it has been implemented in different parts of Wales. In south Wales, the pre-consultation engagement process was launched with a bang and has continued over a three-month period. That has been a good example of pre-consultation engagement. However, we know that in Hywel Dda Local Health Board and Betsi Cadwaladr University Local Health Board this pre-consultation engagement went on much below the radar and took place with little more than a whimper. Local residents have also had different opportunities to comment depending upon which health board they fall under. The formal consultation in north and west Wales was radically different. Perhaps the best example of this was the approach to public meetings. In the north, the health board held what they called 'closed public meetings'. I had never heard of a 'closed public meeting' before. It was a new thing in my vocabulary. These were meetings for which residents had to pre-book their attendance. Some residents had difficulty in accessing a meeting in their locality, with the health board limiting attendance at each venue. Others were told that those venues were full, only to find that, when the event took place, there were as few as seven people attending. The whole thing was a shambles.

Compare this with west Wales, where a more traditional approach to a public meeting was taken. That is, it was a meeting that any member of public could attend, and as many as 500 people attended at a time. I know that Joyce will remember those meetings, because she was booed in those meetings. There was also a difference in the approach taken with regard to the availability of senior health board officials for gatherings that were raised by other people in north Wales. The Betsi health chiefs refused to attend meetings that were organised by local politicians and local action groups. In the Hywel Dda Local Health Board area, they did attend those meetings. There were very different approaches. Therefore, we believe that there needs to be clarity over the availability of those senior chief executives to the public in the event of a public consultation. We need to ensure that the guidance reflects that.

Roedd hyn i gyd ar ben yr adroddiad a orliwiwyd ac yn sgil cwestiynau difrifol, y mae'r fforwm clinigol cenedlaethol wedi methu â'u hateb yn briodol, ynghylch y ffordd y gwnaeth newid 90% o adroddiad, a oedd yn ymateb i ymgynghoriad, er mwyn boddio prif weithredwr bwrdd iechyd. Nid yw'n syndod bod hyder y cyhoedd ym mhrosesau gwneud penderfyniadau GIG Cymru bellach ar ei isaf erioed. Mae newidiadau i'r GIG yn cael eu gorfodi er gwaethaf gwrthwynebiad cymunedol ac mae pryderon gwirioneddol y bobl leol yn cael eu diystyru a'u taflu o'r neilltu gan wneuthurwyr penderfyniadau. Beth yw diben canllawiau Llywodraeth Cymru ar ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori os yw barn y cyhoedd yn cael ei anwybyddu yn y fath fodd? Dyna pam y credwn fod angen eglurder ynglŷn â'r canllawiau hynny a'u hailwampio.

Gadewch inni ystyried yr anghysondeb enfawr yn y ffordd y cawsant eu rhoi ar waith mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn y de, lansiwyd y broses ymgysylltu cyn ymgynghori yn llwyddiannus ac mae wedi parhau dros gyfnod o dri mis. Mae hynny wedi bod yn enghraifft dda o ymgysylltu cyn ymgynghori. Fodd bynnag, gwyddom i'r broses hon o ymgysylltu cyn ymgynghori ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ddigwydd yn dawel bach ac na roddwyd llawer o sylw iddi. Mae trigolion lleol hefyd wedi cael cyfleoedd gwahanol i roi sylwadau yn dibynnu ar eu bwrdd iechyd lleol. Roedd yr ymgynghoriad ffurfiol yn wahanol iawn yn y gogledd a'r gorllewin. Efallai mai'r enghraifft orau o hyn oedd y dull o gynnal cyfarfodydd cyhoeddus. Yn y gogledd, cynhaliodd y bwrdd iechyd yr hyn a alwyd yn 'gyfarfodydd cyhoeddus caeedig' o'r blaen. Nid oeddwn erioed wedi clywed am 'gyfarfod cyhoeddus caeedig'. Roedd yn derm newydd i mi. Roedd y rhain yn gyfarfodydd lle y bu'n rhaid i drigolion drefnu ymlaen llaw y byddent yn mynychu. Cafodd rhai trigolion anhawster mynd i gyfarfod yn eu hardal, gan fod y bwrdd iechyd yn cyfyngu ar nifer y bobl a all fod yn bresenoldeb ym mhob lleoliad. Dywedwyd wrth eraill bod y lleoliadau hynny yn llawn, ond darganfuwyd wedyn, pan gynhaliwyd y digwyddiad, bod cyn lleied â saith o bobl yn bresennol. Roedd yr holl beth yn draed moch.

Cymharwch hyn â'r gorllewin, lle y defnyddiwyd dull mwy traddodiadol o gynnal cyfarfod cyhoeddus. Hynny yw, roedd yn gyfarfod y gallai unrhyw aelod o'r cyhoedd ei fynychu, ac roedd cymaint â 500 o bobl yn bresennol ar y tro. Gwn y bydd Joyce yn cofio'r cyfarfodydd hynny, gan iddi gael ei bwio ynddynt. Roedd gwahaniaeth hefyd yn y dull gweithredu o ran argaeledd uwch swyddogion byrddau iechyd ar gyfer cyfarfodydd a godwyd gan bobl eraill yn y gogledd. Gwrthododd penaethiaid iechyd bwrdd iechyd Betsi fynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan wleidyddion lleol a grwpiau gweithredu lleol. Yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, gwnaethant fynychu'r cyfarfodydd hynny. Cafwyd dulliau gweithredu gwahanol iawn. Felly, credwn fod angen eglurder ynghylch argaeledd yr uwch brif weithredwyr hynny i'r cyhoedd ar adeg ymgynghoriad cyhoeddus. Mae angen inni sicrhau bod y canllawiau yn adlewyrchu hynny.

Then, there were the questionnaires—the open questionnaires and the household questionnaires. Residents in the north and the west have rightly asked what the point was of them making the effort to fill in these questionnaires if they were given such short shrift by the health boards. That is why we believe very much that there is a serious democratic deficit now within decision making in local health boards that needs to be addressed. We know that when the Minister for health is challenged in the Chamber about decisions that are made on the ground, she often says, 'That is the responsibility of the health board; it has nothing to do with me, gov'nor'. We know that the health boards often say, 'We're told to do this by the Welsh Government and, therefore, we are doing it'. There is no direct accountability, which is why we think this has to stop, and it is about time that we started to look at radical solutions to this problem, such as direct elections to local health boards. The way in which local health boards operate at the moment and the way in which they make their decisions is seriously lacking, and it is about time, in order to restore public confidence in decision making, that local health board members were directly elected.

It need not be an expensive option. Elections could be held at the same time as local government elections. That would increase the turnout and would make sure that people were actively engaged. You could still have independent members on local health boards, but we believe that the majority ought to be elected in order to plug this democratic deficit. I look forward to hearing the Minister's response to that and I encourage everybody to support today's motion.

Yna, ceir yr holiaduron-yr holiaduron agored a'r holiaduron i gartref. Mae trigolion yn y gogledd a'r gorllewin wedi gofyn, a hynny'n gwbl briodol, pa ddiiben oedd iddynt ymdrechu i lenwi'r holiaduron hyn os cawsant gyn lleied o sylw gan y byrddau iechyd. Dyna pam rydym yn credu'n gryf bod diffyg democrataidd difrifol bellach mewn perthynas â phrosesau gwneud penderfyniadau mewn byrddau iechyd lleol, ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Gwyddom, pan gaiff y Gweinidog iechyd ei herio yn y Siambr am y penderfyniadau a wneir ar lawr gwlad, mae'n aml yn dweud, 'Cyfrifoldeb y bwrdd iechyd yw hynny, nid oes a wnelo dim â mi'. Gwyddom fod y byrddau iechyd yn aml yn dweud, 'Mae Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym am wneud hyn ac, felly, rydym yn ei wneud'. Nid oes unrhyw atebolrwydd uniongyrchol, a dyna pam y credwn fod yn rhaid i hyn ddod i ben, ac mae'n hen bryd inni ddechrau edrych ar atebion radical i'r broblem hon, megis ethol yn uniongyrchol i fyrddau iechyd lleol. Mae'r ffordd y mae byrddau iechyd lleol yn gweithredu ar hyn o bryd a'r ffordd y gwnânt eu penderfyniadau yn ddiffygiol iawn, ac mae'n hen bryd, er mwyn adfer hyder y cyhoedd mewn prosesau gwneud penderfyniadau, bod aelodau byrddau iechyd lleol yn cael eu hethol yn uniongyrchol.

Nid oes rhaid dewis opsiwn costus. Gellid cynnal etholiadau ar yr un pryd ag etholiadau llywodraeth leol. Byddai hynny'n cynyddu'r ganran sy'n pleidleisio a fyddai'n gwneud yn siŵr bod pobl yn cymryd rhan weithredol. Gallech gael aelodau annibynnol ar fyrddau iechyd lleol o hyd, ond credwn y dylai'r mwyafrif gael eu hethol er mwyn unioni'r diffyg democrataidd hwn. Edrychaf ymlaen at glywed ymateb y Gweinidog i hynny ac anogaf bawb i gefnogi cynnig heddiw.

15:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn ei enw.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn gallu ateb unrhyw alw ychwanegol a allai godi yn sgîl ad-drefnu GIG Cymru cyn y caiff unrhyw newidiadau eu gwneud.*

I have selected the amendment and call on Aled Roberts to move amendment 1 tabled in his name.

*Amendment 1-Aled Roberts*

*Add new point at end of the motion:*

*Calls on the Welsh Government to ensure that the Welsh Ambulance Service is able to meet any additional demand that may result from reconfiguration of the Welsh NHS before any changes are implemented.*

15:42 **Aled Roberts** [Bywgraffiad Biography](#)

I move amendment 1 in my name.

Cynigiau welliant 1 yn fy enw i.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

The Welsh ambulance service has a pivotal role to play in the performance of the entire health service in Wales, yet for the sixth successive month, emergency response times have fallen. The latest statistics show that only 58.4% of ambulances responding to category A calls arrived at the scene within eight minutes. This is well below the target of 65%. We accept that the Minister has launched a 10-week review into the ambulance service, the ninth in six years, as well as having announced her desire to increase the category A target to 70%. Based on current performance, only two local authority areas in Wales would reach that target. If we were to adopt the English target of 75%, no areas in Wales would meet it. In England, the performance of the ambulance service has been maintained over recent years, despite the higher target and increased demand. However, in Wales, we see review after review with no improvement.

Lost ambulance hours are at their highest. Between January 2011 and February 2012, ambulances spent the equivalent of 821 days waiting outside hospitals to transfer patients in. That equates to 2.3 years. I received a referral with regard to Wrexham Maelor Hospital last Friday, when patients were suggesting that there were nine ambulances queuing outside the accident and emergency department at one particular time. The Government is overseeing a medley of mess-ups. The reconfiguration of hospital services may lead to a greater need for ambulances. With the closure of community facilities, patients are required to travel further and this will only put our ambulance service under increasing strain.

Moving to the main purpose of the debate, according to the Opinion Research Services report on the findings of of Hywel Dda Local Health Board's consultation process, 78% of respondents agree that transport services will need to be improved. A submission from staff at Glangwili General Hospital suggests that the ambulance service is already stretched by having to transport patients long distances for emergencies, and then back to their home area for more local care afterwards.

The north Wales community health council expressed concern in its submission to the Betsi board last week that little consideration of the ambulance service has been given, although it will be expected to provide the transport to the services. It went on to say that it understands that the ambulance service is overstretched and over budget, but that it is a vital link and should be specifically covered in the plans. Despite that, the same consultation response noted that no representatives from the ambulance service had been present at Betsi's meetings.

The ambulance service cannot operate an efficient and cost-effective service in isolation from the rest of the NHS. From 71% in Wrexham to 45% in Bridgend, there is no consistency in emergency response times across Wales, which gives little confidence in the face of increased pressures that will be brought to bear by reconfiguration.

Mae gan wasanaeth ambiwlans Cymru rôl ganolog i'w chwarae o ran perfformiad y gwasanaeth iechyd cyfan yng Nghymru, ond eto am y chweched mis yn olynol, mae amseroedd ymateb brys wedi gostwng. Dengys yr ystadegau diweddaraf mai dim ond 58.4% o gerbydau ambiwlans sy'n ymateb i alwadau categori A sy'n cyrraedd y lleoliad o fewn wyth munud. Mae hyn dipyn yn is na'r targed o 65%. Derbyniwn fod y Gweinidog wedi lansio adolygiad 10 wythnos o'r gwasanaeth ambiwlans, y nawfed mewn chwe blynedd, yn ogystal â chyhoeddi ei dymuniad i gynyddu targed categori A i 70%. Yn seiliedig ar berfformiad cyfredol, dim ond dwy ardal awurdod lleol yng Nghymru fyddai'n cyrraedd y targed hwnnw. Pe baem yn mabwysiadu targed Lloegr o 75%, ni fyddai'r un ardal yng Nghymru yn ei fodloni. Yn Lloegr, mae perfformiad y gwasanaeth ambiwlans wedi cael ei gynnal dros y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf y targed uwch a'r cynnydd yn y galw. Fodd bynnag, yng Nghymru, rydym yn gweld adolygiad ar ôl adolygiad heb unrhyw welliant.

Mae'r oriau ambiwlans a gollwyd ar eu huchaf. Rhwng Ionawr 2011 a Chwefror 2012, treuliodd cerbydau ambiwlans gyfwerth â 821 o ddiwrnodau y tu allan i ysbytai yn aros i drosglwyddo cleifion iddynt. Mae hynny'n cyfateb i 2.3 o flynyddoedd. Derbyniais atgyfeiriad mewn perthynas ag Ysbyty Maelor Wrecsam ddydd Gwener diwethaf, pan oedd cleifion yn awgrymu bod naw ambiwlans yn aros y tu allan i'r adran damweiniau ac achosion brys ar un adeg benodol. Mae'r Llywodraeth yn goruchwylio cyfres o helyntion. Efallai y bydd ad-drefnu gwasanaethau ysbyty yn arwain at fwy o angen am gerbydau ambiwlans. Yn sgil cau cyfleusterau cymunedol, mae'n ofynnol i gleifion deithio ymhellach, a bydd hyn yn golygu bod ein gwasanaeth ambiwlans dan bwysau cynyddol eto.

Gan symud i brif ddiben y ddatl, yn ôl adroddiad y Gwasanaethau Ymchwil Barn ar ganfyddiadau proses ymgynghori Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, roedd 78% o'r ymatebwyr yn cytuno y bydd angen gwella gwasanaethau cludiant. Mae cyflwyniad gan staff yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili yn awgrymu bod y gwasanaeth ambiwlans o dan straen eisoes am fod yn rhaid cludo cleifion yn bell iawn mewn achosion brys, ac yna yn ôl i ardal eu cartref ar gyfer gofal mwy lleol wedyn.

Mynegodd cyngor iechyd cymuned y gogledd bryder yn ei gyflwyniad i fwrdd iechyd Betsi yr wythnos diwethaf na roddwyd llawer o ystyriaeth i'r gwasanaeth ambiwlans, er y bydd disgwyl iddo ddarparu'r cludiant i'r gwasanaethau. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn deall bod y gwasanaeth ambiwlans dan ormod o bwysau ac wedi mynd dros ei gyllideb, ond ei fod yn ddolen gyswllt hanfodol ac y dyldid ei gynnwys yn benodol yn y cynlluniau. Er gwaethaf hynny, nododd yr un ymateb i'r ymgynghoriad nad oedd unrhyw gynrychiolwyr o'r gwasanaeth ambiwlans wedi bod yn bresennol yng nghyfarfodydd bwrdd iechyd Betsi.

Ni all y gwasanaeth ambiwlans weithredu gwasanaeth effeithlon a chosteffeithiol ar wahân i weddill y GIG. O 71% yn Wrecsam i 45% ym Mhen-y-bont ar Ogwr, nid oes cysondeb mewn amseroedd ymateb brys ledled Cymru, ac nid yw hyn yn ennyn llawer o hyder yn wyneb y pwysau cynyddol a ddaw yn sgil ad-drefnu.

Despite the raft of legislation that exists on how local health boards, trusts and community health councils in Wales are asked to engage with the public on proposed changes to health services, it seems clear from the reaction in Hywel Dda and Betsi Cadwaladr health boards to the plans unveiled so far that the process in the eyes of the public has been flawed, and although both health boards have consulted widely, they have adopted little or none of the representations that were made to them by members of the public. This is reflective of this Government's whole approach to public engagement on transforming services. According to the Wales Audit Office report released last year

'there is no comprehensive national strategy for public engagement in Wales.'

From the feedback on Betsi Cadwaladr's consultation, people feel that the exercise was a token consultation process, and that the health board was

'not really listening and will implement changes regardless of well-founded local concern.'

The Welsh Government needs to look to Scotland, where national standards for community engagement were introduced in 2005, together with a dedicated website to support public sector organisations in developing, implementing and evaluating public engagement activity. This is a model that we need in Wales to restore trust and create a better working relationship between citizens and the public sector. We need this if we are to ensure that the views of the public are properly taken into account in future decisions about our NHS.

Er gwaethaf y ddeddfwriaeth lu ynglŷn â sut y gofynnir i fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau a chynghorau iechyd cymuned yng Nghymru ymgysylltu â'r cyhoedd ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau iechyd, mae'n amlwg o'r adwaith ym mwrdd iechyd Hywel Dda a bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr i'r cynlluniau a ddatgelwyd hyd yma bod y cyhoedd o'r farn bod y broses wedi bod yn ddiffygiol, ac er i'r ddau fwrdd iechyd ymgynghori'n eang, ychydig iawn, os o gwbl o'r sylwadau a gyflwynwyd iddynt gan aelodau o'r cyhoedd y maent wedi'u mabwysiadu. Mae hyn yn adlewyrchu holl ymagwedd y Llywodraeth hon tuag at ymgysylltu â'r cyhoedd ar drawsnewid gwasanaethau. Yn ôl adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd y llynedd

nid oes strategaeth genedlaethol gynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru.

O'r adborth ar ymgynghoriad Betsi Cadwaladr, mae pobl yn teimlo mai proses ymgynghori symbolaidd oedd yr ymarfer, ac nad oedd y bwrdd iechyd

yn gwrandao mewn gwirionedd ac y bydd yn gweithredu newidiadau er gwaethaf pryder lleol ac iddo â sail gadarn.

Mae angen i Lywodraeth Cymru edrych ar yr Alban, lle y cyflwynwyd safonau cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ym 2005, ynghyd â gwefan bwrpasol i helpu sefydiadau yn y sector cyhoeddus i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae hwn yn fodel sydd ei angen arnom yng Nghymru i ailennu ymddiriedaeth a chreu gwell cydberthynas waith rhwng dinasyddion a'r sector cyhoeddus. Mae angen hyn os ydym am sicrhau y caiff barn y cyhoedd ei hystyried yn briodol mewn penderfyniadau yn y dyfodol am ein GIG.

15:48

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are few issues closer to the hearts of my constituents than the changes being planned for the NHS in north Wales. The most troubling part of these plans is, of course, the decision to transfer the neonatal level 3 care service out of north Wales altogether. I spoke about this at length in my short debate last week. While the Minister did not respond to any of the specific points that I raised on that occasion, as the final decision had been announced, I hope that she is willing to respond in full during this debate.

Mae'r newidiadau a gynllunnir ar gyfer y GIG yn y gogledd yn fater sy'n agos iawn at galon fy etholwyr. Y rhan fwyaf gofidus o'r cynlluniau hyn, wrth gwrs, yw'r penderfyniad i drosglwyddo gwasanaeth gofal newyddenedigol lefel 3 o'r gogledd yn gyfan gwbl. Soniais am hyn yn fanwl yn fy nabl fer yr wythnos ddiwethaf. Er na wnaeth y Gweinidog ymateb i unrhyw un o'r pwyntiau penodol a godwyd gennyf ar yr achlysur hwnnw, gan fod y penderfyniad terfynol wedi ei gyhoeddi, gobeithiaf ei bod yn barod i ymateb yn llawn yn ystod y ddafl hon.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

There is little evidence of any clinical case for transferring level 3 neonatal care to Arrows Park Hospital. By the admission of Arrows Park's staff, the standard of care is not good enough and is deteriorating. The Royal College of Nursing is firmly opposed, and the British Medical Association sees no clinical evidence to support the move. In a jointly signed letter to Betsi Cadwaladr University Local Health Board dated 8 January, the BMA, the Royal College of Nursing and the Royal College of Midwives stated that the clinical evidence demonstrates a clear link between increased travelling distances from home to delivery, with increased perinatal mortality. Put bluntly, with increased travelling distances, babies will die. That is what those three organisations have plainly and clearly said. Not only will the babies die, but there will also be increased risks to the mothers.

Darren and Aled have raised, in their contributions in the Chamber, some of the defects in the consultation process. I went to a large number of meetings where the answers given by the health board varied dramatically between closed meetings—and Darren is perfectly right to say that you had to pre-book your place at the meeting. The British Medical Association, the Royal College of Nursing and Royal College of Midwives have pointed this out to the health board. In fact, in a letter dated 17 January, they said to the health board that they had scrutinised the final technical document dated October 2012, and that they had found inaccuracies in the responses given to them during the teleconference regarding the proposals. If the health board is willing to mislead the medical professionals, how much more damning is it that it is prepared to mislead the public? That is what happened during that consultation process. I also wrote to the health board to complain that many of my constituents had not received notification of the online questionnaire. Despite claims that it had been sent out to every resident in north Wales, neither I nor any member of my staff received a copy of that notification. A number of people also confirmed to me in writing that they had not received it. That point was raised with the health board.

I heard the Minister for health's answer earlier in response to a direct question about the conflict of interest between the clinical nursing director—who was present at nearly every meeting, and certainly at every meeting that I attended, which was over seven—who made the persuasive case for change and presented different facts, according to different meetings, for the move to Arrows Park Hospital. However, at no point during that consultation stage did she disclose that she, in fact, would be moving to the Arrows Park facility. I think that people hearing that fact would be really worried as to whether they had received an impartial and accurate presentation of the changes, particularly given the number of concerns raised by the clinicians.

Minister, I urge you to call in this particular decision. Two expert reviews and reports have said that north Wales needs a single neonatal centre. If the recommendation was that north Wales needed an English neonatal centre, I have no doubt that that recommendation would have been made in earlier reports. It was not. The clinical cases are there—

Nid oes fawr ddim tystiolaeth o unrhyw achos clinigol dros drosglwyddo gofal newyddenedigol lefel 3 i Ysbyty Arrows Park. Yn ôl cyfaddefiad staff Arrows Parc, nid yw safon y gofal yn ddigon da ac mae'n dirywio. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn gwrthwynebu yn llwyr, ac ni wél Cymdeithas Feddygol Prydain unrhyw dystiolaeth glinigol i gefnogi'r penderfyniad i symud gwasanaethau. Mewn llythyr wedi'i lofnodi ar y cyd i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr dyddiedig 8 Ionawr, nododd Cymdeithas Feddygol Prydain, y Coleg Nyrsio Brenhinol a Choleg Brenhinol y Bydwagedd fod y dystiolaeth glinigol yn dangos cyswllt clir rhwng cynnydd mewn pellter teithio rhwng y cartref a'r man geni, â chynnydd yn nifer y marwolaethau amenedigol. A bod yn blwmp ac yn blaen, gyda phellteroedd teithio cynyddol, bydd babanod yn marw. Dyna'r hyn a ddywedwyd yn glir gan y tri sefydliad hynny. Nid yn unig y bydd babanod yn marw, ond bydd hefyd risgiau cynyddol i'r mamau.

Yn ystod eu cyfraniadau yn y Siambr, mae Darren ac Aled wedi codi rhai o'r diffygion yn y broses ymgynghori. Euthum i nifer fawr o gyfarfodydd lle roedd yr atebion a roddwyd gan y bwrdd iechyd yn amrywio'n fawr rhwng cyfarfodydd caeedig-ac mae Darren yn llygad ei le bod yn rhaid i bobl rag-archebu eu lle yn y cyfarfod. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain, y Coleg Nyrsio Brenhinol a Choleg Brenhinol y Bydwagedd wedi tynnu sylw'r bwrdd iechyd at hyn. Yn wir, mewn llythyr dyddiedig 17 Ionawr, dywedwyd wrth y bwrdd iechyd eu bod wedi craffu ar y ddogfen dechnegol derfynol dyddiedig mis Hydref 2012, a'u bod wedi dod o hyd i wallau yn yr ymatebion a roddwyd iddynt yn ystod y cyfarfod telegynhadledd ynghylch y cynigion. Os yw'r bwrdd iechyd yn barod i gamarwain y gweithwyr meddygol proffesiynol, faint yn fyw damniol ydyw ei fod yn barod i gamarwain y cyhoedd? Dyna beth ddigwyddodd yn ystod y broses ymgynghori. Ysgrifennais hefyd at y bwrdd iechyd i gwyno nad oedd llawer o'm hetholwyr wedi cael hysbysiad o'r holiadur ar-lein. Er gwaethaf honiadau ei fod wedi cael ei anfon i holl drigolion gogledd Cymru, ni chefais i nac unrhyw aelod o'm staff gopi o'r hysbysiad hwnnw. Cefais gadarnhad ysgrifenedig hefyd gan nifer o bobl nad oeddent wedi ei dderbyn. Codwyd y pwynt hwnnw gyda'r bwrdd iechyd.

Clywais ateb y Gweinidog iechyd yn gynharach mewn ymateb i gwestiwn uniongyrchol am y gwrthdaro buddiannau rhwng y cyfarwyddwr nyrsio clinigol-a fu'n bresennol ym mhob cyfarfod bron, ac yn sicr ym mhob cyfarfod y bŷm ynddo, sef dros saith-a gyflwynodd yr achos argyhoeddiadol dros newid ac a gyflwynodd ffeithiau gwahanol, yn ôl cyfarfodydd gwahanol, ar gyfer symud i Ysbyty Arrows Park. Fodd bynnag, ni ddatgelodd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgynghori y byddai, mewn gwirionedd, yn symud i gyfleuster Arrows Park. Credaf y byddai pobl sy'n clywed y ffaith honno yn poeni'n wirioneddol pa un a oeddent wedi cael cyflwyniad diduedd a chywir o'r newidiadau, yn enwedig o ystyried nifer y pryderon a godwyd gan y clinigwyr.

Weinidog, rwy'n eich annog i alw'r penderfyniad penodol hwn i mewn. Mae dau adolygiad ac adroddiad arbenigol wedi dweud bod angen canolfan newyddenedigol sengl yn y gogledd. Os mai'r argymhelliad oedd bod angen canolfan newyddenedigol yn Lloegr ar y gogledd, nid oes gennyf amheuaeth y byddai'r argymhelliad hwnnw wedi cael ei wneud mewn adroddiadau cynharach. Ond nid felly y bu. Mae'r achosion clinigol yno-

- 15:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 You must conclude now, please. Rhaid ichi orffen yn awr, os gwelwch yn dda.
- 15:53 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 It is time for that decision to be looked at again and overturned. Mae'n amser i'r penderfyniad hwnnw gael ei ystyried eto a'i wrthdroi.
- 15:53 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Rwy'n falch o siarad yn y ddadl hon, gan fod dyfodol ein gwasanaeth iechyd yn bwysig iawn i bob un ohonom. Mae'r ddadl hon yn ymwneud â'r dyfodol hwnnw. Byddaf yn siarad yn erbyn y cynnig; nid yw hynny'n syndod. Fy mhryder i yw y bydd gwrthodiad parhaus y Torïaid i dderbyn bod galw clinigol ar gyfer newid yn creu teimlad negyddol ymysg cleifion ac yn achosi llawer iawn o straen a phryder iddynt ar adeg pan mae angen sicrwydd arnynt am y gofal y byddant yn ei dderbyn. I am pleased to contribute to this debate, because the future of our health service is exceptionally important to each and every one of us. This debate is about that future. I will be speaking against the motion; that will not surprise anyone. My concern is the effect that this will have-not accepting that there is a clinical demand will create a negative feeling among patients and will cause a great deal of stress and concern to them at a time when they need certainty and assurances about the care that they will receive.
- Clinicians, medical professionals and academics all indicate that the NHS needs to make dramatic changes to the delivery of services to achieve better care and better outcomes, particularly for their very ill patients. One of the challenges facing our NHS in the coming years, often cited as a need to change, has already been demonstrated within my own local hospital, namely available qualified medical staff and attracting trainee doctors to Wales. Last summer's announcement by Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board that acute medical services at Neath Port Talbot Hospital had to move as a recruitment drive failed to deliver enough CT2 doctors to provide a safe service to the people of Neath Port Talbot gives a stark vision that needs addressing. My views on that decision are already in the public domain, and when I ask constituents whether they wanted their partner, father, mother, daughter, son, sister, brother, or whoever, treated at a centre that does not have enough doctors to provide a safe service 24/7, or whether they would prefer them to be taken to a centre a little bit further away with sufficient resources, everyone to date has told me that they would choose the latter. This has also highlighted the need to plan for change and not to have to react as we see happening in the chaos in England at the moment. Resource shortages, the need to provide safe services, the desire to provide and receive more care in the community and, let us not forget, the large budget cuts coming from the UK Government all mean that we must change the way that we deliver our healthcare. It is incumbent upon all politicians to be open with the people; that must be at the heart of this debate.
- Mae clinigwyr, gweithwyr proffesiynol meddygol ac academyddion i gyd yn awgrymu bod angen i'r GIG wneud newidiadau dramatig i'r gwasanaethau a ddarperir i sicrhau gofal gwell a chanlyniadau gwell, yn enwedig ar gyfer eu cleifion sâl iawn. Gwelwyd un o'r heriau sy'n wynebu ein GIG yn y blynyddoedd i ddod, a nodir yn aml fel angen i newid, eisoes yn fy ysbyty lleol, sef sicrhau bod staff meddygol cymwysedig ar gael ac y gellir denu meddygon dan hyfforddiant i Gymru. Mae'r cyhoeddiad a wnaed yn ystod yr haf y llynedd gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fod yn rhaid symud gwasanaethau meddygol aciwt yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot gan fod ymgyrch recriwtio wedi methu â darparu digon o feddygon CT2 i ddarparu gwasanaeth diogel i bobl Castell-nedd Port Talbot yn rhoi darlun du y mae angen mynd i'r afael ag ef. Rwyf eisoes wedi datgan fy marn ar y penderfyniad hwnnw, a phan holaf etholwyr a fyddent am i bartner, tad, mam, merch, mab, chwaer, brawd, neu bwy bynnag, gael eu trin mewn canolfan lle nad oes digon o feddygon i ddarparu gwasanaeth diogel bob awr o'r dydd, neu a fyddai'n well ganddynt iddynt fynd i ganolfan ychydig ymhellach i ffwrdd gydag adnoddau digonol, mae pawb hyd yma wedi dweud wrthyf y byddent yn dewis yr ail opsiwn. Mae hyn hefyd wedi dangos yr angen i gynllunio ar gyfer newid ac i beidio â gorfod ymateb fel y gwelwn yn digwydd yn yr anhrefn yn Lloegr ar hyn o bryd. Mae prinder adnoddau, yr angen i ddarparu gwasanaethau diogel, yr awydd i ddarparu a derbyn mwy o ofal yn y gymuned a, pheidied neb ag anghofio, y toriadau sylweddol yn y gyllideb a wneir gan Lywodraeth y DU i gyd yn golygu bod yn rhaid inni newid y ffordd yr ydym yn darparu ein gofal iechyd. Mae'n ddyletswydd ar bob gwleidydd i fod yn agored gyda phob; rhaid i hynny fod wrth wraidd y ddadl hon.

To achieve this, in recent months, I have met with hospital-based consultants, health professionals, the local community health council, local authority representatives, trade unions, professional bodies and stakeholders to discuss the proposals in the south Wales programme, which affects my patch. I intend to have further meetings with GPs in the coming months before ABMU's final proposals are published. To date, all medical professionals have agreed with the need for change and did not challenge the establishment of centres of specialist services. Everyone saw the benefit of having specialists who are experts and experienced in their fields delivering first-class care to patients and improving patient outcomes 24/7, as we have already seen happen in stroke services.

Er mwyn cyflawni hyn, yn ystod y misoedd diwethaf, rwyf wedi cyfarfod â meddygon ymgynghorol mewn ysbytai, gweithwyr iechyd proffesiynol, y cyngor iechyd cymuned lleol, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, undebau llafur, cyrff proffesiynol a rhanddeiliaid i drafod y cynigion yn rhaglen y de, sy'n effeithio ar fy ardal i. Rwy'n bwriadu cynnal cyfarfodydd pellach gyda meddygon teulu dros y misoedd nesaf cyn i gynigion terfynol PABM gael eu cyhoeddi. Hyd yma, mae'r holl weithwyr meddygol proffesiynol wedi cytuno bod angen newid ac ni wnaethant herio'r broses o sefydlu canolfannau gwasanaethau arbenigol. Roedd pawb yn gweld budd cael arbenigwyr sy'n brofiadol yn eu meysydd i gyflwyno gofal o'r radd flaenaf i gleifion a gwella canlyniadau i gleifion bob awr o'r dydd, fel y gwelsom yn digwydd eisoes mewn gwasanaethau strôc.

15:56

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Member for Aberavon for giving way. He said that all clinicians to date have supported the changes, but they have done so on the basis that the Welsh Government and local health boards have failed to attract clinicians to work in Wales. That is the key problem, as well as the £500 million budget cuts that the Government is implementing over the next three years. That is the issue.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod dros Aberafan am ildio. Dywedodd fod yr holl glinigwyr hyd yma wedi cefnogi'r newidiadau, ond eu bod yn gwneud hynny ar y sail bod Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd lleol wedi methu â denu clinigwyr i weithio yng Nghymru. Dyna'r broblem allweddol, yn ogystal â'r toriadau o £500 miliwn yn y gyllideb a roddir ar waith gan y Llywodraeth dros y tair blynedd nesaf. Dyna'r broblem.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:56

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It was nice to get that in again. Can I make the point that it is in fact a UK recruitment issue? The failure of recruitment, particularly in accident and emergency and paediatric services, is a UK issue and is recorded as such. [Interruption.]

Roedd yn braf nodi hynny eto. A allaf wneud y pwynt mai problem recriwtio yn y DU ydyw mewn gwirionedd? Mae'r ffaith bod y broses recriwtio wedi methu, yn enwedig mewn gwasanaethau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau pediatrig, yn broblem i'r DU ac mae wedi ei chofnodi felly. [Torri ar draws.]

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Others have expressed views on the necessary integration of social services to deliver more care in the community, and the question of access to services, wherever they are located, is something that I will continue to chase up. One thing is clear: the policy is right, and it is considered important that health boards must deliver those services safely and sustainably.

Mae eraill wedi mynegi barn ar y ffaith bod angen integreiddio gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu mwy o ofal yn y gymuned, ac mae hygyrchedd gwasanaethau, lle bynnag y maent wedi'u lleoli, yn rhywbeth y byddaf yn parhau i fynd ar ei drywydd. Mae un peth yn glir: mae'r polisi yn gywir, ac ystyrir ei bod yn bwysig bod yn rhaid i fyrddau iechyd ddarparu'r gwasanaethau hynny yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

On point 3 of the motion, I agree that health boards must involve the public through proper consultation and engagement and that they must do so in a way that allows them to take the public on the journey of change with them. This is critical, but we as politicians also have a job to do to change the public's understanding of which services are to be delivered in hospitals and which no longer need to be delivered in hospitals, effectively reminding people that the NHS is about service delivery and not about the buildings in which the service delivery takes place. To give an example, there is an excellent walk-in physiotherapy unit at our local resource centre in Port Talbot, which places the service in the community and no longer in the hospital where it was previously located.

O ran pwynt 3 y cynnig, cytunaf fod yn rhaid i fyrddau iechyd gynnwys y cyhoedd drwy ymgynghori ac ymgysylltu priodol a bod yn rhaid iddynt wneud hynny mewn ffordd sy'n rhoi cyfle iddynt gynnwys y cyhoedd yn y broses newid. Mae hyn yn hanfodol, ond mae gennym ni fel gwleidyddion hefyd waith i'w wneud i newid dealltwriaeth y cyhoedd o ba wasanaethau y dylid eu darparu mewn ysbytai a pha rai nad oes angen iddynt gael eu darparu mewn ysbytai bellach, gan atgoffa pobl i bob diben bod a wnelo'r GIG â darparu gwasanaethau ac nid yr adeiladau lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu. I roi enghraifft, mae uned ffisiotherapi galw i mewn ardderchog yn ein canolfan adnoddau leol ym Mhort Talbot, sy'n lleoli'r gwasanaeth yn y gymuned ac nid yn yr ysbyty fel o'r blaen.

I understand the need for change, and will work to ensure that high-quality services are at the heart of any reconfiguration within the NHS. I will continue to raise the need to ensure that the same medical team provides continual care for patients to ensure that patient confidence is strengthened. I will champion the need to provide appropriate and safe transport links to access NHS services and to visit loved ones in hospital—let us not ignore that part. I will continue to hold our health boards to account for delivering these services to the people of Wales. The Government is leading the agenda on how we will continue to provide high-quality, safe and sustainable health services in Wales, and the opposition should support it in those endeavours and not continue with its negative approach to addressing what many clinicians have stated is something that we cannot run away from.

I will conclude with one point. You did not take my intervention, but I must express my disappointment, dismay and—I do not use this word often—disgust at the reference to the academic credibility of Professor Marcus Longley, whom I have spoken to and met. If he understands HE, he will understand the importance of academic integrity in any discussions that academics have.

15:58

## **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am delighted to have the opportunity to speak in today's important debate. Minister, I am sure that you or your backbenchers will not be surprised that we brought forward this motion, because of its great importance, even though I am sure that you will feel unable or unwilling to answer some of our concerns, because of your position with regard to reviewing any potential call-in. However, our NHS provokes an almost visceral reaction in many people. We depend on the NHS to bring our babies into the world, to advise and guide us as we grow and develop, to restore our health when it fails, to be our first and last port of call in moments of distress, to allay our fears as we face worries and unknowns, and, for many of us, our NHS helps us on our last journey to the greatest unknown of all. Therefore, these debates must happen, because they reflect not just our concerns—and I look at all of us here—as individuals, but, more importantly, the concerns of a great many constituents. These constituents often believe that their voices are not heard or are too small to be heard. There are constituents who have no doubt that their voices are not being heard by the powers that be, whether those powers be the health board or the Government.

Deallaf yr angen am newid, a byddaf yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn ganolog i unrhyw ad-drefnu o fewn y GIG. Byddaf yn parhau i godi'r angen i sicrhau mai'r un tîm meddygol sy'n darparu gofal parhaus i gleifion er mwyn sicrhau y caiff hyder y claf ei atgyfnerthu. Byddaf yn hyrwyddo'r angen i ddarparu cysylltiadau trafniadaeth priodol a diogel i sicrhau hygyrchedd gwasanaethau'r GIG ac i ymweld ag anwyliaid yn yr ysbyty- ni ddylid anwybyddu hynny. Byddaf yn parhau i ddwyn ein byrddau iechyd i gyfrif am ddarparu'r gwasanaethau hyn i bobl Cymru. Mae'r Llywodraeth yn arwain yr agenda ar sut y byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd diogel a chynaliadwy o safon uchel yng Nghymru, a dylai'r wrthblaid ei chefnogi gyda'r ymdrechion hynny yn hytrach na pharhau â'i dull negyddol o fynd i'r afael â'r hyn y mae llawer o glinigwyr wedi'i nodi yn rhywbeth na allwn ei anwybyddu.

Gorffennaf drwy wneud un pwynt. Ni wnaethoch dderbyn fy ymyriad, ond rhaid imi fynegi fy siom, fy siom a-nid wyf yn defnyddio'r gair hwn yn aml-ffieidd-dod at y cyfeiriad at hygredd academiaidd yr Athro Marcus Longley, yr wyf wedi siarad ag ef a'i gyfarfod. Os yw'n deall AU, bydd yn deall pwysigrwydd cywirdeb academiaidd mewn unrhyw drafodaethau a gaiff academyddion.

Rwyf wrth fy modd imi gael y cyfle i siarad yn nabl bwysig heddiw. Weinidog, rwy'n si?r na fyddwch chi na'ch Aelodau meinciau cefn yn synnu ein bod wedi cyflwyno'r cynnig hwn, oherwydd ei bwysigrwydd mawr, er fy mod yn si?r na fyddwch yn teimlo y gallwch leddfu rhai o'n pryderon, neu y byddwch yn dewis peidio â gwneud hynny, oherwydd eich sefyllfa mewn perthynas ag adolygu unrhyw achos posibl o alw i mewn. Fodd bynnag, mae ein GIG yn ennyn adwaith dwys iawn mewn llawer o bobl. Rydym yn dibynnu ar y GIG wrth roi genedigaeth, i roi cyngor ac arweiniad wrth inni dyfu a datblygu, i adfer ein hiechyd pan fo'n methu, i fod yn fan cyswllt cyntaf ac olaf ar adegau o ofid, i leddfu ein hofnau wrth inni wynebu pryderon ac ansicrwydd, ac, i lawer ohonom, mae ein GIG yn ein helpu ar ein taith olaf ar ddiwedd ein hoes. Felly, rhaid i'r dadleuon hyn ddigwydd, oherwydd, yn ogystal ag adlewyrchu ein pryderon-ac edrychaf ar bob un ohonom yma-fel unigolion, yn bwysicach na dim, maent yn adlewyrchu pryderon llawer iawn o etholwyr. Mae'r etholwyr hyn yn aml yn credu na chaiff eu lleisiau eu clywed neu eu bod yn rhy fach i gael eu clywed. Mae etholwyr nad oes ganddynt unrhyw amheuaeth nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed gan y rhai mewn awdurdod, boed hynny yn y bwrdd iechyd neu'r Llywodraeth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Therefore, in this debate, which could have covered so much of the many facets at play in the Welsh NHS reconfiguration programme, we have raised three very clear points in our motion. I will start by addressing the concerns that I have regarding the consultation process in Hywel Dda, and what I consider to be some major inconsistencies and a lack of adherence to consultation guidelines. I start by concentrating on the voices of my constituents and others in the health board area, and the issue of whether they have really been heard, let alone been listened to. I am aware of current guidance on how to involve the public. I am also aware that this guidance was updated in 2011. That, in turn, built on the 2005 guidelines and the findings of the Michael Hill review of public consultations in Blaenau Ffestiniog, undertaken by the Gwynedd local health board in 2005, and the review of public consultation in Prestatyn, undertaken by Denbighshire local health board in 2005-06.

Hywel Dda LHB, via its appointed agency, sent out 5,000 targeted or closed questionnaires. These were sent to specific households throughout Pembrokeshire, Carmarthenshire and Ceredigion. This seems like such a small sample, especially when you look at return and attrition rates. Based on one of my previous lives, as a marketing person, I have to say that 5,000 would not be viewed as a representative sample out of a potential 372,320 folk. In fact, Minister, it is only 1.3429%. Only 697 responses were received in respect of the 5,000 targeted or closed questionnaires that were sent out. Let me tell you Minister, the figure of 697 may represent 14% of the questionnaires that were issued, but it only represents 0.18% of the total population. Given that this was spread throughout the health board, it is unsurprising that only an approximate 75% of people will have answered the relevant questions about neonatal or minor injuries units. I do not suppose, for example, that someone in Llanelli might have a view on the Tenby minor injuries unit. The figure is 0.18%; that is not much of a voice. Not to worry: in all of the public meetings attended by well over 1,000 people and all of the drop-in sessions, the health board urged people to fill in the questionnaire. 'Let us hear your voice' it said. It urged us, the elected representatives here, to help ensure that people were engaged. My office printed out many questionnaires for all of the people who came to us and did not have the internet, computers or printers, or who could not access this predominantly technology-driven consultation.

Therefore, a further 4,422 completed questionnaires were received from the general public, plus 200 additional, detailed, written submissions. My concern, Minister, is that the LHB appears to have given prime consideration and weighting to the closed questionnaires, namely 75% of 697 people. It is ignoring the other data, which it and Opinion Research Services classify as quantitative. Minister, I am asking you what kind of voice this could possibly be. We said to people, 'Fill in your questionnaires and we will listen to you.' They filled in their questionnaires in their thousands. They attended public meetings in their thousands. They went to drop-in sessions in their tens and twenties. They have largely been ignored because ORS and the local health board have said that these are not cogent reasons.

Felly, yn y ddadl hon, a allai fod wedi cynnwys cymaint o'r agweddau gwahanol ar raglen ad-drefnu GIG Cymru, rydym wedi codi tri phwynt dir iawn yn ein cynnig. Dechreuaf drwy roi sylw i'r pryderon sydd gennyf ynglŷn â'r broses ymgynghori ym mwrdd iechyd Hywel Dda, a'r hyn a ystyriaf yn anghysonderau mawr a methiant i gadw at ganllawiau ymgynghori. Dechreuaf drwy ganolbwyntio ar leisiau fy etholwyr a phobl eraill yn ardal y bwrdd iechyd, a pha un a ydynt wedi cael eu clywed mewn gwirionedd, heb sôn am ba un a oes rhywun wedi gwranddo arnynt. Rwy'n ymwybodol o'r canllawiau cyfredol ar sut i gynnwys y cyhoedd. Rwy'n ymwybodol hefyd bod y canllawiau hyn wedi cael eu diwedddaru yn 2011. Roedd hynny, yn ei dro, yn adeiladu ar ganllawiau 2005 a chanfyddiadau adolygiad Michael Hill o ymgynghoriadau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog, a gynhaliwyd gan fwrdd iechyd lleol Gwynedd yn 2005, ac adolygiad ar ymgynghoriad cyhoeddus ym Mhrestatyn, a gynhaliwyd gan fwrdd iechyd lleol Sir Ddinbych yn 2005-06.

Anfonodd bwrdd iechyd lleol Hywel Dda, drwy ei asiant penodedig, 5,000 o holiaduron wedi'u targedu neu holiaduron caeedig. Cawsant eu hanfon i gartrefi penodol ledled Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae'n ymddangos yn sampl mor fach, yn enwedig pan edrychwch ar gyfraddau dychwelyd a diffyg ymateb. Yn seiliedig ar un o'm swyddi blaenorol, fel swyddog marchnata, rhaid imi ddweud na fyddai 5,000 yn cael ei weld yn sampl gynrychioliadol allan o 372,320 o bobl o bosibl. Yn wir, Weinidog, dim ond 1.3429% ydyw. Dim ond 697 o ymatebion a ddaeth i law o'r 5,000 o holiaduron wedi'u targedu neu holiaduron caeedig a anfonwyd. Gadewch imi ddweud wrthyh Weinidog, efallai bod y ffigur o 697 yn cyfrif am 14% o'r holiaduron a anfonwyd, ond mae ond yn cynrychioli 0.18% o gyfanswm y boblogaeth. O ystyried bod hyn ar draws y bwrdd iechyd, nid yw'n syndod mai dim ond tua 75% o bobl fydd wedi ateb y cwestiynau perthnasol am unedau newyddenedigol neu fân anafiadau. Nid wyf yn tybio, er enghraifft, y byddai gan rywun yn Llanelli farn ar yr uned mân anafiadau yn Ninbych-y-pysgod. Dim pwynt un deg wyth y cant yw'r ffigur, nid hynny'n fawr o lais. Peidiwch â phoeni: ym mhob un o'r cyfarfodydd cyhoeddus a fynychwyd gan ymhell dros 1,000 o bobl a phob un o'r sesiynau galw heibio, roedd y bwrdd iechyd yn annog pobl i lenwi'r holiadur. 'Gadewch inni glywed eich llais' oedd y neges. Roedd yn ein hannog, y cynrychiolwyr etholedig yma, i helpu i sicrhau bod pobl yn cymryd rhan. Argraffodd fy swyddfa lawer o holiaduron i'r holl bobl a ddaeth atom ac nad oedd ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd, cyfrifiaduron nac argraffwyr, neu nad oedd yr ymgynghoriad hwn, a oedd yn dechnolegol yn ei hanfod, ar gael iddynt.

Felly, derbyniwyd 4,422 arall o holiaduron wedi'u cwblhau gan y cyhoedd, yn ogystal â 200 ychwanegol o gyflwyniadau ysgrifenedig, manwl. Fy mhyrder, Weinidog, yw yr ymddengys bod y BIL wedi rhoi mwy o ystyriaeth a phwyslais i'r holiaduron caeedig, sef 75% o 697 o bobl. Mae'n anwybyddu'r data eraill, y mae'r bwrdd iechyd a'r Gwasanaethau Ymchwil Barn yn eu hystyried yn feintiol. Weinidog, gofynnaf ichi ba fath o lais yw hwn. Dywedwyd wrth bobl, 'Cwblhewch eich holiaduron a byddwn yn gwranddo arnoch.' Gwnaethant lenwi eu holiaduron yn eu miloedd. Gwnaethant fynychu cyfarfodydd cyhoeddus yn eu miloedd. Aethant i sesiynau galw heibio yn eu degau ac ugeiniau. Maent wedi'u diystyru i raddau helaeth oherwydd bod y Gwasanaethau Ymchwil Barn a'r bwrdd iechyd lleol wedi dweud nad yw'r rhain yn rhesymau cryf.

I would like to talk to you about special care baby units, but I do not have time. I would like to talk to you about minor injuries units, but I do not have time. There is so much wrong with the whole consultation process, which is flawed. Minister, I would like you to have a very serious look at your guidelines.

Hoffwn siarad â chi am unedau babanod gofal arbennig, ond nid oes gennyf amser. Hoffwn siarad â chi am unedau mân anafiadau, ond nid oes gennyf amser. Mae cymaint o'i le ar y broses ymgynghori gyfan, sy'n ddiffygiol. Weinidog, hoffwn ichi fwrw golwg difrifol iawn ar eich canllawiau.

16:04

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf yn falch o gefnogi'r cynnig hwn heddiw, yn ogystal â'r gwelliant. Nid oes amheuaeth bod newidiadau i wasanaethau'r GIG yn anodd eu cyflwyno i'r cyhoedd. Mae'n anodd i unrhyw fwrdd iechyd neu Weinidog iechyd berswadio unigolion ei bod yn beth da dod â gwasanaeth lleol i ben a symud y gwasanaeth hwnnw yn bellach o'u cymunedau. Ydy, mae'n anodd gwneud hynny, ond nid yw'n amhosibl, yn fy marn i. Ar y cyfan, mae pobl yn fodlon gwrando ar ddadleuon. Serch hynny, mae'n amhosibl perswadio'r cyhoedd am yr angen i newid gwasanaethau os nad yw bwrdd iechyd yn barod i fynd allan i gymunedau er mwyn egluro, gwerthu a chyfiawnhau ei gynlluniau.

Cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn graffu gyda byrddau iechyd Hywel Dda a Betsi Cadwaladr ar eu prosesau ymgynghori diweddar. Roedd y gwahaniaeth rhwng y ddau fwrdd yn drawiadol i'r pwyllgor. Roedd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, a bod yn deg, wedi cynnal a mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, ac, heb amheuaeth, wedi derbyn tipyn o fflac yn rhai o'r cyfarfodydd hynny. Fodd bynnag, roedd wedi cynnal y cyfarfodydd cyhoeddus hynny ac wedi ateb cwestiynau gan y cyhoedd. Cefais sioc, rhaid dweud, gan y dystiolaeth oddi wrth Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fel y dywedwyd yn gynharach, roedd yn rhaid archebu tocyn o flaen llaw er mwyn mynd i gyfarfod a oedd, yn honedig, yn gyfarfod cyhoeddus. Rwyf yn mynd i'r theatr heno ac rwy'n derbyn bod yn rhaid imi archebu tocyn o flaen llaw i fynd yno, ond nid yw'n dderbyniol i gorff cyhoeddus gynnal ymgynghoriad cyhoeddus drwy docyn. Hoffwn glywed y Gweinidog, yn ei hymateb heddiw, yn dweud bod agweddau ar yr ymgynghoriadau diweddar sydd wedi bod yn ddiffygiol ac y bydd yn ysgrifennu at y byrddau iechyd i amlinellu iddynt ba arferion ymgynghori y mae'n credu nad ydynt yn dderbyniol, a pha rhai sy'n orfodol. Buaswn yn dweud y dylai cynnal cyfarfodydd traddodiadol cyhoeddus sydd yn gwbl agored fod yn ddyletswydd orfodol i bob bwrdd iechyd wrth ymgynghori ar newid gwasanaeth.

I am pleased to support this motion today, as well as the amendment. There is no doubt that changes to NHS services are difficult to present to the public. It is difficult for any health board or health Minister to persuade individuals that it is a good thing to bring a local service to an end and to move that service further away from their communities. It is difficult to do, yes, but it is not impossible, in my opinion. On the whole, people are willing to listen to the arguments. However, it is impossible to persuade the public of the need to change services if the health board is not willing to go out to communities to explain, sell and justify their plans.

The Health and Social Care Committee conducted a scrutiny session with the Hywel Dda and Betsi Cadwaladr health boards on their recent consultation processes. The committee found the difference between the two boards striking. Hywel Dda Local Health Board had, to be fair, held and attended public meetings, and, without doubt, had taken some flak at some of those meetings. However, it had held those public meetings and had responded to questions from the public. I was shocked, I must say, by the evidence from Betsi Cadwaladr University Local Health Board. As was said earlier, you had to pre-book a ticket to attend a meeting that was, allegedly, a public meeting. I am going to the theatre this evening and I accept that I have to book a ticket in advance for the theatre, but it is not acceptable for a public body to hold a public consultation via a ticketed event. I would like to hear the Minister, in her response today, say that certain aspects of the recent consultations have been deficient and that she will write to the health boards to outline to them which consultation practices she believes are unacceptable, and which are mandatory. I would say that holding traditional public meetings that are completely open to all should be a requirement of all health boards in consulting on service reconfiguration.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

O dan y canllawiau presennol, y byrddau iechyd sydd i benderfynu ar ba wasanaethau i ddarparu yn eu hardaloedd ac, os nad yw'r cyngor iechyd cymuned yn eu gwrthwynebu, mae'r penderfyniadau hynny yn cael eu gweithredu. Os daw gwrthwynebiad, mae'r penderfyniadau yn cael eu cyfeirio at y Gweinidog iechyd. Mae'r broses honno yn mynd yn ei blaen ar hyn o bryd, ac rwyf yn siŵr bydd y Gweinidog yn dweud y prynhawn yma nad yw'n gallu ymateb a rhoi sylwadau ar nifer o'r newidiadau gwasanaeth hyn oherwydd y broses honno, felly ni fyddaf yn cyfeirio at nifer ohonynt ychwaith. Fodd bynnag, mae un penderfyniad gan y byrddau iechyd sydd yn mynd tu hwnt i rôl briodol bwrdd iechyd wrth wneud penderfyniadau yn fy marn i, a hwnnw yw'r penderfyniad i orffen darparu gwasanaeth newyddenedigol yn y gogledd a'i chomisiynu yn Lloegr. Beth bynnag yw barn y cyngor iechyd cymuned, mae angen i'r Llywodraeth hon alw'r penderfyniad i mewn a chraffu ymhellach ar y penderfyniad. Mae barn glinigol o blaid y penderfyniad, ond mae hefyd farn glinigol yn ei erbyn. Mae llythyr diweddar gan y BMA, yr RCN a Choleg Brenhinol y Bydwrgeddd yn glir yn erbyn y penderfyniad hwn. Rwy'n siŵr taw nid ar chwarae bach y bu iddynt roi'r sylwadau hynny mewn llythyr. Clywsom gan Llyr Huws Gruffydd yn gynharach fod cwestiynau wedi bod hefyd ynghylch rhai o'r ffigurau ar ddefnyddwyr gwasanaeth y mae BILL Betsi Cadwaladr wedi eu defnyddio er mwyn cyfiawnhau'r penderfyniad. Fodd bynnag, ar sail yr egwyddor yn unig, buaswn yn dweud y dylai'r Llywodraeth hon gymryd y penderfyniad terfynol os yw un o'i byrddau iechyd yn penderfynu dod â gwasanaeth i ben mewn dau ysbty yng Nghymru a'i chomisiynu o ysbty yn Lloegr. Rhown i un ochr ar gyfer y ddadl hon y cannoedd o weithiau rydym wedi clywed y Gweinidog yma a'r Prif Weinidog yn ymhyfrydu wrth feirniadu'r newidiadau i'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth hon ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gymryd y penderfyniad terfynol ar gomisiynu a buddsoddi mewn gwasanaethu NHS yng Nghymru neu gomisiynu a buddsoddi yn yr hyn sydd yn weddill o'r NHS yn Lloegr. Beth bynnag fyddai'r penderfyniad terfynol, y Llywodraeth hon ddylai ei gymryd.

Under the current guidance, it is for the health boards to decide which services are provided in their areas and then, if the community health council does not oppose them, those decisions are implemented. If it does oppose them, the decisions are referred to the Minister for health. That process is currently under way, and I am sure that the Minister will say this afternoon that she cannot respond or comment on a number of these service reconfigurations because of that process, so I will not make reference to a number of them either. However, there is one decision by the health boards that goes beyond the appropriate role of a health board in making decisions in my view, and that is the decision to cease providing a neonatal service in north Wales and to commission it in England. Whatever the view of the community health council, this Government needs to call in this decision and scrutinise it further. There is a clinical opinion in favour of the decision, but there is also a clinical opinion that opposes it. A recent letter from the British Medical Association, the Royal College of Nursing and the Royal College of Midwives clearly opposes this decision. I am sure that they did not put those comments in a letter without giving it serious consideration. We heard from Llyr Huws Gruffydd earlier that there have also been questions about some of the statistics on service users that Betsi Cadwaladr LHB has used to justify that decision. On the basis of the principle alone, I would say that this Government should take the final decision if one of its health boards decides to cease providing a service in two Welsh hospitals and to commission that service from a hospital in England. We will put to one side for this particular debate the hundreds of times that we have heard this Minister and the First Minister take great pleasure in criticising the changes to the health service in England. This Government must shoulder the responsibility for taking the final decision as to whether we should commission and invest in NHS services in Wales or commission and invest in what is left of the NHS in England. Whatever the final decision, it is the Welsh Government that should take that decision.

16:09

## Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

In 2005, the then Welsh Labour Government's 'Designed for Life' paper told us that it would make decisions on health services with, rather than for, the public. Public protest followed and plans were suspended. It is now groundhog day in the Welsh NHS, with similar health board plans following this Welsh Labour Government's 'Together for Health' paper. While Betsi Cadwaladr University Local Health Board's reprieve of Mold hospital has been welcomed, concerns have been expressed across north Wales on its confirmation of plans to close four community hospitals, to downgrade services at others, and to transfer intensive care for newborn babies to the Wirral. The preceding consultation on these plans has been described as a sham. Campaigners e-mailed to say that the consultation has completely discounted the view of the Prestatyn people. A letter from a constituent stated that the report presented by Opinion Research Services on behalf of the health board

'strains all sense of credulity in its blatant manipulation of numbers in order to arrive at the result it set out to achieve'.

Yn 2005, dywedodd papur 'Cynllun Oes' Llywodraeth Lafur Cymru wrthym y byddai'n gwneud penderfyniadau ar wasanaethau iechyd ar y cyd â'r cyhoedd, yn hytrach nag ar ei ran. Dilynwyd hyn gan wrthdystio cyhoeddus a chafodd cynlluniau eu hatal. Mae'r GIG yng Nghymru yn ail-fyw hyn eto, gyda chynlluniau tebyg gan y byrddau iechyd yn sgil papur y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru, 'Law yn Llaw at Iechyd'. Er y croesawyd penderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i achub ysbty'r Wyddgrug, mynegwyd pryderon ledled y gogledd ynghylch y ffaith iddo gadarnhau cynlluniau i gau pedwar ysbty cymuned, i israddio gwasanaethau mewn ysbtyai eraill, ac i drosglwyddo gofal dwys i fabanod newydd-anedig i Gilgwri. Disgrifiwyd yr ymgyngoriad blaenorol ar y cynlluniau hyn yn dwyll. Anfonodd ymgyrchwyr negeseuon e-bost i ddweud bod yr ymgyngoriad wedi diystyru barn pobl Prestatyn yn llwyr. Nododd llythyr gan etholwr fod yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Gwasanaethau Ymchwil Barn ar ran y bwrdd iechyd

y tu hwnt i bob rheswm o ran y ffordd yr oedd wedi ystumio niferoedd er mwyn cyrraedd y canlyniad a fwrddwyd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The claimed 'overwhelming support' in favour of its proposals is based on a household survey returned by 621 respondents, while it ignored the open consultation questionnaire returned by 1,889 respondents. Petitions containing many thousands of signatures were sidelined. They said that

'The whole exercise was flawed from the very beginning, when obstacles to attending public meetings were introduced.'

Flint campaigners have said that these people are picking the figures they want, despite thousands marching in protest. Llangollen campaigners have expressed fury that the analysis seems to dismiss the thousands who signed petitions. When I called for a Welsh Government statement on this last week, I was told that it was premature. Three days later, the health board announced its decisions.

They tell us the changes will lead to better patient care, but reducing the number of community hospital beds and moving services further away from often vulnerable patients will damage, rather than enhance, committee-based health services. A Llangollen campaigner e-mailed:

'The fight against the closure of our Hospital has taken on a deeply personal aspect. My condition is incurable and I'm now under palliative care. I'd rather receive end-of-life care in my own local hospital.'

The health board consultation document stated that the River Lodge/Woodlands Hotel site had been identified as the preferred site for a new Llangollen primary care centre—a site already acquired by the Welsh Government for a local community enterprise. The Welsh Government had stated that it would not talk to anybody about this site until after the June 2011 expiry of the lease with this community enterprise. However, even before the options appraisal began in April 2010, a Welsh Government e-mail dated 24 March 2010 to the Betsi Cadwaladr health board said that

'the Minister has also requested an update on the Woodlands hotel...and the proposed health centre in Llangollen by this Friday. Is there any reason why the current building couldn't be demolished and the new health centre built on the site?'

The Welsh Government must answer for its conduct in this matter.

Labour Welsh Government policy and its record-breaking cuts have driven these closures and service downgrades. Health spending was cut following the budget devolved to Wales by the last Labour UK Government. Today, the Welsh NHS is facing the deepest cuts of any UK nation.

Mae'r 'gefnogeth aruthrol' honedig o blaid ei gynigion yn seiliedig ar arolwg aelwydydd a ddychwelwyd gan 621 o ymatebwyr, ond anwybyddodd yr holiadur ymgynghori agored a ddychwelwyd gan 1,889 o ymatebwyr. Diystyrwyd deisebau a oedd yn cynnwys miloedd o lofnodion. Dywedwyd bod

yr holl ymarfer yn ddiffygiol o'r cychwyn cyntaf, pan godwyd rhwystrau i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus.

Mae ymgyrchwyr yn y Fflint wedi dweud bod y bobl hyn yn dewis a dethol y ffigurau y maent am eu gweld, er gwaethaf y ffaith bod miloedd yn gwrthwynebu. Mae ymgyrchwyr yn Llangollen wedi mynegi eu cynddaredd yr ymddengys bod y dadansoddiad yn diystyru'r miloedd a lofnododd ddeisebau. Pan alwais am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru am hyn yr wythnos diwethaf, dywedwyd wrthyf ei fod yn gynamserol. Tridiau yn ddiweddarach, cyhoeddodd y bwrdd iechyd ei benderfyniadau.

Mae'n dweud wrthym y bydd y newidiadau yn arwain at well gofal i gleifion, ond bydd lleihau nifer y gwelyau mewn ysbytai cymuned a symud gwasanaethau ymhellach i ffwrdd oddi wrth gleifion sy'n aml yn agored i niweid yn niweidio, yn hytrach na gwella, wasanaethau iechyd sy'n seiliedig ar bwyllgor. Nododd ymgyrchydd o Llangollen mewn e-bost:

Mae'r frwydr yn erbyn cau ein Hysbyty wedi datblygu agwedd hynod bersonol. Ni ellir gwella fy nghyflwr ac rwyf bellach yn cael gofal lliniarol. Byddai'n well gennyf gael gofal diwedd bywyd yn fy ysbyty lleol fy hun.

Nododd dogfen ymgynghori'r bwrdd iechyd fod safle River Lodge/Gwesty Woodlands wedi cael ei nodi fel y safle a ffeirir ar gyfer ganolfan gofal sylfaenol newydd yn Llangollen-safle a gaffaelwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru ar gyfer menter gymunedol leol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi na fyddai'n trafod y safle gyda neb tan ar ôl i'r brydles gyda'r fenter gymunedol hon ddod i ben ym mis Mehefin 2011. Fodd bynnag, hyd yn oed cyn i'r arfarniad o opsiynau ddechrau ym mis Ebrill 2010, nododd e-bost gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 24 Mawrth 2010 i ffwrdd iechyd Betsi Cadwaladr

mae'r Gweinidog hefyd wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am Westy Woodlands... a'r ganolfan iechyd arfaethedig yn Llangollen erbyn dydd Gwener. A oes unrhyw reswm pam na ellid dymchwel yr adeilad presennol ac adeiladu'r ganolfan iechyd newydd ar y safle?

Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb dros ei hymddygiad yn y mater hwn.

Polisi Llywodraeth Lafur Cymru a'r toriadau mwyaf erioed a gyflwynwyd ganddi sydd wedi arwain at gau ysbytai ac israddio gwasanaethau. Torrwyd y gwariant ar iechyd yn dilyn y gyllideb a ddatganolwyd i Gymru gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf yn y DU. Heddiw, mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu'r toriadau mwyaf mewn unrhyw wlad yn y DU.

Twenty-six community beds are to be cut in north Wales, despite bed occupancy levels of 95% and above in the community hospitals now being closed or expected to fill the gap. The GP who set up the pilot scheme for enhanced care at home has said that this would bring a service that is currently frequently gridlocked further to its knees, and that a central part of the proposed shake-up of health services, providing more caring people's homes, will not fill the gap left by shutting community hospitals.

The director of the Royal College of Nursing in Wales said:

'There is insufficient capacity within the community to discharge patients out of hospital'.

Furthermore, the health board consultation document lacked reference to what it could learn from the third sector about the integration of care services in the home, community hospital and hospice. Fears have also been expressed by local authorities that the health board's plans will shift costs to councils. Let us hope that in acting as judge and jury over plans resulting from her own policies, this Minister is not now also the executioner of services.

Caiff 26 o welyau cymunedol eu dileu yn y gogledd, er gwaethaf y ffaith bod o leiaf 95% o'r gwelyau yn llawn yn yr ysbytai cymuned sydd bellach yn cau neu y disgwylir iddynt lenwi'r bwlch. Dywedodd y meddyg teulu a sefydlodd y cynllun peilot ar gyfer gwell gofal yn y cartref y byddai hyn yn gwaethygu sefyllfa gwasanaeth sydd eisoes yn brwydro i ymdopi, ac na fydd rhan ganolog o'r broses arfaethedig o ad-drefnu gwasanaethau iechyd, gan ddarparu mwy o ofal yng nghartrefi pobl, yn llenwi'r bwlch a adawyd yn sgil cau ysbytai cymuned.

Dywedodd cyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru:

Nid oes digon o adnoddau yn y gymuned i ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Ar ben hynny, nid oedd dogfen ymgynghori'r bwrdd iechyd yn cyfeirio at yr hyn y gellid ei ddysgu oddi wrth y trydydd sector mewn perthynas ag integreiddio gwasanaethau gofal yn y cartref, ysbytai cymuned, a hosbisau. Mynegwyd ofnau hefyd gan awdurdodau lleol y bydd cynlluniau'r bwrdd iechyd yn symud costau i gynghorau. Gadewch inni obeithio na fydd y Gweinidog, yn sgil y ffaith iddi eistedd mewn barn dros gynlluniau sy'n deillio o'i pholisiau ei hun, hefyd yn dileu'r gwasanaethau hynny.

16:13

## Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to be able to take part in this debate. Members will not be surprised that I will be focusing my comments on Hywel Dda Local Health Board's decision to steamroll ahead with controversial changes in mid and west Wales, despite opposition by the people of my constituency. I believe that the consultation process run by Hywel Dda Local Health Board at the end of last year has been a farce. I use that word because, quite simply, all the proposals originally put forward by the board have been pushed through with no revised plans whatsoever, despite local opposition. Of course, the most controversial plan in my area is the planned closure of the special care baby unit at Withybush hospital. For the sake of doubt, and the benefit of Joyce Watson, the Hywel Dda health board document outlining last week's meeting states that

'We must consolidate special care services on one site.'

It then gives the reasons for Hywel Dda health board's preferred site of Glangwili hospital.

Rwy'n falch o allu cymryd rhan yn y ddatl hon. Ni fydd Aelodau'n synnu y byddaf yn canolbwyntio fy sylwadau ar benderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i fwrw ymlaen â'r newidiadau dadleuol yn y canolbarth a'r gorllewin, er gwaethaf gwrthwynebiad pobl fy etholaeth. Credaf fod y broses ymgynghori a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf yn ffars. Defnyddiaf y gair hwnnw oherwydd, yn syml iawn, mae'r holl gynigion a gyflwynwyd yn wreiddiol gan y bwrdd wedi cael eu derbyn heb unrhyw gynlluniau diwygiedig o gwbl, er gwaethaf gwrthwynebiad lleol. Wrth gwrs, y cynllun mwyaf dadleuol yn fy ardal i yw'r bwriad i gau'r uned gofal arbennig i fabanod yn ysbyty Llwynhelig. Er mwyn osgoi amheuaeth, ac er budd Joyce Watson, mae dogfen bwrdd iechyd Hywel Dda sy'n amlinellu cyfarfod yr wythnos diwethaf yn nodi

Rhaid i ni gyfuno gwasanaethau gofal arbennig ar un safle.

Wedyn mae'n rhoi'r rhesymau pam bod bwrdd iechyd lleol Hywel Dda yn ffafrio safle ysbyty Glangwili.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

There has been overwhelming opposition to these specific plans from the people of Pembrokeshire. I fully accept that delivering health services in a rural area such as the one that I represent is hugely challenging, but clearly the special care baby unit at Withybush provides life-saving services and it is vital that the unit is not closed or relocated. Locally, we have heard from clinicians and staff how closing this unit would have a detrimental effect on the families of unborn babies in Pembrokeshire. It is worth reminding Members that senior sister and unit manager of the special care baby unit, Linda Jones, who has worked at Haverfordwest for 27 years, believes that closing the unit is unthinkable for the county's families. Paediatric consultant at Withybush, Gustav van Falco, said that he had grave reservations about moving the special care baby unit from Haverfordwest. Quite simply, Hywel Dda Local Health Board has ignored the views of these medical professionals, as well as the views of the people of Pembrokeshire.

One can only ask what the purpose of a consultation process is if the voices and opinions of local communities are not being heard. These concerns have also not gone unnoticed by Hywel Dda community health council. Tony Wales, Hywel Dda community health council's chairman and former Labour party candidate at last year's local government elections, has said that he was appalled by the recommendations and called the process little more than a charade. He is quite right. Surely consultations should be open, transparent and indeed meaningful. At the end of September, I attended a public meeting to discuss the health board's reorganisation plans in Haverfordwest, along with 500 other people who were concerned about the potential downgrading of services at Withybush Hospital. There were certainly strong feelings aired in that room, particularly over the proposal to close this unit. The people of Pembrokeshire spoke loud and clear at that meeting on this issue, but the health board has totally ignored them. My constituents should not have to travel even further for life-saving services. Withybush's catchment area extends into deep rural areas. These areas have challenging transport links and therefore travelling any distance to obtain emergency treatment would reduce the chances of survival. Surely moving services further away from communities with challenging transport links cannot be classed as safe, sustainable services for the people who live in those communities miles and miles away.

Despite assurances from the Minister for health that no services will be downgraded, Hywel Dda Local Health Board has clearly decided to downgrade services and close minor injury units in Pembrokeshire. Surely, taking away from a community a core and essential service like the special care baby unit is downgrading—to try to pretend otherwise is absolutely ridiculous. We have continually heard both the First Minister and the Minister for health talk about safe and sustainable services. Only last week, the First Minister was saying that he will defend continually the need for safe and sustainable services in Wales. Surely the special care baby unit at Withybush hospital is a safe service that should be maintained. Therefore, in closing, I hope that this debate will motivate the Welsh Government to do the right thing in standing up against Hywel Dda Local Health Board's plans in my area. This is a worrying time for the people of my constituency and today we look to the Minister for support and political leadership. I urge Members to support out motion this afternoon.

Cafwyd gwrthwynebiad llethol i'r cynlluniau penodol hyn gan bobl Sir Benfro. Derbyniaf yn llwyr fod darparu gwasanaethau iechyd mewn ardal wledig fel yr un yr wyf yn ei chynrychioli yn heriol, ond yn amlwg mae'r uned gofal arbennig i fabanod yn Llwynhelyg yn darparu gwasanaethau sy'n achub bywydau ac mae'n hanfodol na chaiff yr uned ei chau na'i hadleoli. Yn lleol, rydym wedi clywed gan glinigwyr a staff ynghylch sut y byddai cau'r uned hon yn cael effaith niweidiol ar deuluoedd babanod heb eu geni yn Sir Benfro. Mae'n werth atgoffa Aelodau bod Linda Jones, uwch brif nyrs a rheolwr uned yr uned gofal arbennig i fabanod, sy'n gweithio yn Hwlfordd ers 27 mlynedd, yn credu bod cau'r uned y tu hwnt i amgylfred ar gyfer teuluoedd y sir. Dywedodd meddyg ymgynghorol pediatrig yn Llwynhelyg, Gustav van Falco, fod ganddo amheuan mawr ynglŷn â symud yr uned gofal arbennig i fabanod o Hwlfordd. Yn syml, mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi anwybyddu barn y gweithwyr meddygol proffesiynol hyn, yn ogystal â barn pobl Sir Benfro.

Rhaid holi beth yw pwrpas proses ymgynghori yw os na chaiff lleisiau a barn cymunedau lleol eu clywed. Mae'r pryderon hyn hefyd wedi cael eu nodi gan gyngor iechyd cymuned Hywel Dda. Dywedodd Tony Wales, cadeirydd cyngor iechyd cymuned Hywel Dda a chyn-ymgeisydd y blaid Lafur yn yr etholiadau llywodraeth leol y llynedd, ei fod wedi'i arswydo gan yr argymhellion a galwodd y broses yn ffars. Mae'n llygad ei le. Siawns y dylai ymgynghoriadau fod yn agored, yn dryloyw ac yn ystyrlon. Ar ddiwedd mis Medi, bûm mewn cyfarfod cyhoeddus i drafod cynlluniau ad-drefnu'r bwrdd iechyd yn Hwlfordd, ynghyd â 500 o bobl eraill a oedd yn pryderu am y posibilrwydd o israddio gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg. Lleisiwyd teimladau cryf yn yr ystafell honno, yn enwedig mewn perthynas â'r cynnig i gau'r uned hon. Lleisiodd pobl Sir Benfro eu barn yn glir yn y cyfarfod hwnnw ar y mater hwn, ond cawsant eu hanwybyddu'n llwyr gan y bwrdd iechyd. Ni ddylai fy etholwyr orfod teithio ymhellach fyth i gael gwasanaethau achub bywydau. Mae dalgyllch Llwynhelyg yn ymestyn i ardaloedd gwledig anghysbell. Mae gan yr ardaloedd hyn gysylltiadau trafnidiaeth heriol ac felly byddai teithio unrhyw bellter i gael triniaeth frys yn lleihau'r siawns o oroesi. Siawns na fyddai symud gwasanaethau ymhellach i ffwrdd o gymunedau gyda chysylltiadau trafnidiaeth heriol yn cael eu dosbarthu'n wasanaethau diogel, cynaliadwy i'r bobl sy'n byw yn y cymunedau hynny filltiroedd i ffwrdd.

Er gwaethaf sicrwydd gan y Gweinidog iechyd na chaiff gwasanaethau eu hisraddio, mae'n amlwg bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi penderfynu israddio gwasanaethau a chau unedau mân anafiadau yn Sir Benfro. Yn sicr, israddio fyddai tynnu gwasanaeth creiddiol a hanfodol fel yr uned gofal arbennig i fabanod o gymuned-byddai'n gwbl chwerthinllyd ceisio honni fel arall. Rydym wedi clywed y Prif Weinidog a'r Gweinidog iechyd yn siarad o hyd am wasanaethau diogel a chynaliadwy. Dim ond yr wythnos diwethaf, roedd y Prif Weinidog wedi dweud y bydd yn parhau i amddiffyn yr angen am wasanaethau diogel a chynaliadwy yng Nghymru. Onid yw'r uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llwynhelyg yn wasanaeth diogel y dylid ei gynnal. Felly, wrth gloi, gobeithiaf y bydd y ddadl hon yn cymell Llywodraeth Cymru i wneud y peth iawn a gwrthsefyll cynlluniau Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn fy ardal i. Mae hon yn adeg bryderus i bobl fy etholaeth a heddiw rydym yn disgwyl i'r Gweinidog roi cefnogaeth ac arweinyddiaeth weidyddol. Anogaf yr Aelodau i gefnogi ein cynnig y prynhawn yma.

16:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

I call on the Minister for Health and Social Services.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

In response to Angela Burns, I am of course not surprised that the Conservatives have brought a debate forward on the NHS. However, what does surprise me is that some politicians in this Chamber sit like King Canute willing back the waves of change. In doing so, they do the people of Wales a huge disservice. I want to be clear, as I have been throughout the whole process: what matters to me is that we create safe and sustainable services for the future. That really is the driving force between NHS Wales service change. It is vital that we keep that goal in sight. We all know, regardless of our political persuasion, that change is essential. The evidence is extremely clear: if we continue as we are, there is a real danger that some services may collapse in the future. That will put people at risk and I cannot believe that any Member here would want that to happen. We can all play politics with the issue. That could gain some short-term local popularity, and that is obviously a huge Tory ploy, however, I believe that each one of us has to look at what is best for the long-term future of the NHS in Wales. Of course I understand the fears and anxieties that local communities feel in the face of proposed service change; as a Welsh Labour Minister, I want what they want: high-quality, accessible services that are there when people need them.

The Welsh Labour vision for the NHS in Wales is very different to the deeply unpopular one being pursued by the Tory-Liberal Democrat Government in England. The Welsh Labour Government has reaffirmed its commitment to uphold Aneurin Bevan's founding principles for the NHS and to maintain a health service free from market forces. Again, this is in stark contrast to the NHS in England.

We know that factors driving the need for reform include a rising elderly population, inequalities in health, increasing numbers of patients with chronic conditions, medical staffing pressures and some specialist services being spread too thinly—an issue that Darren Millar ignored in his opening speech. I am sure—no, I am not sure, actually; I just find it so hard to understand why you think that changing services means downgrading services. It does not. It means upgrading services. [Interruption.] No, absolutely not.

Mewn ymateb i Angela Burns, wrth gwrs, nid wyf yn synnu bod y Ceidwadwyr wedi cyflwyno dadl ar y GIG. Fodd bynnag, yr hyn sy'n peri syndod imi yw bod rhai gwleidyddion yn y Siambr hon yn gwrthod derbyn newid. Wrth wneud hynny, maent yn gwneud anghymwynas enbyd â phobl Cymru. Rwyf am fod yn glir, fel yr wyf wedi bod trwy gydol y broses gyfan: yr hyn sy'n bwysig i mi yw ein bod yn creu gwasanaethau diogel a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Dyna'r hyn sy'n ysgogi'r newidiadau i wasanaethau'r GIG yng Nghymru. Mae'n hanfodol ein bod yn cofio'r nod hwnnw. Rydym i gyd yn gwybod, waeth beth fo'n barn wleidyddol, fod newid yn hanfodol. Mae'r dystiolaeth yn hynod glir: os byddwn yn parhau fel yr ydym, mae perygl gwirioneddol y gallai rhai gwasanaethau chwalu yn y dyfodol. Bydd hynny'n rhoi pobl mewn perygl, ac ni allaf gredu y byddai unrhyw Aelod yma am i hynny ddigwydd. Gall pob un ohonom chwarae gêm wleidyddol mewn perthynas â'r mater. Gallai hynny ennyn rhywfaint o boblogrwydd byrdymor yn lleol, ac mae hynny'n amlwg yn un o brif gastiau'r Ceidwadwyr, fodd bynnag, credaf fod yn rhaid i bob un ohonom edrych ar yr hyn sydd orau ar gyfer dyfodol hirdymor y GIG yng Nghymru. Wrth gwrs, deallaf yr ofnau a'r pryderon sydd gan gymunedau lleol yn wyneb y newid arfaethedig i wasanaethau; fel Gweinidog Llafur yng Nghymru, cytunaf â'r hyn y maent ei eisiau: gwasanaethau hygyrch o ansawdd uchel sydd ar gael pan fydd eu hangen ar bobl.

Mae gweledigaeth Llafur Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru yn wahanol iawn i'r un amhoblogaidd iawn sydd gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Lloegr. Mae'r Llywodraeth Llafur yng Nghymru wedi cadarnhau ei hymrwymiad i gynnal egwyddorion Aneurin Bevan i'r GIG ac i gynnal gwasanaeth iechyd sy'n rhydd o rymoedd y farchnad. Unwaith eto, mae hyn yn wrthyferbyniad llwyr i'r GIG yn Lloegr.

Gwyddom fod ffactorau sy'n ysgogi'r angen am ddiwygio yn cynnwys poblogaeth gynyddol oedranus, anghydraddoldebau iechyd, niferoedd cynyddol o gleifion â chyflyrau cronig, pwysau staffio meddygol a rhai gwasanaethau arbenigol yn cael eu gwasgaru'n rhy denau-rhywbeth a anwybyddodd Darren Millar yn ei araith agoriadol. Rwy'n si?r-na, nid wyf yn si?r a dweud y gwir; rwy'n ei chael hi'n anodd iawn deall pam eich bod o'r farn bod newid gwasanaethau yn golygu israddio gwasanaethau. Nid yw hynny'n wir. Mae'n golygu uwchraddio gwasanaethau. [Torri ar draws.] Na, ddim o gwbl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

People aged 60 or over now make up nearly a quarter of Britain's population. We know that we have had a 37% increase in emergency hospital admissions over the past 10 years, and a 65% increase in secondary care episodes for those over 75 in the same period. We cannot ignore these facts. The people of Wales should be looking forward to improved services. That has been my message throughout this. Unless action is taken quickly, the shortage of medical staff in some services is likely to lead to unplanned closures like the one that we saw, and to which David Rees referred, in Neath Port Talbot. I want to avoid that happening again.

The increasing specialisation of some types of services means that centralising expert clinical staff leads to better patient outcomes in these specialties. All the evidence shows that the current configuration of hospital services does not deliver the best outcomes for patients equally across Wales. Service quality needs to be improved if Wales is to have services comparable with the best healthcare systems in the world. The future of the NHS cannot and should not be focused solely on hospitals. Again, David Rees referred to this. Healthcare is about services and not buildings, and I know that when I met with people at Ruthin Community Hospital with Darren Millar, it was refreshing to see patients and politicians much more focused on services rather than buildings. I must also note that 90% of all health contacts take place in the community, not in hospitals.

Implementing change in a service as loved and respected as the NHS is not for the faint-hearted, even if those changes are made with the aim of improving the quality of care people receive. As Elin Jones said, it is difficult, but we all know that our health services have to change. The health service has got to be better in the future at keeping people out of hospital. It is ridiculous that we admit people to hospital when it is not necessary, so more care in the community is crucial for the future. This is not about downgrading hospitals. I repeat: it is about actually upgrading the whole system.

Both Elin Jones and Antoinette Sandbach referred to neonatology in north Wales. I do not know whether they choose to misunderstand, or are not listening. I will say it again: I cannot make any decision at the present time. If I did, it could derail the process of service change that we are going through at the moment. Perhaps some people here would like that to happen, but it is not going to happen. I cannot make a decision until the community health councils decide what they are going to do.

Mae pobl 60 oed neu drosodd bellach yn cyfrif am bron i chwarter poblogaeth Prydain. Gwyddom ein bod wedi gweld cynnydd o 37% yn nifer y derbyniadau brys i'r ysbyty dros y 10 mlynedd diwethaf, a chynnydd o 65% mewn cyfnodau o ofal eilaidd ar gyfer pobl dros 75 oed yn yr un cyfnod. Ni allwn anwybyddu'r ffeithiau hyn. Dylai pobl Cymru fod yn edrych ymlaen at wasanaethau gwell. Dyna fu fy neges drwy gydol y cyfnod hwn. Oni chymerir camau yn ddi-oed, mae prinder staff meddygol mewn rhai gwasanaethau yn debygol o arwain at gau gwasanaethau heb ei gynllunio, fel y gwelsom, ac y cyfeiriodd David Rees ato, yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rwyf am osgoi gweld hynny'n digwydd eto.

Mae arbenigedd cynyddol rhai mathau o wasanaethau yn golygu bod canoli staff clinigol arbenigol yn arwain at ganlyniadau gwell i gleifion yn yr arbenigeddau hyn. Mae'r holl dystiolaeth yn dangos nad yw cyfluniad presennol gwasanaethau ysbyty yn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion fel ei gilydd ledled Cymru. Mae angen gwella ansawdd y gwasanaethau os yw Cymru am gael gwasanaethau y gellir eu cymharu â systemau gofal iechyd gorau'r byd. Ni all ac ni ddylai dyfodol y GIG ganolbwyntio ar ysbytai'n unig. Unwaith eto, cyfeiriodd David Rees at hyn. Mae a wnelo gofal iechyd â gwasanaethau ac nid adeiladau, a gwn pan gyfarfûm â phobl yn Ysbyty Cymuned Rhuthun gyda Darren Millar, ei bod yn braf gweld cleifion a gwleidyddion yn canolbwyntio llawer mwy ar wasanaethau yn hytrach nag adeiladau. Rhaid imi hefyd nodi bod 90% o'r holl gysylltiadau iechyd yn digwydd yn y gymuned, nid mewn ysbytai.

Mae angen bod yn ddewr i gyflwyno newid mewn gwasanaeth mor werthfawr ac uchel ei barch â'r GIG, hyd yn oed os gwneir y newidiadau hynny gyda'r nod o wella ansawdd y gofal a gaiff pobl. Fel y dywedodd Elin Jones, mae'n anodd, ond rydym i gyd yn gwybod bod yn rhaid i'n gwasanaethau iechyd newid. Rhaid i'r gwasanaeth iechyd allu cadw pobl allan o'r ysbyty yn well yn y dyfodol. Mae'n hurt ein bod yn derbyn pobl i'r ysbyty pan nad oes angen, felly mae mwy o ofal yn y gymuned yn hanfodol ar gyfer y dyfodol. Nid oes a wnelo hyn ag israddio ysbytai. Dywedaf eto: mae a wnelo ag uwchraddio'r system gyfan mewn gwirionedd.

Cyfeiriodd Elin Jones a Antoinette Sandbach at neonatoleg yn y gogledd. Ni wn a ydynt yn dewis camddeall, neu nad ydynt yn gwrando. Fe'i dywedaf eto: ni allaf wneud unrhyw benderfyniad ar hyn o bryd. Pe gwnawn hynny, gallai chwalu'r broses o newid gwasanaeth yr ydym yn ei dilyn ar hyn o bryd. Efallai yr hoffai rhai pobl yma weld hynny'n digwydd, ond nid yw'n mynd i ddigwydd. Ni allaf wneud penderfyniad hyd nes bod y cynghorau iechyd cymuned yn penderfynu beth y maent am ei wneud.



Health boards across Wales have their own plans for change and locally based clinicians know their own patch best of all. However, health boards are being assisted by different organisations, including the Welsh ambulance service. They have been involved in all service reconfiguration plans, and to suggest otherwise is untrue. In November I announced a comprehensive review of the ambulance service, and that is to ensure that the service is able to meet the different needs of the reconfigured NHS in Wales, so I support the Welsh Liberal Democrat sentiments on this point. I will also ensure, at the end of this process, that all of the plans for change make sense at an all-Wales level.

Aled Roberts said that there were nine ambulances outside Wrexham Maelor Hospital last week. I do not know where you got your information from, but that is incorrect. There were not. Last Friday, we had the heaviest snow that north Wales has seen for a while. I had updates throughout the day on the performance of the NHS right across Wales, as well as, obviously, in my own constituency of Wrexham. That information on Wrexham is not true.

Local health boards are working closely with community health councils, which have acknowledged that service reorganisation will involve compromises and difficult decisions. They have expressed a wish to work with health boards to make sure that any issues can be resolved locally and on a regional basis. They are also being supported by the Consultation Institute and are following stringent Welsh Government guidelines with regard to engagement and consultation. I believe that the guidance is clear and provided for exemplary pre-engagement and formal consultation processes. To say that the public has been ignored, again, is untrue. Changes to plans have been made, Paul Davies, as Hywel Dda has gone through the process. The proper processes and protocols are in place, and I believe that this is right and proper. I want a strong, vibrant, high-quality NHS for the people of Wales. Achieving that aim will undoubtedly involve difficult decisions. If CHCs have any concerns about the process, or any of the changes, they will challenge the health boards. Ultimately, they may refer matters to me, and I may be called upon to make tough judgments. If I am, the decisions will be based on the best available clinical evidence. Be assured, if the evidence points in the direction of a difficult or unpopular decision, I will not shy away. We know that these changes are needed—we can go back to Wanless in 2003—and the NHS has gone further than ever before in looking for service changes.

The NHS is constantly changing and has been for the last 60 years. I know that the Tories would like to wrap it in aspic, but they cannot. Change is not new to the NHS, but without change we would condemn NHS services to a future of ever-declining quality. We have excellent examples of positive change, including innovative primary care projects, such as Merthyr Tydfil's Keir Hardie Health Park.

Mae gan fyrdau iechyd ledled Cymru eu cynlluniau eu hunain ar gyfer newid a chlinigwyr sy'n gweithio'n lleol sy'n adnabod eu hardaloedd eu hunain orau. Fodd bynnag, mae byrddau iechyd yn cael eu cynorthwyo gan wahanol sefydliadau, gan gynnwys gwasanaeth ambiwlans Cymru. Maent wedi cymryd rhan yn yr holl gynlluniau i ad-drefnu gwasanaethau, a byddai'n anghywir awgrymu fel arall. Ym mis Tachwedd cyhoeddais adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaeth ambiwlans, er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion gwahanol y GIG wedi'i ad-drefnu yng Nghymru, felly rwy'n cefnogi safbwyntiau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar y pwynt hwn. Byddaf hefyd yn sicrhau, ar ddiwedd y broses hon, fod pob un o'r cynlluniau ar gyfer newid yn gwneud synnwyr ar lefel Cymru gyfan.

Dywedodd Aled Roberts fod naw ambiwlans y tu allan i Ysbyty Maelor Wrecsam yr wythnos diwethaf. Ni wn o ble y cawsoch eich gwybodaeth, ond mae hynny'n anghywir. Nid yw'n wir. Ddydd Gwener diwethaf, cawsom yr eira trymaf a welwyd yn y gogledd ers peth amser. Cefais y wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y dydd ar berfformiad y GIG ledled Cymru, yn ogystal ag yn fy etholaeth fy hun yn Wrecsam wrth gwrs. Nid yw'r wybodaeth honno am Wrecsam yn wir.

Mae'r byrddau iechyd lleol yn gweithio'n agos gyda chynghorau iechyd cymuned, sydd wedi cydnabod y bydd y broses o ad-drefnu gwasanaethau yn cynnwys cyfaddawdau a phenderfyniadau anodd. Maent wedi mynegi dymuniad i weithio gyda byrddau iechyd i wneud yn siŵr y gellir datrys unrhyw broblemau yn lleol ac ar sail ranbarthol. Maent hefyd yn cael cefnogaeth y Sefydliad Ymgynghori ac yn dilyn canllawiau llym Llywodraeth Cymru o ran ymgysylltu ac ymgynghori. Credaf fod y canllawiau yn glir ac yn sicrhau prosesau ymgynghori ffurfiol a chyn ymgysylltu rhagorol. Eto, nid yw'n wir dweud bod y cyhoedd wedi cael ei anwybyddu. Gwnaed newidiadau i gynlluniau, Paul Davies, wrth i fwrdd iechyd Hywel Dda fynd drwy'r broses. Mae'r prosesau a'r protocolau priodol ar waith, a chredaf fod hyn yn iawn ac yn briodol. Rwyf am sicrhau GIG cadarn, bywiog a safonol ar gyfer pobl Cymru. Yn sicr, bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd i gyflawni'r nod hwnnw. Os oes gan gynghorau iechyd cymuned unrhyw bryderon am y broses, neu unrhyw un o'r newidiadau, byddant yn herio'r byrddau iechyd. Yn y pen draw, efallai y byddant yn cyfeirio materion ataf fi, ac efallai y byddaf yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd. Os felly, bydd y penderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth glinigol orau sydd ar gael. Gallaf eich sicrhau, os bydd y dystiolaeth yn arwain at orfod gwneud penderfyniad anodd neu amhoblogaidd, byddaf yn barod i wneud hynny. Gwyddom fod angen gwneud y newidiadau hyn-gallwn edrych yn ôl cyn belled ag adolygiad Wanless yn 2003-ac mae'r GIG wedi mynd ymhellach nag erioed o'r blaen wrth chwilio am newidiadau i'r gwasanaeth.

Mae'r GIG yn newid yn gyson ac wedi gwneud hynny ers 60 mlynedd diwethaf. Gwn y byddai'r Toriaid am ei lapio mewn asbig, ond ni allant. Nid yw newid yn beth newydd i'r GIG, ond heb newid byddem yn condemnio gwasanaethau GIG i ddyfodol lle byddai ei ansawdd yn dirywio'n barhaus. Mae gennym enghreifftiau ardderchog o newid cadarnhaol, gan gynnwys prosiectau gofal sylfaenol arloesol, megis Parc Iechyd Keir Hardie ym Merthyr Tudful.

16:26 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is a real difference between change and cutbacks and closures. No-one is arguing that there should not be change, but what you have proposed is the closure and cutting back of services in communities.

Mae gwahaniaeth gwirioneddol rhwng newid a thoriadau a chau. Nid oes neb yn dadlau na ddylid newid, ond yr hyn a gynigiwyd gennych yw cau a chwotgi gwasanaethau mewn cymunedau.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not agree. What I have said is that we cannot carry on having the services in the way that they are configured now; we have to have changes. There are new patterns of healthcare that we know will improve the quality of care. We expect change to take place in a timely and measured way.

Nid wyf yn cytuno. Yr hyn yr wyf wedi'i ddweud yw na all y gwasanaethau ar eu ffurf bresennol barhau fel y maent; rhaid inni gael newidiadau. Mae patrymau newydd o ofal iechyd y gwyddom y byddant yn gwella ansawdd y gofal. Rydym yn disgwyl y caiff newid ei gyflwyno mewn modd amserol a chyson.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

In conclusion, I will reiterate that the status quo is not an option. We must not lose the momentum we have. We must hold firm and work together to modernise the NHS.

I gloi, hoffwn ategu nad oes modd aros yn ein hunfan. Rhaid inni beidio â cholli'r momentwm sydd gennym. Rhaid inni ddal ati a chydweithio i foderneiddio'r GIG.

16:27 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I say how pleased I am to be able to sum up and to put across some points to endorse the real concern that the opposition parties feel here today?

A gaf fi ddweud mor falch yr wyf i allu crynhoi a chyflwyno rhai pwyntiau i gadarnhau'r pryder gwirioneddol sydd gan y gwrthbleidiau yma heddiw?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you talked about implementing change and about the consultation process. You said, 'I want what they want', but we have heard today, from all sides of the Chamber, that the consultation party was described, at best, as a farce. What we do know is that the ones who were able to get through and provide their responses made their feelings quite clear. Those feelings are that they do not want what you want.

Weinidog, soniasoch am weithredu newid ac am y broses ymgynghori. Dywedasoch, 'Rwy'n cytuno â'r hyn y maent ei eisiau', ond rydym wedi clywed heddiw, o bob ochr i'r Siambr, bod yr ymgynghori wedi cael ei ddisgrifio, ar y gorau, fel ffars. Yr hyn a wyddom yw bod y rhai a lwyddodd i gyflwyno eu hymatebion wedi lleisio eu barn yn eithaf clir. A'r farn honno yw nad ydynt yn cytuno â'r hyn a ddymunwch.

Darren Millar was quite right to talk about the closure of our medical beds and the downgrading of our minor injuries units and many other departments within our community hospitals. However, most importantly, as a north Wales Member, is the transfer of our neonatal services. Never before have I seen so many debates where I hear the Welsh Government saying that it really wants to protect our most vulnerable and our younger members of society, and this particular vulnerable group will now be placed in danger.

Roedd Darren Millar yn llygad ei le i sôn am y camau i gau ein gwelyau meddygol ac israddio ein hunedau mân anafiadau ac adrannau eraill yn ein hysbytai cymuned. Fodd bynnag, fel Aelod o'r gogledd, trosglwyddo ein gwasanaethau newyddenedigol yw'r mater pwysicaf. Nid wyf erioed wedi clywed cymaint o ddadleuon lle mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod o ddifrif am amddiffyn y bobl sy'n fwyaf agored i niwed ac aelodau ieuengach y gymdeithas, a bydd y gr?p arbennig hwn sy'n agored i niwed mewn perygl yn awr.

The First Minister said that no hospital is under threat. I am sorry, but as Darren Millar quite rightly pointed out, Welsh Labour has slashed and burned our national health service, and it will not stop. That is the main driver for the downgrading and the cuts to our health service, despite overwhelming public opposition. Darren Millar was trying to say that the comments that have come in have to be put into context is what the health boards are saying. Joyce Watson AM attempted to protect the Welsh Labour Government and these appalling cuts, but she gave up very quickly. You cannot defend the indefensible. Maybe that is why she has left the Chamber.

Dywedodd y Prif Weinidog nad oes unrhyw ysbty o dan fgythiad. Mae'n ddrwg gennyf, ond fel y nododd Darren Millar, yn gwbl gywir, mae Llafur Cymru wedi torri ac wedi dileu ein gwasanaeth iechyd gwladol, ac mae'n dal i wneud hynny. Dyna'r prif sbardun ar gyfer israddio ysbtyai a'r toriadau i'n gwasanaeth iechyd, er gwaethaf gwrthwynebiad llethol ymhlith y cyhoedd. Roedd Darren Millar yn ceisio dweud bod angen rhoi'r sylwadau a wnaed yng nghyd-destun yr hyn y mae'r byrddau iechyd yn ei ddweud. Ceisiodd Joyce Watson AC amddiffyn y Llywodraeth Lafur yng Nghymru a'r toriadau echrydus hyn, ond rhoddodd y ffidil yn y to yn gyflym iawn. Ni allwch amddiffyn yr anamddiffynadwy. Efallai mai dyna pam iddi adael y Siambr.

Darren was also quite right to point out the radically different consultations that took place across Wales, with closed public meetings in north Wales and limited numbers. It was an absolute shambles. In west Wales, one meeting was tailored in a way that allowed 500 to attend. He was quite right to demand clarity on the open questionnaire scenario. There is a serious democratic deficit here. We know that and you know it too.

Only yesterday, I believe, Conwy County Borough Council was discussing ways to have the powers of the health board dissolved, such is the anger felt in the community. Only last week, Llandudno Town Council said that it has no confidence in the local health board. The local health boards are picking up the blame for your policies and your cuts, Minister.

In moving the amendment, Aled Roberts talked about the Welsh ambulance service. There may not have been nine ambulances waiting there on Friday, but, five weeks ago, I was there on a Sunday and there were seven ambulances with their engines running outside the A&E department at Glan Clwyd. Aled also said that reconfiguration increases the strain on ambulances.

Antoinette Sandbach made some really valid points about the BMA and the RCN and the lack of clinical evidence. She mentioned a letter that has come in from the Royal College of Midwives almost stating that this must stop. Minister, the people of Wales have spoken. The opposition party has listened. Will you?

Roedd Darren hefyd yn llygad ei le i dynnu sylw at yr ymgynghoriadau cwbl wahanol a gynhaliwyd ledled Cymru, gyda chyfarfodydd cyhoeddus caeedig yn y gogledd a niferoedd cyfyngedig. Roedd yn draed moch llwyr. Yn y gorllewin trefnwyd un cyfarfod mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i 500 fynychu. Roedd yn briodol iddo fynnu eglurder ar yr holiadur agored. Ceir diffyg democratiaeth difrifol. Rydym ni a chithau'n gwybod hynny.

Dim ond ddoe, fe gredaf, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn trafod sut y gellid diddymu pwerau'r bwrdd iechyd, cymaint yw'r dicter a deimlir yn y gymuned. Dim ond yr wythnos diwethaf, dywedodd Cyngor Tref Llandudno nad oes ganddo hyder yn y bwrdd iechyd lleol. Mae'r byrddau iechyd lleol yn gorfod cymryd y bai am eich polisïau a'ch toriadau chi, Weinidog.

Wrth gynig y gwelliant, soniodd Aled Roberts am wasanaeth ambiwlans Cymru. Efallai nad oedd naw ambiwlans yn aros yno ddydd Gwener, ond, bum wythnos yn ôl, roeddwn yno ar ddydd Sul ac roedd saith ambiwlans gyda'u hinjans yn rhedeg y tu allan i'r adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Glan Clwyd. Dywedodd Aled hefyd fod ad-drefnu yn cynyddu'r straen ar gerbydau ambiwlans.

Gwnaeth Antoinette Sandbach rai pwyntiau dilys iawn am Gymdeithas Feddygol Prydain a'r Coleg Nyrsio Brenhinol a diffyg tystiolaeth glinigol. Soniodd am lythyr a anfonwyd gan Goleg Brenhinol y Bydwagedd sydd bron â nodi bod yn rhaid rhoi terfyn ar hyn. Weinidog, mae pobl Cymru wedi lleisio eu barn. Mae'r wrthblaid wedi gwrandao. A wnewch chi?

16:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwela fod. Felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

## Dadl Plaid Cymru: y Celfyddydau a'r Diwydiannau Creadigol

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham, a gwelliannau 3 a 4 yn enw Aled Roberts.*

Cynnig NDM5146 Jocelyn Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod ac yn dathlu cyfraniad enfawr y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol i economi a diwylliant Cymru.
2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau llwyddiant parhaus y sectorau hyn drwy:

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that the motion be accepted without amendment. Is there any objection? I see that there is. Therefore, I will defer the voting on this item until voting time.

*Voting deferred until voting time.*

## Plaid Cymru Debate: The Arts and Creative Industries

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of William Graham and amendments 3 and 4 in the name of Aled Roberts.*

Motion NDM5146 Jocelyn Davies

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Recognises and celebrates the enormous contribution that the arts and creative industries make to the economy and culture of Wales.
2. Calls on the Welsh Government to ensure the continuing success of these sectors by:

a) adolygu gweithrediad adroddiad Hargreaves, 'Calon Cymru Ddigidol', i sicrhau bod ei pholisïau'n berthnasol a chyfoes, yn benodol o ran datblygu system breindaliadau hawliau perfformio i Gymru; a

b) sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn adolygu ei strategaeth ar ffurfiau celf yn ystod 2013 ac yn rhoi sylw llawn i'r angen i gynyddu cyfranogaeth yn y celfyddydau, annog pobl ifanc i ymgysylltu â chreadigrwydd, hyrwyddo rhagoriaeth artistig yn y Gymraeg a'r Saesneg a gosod Cymru ar lwyfan y byd.

a) reviewing the implementation of the Hargreaves report 'The Heart of Digital Wales' to ensure its policies are relevant and up to date, particularly with regard to the development of a Wales performing rights royalties system; and

b) ensuring that the Welsh Arts Council review of their artforms strategy during 2013 pays full attention to the need to increase participation in the arts, encourage young people to engage in creativity, promote artistic excellence in both Welsh and English and put Wales on the world stage.

16:32

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigial y cynnig.

Mae pwnc y ddadl hon yn un eithriadol o greiddiol i'r lle hwn ac i'n bodolaeth ni fel pobl. Ein celfyddyd a'n diwylliant oedd yr unig arf i roi mynegiant i'n hunaniaeth am ganrifoedd yn absenoldeb—[Anhyglyw.]

'Mae'r celfyddydau yng Nghymru...yn fywiol ac yn amrywiol, gyda chyfranogwyr sy'n parchu dilyniant traddodiad ac yn rhoi min ar yr hyn sy'n flaengar.... Mae hyd yn oed gipolwg ar y tirwedd artistig yng Nghymru yn dadlennu gwlad sy'n llawn o fywiogrwydd a lliw, gwlad sydd wedi ei phoblogi gan bobl llawn angerdd sy'n gweld gwerth i greadigrwydd'.

Geiriau Jon Gower yw'r rheiny, yr awdur a'r sylwebydd craff a diddorol.

Yng Nghymru, mae gennym lawer iawn i ymfalchïo ynddo o ran ein cerddoriaeth, ein gwyliau celfyddydol, dawn, celfyddyd weledol a chreffftwaith amrywiol, celfyddydau perfformio a chanolfannau perfformio, llenyddiaeth a'r cyfryngau. Pwrpas y cynnig heddiw yw dathlu'r creadigrwydd hwn, oherwydd ei bod yn ein galluogi ni i ddiffinio ein hunain ac i ddweud, 'Dyma ni: dyma'n straeon ni a dyma'n caneuon ni'.

Mae'r gweithgarwch hwn yn agor drysau i'r byd—drysau i fynd allan drwydynt a drysau i groesawu pobl i mewn i fwynhau ein croeso. Mae'r cysylltiadau hyn yn werthfawr tu hwnt ac yn gosod straeon Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol. Gallwn ymfalchïo yn llwyddiannau perfformwyr unigol ar lwyfannau rhyngwladol, boed yn Bryn Terfel yn y Met neu Catrin Finch yn Dubai. Mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i unigolion a grwpiau, fel y gwelais yn ddiweddar yn Galeri, lle'r oedd grŵp gwerin blaengar iawn, 9Bach, wedi cydweithio gyda grŵp o Awstralia, grŵp Aboriginie, the Black Arm Band, ac wedi plethu cerddoriaeth y ddau draddodiad mewn modd cyffrous, gwreiddiol a rhoi gwefr i gynulleidfa a pherfformwyr.

I move the motion.

The subject of this debate is one that is exceptional and of core importance to this place and to our existence as people. Our arts and culture were the only means by which to give expression to our identity for centuries in the absence- [Inaudible.]

'The arts in Wales are vibrant...and varied, with practitioners who both respect the continuities of tradition and sharpen the cutting edge.... Even a rapid fire survey artistic landscape in Wales reveals a country full of vibrancy and colour, populated by a passionate people who cherish creativity'.

Those are the words of Jon Gower, the author and insightful and interesting commentator.

In Wales, we have much to be proud of in terms of our music, our cultural festivals, dance, the visual arts and all sorts of crafts, the performing arts and performance centres, literature and the media. The purpose of the motion today is to celebrate this creativity, because it enables us to define ourselves and to say, 'This is who we are: these are our stories and these are our songs'.

This activity opens doors to the world—doors through which to go out and doors through which we can welcome people in to enjoy our welcome. These links are exceptionally valuable and set the stories of Wales in an international context. We can take pride in the successes of individual performers on the international stage, be it Bryn Terfel in the Met or Catrin Finch in Dubai. It also gives individuals and groups opportunities, as I saw recently in Galeri, where a very innovative folk group, 9Bach, had collaborated with an Aborigine group from Australia, the Black Arm Band, and had woven together the music of both traditions in an exciting and innovative way that thrilled the audience and the performers.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Bydd Rhodri Glyn yn manylu ar gyfraniad economaidd y diwydiannau creadigol yn y man. Mae'n werth cofio bod ein diwylliant yn ddiwydiant hefyd. Mae'n cyflogi tua 30,000 yng Nghymru, gyda chynnyrch economaidd gyda gwerth o tua £0.5 biliwn. Dyna pam y sefydlwyd y bwrdd diwydiannau creadigol yn 2010. Mae cyfle gan y Llywodraeth heddiw i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn y maes hwnnw, o ran lle mae'r strategaeth a beth yw'r llwybr ymlaen.

Mae'r diwydiannau creadigol yn arf rhyngwladol hefyd, ac mae'n werth cofio beth ddigwyddodd yn Ewrop pan gynigiodd Ffrainc rai blynyddoedd yn ôl roi cwota ar faint o ffilmiau Americanaidd a oedd yn cael eu dangos yn Ewrop. Aeth yr Americanaid yn balistig, yn ddigon naturiol felly. Fodd bynnag, nid dim ond y colledion i'r diwydiant ffilm oedd yn poeni'r Americanaid, achos mae ffilmiau Americanaidd yn arf diwylliannol cwbl allweddol o ran cynnal delwedd gadarnhaol a hyderus o America yn y byd mawr. Mae'n arf sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi ei hallforion drwy eu chyflwyno mewn cyd-destun adloniant pwerus.

Nid oes arf tebyg gan Gymru, ond mae'n tanlinellu bod gan y celfyddydau ran allweddol i'w chwarae o ran hyrwyddo delwedd o Gymru dramor, a chodi a chynnal ymwybyddiaeth ohonom ledled y byd.

Ond, ac mae hwn yn 'ond' go fawr ac yn bwynt yr hoffwn ei bwysleisio, nid oes rhaid ac ni ddylid cyfiawnhau gwariant ar y celfyddydau drwy restru ystadegau economaidd. Mae gwerth i'r celfyddydau yn eu hunain. Mae'n weithgarwch sy'n magu hyder ac yn creu pobl ddiddorol a dychmygus—y math o bobl mae cyflogwyr am eu cyflogi. Rwyf wedi credu erioed bod pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch artistig, beth bynnag y bo, yn elwa ymhell y tu hwnt i'r sgil penodol maent yn ei ddysgu. Mae ysgolion bonedd Lloegr wedi dysgu'r wers honno ers canrifoedd.

Mae adrodd straeon, drwy ba bynnag gyfrwng, amdanom ein hunain ac wrthym ein hunain yn weithgarwch oesol i bob diwylliant. Mae cerddi Dafydd ap Gwilym yn dweud llawer wrthym am Gymru'r Oesoedd Canol, ond mae ei themâu o serch a chariad yn rhai i bob oes a phob gwlad. Y bygythiad mawr i ni yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yw ein bod bellach yn boddi yn straeon pobl eraill oherwydd grym masnachol y cyfryngau a'r diwydiant Eingl-Americanaidd. Y tebygolrwydd yw bod pobl ifanc Cymru yn gwybod mwy am hanes America nag am hanes eu hunain, nid yn unig oherwydd diffygion y cwricwlwm addysg ond hefyd oherwydd ffilmiau a chyfresi teledu. Nid oes gennym hyd yn oed 'Braveheart' i'n cysuro.

Roeddwn yn trafod ffilm ddiweddaraf Tarantino, 'Django Unchained', yn ddiweddar gyda fy mab am hanner awr. Pryd ddiwethaf y bŵm yn siarad am ffilm neu raglen Gymraeg, neu hyd yn oed ffilm neu raglen o Gymru, gyda fy mab am hanner awr? Nid yn ddiweddar iawn, gallaf ddweud wrthyf.

Rhodri Glyn will cover the economic contribution of the creative industries later on. It is worth remembering that our culture is also an industry. It employs some 30,000 people in Wales, with an economic output worth around £0.5 billion. That is why the creative industries board was established in 2010. The Government has an opportunity today to report on the progress that has been made in that regard, in terms of where the strategy is and what the way forward is.

The creative industries are also an international tool, and it is worth bearing in mind what happened in Europe, when France some years ago suggested putting a quota on the number of American films that could be shown in Europe. The Americans, quite naturally, went ballistic. It was not just the losses to the film industry that concerned the Americans, however, because American films are key cultural tool in maintaining a positive and confident image of America in the wider world. It is a tool that is used to support its exports by presenting them in a powerful entertainment context.

Wales does not have a similar vehicle, but it underlines the fact that the arts have a crucial part to play in promoting an image of Wales abroad, and raising and maintaining awareness of us throughout the world.

But, and this is an important 'but' and a point that I would like to emphasise, we do not have to and should not justify expenditure on the arts by listing economic statistics. The arts have a value in their own right. It is an activity that develops confidence and creates interesting and imaginative people—the kind of people that employers want to employ. I have always believed that young people who take part in artistic activity, whatever it is, benefit far beyond the specific skill that they learn. The public schools of England have known that for centuries.

Telling stories, through whatever medium, about ourselves to each other is an age-old activity of all cultures. The poems of Dafydd ap Gwilym tells us a great deal about the Wales of the Middle Ages, but his themes of love and passion are ones for all centuries and all countries. The great threat to us in Wales, in both the Welsh and English languages, is that we are now drowning in other people's stories because of the commercial power of the media and Anglo-American culture. The likelihood is that the young people of Wales know more about American history than their own history, not just because of deficiencies in the curriculum, but also because of films and television series. We do not even have a 'Braveheart' to give us comfort.

I recently discussed Tarantino's latest film, 'Django Unchained', with my son for half an hour. When did I last discuss a Welsh-language film or television series, or even a film or series from Wales, with my son for half an hour? Not any time recently, I can tell you.

Felly, er bod amryw o sefydliadau cenedlaethol o safon ryngwladol gennym—Senedd o fath, llyfrgell, amgueddfa a chwmni opera—mae angen artistiaid annibynnol sy'n rhoi mynegiant i egni, cyffro a meddyliau ein pobl, ac mae angen rhoi llwyfan iddynt neu byddwn farw.

Roeddwn yn falch iawn o fod mewn seremoni yn ddiweddar i osod carreg sylfaen ar gyfer canolfan Pontio ym Mangor, ac rwyf yn ymfalchïo o wedi bod yn rhan o Lywodraeth Cymru'n Un a sicrhodd bod y cynllun hwnnw wedi mynd yn ei flaen. Un o'r agweddau diddorol ar Pontio, ar wahân i'r gofod perfformio, yw'r weledigaeth y bydd y disgyblaethau creadigol yn y brifysgol yn dod wyneb yn wyneb â'r disgyblaethau gwyddonol a thechnolegol, oherwydd mae dealltwriaeth bellach fod creadigrwydd yn greiddiol i lwyddiant mewn busnes a'r dechnoleg fodern. Dyna yw gweledigaeth Pontio a dyna yw gweledigaeth Prifysgol Bangor. Rwy'n credu bod hynny hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd y diwydiannau creadigol i ni yng Nghymru, ac yn arbennig i'n pobl ifanc.

I gloi, fy neges i, ac rwy'n siŵr ei bod yn neges sy'n cael ei rhannu drwy'r Siambr, yw: gadewch i ni ymhyfrydu yn amrywiaeth ac egni ein celfyddydau a'n hartistiaid—gallem dreulio'r prynhawn yn rhestru eu rhagoriaethau, ond nid da lle gellir gwell. Gadewch i ni hefyd sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol lle bynnag maent yn byw. Gadewch i ni hefyd sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael mynediad i'r gorau yn y celfyddydau yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol, a phobl hŷn hefyd. Dyna yw pwysigrwydd y rhwydwaith o ganolfannau sydd gennym yng Nghymru. Mae angen inni hefyd gefnogi ein diwydiannau creadigol yn ymarferol ac yn effeithiol. Rwy'n gobeithio clywed gan y Llywodraeth heddiw sut y mae'n gwneud hynny, yn enwedig drwy'r strategaeth diwydiannau creadigol, sydd wedi bod mewn lle ers rhai blynyddoedd.

Ni allwn fforddio gwneud llai, achos nid mater o ddewis yw hwn. Nid yw'r celfyddydau yn rhywbeth y gallwch ei roi mewn boc neu'n rhywbeth y gallwn ei droi ato am adloniant yn unig. Mae'n greiddiol i fywyd ein gwlad ac i'w dyfodol.

Therefore, although we have various national institutions of international quality—a parliament of a sort, a library, a museum and an opera company—we need independent artists who give expression to the energy, excitement and thoughts of our people, and we need to give them a platform or we will not survive.

I was very pleased to attend a ground-breaking ceremony recently for the Pontio centre in Bangor, and I am proud to have been part of the One Wales Government that ensured that that scheme went ahead. One of the interesting aspects of Pontio, apart from the performance space, is the vision that the creative disciplines in the university would come face to face with the scientific and technological disciplines, because there is an understanding now that creativity is at the heart of success in business and modern technology. That is the vision of Pontio and that is the vision of Bangor University. I think that that also highlights the importance of the cultural industries for us in Wales, particularly for our young people.

To conclude, my message, and I am sure that it is a message that is shared throughout the Chamber, is: let us take pride in the variety and energy of our arts and artists—we could spend the afternoon listing their excellence, but there is always room for improvement. Let us also ensure that our young people have an opportunity to take part in artistic activity wherever they live. Let us also ensure that our young people have access to the very best of the arts during their formative years, and also our older people. That is the importance of the network of centres that we have in Wales. We also need to support our creative industries in a practical and effective way. I hope to hear from the Government today how it is going to do that, particularly through the creative industries strategy, which has been in place for some years.

We cannot afford to do less, because this is not a matter of choice. The arts are not something that you can place in a box or something that we can turn to for entertainment alone. It is at the heart of the life of our nation and its future.

16:40

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the four amendments to the motion and I call on Suzy Davies to move amendments 1 and 2 tabled in the name of William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn edrych ymlaen at weld adroddiad yr ymchwiliad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Gyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Rwyf wedi detol pedwar gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Amendment 1-William Graham*

*Add new point at the end of the motion:*

*Looks forward to the publication of the report by the Communities, Equality and Local Government Committee's Task and Finish Group inquiry into Participation in the Arts in Wales.*

*Amendment 2-William Graham*

*Add new point at the end of the motion:*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed yng nghyswllt argymhellion 4, 12, 19, 22 a 23 yn ymchwiliad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'r Rhagolygon ar gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru.*

*Calls on the Welsh Government to update this Assembly on progress made against recommendations 4, 12, 19, 22 and 23 of the Communities, Equality and Local Government Committee's Task and Finish Group inquiry on the Future Outlook for the media in Wales.*

16:40

**Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiau welliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

I move amendments 1 and 2 in the name of Williams Graham.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolchaf i Blaid Cymru am ddod â'r ddatl hon yma heddiw. Rwyf wedi bod yn edrych ymlaen at drafod adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru ac rwy'n deall bod yr adroddiad ar fin cael ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r mater ynghylch hawliau perfformio yn datblygu bob dydd ac rydym wedi wedi cael y gwahoddiad i drafod y ddau fater gyda'i gilydd heddiw.

I thank Plaid Cymru for bringing this debate forward this afternoon. I have been looking forward to discussing the report of the Task and Finish Group on Participation in the Arts in Wales and I understand that the report is about to be published. However, the matter of performance rights is developing daily and we have had an invitation to discuss both matters together today.

Of course, they are connected; Alun Ffred is quite right. Participation in creative activities is both the inspiration and the means for participation in the creative economy, as a number of notable performers from my own region have shown for some years. So, we will be supporting amendment 4. I say with rueful confidence that the Minister for business and enterprise does not seem to have heard the pleas from me and other Members to galvanise her department into action with regard to the creative industries. While I appreciate that it is probably the Minister for heritage who is replying to the debate today, amendment 2 is yet another opportunity for a Government Minister to update the Assembly on the progress made by the creative industries panel, not least the work of the broadcasting advisory panel. It is one thing to respond to the recommendation in the Communities, Equality and Local Government Committee's task and finish group report on the future of the media by saying that most of the Hargreaves recommendations have been implemented, but it is another to tell us how, and how successfully.

Wrth gwrs, maent yn gysylltiedig â'i gilydd; mae Alun Ffred yn llygad ei le. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol yn ysbrydoli ac yn galluogi rhywun i gymryd rhan yn yr economi creadigol, fel mae nifer o berfformwyr nodedig o'm rhanbarth fy hun wedi dangos ers rhai blynnyddoedd. Felly, byddwn yn cefnogi gwelliant 4. Mae'n edifar gennyf ddweud nad ymddengys bod y Gweinidog busnes a menter wedi fy nghlywed i ac Aelodau eraill yn erfyn arni i ysgogi ei hadran i weithredu o ran y diwydiannau creadigol. Er y sylweddolaf mai'r Gweinidog treftadaeth, fwy na thebyg, fydd yn ymateb i'r ddatl heddiw, mae gwelliant 2 yn gyfle arall eto i un o Weinidogion y Llywodraeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am hynt panel y diwydiannau creadigol, yn enwedig gwaith y panel cynghori ar ddarlledu. Un peth yw ymateb i'r argymhelliad yn adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ddyfodol y cyfryngau drwy ddweud bod y rhan fwyaf o argymhellion Hargreaves wedi cael eu rhoi ar waith, ond peth arall yw dweud wrthym sut, a pha mor llwyddiannus.

This debate is an opportunity for the Minister to update us on progress against the recommendations in chapter 10 of the Hargreaves report, which referred to intellectual property and a Welsh royalties agency. The Minister might also update us on a commitment made in the Government's response to recommendation 22 of the task and finish group report, which committed to exploring the option of a creative industries advice service to advise, among other things, on intellectual property rights. Perhaps earlier action on this might have provided a calmer and better-informed arena in which Eos and Radio Cymru could carry out their negotiations. By the way, I thank both of those parties for taking time to come and brief us on their positions. If Radio Cymru were a commercial company operating under commercial licence, the question around whether they are choosing to, or being prevented from, fulfilling the terms of that licence would already have arisen. I understand that arbitration is still an option, so I do not propose to comment further other than to say that a short-term agreement would perhaps be better than none at all, pending the thrashing out of a more permanent arrangement. What that highlights, though, is that commercial value, economic value and cultural value mean different things. We remain in the dark about how the Welsh Government proposes to both balance and maximise support for improvement in all three with regard to creative industries.

Turning to the Arts Council of Wales's artform strategies review, the Assembly supports increasing participation in the arts; I think that that is a given. In a digital age, there are new ways of participating in arts activities, but physical access to taking part in creative endeavour remains a problem for some. Evidence given to the task and finish group referred to in amendment 1 suggests that financial pressure certainly does not help, though I would be nervous about claiming that improved voluntary provision marks the beginning of the end for quality participation guided by professionals. I look forward to hearing about the arts council plans post 2013. The existing strategy was controversial enough and I look forward to hearing whether the Minister is satisfied that it has delivered against the specific requirements of his remit letter. Perhaps he could bring that information in on his response to the arts participation report, when it is published by the communities committee's task and finish group. In particular, he may wish to refer to his evaluation of its contribution to his personal mission to eradicate poverty, which he referred to in the remit letter.

The task and finish group took evidence that participation is increasing, albeit slowly, despite financial pressure. It will be interesting to see whether the effects of the Cultural Olympiad have a long-term pay-off.

Mae'r ddadl hon yn gyfle i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd a wneir ar yr argymhellion ym mhennod 10 o adroddiad Hargreaves, a gyfeiriodd at eiddo deallusol ac asiantaeth freindaliadau i Gymru. Efallai y bydd y Gweinidog hefyd am roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ymrwymiad a wnaed yn ymateb y Llywodraeth i argymhelliad 22 o adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen, i ymchwilio i'r opsiwn o wasanaeth cyngori i'r diwydiannau creadigol er mwyn cyngori, ymhlith pethau eraill, ar hawliau eiddo deallusol. Efallai y byddai gweithredu yn gynt ar hyn wedi creu awyrgylch tawelach a mwy gwybodus i Eos a Radio Cymru gynnal eu trafodaethau. Gyda llaw, hoffwn ddiolch i'r ddau am roi o'u hamser i ddod i'n briffio ar eu safbwyntiau. Pe bai Radio Cymru yn gwmni sy'n gweithredu'n fasnachol o dan drwydded fasnachol, byddai'r cwestiwn a yw'n dewis bodloni, neu'n cael ei atal rhag bodloni, delerau'r drwydded honno eisoes wedi codi. Caf ddeall bod cyflafareddu yn opsiwn o hyd, felly nid wyf yn bwriadu gwneud sylwadau pellach heblaw am ddweud y byddai cytundeb byrdymor o bosibl yn well na dim o gwbl, hyd nes bod trefniant mwy parhaol wedi'i lunio. Yr hyn y mae hynny'n tynnu sylw ato, fodd bynnag, yw bod gwerth masnachol, gwerth economaidd a gwerth diwylliannol yn golygu pethau gwahanol. Rydym yn y niwl o hyd ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydbwysu a sicrhau'r gefnogaeth fwyaf i wella'r tri pheth mewn perthynas â'r diwydiannau creadigol.

Gan droi at yr adolygiad o strategaethau ffurfiau ar gelfyddyd Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'r Cynulliad yn cefnogi cynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau; ni chredaf fod unrhyw amheuaeth ynglŷn â hynny. Mewn oes ddigidol, mae ffyrdd newydd o gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, ond mae mynediad corfforol i gymryd rhan mewn gweithiau creadigol yn parhau i fod yn broblem i rai. Awgryma tystiolaeth a roddwyd i'r grŵp gorchwyl a gorffen y cyfeiriwyd ati yng ngwelliant 1 nad yw pwysau ariannol yn sicr yn helpu, er y byddwn yn petruso cyn honni bod gwell darpariaeth wirfoddol yn nodi dechrau'r diwedd o ran cyfranogi o safon a arweinir gan weithwyr proffesiynol. Edrychaf ymlaen at glywed am gynlluniau cyngor y celfyddydau ar ôl 2013. Roedd y strategaeth bresennol yn ddigon dadleuol ac edrychaf ymlaen at glywed a yw'r Gweinidog yn fodlon ei bod wedi cyrraedd y nod yn unol â gofynion penodol ei lythyr cylch gwaith. Efallai y gallai gynnwys y wybodaeth honno yn ei ymateb i'r adroddiad ar gyfranogi yn y celfyddydau, pan gaiff ei gyhoeddi gan grŵp gorchwyl a gorffen y pwyllgor cymunedau. Yn benodol, efallai y bydd yn dymuno cyfeirio at ei werthusiad o'i gyfraniad at ei genhadaeth bersonol i ddileu tlodi, y cyfeiriodd ati yn y llythyr cylch gwaith.

Cymerodd y grŵp gorchwyl a gorffen dystiolaeth bod cyfranogiad yn cynyddu, er yn araf, er gwaethaf y pwysau ariannol. Bydd yn ddiddorol gweld a yw effeithiau'r Olympiad Diwylliannol yn gwneud gwahaniaeth yn yr hirdymor.



In the meantime, apparently we can do our personal bit to help to overcome the stubborn impression that enjoyment of and participation in the arts and arts activities are only for the elite. I will be interested to hear the Minister's response to comments made by Liz Forgan, the outgoing chair of the Arts Council England, who criticises politicians from all parties for hiding their support for the arts. She said that British politicians, unlike those in continental Europe, cannot, it seems, be seen going to arts events, yet to be seen at a football match is a badge of honour. Therefore, on behalf of Wales, let me briefly stick my head above the barricades and say that I am off to see 'Les Misérables' tonight, and you are all welcome to join me.

Yn y cyfamser, mae'n debyg y gall pob un ohonom wneud rhywbeth i helpu i newid yr argraff ddi-sigl hon mai rhywbeth i'r crachach yn unig yw mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau a gweithgareddau celfyddydol. Hoffwn glywed ymateb y Gweinidog i sylwadau a wnaed gan Liz Forgan, cadeirydd ymadawol Cyngor Celfyddydau Lloegr, sy'n beirniadu gwleidyddion o bob plaid am guddio eu cefnogaeth i'r celfyddydau. Dywedodd na all gwleidyddion ym Mhrydain, yn wahanol i'r rhai ar gyfandir Ewrop, fe ymddengys, gael eu gweld yn mynd i ddiwyddiadau celfyddydol, ond eto mae cael eu gweld mewn gêm bêl-droed yn destun brolio. Felly, ar ran Cymru, gadewch imi godi fy mhen uwchben y baricedau am eiliad a dweud fy mod yn mynd i weld 'Les Misérables' heno, ac mae croeso i bawb ymuno â mi.

16:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Peter Black to move amendments 3 and 4 tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 3 a 4 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3-Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella argaeledd seilwaith digidol sy'n gallu cefnogi'r celfyddydau a diwydiannau creadigol drwy gynyddu'r mynediad at fand eang cyflym a gwella mynediad at sianeli Cymreig drwy deledu digidol.*

*Calls on the Welsh Government to improve the availability of digital infrastructure that can support the arts and creative industries by increasing access to high-speed broadband and improving access to Welsh channels through digital television.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4-Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of the motion:*

*Yn credu y bydd mwy o gyfranogiad yn y celfyddydau yn creu sylfaen gynaliadwy ar gyfer y Diwydiannau Creadigol yn y dyfodol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cyfranogi sy'n cynnwys llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.*

*Believes that greater participation in the arts will create a sustainable base for the Creative Industries in the future and calls on the Welsh Government to develop a participation action plan that includes local government, the voluntary sector and Assembly Government Sponsored Bodies (AGSBs).*

16:45

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 3 and 4 in the name of Aled Roberts.

Cynigiau welliannau 3 a 4 yn enw Aled Roberts.

I will refrain from commenting on the artistic merits of 'Les Misérables', but I will refer to the motion, which is timely and apt. It highlights not just the cultural value of the arts but also the fact that the arts and the creative industries are a major economic driver in our country. For that reason, it is right that we should give them due prominence and importance, both in terms of time in the Chamber and also in the priority that the Government applies to them.

Byddaf yn ymatal rhag sôn am rinweddau artistig 'Les Misérables', ond cyfeiraf at y cynnig, sy'n amserol ac yn briodol. Mae nid yn unig yn tynnu sylw at werth diwylliannol y celfyddydau, ond hefyd y ffaith bod y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yn sbardun economaidd pwysig yn ein gwlad. Am y rheswm hwnnw, mae'n briodol ein bod yn rhoi lle a phwysigrwydd dyladwy iddynt, o ran amser yn y Siambr a hefyd yn y flaenoriaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi iddynt hwy.

It is easier than ever before to reach a mass audience today, simply because of the advent of new technology. I listened with interest to Alun Ffred's reference to some of the more traditional poets in medieval times et cetera in Wales and their importance in their communities in spreading Welsh culture. However, nowadays, if you want to get across your poetry, music or film, you can publish it yourself, you can put it online and you can even record your own CDs, although I believe that you can now download them from websites—I have never quite got the hang of that. However, you can do all that sort of publishing yourself and reach the audience that you are aiming to reach in that way. The only downside of that is how you publicise and distribute your artistic endeavours and make sure that enough people hear of you and have access to those endeavours. It is simply because of that development that the commercial side of that is becoming increasingly difficult.

Improving the digital infrastructure of Wales, therefore, particularly high-speed broadband and digital television, is a major part of support for the creative and arts industries in Wales. We need to concentrate on that as part of this development, without losing sight of the need to develop community art, theatre and all the other works and artistic endeavours that go on in communities, because they are also important. However, how people consume that work is changing tremendously. Whereas you might be fortunate to get a handful of people to a local theatre to see a local production, many more of them will be able to watch it if it is videoed and put online; that is the way that these things are now getting across.

That is the reason why we have tabled our two amendments—amendments 3 and 4—to this motion. We are happy to support the first two amendments—amendments 1 and 2. We look to the publication of the report about participation in the arts in Wales, which contains a number of important recommendations, and the Hargreaves review needs updating and following through as part of that. However, improving the digital infrastructure of Wales, particularly high-speed broadband, is an important way forward. We are constricted by our geography, and that affects our economy. Therefore, we need to overcome those geographical constrictions and ensure access for all in terms of Freeview channels and that the investment in broadband pays off, not just in terms of helping local businesses, but also in terms of spreading the arts. That is why we are particularly pleased that Wales has received £56.9 million from the UK Government as part of its roll-out of next-generation broadband. The development of the 4G mobile network is important as well, albeit I understand that there is the unfortunate side-effect in that it can have an impact on tv broadcast channels, which has to be overcome. The issue of funding the solutions to that, where it has happened, needs to be raised with the UK Government.

Amendment 2 talks about a participation action plan and economic benefit. Again, it is about education and making sure that the Government is joined-up in how it wants to roll out action in the arts. It is about making sure that we are talking to the voluntary and third sectors, and to local government, and ensuring that we are all working together to promote the arts and creative industries.

Mae'n haws nag erioed i gyrraedd cynulleidfa dorfol heddiw, yn syml oherwydd dyfodiad technoleg newydd. Roedd yn ddiddorol clywed Alun Ffred yn cyfeirio at rai o'r beirdd mwy traddodiadol yn y canol oesoedd ac ati yng Nghymru a'u pwysigrwydd yn eu cymunedau yn lledaenu diwylliant Cymreig. Fodd bynnag, heddiw, os ydych am rannu eich barddoniaeth, eich cerddoriaeth neu'ch ffilm, gallwch ei chyhoeddi eich hun, gallwch ei rhoi ar-lein a gallwch hyd yn oed recordio eich cryno ddisgiau eich hun, er fy mod yn credu y gallwch eu lawrlwytho o wefannau erbyn hyn—nid wyf erioed wedi meistrolï'r gamp honno. Fodd bynnag, gallwch fynd ati i gyhoeddi eich hun a chyrraedd y gynulleidfa yr ydych yn anelu ati yn y ffordd honno. Yr unig anfantais yw sut yr ydych yn rhoi cyhoeddusrwydd i'ch gwaith artistig a'i ddosbarthu a gwneud yn si'r bod digon o bobl yn dod i wybod amdanoch ac yn cael gweld neu glywed y gwaith hwnnw. Yn syml mae'r datblygiad hwnnw yn golygu bod yr ochr fasnachol yn dod yn fwyfwy anodd.

Felly, mae gwella seilwaith digidol Cymru, yn enwedig band eang cyflym a theledu digidol, yn rhan bwysig o'r gefnogaeth i'r diwydiannau creadigol a'r celfyddydau yng Nghymru. Mae angen inni ganolbwyntio ar hynny fel rhan o'r datblygiad hwn, heb golli golwg ar yr angen i ddatblygu celf a theatr gymunedol a'r holl waith ac ymdrechion artistig eraill sy'n digwydd mewn cymunedau, gan eu bod yn bwysig hefyd. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae pobl yn ymwneud â'r gwaith hwnnw yn newid yn aruthrol. Tra gallwch fod ffodus i ddenu llond llaw o bobl i theatr leol i weld cynhyrchiad lleol, bydd llawer mwy ohonynt yn gallu ei wyllo os bydd yn cael ei recordio a'i roi ar-lein; dyna sut y caiff y pethau hyn eu trosglwyddo erbyn hyn.

Dyna'r rheswm pam yr ydym wedi cyflwyno ein dau welliant-gwelliannau 3 a 4—i'r cynnig hwn. Rydym yn fodlon cefnogi'r ddau welliant cyntaf-gwelliannau 1 a 2. Edrychwn at yr adroddiad a gyhoeddwyd ar gyfranogiad yn y celfyddydau yng Nghymru, sy'n cynnwys nifer o argymhellion pwysig, ac adolygiad Hargreaves y mae angen ei ddiweddarau a gweithredu arno fel rhan o hynny. Fodd bynnag, mae gwella seilwaith digidol Cymru, yn enwedig band eang cyflym, yn ffordd bwysig ymlaen. Mae ein daearyddiaeth yn gyfyngiad, ac mae hynny yn effeithio ar ein heconomi. Felly, mae angen inni oresgyn y cyfyngiadau daearyddol hynny a sicrhau mynediad i bawb o ran sianeli Freeview a bod y buddsoddiad mewn band eang yn talu ar ei ganfed, nid yn unig o ran helpu busnesau lleol, ond hefyd o ran lledaenu'r celfyddydau. Dyna pam yr ydym yn hynod falch bod Cymru wedi cael £56.9 miliwn gan Lywodraeth y DU fel rhan o'i phroses o gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf. Mae datblygiad y rhwydwaith symudol 4G yn bwysig hefyd, ond caf ar ddeall bod sgil-effaith anffodus yn yr ystyr ei fod yn gallu effeithio ar sianeli darlledu teledu, y mae'n rhaid ei oresgyn. Mae angen codi mater ariannu'r atebion i hynny, lle mae wedi digwydd, gyda Llywodraeth y DU.

Mae gwlliant 2 yn cyfeirio at gynllun gweithredu cyfranogi a budd economaidd. Unwaith eto, mae'n ymwneud ag addysg a sicrhau bod y Llywodraeth yn gydgyssylltiedig o ran sut y mae am gyflwyno'r camau gweithredu ym maes y celfyddydau. Mae a wnelo â sicrhau ein bod yn siarad â'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector, ac â llywodraeth leol, a sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

We are therefore happy to support this motion and the two Conservative amendments. The Government has a huge job in front of it, though a lot of valuable work has been done. I look forward to the Minister's response, in terms of how we will take this agenda forward again over the next few years, and how the various reports that have come out during this Assembly and the previous Assembly are being updated to deliver on that agenda for the whole of Wales.

Rydym felly yn barod i gefnogi'r cynnig hwn a dau welliant y Ceidwadwyr. Mae gan y Llywodraeth dasg enfawr o'i blaen, er bod llawer o waith gwerthfawr wedi cael ei wneud. Edrychaf ymlaen at ymateb y Gweinidog, o ran sut y byddwn yn datblygu'r agenda hon ymhellach dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a sut y mae'r amrywiol adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y Cynulliad hwn a'r Cynulliad blaenorol yn cael eu diweddarau i gyflawni'r agenda honno i Gymru gyfan.

16:50

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf yn falch iawn o gael y cyfle i gyfrannu at y ddatl hon. Mae hwn yn faes hynod o bwysig a pherthnasol i Gymru. Fel y dywedodd Alun Ffred, mae'r diwydiannau creadigol a'r celfyddydau yn greiddiol i'n hendid fel cenedl, ac maent yn greiddiol hefyd i'n heconomi a'r gobaiith sydd gennym i dyfu'r economi. Mae'n bwysig ein bod yn cofio'r wers a ddysgwyd o'r hyn a ddigwyddodd yn America wedi'r dirwasgiad. Defnyddiodd yr Arlywydd Roosevelt y celfyddydau—yn fwiadol—fel ffordd o geisio ailadeiladu'r economi yn America. Nid yw'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yn ymwneud â pherfformiadau a'n diwylliant yn unig. Mae iddynt werth economaidd enfawr. Yn 2010, er enghraifft, cyfrannodd y diwydiannau creadigol yng Nghymru rhwng £450 miliwn a £500 miliwn i economi Cymru. Cyflogwyd 30,000 o bobl gan y diwydiannau hynny. Mae'n bwysig ein bod yn cofnodi'r ffeithiau hyn. Mae dadlau wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf dros ddyfodol S4C, a rhoddwyd llawer iawn o sylw i'r cyllid y mae S4C wedi'i dderbyn dros y blynyddoedd. Gadewch inni gofio bod S4C, ers ei sefydlu yn 1982, wedi cyfrannu £2 biliwn yn anuniongyrchol i economi Cymru—cyfraniad enfawr. Mae Ian Hargreaves yn dweud yn gwbl glir, heblaw am S4C, mae'n debygol iawn na fyddai unrhyw gwmni cynhyrchu annibynnol yn bodoli yng Nghymru. Felly, o gwmpas S4C, mae nifer helaeth o gwmnïau annibynnol wedi datblygu yng Nghymru, sydd nid yn unig wedi creu rhaglenni ond sydd hefyd wedi cynnig gwaith i filoedd o bobl yng Nghymru. Maent yn cyfrannu nid yn unig at raglenni teledu a radio, ond hefyd yn cyfrannu'n greadigol iawn at y modd y mae'r sector hwn yn y diwydiant yn tyfu.

Weinidog, mae bron dair blynedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi adroddiad Ian Hargreaves. Mae bron i dair blynedd wedi mynd heibio hefyd ers i Carwyn Jones ddweud bod y Llywodraeth yn derbyn y rhan fwyaf o argymhellion Ian Hargreaves. Mae'r Llywodraeth yn dweud bod y rhan fwyaf o'r argymhellion hynny naill ai wedi'u gweithredu neu yn y broses o gael eu gweithredu ar hyn o bryd. Weinidog, credaf fod angen adroddiad llawn arnom sy'n nodi'n union sut y mae hynny wedi digwydd. Nid wyf am amau'r Llywodraeth. Os ydych yn dweud bod hyn yn digwydd, byddaf yn derbyn eich gair. Serch hynny, hoffwn weld, yn glir iawn, sut y mae'r argymhellion hyn wedi cael eu gweithredu. O ran yr argymhellion sydd yn y broses o gael eu gweithredu, hoffwn wybod yn union lle y maent yn y broses honno, a phryd y gallwn ddisgwyl gweld yr argymhellion hynny'n cael eu gweithredu'n llawn. Mae gan Gymru gyfle mawr yn y cyd-destun hwn, ac mae'n bwysig ein bod yn manteisio arno.

I am very pleased to have the opportunity to contribute to this debate. It is an exceptionally important and relevant issue for Wales. The creative industries and the arts, as Alun Ffred said, are at the heart of our nationhood, but it is also at the heart of our economy and the hopes that we have to develop that economy. It is important that we should bear in mind the lesson learned from what happened in the USA after the recession. President Roosevelt deliberately used the arts as a means of rebuilding the economy in the United States. Therefore, the arts and the creative industry do not just relate to performance and to our culture. There is a huge economic value to them as well. In 2010, for example, the creative industries in Wales contributed between £450 million and £500 million to the Welsh economy, and 30,000 people were employed by those industries. It is important that we should put these facts on record. There have been arguments over the past few years about the future of S4C, and there has been a great deal of coverage to the funding that S4C has received over the years. Let us bear in mind that S4C has contributed indirectly to the Welsh economy, since its establishment in 1982, to the tune of £2 billion—a huge contribution. Ian Hargreaves states quite clearly, if it were not for S4C it is likely that there would not be any independent production companies working in Wales. Therefore, around S4C, a very large number of independent companies have been able to develop in Wales, which have not only created programmes but have also provided employment for thousands of people in Wales. They contribute not only in terms of television and radio programmes but they also contribute very creatively to the way in which this sector in our industry is developing.

Minister, it is almost three years since the publication of Ian Hargreaves's report, and almost three years have passed since Carwyn Jones stated that the Government accepted most of Hargreaves's recommendations. The Government says that most of those recommendations have either been implemented or are in the process of being implemented at the moment. Minister, I think that we need a full report, noting exactly how that has occurred. I do not doubt the Government. If you say that this is happening, I will take you at your word, but I would like to see clearly exactly how these recommendations have been implemented. On those recommendations that are in the process of implementation, I would like to know where exactly they are in that process, and when we can expect to see them fully implemented. There is a major opportunity for Wales in this area, and it is important that we take full advantage of that opportunity.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Gweinidogion yn San Steffan mewn perthynas â Deddf cyfathrebu 2015? Mewn dwy flynedd, bydd Deddf cyfathrebu newydd yn cael ei mabwysiadu. Mae'n hollbwysig bod sefyllfa Cymru fel gwlad a sefyllfa'r iaith Gymraeg yn cael eu hamddiffyn yn glir yn y ddeddfwriaeth honno, neu mae'n bosibl y bydd y diwydiant darlledu yng Nghymru yn cael ei danseilio'n gyfan gwbl. Fe'ch anogaf yn gryf iawn i sicrhau y bydd llais Cymru yn cael ei glywed yn y broses honno.

Gobeithio y gallwn gael consensws yma y prynhawn yma. Nid wyf yn siŵr at ba ran o'r Deyrnas Unedig yr oedd Gweinidog y celfyddydau yn San Steffan yn cyfeirio ati, ond nid Cymru ydoedd. Gobeithio nad oes embaras gan unrhyw un yn y lle hwn i uniaethu eu hunain â'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru sy'n greiddiol i'n hendid ni fel pobl. Maent hefyd yn greiddiol i'n heconomi ac maent yn rhoi cyfle inni ddod allan o'r dirwasgiad economaidd hwn ac i greu Cymru ffyniannus a hyderus i'r dyfodol.

Minister, what discussions have you had with Ministers in Westminster on a 2015 communications Act? In two years, there will be a new communications Act adopted. It is crucial that the position of Wales as a nation and the position of the Welsh language are clearly protected in that legislation, or the broadcasting industry in Wales could be entirely undermined. I strongly encourage you to ensure that Wales's voice is heard in that legislative process.

I hope that we can achieve consensus this afternoon. I am not sure as to what part of the UK that Westminster's Minister for the arts was referring, but it certainly was not Wales. I hope that no-one in this place is embarrassed to identify themselves with the arts and creative industries in Wales that are at the heart of our identity. They are at the heart of our economy, and they give us an opportunity to emerge from this current economic recession and to create a prosperous and confident Wales for the future.

16:55

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y cyfle i wneud cyfraniad byr i'r ddadl hon. Mae pwysigrwydd y diwydiannau creadigol i Gymru yn amlwg iawn, a chytunaf â llawer o'r hyn sydd wedi'i ddweud eisoes y prynhawn yma, yn enwedig yr hyn a ddywedodd Alun Ffred Jones wrth agor y dadl. Hoffwn ganolbwyntio ar y maes anodd presennol sydd wedi'i nodi yn y cynnig o ran datblygu system breindaliadau hawliau perfformio i Gymru. Yn yr un modd ag Aelodau eraill, rwyf wedi bod mewn sawl cyfarfod yn y Senedd lle mae'r BBC ac Eos wedi cael y cyfle i esbonio'r anghydfod presennol rhyngddynt o'u safbwyntiau gwahanol eu hunain. I rywun fel fi, sydd y tu allan i'r diwydiant yn gwrandao ar y safbwyntiau hyn, mae'n dod yn amlwg yn fuan bod hanes cymhleth y tu ôl i'r sefyllfa heddiw. Mae anawsterau heddiw yn deillio o'r penderfyniad a wnaed gan y Gymdeithas Hawliau Perfformio yn 2006. Wrth edrych yn ôl, mae'n ymddangos nad oedd y rhai a wnaeth y penderfyniadau hynny, ar y gorau, yn ymwybodol o oblygiadau'r penderfyniad neu, ar y gwaethaf, yn gwbl ddi-hid ohonynt.

Nid oedd y BBC yn rhan o'r penderfyniadau hyn o gwbl, ond erbyn hyn mae'r gorfforaeth yn rhan annatod o oblygiadau'r penderfyniad yn ei drafodaethau ag Eos dros hawliau darlledu. Byddai portreadu'r BBC fel y drwg yn y caws yn yr anghydfod hwn yn gorsymleiddio pethau, ac er tegwch nid dyma'r ddadl a gyflwynwyd gan Eos yn ystod ei gyflwyniad yma yr wythnos diwethaf. Serch hynny, mae rheidrydd ar y BBC, oherwydd ei statws fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, i weithredu'n gyflym ac ar frys er mwyn dod â'r anghydfod i ben. Wrth gwrs, mae'r broblem yn ymwneud ag arian, ond mae'r goblygiadau yn rhai cymdeithasol a diwylliannol, yn ogystal ag economaidd. Gall absenoldeb cymaint o gerddoriaeth Gymraeg o Radio Cymru ond fod yn niweidiol i'r celfyddydau a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i fywyd yng Nghymru, sef craidd y cynnig yr ydym yn ei drafod heddiw.

Thank you for the opportunity to make a brief contribution to this debate. The importance of the creative industries to Wales is clear. I agree with a great deal of what has already been said this afternoon, particularly with what Alun Ffred Jones said when he opened the debate. I wish to concentrate on the area of current contention that is identified in the motion when it points to the development of a Welsh performing rights royalties system. In common with other Members, I have attended several meetings in the Senedd where the BBC and Eos have had the opportunity to explain the current dispute between them from their different perspectives. To someone like me, outside of the industry, listening to these accounts, it quickly becomes clear that a complex history lies behind today's situation. Today's difficulties come from the decision that the Performing Rights Society made in 2006. Looking back, it appears that those who made those decisions, at best, were unaware of its consequences or, at worst, were entirely careless of them.

The BBC was not a part of these decisions at all, but the corporation is now inextricably caught up in the implications of the decision made during its discussions with Eos over broadcasting rights. To portray the BBC as the villain in this piece would be an oversimplification of the situation. In fairness, this was not the argument that was put forward by Eos in its presentation here last week. Nevertheless, there is an obligation on the BBC, because of its status as a public service broadcaster, to act swiftly and urgently to bring the dispute to a close. Of course, the problem relates to money, but its implications are just as much social and cultural as they are economic. The absence of so much contemporary Welsh-language music from Radio Cymru can only be damaging to the vitality of the arts and the contribution that they make to life in Wales, which is at the heart of the motion that we are debating today.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n deall, wrth gwrs, nad yw'r Llywodraeth hon yn rhan uniongyrchol o'r anghydfod, ond gall Gweinidogion ddod ag awdurdod moesol a gwleidyddol i faterion polisi cyhoeddus yng Nghymru, sy'n golygu bod ganddynt ddylanwad gwirioneddol, hyd yn oed os nad yw'r pwerau uniongyrchol yn eu dwylo hwy.

Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn a fydd gan y Gweinidog i'w ddweud yn ystod y ddadl heddiw, a gobeithiaf yn fawr y bydd hyn yn rhoi syniad inni o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatrys yr anghydfod niweidiol hwn.

I understand, of course, that the Welsh Government is not directly a party to the dispute, but there is a moral and political authority that Ministers can bring to important public policy issues in Wales, which means that they have real influence, even when the levers of power are not in their own hands.

I look forward to hearing what the Minister has to say during today's debate and I very much hope that this will give us a sense of what the Welsh Government is doing to help resolve this damaging dispute.

17:00

## Llyr Huws Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cafwyd nifer o gyfeiriadau at adroddiad Hargreaves yn barod, ac mae'r cynnig ei hun yn cyfeirio at un argymhelliad yn benodol, sef:

'datblygu system breindaliadau hawliau perfformio i Gymru'.

Wrth ymateb, dywedodd Carwyn Jones fod y Llywodraeth yn derbyn mwyafrif yr argymhellion, gan gynnwys yr ymrwymiad i greu corff cyfatebol i'r PRS yng Nghymru, a buaswn yn ychwanegu fy llais i'r alwad hon i'r Gweinidog ei gwneud hi'n gwbl glir mai dyna yw safbwynt Llywodraeth Cymru o hyd ac, os felly, i amlinellu'r union amserlen sydd gennych mewn golwg fel Llywodraeth ar gyfer cyflawni hynny. Rwy'n edrych ymlaen at glywed eich ymateb mewn munud.

Yn ôl Eos, fel y clywsom, o ganlyniad i newid i fformiwla'r PRS, mae breindaliadau wedi cael eu torri 85%, sy'n golled o tua £1.2 miliwn y flwyddyn i'r diwydiant cerddoriaeth Gymraeg. Roedd breindaliadau Radio Cymru yn unig yn cynrychioli tua dwy ran o dair o gyfanswm yr elw a wnaed gan y diwydiant.

Clywsom am sut y newidiodd PRS y ffordd y mae'n dosbarthu'r arian yn 2008, sy'n dod o'r drwydded flanced y mae'n ei derbyn gan y BBC. Yn sgîl hynny, mae'r gyfradd fesul munud am gerddoriaeth a chwaraeir ar Radio Cymru wedi lleihau yn sylweddol. Cyn y fformiwla newydd, roedd y diwydiant cerddoriaeth yn derbyn tua £2 filiwn bob blwyddyn gan y PRS, ac mae'n werth ein hatgoffa ein hunain o'r gyfradd fesul munud ar orsafoedd y BBC erbyn hyn. Mae Radio 1 yn talu £11.53 y funud, a Radio 2 yn talu £19.64. Mae Radio 4 yn talu £16.45, ac mae'r Asian Network yn talu £6.72. Mae Radio Cymru'n talu 49c. Mae'n deg nodi bod fformiwla a bod cynulleidfaoedd yn amrywio, ond o edrych ar gynulleidfa'r Asian Network, gwelir bod nifer y gwrandawyr bedair gwaith yn fwy na'r ffigur i Radio Cymru, ond mae'r gyfradd fesul munud tua 14 gwaith yn fwy. Nid yw hynny'n ymddangos yn deg i mi ac, yn fy marn i, mae'n amlygu gwendidau sylfaenol yn y fformiwla.

Many references have been made to the Hargreaves report already, and the motion itself refers to one particular recommendation, namely

'the development of a Wales performing rights royalties system'.

In response, Carwyn Jones said that the Government accepted the majority of those recommendations, including that commitment to create a corresponding body to PRS in Wales, and I would like to add my voice to this demand that the Minister should make it entirely clear that that is still the stance of the Welsh Government and, if so, to outline the exact timetable that you as a Government have to achieve that. I look forward to hearing your response in a few moments' time.

According to Eos, as we have heard, as a result of a change to the PRS formula, royalties in Wales have been slashed by 85%, which is a loss of some £1.2 million per annum to the music industry in Wales. The Radio Cymru royalties represented some two-thirds of the total profits made by the industry.

We have heard how PRS changed the way in which it distributes the money in 2008, which comes from the blanket agreement with the BBC. As a result of that, the rate per minute for music played on Radio Cymru has been very significantly reduced. Before the new formula was in place, the music industry in Wales received some £2 million per annum through the PRS, and it is worth reminding ourselves of the per minute rate as it currently exists on BBC stations now. Radio 1 pays £11.53 per minute, and Radio 2 pays £19.64 per minute. Radio 4 pays £16.45, and the Asian Network pays £6.72. Radio Cymru pays 49p per minute. It is fair to note that there is a formula and that audiences vary, but if you look at the audience of the Asian Network, you will see that the listenership is four times higher than Radio Cymru, but the rate per minute is some 14 times greater. That does not appear fair to me and that, in my opinion, highlights some fundamental deficiencies in the formula.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae'r gynghrair a sefydlwyd yn 2008 i bwysu ar y PRS i newid y fformiwla wedi galw am selio ystyriaethau ar werth economaidd y gân. Byddai'n ddiddorol gennyf glywed sylwadau'r Gweinidog am y fformiwla bresennol a'r hyn y mae'n credu a fyddai'n drefn amgen fwy addas. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae Eos wedi cael ei sefydlu fel is-gwmni i'r gynghrair sy'n cynrychioli'r 297 o gyfansoddwyr a'r 34 o gwmnïau sydd wedi neilltuo eu hawliau darlledu i'r asiantaeth newydd honno. Mae Eos ac S4C wedi dod i gytundeb ar drwydded flanced am flwyddyn beilot, ac rydym yn croesawu hynny, ond nid oes cytundeb wedi cael ei wneud eto â'r BBC a Radio Cymru, sydd o ganlyniad wedi colli'r hawl i ddarlledu dros 30,000 o ganeuon.

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthfawrogi rôl Radio Cymru fel darlledwr, nid yn unig fel platfform pwysig i adlewyrchu diwylliant poblogaidd Cymraeg, ond fel elfen ganolog i ffurfiant y diwylliant hwnnw. Hynny yw, mae'n dylanwadu ar natur, cyfeiriad a lles y diwylliant Cymraeg. Nid platfform yn unig ydyw, gan fod sesiynau C2 a sesiynau Unnos hefyd wedi cyfrannu at greu a chyfoethogi'r diwylliant hwnnw.

Rydym yn awr mewn sefyllfa sy'n gwneud niwed i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, gydag artistiaid, cyfansoddwyr, stiwdios a labeli recordio yn anghynaliadwy ac yn colli bywoliaeth o dan y drefn daliadau bresennol. Mae diwylliant Cymreig a Chymraeg o'r herwydd yn dlotach, gyda llai o greu, llai o gyfansoddi a llai o berfformio, a hynny'n gwanychu diwylliant poblogaidd Cymraeg. Mae cael diwylliant poblogaidd hyfyw yn gwbl ganolog i les unrhyw iaith a diwylliant byw.

Mae'r anghydfod rhwng Eos a'r BBC hefyd yn difrodi darlledu Cymraeg, gyda Radio Cymru'n torri ei oriau darlledu ac yn chwarae cerddoriaeth Saesneg, ryngwladol, glasur ac yn y blaen. Gyda dirywiad amlwg yng ngwasanaeth Radio Cymru ers dechrau'r flwyddyn, mae arwyddion bod pobl yn troi at wasanaethau eraill.

Rwyf am orffen drwy ategu sylwadau Mark Drakeford ynglŷn â dylanwad Llywodraeth Cymru yn hyn o beth. Mae'r amser wedi dod, yn fy marn i, i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn y mater penodol hwn sydd o bwys cenedlaethol. Wedi'r cwbl, os yw'r Prif Weinidog yn teimlo ei bod yn addas ceisio ymyrryd mewn ffuglen fel 'Pobol y Cwm', oni ddylid ymyrryd mewn sefyllfa real sy'n tansellio'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, yn tansellio diwylliant poblogaidd Cymru ac yn tansellio darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg.

The alliance formed in 2008 to put pressure on PRS to change the formula has called for the considerations to be based on the economic value of the individual song. I would like to hear the Minister's comments on the current formula and what he thinks would be an alternative approach that would be more appropriate. Eos is now established as a sub-company of the alliance representing 297 composers and 34 companies that have given their rights to that new agency. Eos and S4C have come to an agreement for a blanket agreement on a pilot basis, and we welcome that, but no agreement has yet been reached with the BBC and Radio Cymru, which, as a result, have lost the broadcast rights to over 30,000 songs.

It is important that we appreciate the role of Radio Cymru as a broadcaster, not only as an important platform to reflect popular culture in the Welsh language, but also as a core part of the creation of that industry. It has an influence on the nature, direction and the wellbeing of the Welsh culture. It is not just a platform, but C2 sessions and Unnos sessions have contributed to creating and enriching that culture.

We now find ourselves in a situation that is damaging to the creative industries in Wales, with artists, composers, studios and record labels being unsustainable and losing their livelihoods under the current payment system. The Welsh culture and the Welsh-language culture are poorer as a result, because there is less being created, less composing and fewer performances, and that weakens popular culture in Wales. Having a viable and vibrant popular culture is at the heart of the wellbeing of any living culture and language.

The dispute between Eos and the BBC is also damaging Welsh broadcasting, with Radio Cymru cutting its broadcasting hours and playing English-language music, world music, classical music, and so on. With a clear decline in service levels provided by Radio Cymru since the start of the year, there are signs that people are turning to alternative stations.

May I finish by endorsing Mark Drakeford's comments on the influence of the Welsh Government in this regard? The time has come, in my opinion, for the Welsh Government to intervene on this specific issue, which is of national importance. Of course, if the First Minister believes that it is appropriate for him to intervene in a fiction such as 'Pobol y Cwm', then surely he should intervene in a very real situation that undermines the creative industries in Wales, undermines popular culture in Wales and undermines broadcasting through the medium of Welsh.

17:05

## **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to Plaid Cymru for the opportunity to contribute to this debate on the arts and the creative industries in Wales. As Rhodri Glyn Thomas has already said, there are major opportunities in this area. While other people have spoken about the digital and broadcasting aspects of this, I would like to highlight the excellence of some of our local galleries and the applied arts, and the way in which they give members of the public from all walks of life access to world-class culture and works of art.

Rwy'n ddiolchgar i Blaid Cymru am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon ar y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Fel y mae Rhodri Glyn Thomas wedi dweud eisoes, cyfyd cyfleoedd mawr yn y maes hwn. Tra bod pobl eraill wedi siarad am yr agweddau digidol a darlledu ar hyn, hoffwn dynnu sylw at ragoriaeth rhai o'n horiellau lleol a'r celfyddydau cymhwysol, a'r ffordd y maent yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd o bob cefndir fwynhau diwylliant a gweithiau celf o'r radd eithaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In my own constituency in north Wales, we have three particularly good galleries. I know that the Pontio project will offer a further opportunity for the arts in north Wales. One example is Oriol Kyffin Williams on Anglesey. It provides a permanent home for more than 400 donated works of art; it regularly changes its exhibitions from other institutions and from individual collections; and it administers the annual Kyffin Williams drawing prize to recognise new talent in Wales.

I would also like to pay tribute to the work of Philip Hughes at the Ruthin Craft Centre, which is recognised across Great Britain as one of the great centres for the applied arts within the UK. Over the last few years, I have regularly been to the exhibitions held at the Ruthin Craft Centre, and it holds exhibitions of internationally recognised quality. I invite all Assembly Members who do not live in north Wales to visit Ruthin Craft Centre. It currently has an extremely good exhibition featuring the work of David Nash and Jim Partridge as well as many others. The fact that the Ruthin Craft Centre and the Mostyn gallery in Llandudno have been listed for the annual art fund prize, which is a national competition, run across the UK—Mostyn was listed in 2011 and Ruthin Craft Centre was listed in 2009—shows the quality and the extremely high standard of applied arts that we have here in Wales. All of those galleries offer programmes that increase participation. I cite for example the 'Lost in Art' project, which is run by Ruthin Craft Centre. It is specifically aimed at older people with dementia. The recent exhibition by Michael Brennand-Wood brought in school children from across Denbighshire to engage with the arts.

I also want to acknowledge specifically the role of the Urdd Eisteddfod, particularly in rural communities. It is of huge value that children of all ages can compete against each other and learn to perform. To be able to stand up and perform in public is a huge skill that provides you with valuable life experience. For example, if you are going into an interview later in life, the fact that you have been able to stand up and perform in front of sometimes many hundreds of people will be valuable life experience. When the Urdd Eisteddfod competitions were run locally in my village, there were 200 or 300 people watching those performances. That is something that we need to celebrate and highlight, because it is a huge asset in Wales. It brings hugely valuable life skills to people of all ages from all backgrounds, without discrimination. It is of huge credit to Wales that organisations such as the Urdd exist. It is something that I want to see supported by the Welsh Government and across the Chamber—and I know that it is. I also cannot resist plugging the fact that this year Denbigh will be hosting the National Eisteddfod, which will attract 150,000 visitors. It is a particularly wonderful market town, and I am really delighted that the National Eisteddfod will be in Denbigh this year.

I have been so impressed with the breadth and the range of the huge creativity that there is in Wales, which is demonstrated across north Wales. If the rest of Wales is anything to go by—and I can think of many projects that I have not mentioned—

Yn fy etholaeth fy hun yn y gogledd, mae gennym dair oriel arbennig o dda. Gwn y bydd prosiect Pontio yn cynnig cyfle pellach ar gyfer y celfyddydau yn y gogledd. Un enghraifft yw Oriol Kyffin Williams ar Ynys Môn. Mae'n gartref parhaol i fwy na 400 o weithiau celf a roddwyd; mae'n newid ei harddangosfeydd o sefydliadau eraill ac o gasgliadau unigol yn rheolaidd; ac mae'n gweinyddu gwobr flynyddol Kyffin Williams am arlunio i gydnabod talent newydd yng Nghymru.

Hoffwn hefyd dalu teyrnged i waith Philip Hughes yng Nghanolfan Grefft Rhuthun, sy'n cael ei chydabod ledled Prydain Fawr fel un o ganolfannau mawr y celfyddydau cymhwysol yn y DU. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn mynd yn gyson i'r arddangosfeydd a gynhelir yng Nghanolfan Grefft Rhuthun, ac mae'n cynnal arddangosfeydd o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol. Hoffwn wahodd holl Aelodau'r Cynulliad nad ydynt yn byw yn y gogledd i ymweld â Chanolfan Grefft Rhuthun. Ar hyn o bryd mae arddangosfa arbennig o dda o waith David Nash a Jim Partridge yn ogystal â llawer o bobl eraill. Mae'r ffaith bod Canolfan Grefft Rhuthun ac oriel Mostyn yn Llandudno wedi cael eu rhestru am wobwr flynyddol y gronfa gelf, sef cystadleuaeth genedlaethol, ar draws y DU—cafodd Mostyn ei rhestru yn 2011 a chafodd Canolfan Grefft Rhuthun ei rhestru yn 2009—yn dangos ansawdd a safon uchel iawn y celfyddydau cymhwysol sydd gennym yma yng Nghymru. Mae pob un o'r orielau hyn yn cynnig rhaglenni sy'n cynyddu cyfranogiad. Nodaf, er enghraifft, brosiect 'Ar Goll mewn Celf', sy'n cael ei redeg gan Ganolfan Grefft Rhuthun. Mae wedi ei anelu'n benodol at bobl hŷn â dementia. Denodd yr arddangosfa ddiweddar gan Michael Brennand-Wood blant ysgol o bob rhan o sir Ddinbych i gael blas ar y celfyddydau.

Rwyf hefyd am gydnabod yn benodol rôl Eisteddfod yr Urdd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Mae'n hynod werthfawr y gall plant o bob oedran gystadlu â'i gilydd a dysgu sut i berfformio. Mae'r gallu i sefyll i fyny a pherfformio'n gyhoeddus yn sgil enfawr sy'n rhoi i chi brofiad bywyd gwerthfawr. Er enghraifft, os ydych yn mynd i mewn i gyfweiliad yn ddiweddarach mewn bywyd, bydd y ffaith eich bod wedi gallu sefyll i fyny a pherfformio o flaen cannoedd o bobl weithiau yn brofiad gwerthfawr mewn bywyd. Pan oedd cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd yn cael eu cynnal yn lleol yn fy mhentref, roedd 200 neu 300 o bobl yn gwyllo'r perfformiadau hynny. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni ei ddathlu a thynnu sylw ato, am ei fod yn ased enfawr yng Nghymru. Mae'n dysgu sgiliau bywyd hynod werthfawr i bobl o bob oedran a phob cefndir, heb wahaniaethu. Mae'n glod mawr i Gymru bod sefydliadau megis yr Urdd yn bodoli. Mae'n rhywbeth yr wyf am ei weld yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru ac yn y Siambr—a gwn fod cefnogaeth. Hefyd, ni allaf beidio â sôn am y ffaith mai yn Ninbych y cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, a fydd yn denu 150,000 o ymwelwyr. Mae'n dref farchnad wych iawn, ac rwyf wrth fy modd y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych eleni.

Mae hyd a lled yr holl greadigrwydd sydd yng Nghymru wedi gwneud cymaint o argraff arnaf, a welir ar draws gogledd Cymru. Os yw gweddill Cymru yn debyg a gallaf feddwl am lawer o brosiectau nad wyf wedi'u crybwyll—

- 17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Order. Conclude on this happy note. Trefn. A wnech chi ddod i ben ar y nodyn llon hwnnw.
- 17:10 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I am thinking, for example, of the Scala cinema. We must take advantage of this, particularly when linking it to tourism, so that we can develop arts and tourism together. Rwy'n meddwl, er enghraifft, am sinema'r Scala. Rhaid inni fanteisio ar hyn, yn enwedig o ran cysylltu hyn â thwristiaeth, fel y gallwn ddatblygu'r celfyddydau a thwristiaeth gyda'i gilydd.
- 17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I call the Minister for Housing, Regeneration and Heritage, Huw Lewis. Galwaf ar y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, Huw Lewis.
- 17:10 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth / The Minister for Housing, Regeneration and Heritage*  
My thanks to Plaid Cymru for bringing forward this debate today, and for the contributions across the Chamber. I will say at the outset that the Government will support today's motion and all of the opposition amendments. Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddatl hon heddiw, ac am y cyfraniadau yn y Siambr. Hoffwn ddweud o'r cychwyn y bydd y Llywodraeth yn cefnogi cynnig heddiw a holl welliannau'r gwrthbleidiau.  
  
There is clearly cross-party recognition and support for the arts and creative industries in Wales, and a need for us to do more to support the sector and promote participation. Time allows only that I pick out the key points facing us today. Mae'n amlwg bod cydnabyddiaeth a chefnogaeth drawsbleidiol i'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, a bod angen inni wneud mwy i gefnogi'r sector a hyrwyddo cyfranogiad. Nid yw amser ond yn caniatáu i mi ddewis y pwyntiau allweddol sy'n ein hwynebu heddiw.  
  
I know that the background to today's discussion is not universally positive. The ongoing dispute between the BBC and Eos is complicated, damaging, and is undermining what everyone in this Chamber recognises as a flourishing arts scene in Wales. It is, however, for Eos and the BBC to come to an agreement. I am sympathetic to the fact that this is essentially a situation that has arisen through a range of circumstances that are beyond any party's control. It is complex, and I believe that there is no villain in the piece. However, I am not sympathetic to any argument from either party involved that says that the ball is essentially in the other party's court. That sort of attitude does no favours to the listeners or to the cultural sector here in Wales. I have written to both parties to say that the Welsh Government is impatient for a resolution to this matter, and I hope that the contributions from all parties today, from Members across the Chamber, will give the BBC and Eos impetus to get serious about agreeing a compromise. Gwn nad yw cefndir y drafodaeth heddiw yn un cyffredinol gadarnhaol. Mae'r anghydfod sy'n parhau rhwng y BBC ac Eos yn gymhleth, yn niweidiol, ac yn tansilio'r hyn sy'n fydd celfyddydol ffyniannus yng Nghymru, fel y mae pawb yn y Siambr hon yn cydnabod. Fodd bynnag, mater i Eos a'r BBC yw dod i gytundeb. Deallaf fod hon yn ei hanfod yn sefyllfa sydd wedi codi drwy amgylchiadau amrywiol sydd y tu hwnt i reolaeth unrhyw blaid. Mae'n gymhleth, ac, ni ddylid beio neb, yn fy marn i. Fodd bynnag, nid wyf yn cydfynd ag unrhyw ddatl gan y naill barti na'r llall sy'n dweud mai cyfrifoldeb y parti arall ydyw yn y bôn. Mae'r fath agwedd yn gwneud anghymwynas â'r gwrandawyr a'r sector diwylliannol yma yng Nghymru. Rwyf wedi ysgrifennu at y ddwy ochr i ddweud bod Llywodraeth Cymru am i'r mater gael ei ddatrys ar fyrder, a gobeithiaf y bydd y cyfraniadau gan bob plaid heddiw, gan Aelodau ym mhob rhan o'r Siambr, yn rhoi hwb i'r BBC ac Eos fynd ati o ddifrif i gytuno ar gyfaddawd.



This is not the only issue before us, however, and I do not want the dispute to totally disguise what is a very positive picture concerning the arts and creative industries in Wales. The contribution of the arts was seen very prominently over the past year in Wales's splendid contribution to the cultural Olympiad, as well as the burgeoning Sŵn festival in Cardiff, our eisteddfodau, the Hay festival, Merthyr Rocks, Brecon Jazz, National Theatre Wales's 'Coriolanus' at RAF St Athan, the peace camp at Cemaes Bay, and Artes Mundi in Cardiff. The cultural offer in Wales remains vibrant despite the harsh economic times we find ourselves in. Indeed, the creative industries sector is one of our economy's real success stories. That has been said here this afternoon, and it is true. More than 26,000 people work in the sector, and over 2,500 creative enterprises are active in Wales. Between 2009 and 2011 the number of employees in our creative industries increased by 5.4%, and the number of self-employed increased by 38.9%. Overall, employment in the sector increased by 16.5%. This is the largest increase of all the priority sectors.

The motion today calls for the Arts Council of Wales to emphasise participation and work with young people, artistic excellence, and promoting Wales abroad in developing its future vision for the arts. These are all key issues that ACW will be flagging up during its consultation meetings in February and March. Plaid Cymru is right to raise the issue of participation in the arts as a key priority. I am encouraged by the consensus across the Chamber on that issue. I therefore want to share with the Chamber at the earliest possible stage my ambition to develop a new strategy and challenge for the arts and wider cultural sector in Wales, which will centre on the themes of widening access, child poverty, adult education and digital inclusion. I have instructed my officials to do some scoping work around this. We need a wider cultural sector that is connected much more by partnership, valued by new audiences and has greater numbers of participants than ever before, and that connects inspiration to people's life chances and to training and education, and which is part of our pride in Wales, at the epicentre of Welsh public life, unchallenged as central to the way we do things in the Welsh public realm. That will be my challenge to our partners over the coming period and the rest of this Assembly term: to build that and to make it a reality.

With that in mind, I look forward to the Communities, Equality and Local Government Committee's report into its inquiry into participation in the arts, as a good evidence base to feed into that work. The same can be said of the review into education and the arts, which I announced alongside the Minister for education. In relation to reviewing Hargreaves, the creative industries sector panel has recommended clear strategic priorities for the sector following on from the Hargreaves review. The panel continually reviews these priorities, and officials carry out research and commission and review industry statistics to ensure our strategies are relevant to the needs of the sector, and are up to date.

Fodd bynnag, nid hwn yw'r unig fater ger ein bron ac nid wyf am i'r anghydfod dywyllu'r hyn sy'n ddarlun cadarnhaol iawn o ran y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Gwelwyd cyfraniad y celfyddydau yn amlwg iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yng nghyfraniad gwych Cymru tuag at yr Olympiad diwylliannol, yn ogystal â g?yl S?n sy'n mynd o nerth i nerth yng Nghaerdydd, ein heisteddfodau, G?yl y Gelli, Merthyr Rock, Jazz Aberhonddu, cynhyrchiad 'Coriolanus' National Theatre Wales yn RAF Sain Tathan, y gwersyll heddwch ym Mae Cemaes, ac Artes Mundi yng Nghaerdydd. Mae'r arlwy diwylliannol yng Nghymru yn parhau'n fywiog er gwaethaf y sefyllfa economaidd anodd sydd ohoni. Yn wir, sector y diwydiannau creadigol yw un o lwyddiannau gwirioneddol ein heconomi. Dywedwyd hynny yma y prynhawn yma, ac mae'n wir. Mae dros 26,000 o bobl yn gweithio yn y sector, ac mae dros 2,500 o fentrau creadigol yn weithredol yng Nghymru. Rhwng 2009 a 2011 cynyddodd nifer y cyflogeion yn ein diwydiannau creadigol 5.4%, a chynyddodd y nifer hunangyflogedig 38.9%. Yn gyffredinol, cynyddodd cyflogaeth yn y sector 16.5%, sef y cynnydd mwyaf o blith yr holl sectorau â blaenoriaeth.

Heddiw, mae'r cynnig yn galw ar i Gyngor Celfyddydau Cymru bwysleisio cyfranogiad a gweithio gyda phobl ifanc, rhagoriaeth artistig, a hyrwyddo Cymru dramor wrth ddatblygu ei weledigaeth ar gyfer y celfyddydau yn y dyfodol. Mae'r rhain i gyd yn faterion allweddol y bydd CCC yn tynnu sylw atynt yn ystod ei gyfarfoddydd ymgynghori ym mis Chwefror a mis Mawrth. Mae'n briodol i Blaid Cymru godi mater cyfranogi yn y celfyddydau fel blaenoriaeth allweddol. Rwyf wedi fy nghalonogi gan y consensws yn y Siambr ar y mater hwnnw. Felly hoffwn rannu â'r Siambr ar y cyfle cynharaf posibl fy uchelgais i ddatblygu strategaeth a her newydd i'r celfyddydau a'r sector diwylliannol ehangach yng Nghymru, a fydd yn canolbwyntio ar themâu ehangu mynediad, tlodi plant, addysg oedolion a chynhwysiant digidol. Rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i wneud rhywfaint o waith cwmpasu ynghylch hyn. Mae angen sector diwylliannol ehangach arnom sy'n cael ei gysylltu lawer mwy drwy bartneriaeth, a werthfawrogir gan gynulleidfa oedd newydd ac y mae ganddo nifer mwy o gyfranogwyr nag erioed o'r blaen, ac sy'n cysylltu ysbrydoliaeth â chyfleoedd bywyd pobl ac â hyfforddiant ac addysg, ac sy'n rhan o'n balchder yng Nghymru, wrth wraidd bywyd cyhoeddus Cymru, yn ddiymwad fel canolbwynt i'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau ym mywyd cyhoeddus Cymru. Dyna fydd fy her i'n partneriaid dros y cyfnod sydd i ddod a gweddill tymor y Cynulliad hwn: adeiladu hynny a'i wireddu.

Gyda hynny mewn cof, edrychaf ymlaen at adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i gyfranogiad yn y celfyddydau, fel sail dystiolaeth dda i fwydo i mewn i'r gwaith hwnnw. Mae'r un peth yn wir am yr adolygiad o addysg a'r celfyddydau, a gyhoeddais ochr yn ochr â'r Gweinidog addysg. O ran adolygu Hargreaves, mae panel sector y diwydiannau creadigol wedi argymhell blaenoriaethau strategol clir ar gyfer y sector fel gwaith dilynol ar adolygiad Hargreaves. Mae'r panel yn adolygu'r blaenoriaethau hyn, ac mae swyddogion yn cynnal gwaith ymchwil ac yn comisiynu ac yn adolygu ystadegau yngl?n â'r diwydiant er mwyn sicrhau bod ein strategaeth yn diwallu anghenion y sector, ac yn gyfredol.

The Conservatives have asked for an update on a number of recommendations made by the report on the future outlook for the media in Wales. Action is being taken on those recommendations. For instance, on recommendation 4, we have established the broadcasting advisory panel, which reports to the First Minister directly, and seeks to ensure that the maximum benefits, economic, cultural and social, can be drawn from the sector. For recommendation 12, we are working with Channel 4 to implement its Alpha fund in Wales. That will support the development of new and emerging creative talent. For recommendation 22, the creative industries panel takes an active role in looking at the issue of intellectual property rights and advises the Minister accordingly.

Mae'r Ceidwadwyr wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am nifer o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ar y rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru. Mae camau'n cael eu cymryd o ran yr argymhellion hynny. Er enghraifft, o ran argymhelliad 4, rydym wedi sefydlu panel cynghori ar ddarlledu, sy'n atebol i'r Prif Weinidog yn uniongyrchol, ac sy'n ceisio sicrhau y gellir cael y manteision mwyaf posibl, yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol, o'r sector. O ran argymhelliad 12, rydym yn gweithio gyda Channel 4 i weithredu ei chronfa Alpha yng Nghymru. Bydd hynny yn helpu meithrin talent creadigol newydd ac sy'n datblygu. O ran argymhelliad 22, mae panel y diwydiannau creadigol wrthi'n edrych ar fater hawliau eiddo deallusol ac yn cynghori'r Gweinidog yn unol â hynny.

17:17 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way. On your first point about the advisory panel that reports to the First Minister, is there any intention to make those discussions public so that this Assembly can hear what has been discussed?

Diolch am ildio. O ran eich pwynt cyntaf am y panel cynghori sy'n atebol i'r Prif Weinidog, a oes unrhyw fwriad i gyhoeddi'r trafodaethau hynny fel y gall y Cynulliad hwn glywed yr hyn sydd wedi cael ei drafod?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:17 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I do not think that there is any secret in terms of the priorities that we have laid out. The creative industries sector panel also includes issues of commercial interest and we have to be wary of those. Such issues are occasionally discussed. These things do impinge: we are dealing with private sector interests here. Perhaps I could write to the Member with some clarification around what would be the fullest disclosure possible, while being sensitive towards any commercial concerns that might be relevant at present.

Wel, ni chredaf fod unrhyw gyfrinach o ran y blaenoriaethau a nodwyd gennym. Mae panel sector y diwydiannau creadigol hefyd yn cynnwys materion sydd o fudd masnachol a rhaid inni fod yn ofalus wrth drafod y rheini. Trafodir materion o'r fath o bryd i'w gilydd. Cyffyrddir â'r pethau hyn: rydym yn ymdrin â buddiannau'r sector preifat o ran hyn. Efallai y gallwn ysgrifennu at yr Aelod gyda rhywfaint o eglurhad ynghylch yr hyn y gellir ei ddatgelu'n llawn, tra'n sensitif tuag at unrhyw faterion masnachol a allai fod yn berthnasol ar hyn o bryd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of recommendation 23, the Welsh Government has relevant employment and skills programmes to support training within the sector, including workforce development and apprenticeships. New training is being developed for several sub-sectors.

O ran argymhelliad 23, mae gan Lywodraeth Cymru raglenni cyflogaeth a sgiliau perthnasol i gefnogi hyfforddiant o fewn y sector, gan gynnwys datblygu'r gweithlu a phrentisiaethau. Mae hyfforddiant newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer nifer o is-sectorau.

Finally, the Welsh Government fully supports the need for high-speed broadband and access to Welsh channels through digital tv for all businesses and households. This Government has already stated its commitment to the roll-out of high-speed broadband. Regarding digital tv, the switchover was completed with relatively few major issues, but it is of course very frustrating for those viewers who remain unable to receive the channels available to most of us. We will continue to raise these issues with Digital UK and Ofcom. I thank Plaid Cymru for bringing forward this debate today. There is a considerable amount of consensus across the Chamber on these issues. There is also a new and emerging challenge for greater co-ordination across the wider cultural sector within Wales, and I will be updating the Chamber on those developments as time goes by.

Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi'r angen am fand eang cyflym a mynediad i sianelau Cymru drwy deledu digidol ar gyfer pob busnes a chartref. Mae'r Llywodraeth hon eisoes wedi datgan ei hymrwymiad i'r broses o gyflwyno band eang cyflym. O ran teledu digidol, cwblhawyd y newid heb fawr ddim problemau mawr, ond wrth gwrs mae'n rhwystredig iawn i'r gwylwyr hynny na allant dderbyn o hyd y sianelau sydd ar gael i'r rhan fwyaf ohonom. Byddwn yn parhau i godi'r materion hyn gyda Digital UK ac Ofcom. Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Mae cryn dipyn o gonsensus yn y Siambr ar y materion hyn. Mae hefyd her newydd sy'n dod i'r amlwg am fwy o gyd-drefnu ar draws y sector diwylliannol ehangach yng Nghymru, a byddaf yn rhoi'r diweddaraf i'r Siambr ar y datblygiadau hynny dros amser.

17:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Simon Thomas to reply to the debate.

Galwaf ar Simon Thomas i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I reply to the debate, I draw Members' attention to my declaration of interest in this debate, as my wife is the editor of the 'New Welsh Review'.

Cyn imi ymateb i'r ddadl, hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at fy natganiad o fuddiant yn y ddadl hon, gan mai fy ngwraig yw golygydd ar y 'New Welsh Review'.

We have had a fascinating debate. It has been excellent to have so many Members take part. I am pleased that Plaid Cymru did bring forward this debate now as it has enabled us to look forward to some important things, as the Minister has just outlined, that will be happening in the arts in Wales over the next year or so.

Rydym wedi cael dadl hynod ddiddorol. Bu'n wych cael cynifer o Aelodau yn cymryd rhan. Rwy'n falch i Blaid Cymru gyflwyno'r ddadl hon yn awr gan ei bod wedi ein galluogi i edrych ymlaen at rai pethau pwysig, fel y mae'r Gweinidog newydd ei amlinellu, a fydd yn digwydd yn y celfyddydau yng Nghymru dros y flwyddyn neu ddwy nesaf.

It is unusual to have a debate replied to by a Minister for heritage when two previous Ministers for heritage also took part in the debate, as well as many other Members who have a vivid interest in this subject. It has been very clear from this debate how important the arts are to Wales and we certainly, as Welsh politicians, do not accept what Liz Forgan says for English politicians, or any such thing; we are proud of our association with the arts and we want to take part in forming society through the arts as well as through politics. I certainly live my life professionally through politics, but my amateur life is lived as much through the arts as anything, even though I cannot do anything myself.

Mae'n anarferol cael ymateb i ddadl gan Weinidog treftadaeth ar ôl i ddau gyn-Weinidog treftadaeth hefyd gymryd rhan yn y ddadl, yn ogystal â llawer o Aelodau eraill sydd â diddordeb brwd yn y pwnc hwn. Bu'n amlwg o'r ddadl hon pa mor bwysig yw'r celfyddydau i Gymru, ac rydym yn sicr, fel gwleidyddion yng Nghymru, yn gwrthod yr hyn a ddywed Liz Forgan am wleidyddion yn Lloegr, neu unrhyw fath beth; rydym yn ymfalchïo yn ein cysylltiad â'r celfyddydau ac rydym yn awyddus i gymryd rhan yn y gwaith o ffurfio cymdeithas trwy'r celfyddydau yn ogystal â thrwy wleidyddiaeth. Rwyf yn sicr yn byw fy mywyd profesiynol drwy wleidyddiaeth, ond mae fy mywyd amatur yn cael ei fyw drwy'r celfyddydau yn anad dim, er na allaf wneud unrhyw beth fy hun.

I want to start with a little bit of poetry, because I think a bit of poetry goes down well. It is not Dylan Thomas, it is, dare I say it, an even more important poet, R.S. Thomas, whose centenary we celebrate this year, while Dylan Thomas's will be celebrated next year. Some Members may have come across the poem 'Welsh Landscape', and I will quote a little bit of the poem, which talks about,

Rwyf am ddechrau gydag ychydig o farddoniaeth, oherwydd credaf fod ychydig o farddoniaeth bob amser yn dderbyniol. Nid barddoniaeth Dylan Thomas, ond barddoniaeth bardd hyd yn oed yn bwysicach, os caf ddweud, sef R.S. Thomas, yr ydym yn dathlu ei ganmlwyddiant eleni, tra bydd canmlwyddiant Dylan Thomas yn cael ei ddathlu'r flwyddyn nesaf. Efallai y bydd rhai Aelodau yn gyfarwydd â'r gerdd 'Welsh Landscape', a dyfynnaf ychydig o'r gerdd, sy'n sôn am,

'Wind-bitten towers and castles/With sham  
ghosts/Mouldering quarries and mines/And an impotent  
people/Sick with inbreeding/ Worrying the carcase of an  
old song.'

'Wind-bitten towers and castles/With sham  
ghosts/Mouldering quarries and mines/And an impotent  
people/Sick with inbreeding/ Worrying the carcase of an  
old song.'

When I read that poem initially—[Interruption.] I can tell the Minister for Education and Skills that it is on the national Welsh curriculum. When I read that poem initially, my reaction to the poem was twofold. My first reaction was to be fervently against the poem: I thought, the Welsh are not an impotent people, we are not sick and we have a future; how dare this poet tell me that my country cannot stand up for itself, is sick and is not strong? I did not realise when I read the poem that, for one thing, R.S. Thomas was a miserable old bugger anyway and, secondly, he was challenging his readers. In setting out this poem, he wanted to challenge us and he wanted us to think. [Interruption.]

Pan ddarllenais y gerdd gyntaf—[Torri ar draws.] Gallaf ddweud wrth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei bod ar gwricwlwm cenedlaethol Cymru. Pan ddarllenais y gerdd gyntaf, roedd fy ymateb iddi yn ddeublyg. Fy ymateb cyntaf oedd bod yn daer yn erbyn y gerdd: meddyliais, nid yw'r Cymry yn bobl ddiymadferth, nid ydym yn sâl ac mae gennym ddyfodol; sut y mae'r bardd hwn yn meiddio dweud wrthyf na all fy ngwlad amddiffyn ei hun, ei bod yn sâl ac yn wan? Nid oeddwn yn sylweddoli pan ddarllenais y gerdd, am un peth, mai hen foi diflas oedd R.S. Thomas sut bynnag ac, yn ail, ei fod yn herio ei ddarllenwyr. Wrth lunio'r gerdd hon, roedd am ein herio ac roedd am inni feddwl. [Torri ar draws.]

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I have had to remark on the Member's vocabulary before. I do allow a lot for context, but the bounds of decorum still have to be observed. Fortunately, I did not quite hear what you said, but please do not repeat it.

Trefn. Rwyf wedi gwneud sylwadau ar eirfa'r Aelod o'r blaen. Caniatâf gryn dipyn yn ei gyd-destun, ond mae angen cadw cwrteisi o hyd. Yn ffodus, ni chlywais yn iawn yr hyn a ddywedaso, ond peidiwch â'i ddweud eto os gwelwch yn dda.

**Simon Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)

Let me just say that he would have done well in the film that Suzy Davies is going to see tonight.

Gadewch imi ddweud y byddai wrth ei fodd yn y ffilm y mae Suzy Davies yn ei gweld heno.

R.S. Thomas was challenging us and was challenging the story that we had about ourselves. Back in the 1970s and 1980s, what was the story that we were telling ourselves about Wales? He was challenging us about that, and that is what the best art does. It gives a story, but it also challenges us in that story, and that is what Alun Ffred did in opening the debate: he put the arts very much in that context.

Roedd R.S. Thomas yn ein herio ni ac yn herio'r stori yr oeddem yn ei hadrodd amdanom ni ein hunain. Yn ôl yn y 1970au a'r 1980au, beth oedd y stori yr oeddem yn ei hadrodd wrthym ni ein hunain am Gymru? Roedd yn ein herio am hynny, a dyna'r hyn y mae'r gelfyddyd orau yn ei wneud. Mae'n rhoi stori, ond mae hefyd yn ein herio yn y stori honno, a dyna'r hyn a wnaeth Alun Ffred wrth agor y ddadl: gosododd y celfyddydau yn y cyd-destun hwnnw i raddau helaeth.

Further aspects of the debate really did set out the way in which other aspects of the arts contribute significantly to the economic development of Wales. I found a lot of sympathy for what Alun Ffred Jones said at the beginning. I was particularly struck by his image of a door that opens both ways. Although we drown in the songs of others, to a certain extent, our artistic endeavours have to go out through that door and be sold internationally as well. You do not have to go to see Catrin Finch in Dubai; I saw her in Aberystwyth with the BBC National Orchestra of Wales only a couple of weeks ago, and what a wonderful concert it was.

Mewn agweddau eraill ar y ddadl aethpwyd ati i nodi'r ffordd y mae agweddau eraill ar y celfyddydau yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad economaidd Cymru. Roeddwn yn cyd-fynd â llawer a ddywedodd Alun Ffred Jones ar y dechrau. Fe'm trawyd yn arbennig gan ei ddelwedd o ddrws sy'n agor y ddwy ffordd. Er ein bod yn boddi yng nghaneuon pobl eraill, i ryw raddau, rhaid i'n hymdrechion celfyddydol fynd allan drwy'r drws hwnnw a chael eu hyrwyddo'n rhyngwladol hefyd. Nid oes rhaid ichi fynd i weld Catrin Finch yn Dubai, gwelais hi yn Aberystwyth gyda Cherdorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ychydig o wythnosau yn ôl, a bu'n gyngerdd gwych.

Suzy, we will accept the amendments from the Conservatives, as well as those from the Liberal Democrats. The Government is also accepting them, so we have consensus on that. You were right to underline the importance of Hargreaves and the creative economy. We, in Government, under 'One Wales' wanted to focus on the digital and creative economy, and we had Hargreaves to do that report. That underlined the importance of that work. On the response of the Minister, the employment growth in that sector of 16.5% shows just how important this sector is to Wales. Those are certainly points that we need to take forward.

Suzy, byddwn yn derbyn y gwelliannau gan y Ceidwadwyr, yn ogystal â'r rhai gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r Llywodraeth hefyd yn eu derbyn, felly mae gennym gonsensus ar hynny. Roeddech yn llygad eich lle i danlinellu pwysigrwydd Hargreaves a'r economi creadigol. Roeddem ni, pan oeddem mewn grym, o dan 'Cymru'n Un' yn awyddus i ganolbwyntio ar yr economi ddigidol a chreadigol, a gofynnwyd i Hargreaves baratoi'r adroddiad hwnnw. Roedd hynny'n tanlinellu pwysigrwydd y gwaith hwnnw. O ran ymateb y Gweinidog, mae'r twf cyflogaeth yn y sector hwnnw, sef 16.5%, yn dangos pa mor bwysig yw'r sector hwn i Gymru. Mae'r rheini yn sicr yn bwytiau y mae angen inni weithredu arnynt.

Peter Black, once again, we support the Liberal Democrats' amendments. You focused on the digital infrastructure and the need for a mass audience. I do not know whether to be happy or concerned that the Commissioner who is responsible for IT for Assembly Members has not yet downloaded music, but I can assure you that it is easy to do and it is pretty fantastic as well, so please do that. [Interruption.] Yes, we will bring you some high speed to do it, I am sure.

Peter Black, unwaith eto, rydym yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Bu ichi ganolbwyntio ar y seilwaith digidol a'r angen am gynulleidfa dorfol. Ni wn a ddylwn fod yn fodlon neu'n bryderus nad yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am TG i Aelodau'r Cynulliad wedi lawrlwytho cerddoriaeth eto, ond gallaf eich sicrhau ei bod yn hawdd ei wneud ac mae'n eithaf da hefyd, felly gwnewch hynny, da chi. [Torri ar draws.] Ie, byddwn yn dod â rhywfaint o fynediad cyflym i wneud hynny, mae'n si?r gennyf.

Rhodri Glyn Thomas, as a former Minister, brought his own perspective on this and reminded us in particular about the importance of S4C in developing a culture of artistic endeavour within the broadcasting industry, not just in Cardiff, but outside Cardiff as well.

Mynegodd Rhodri Glyn Thomas, fel cyn-Weinidog, ei safbwynt ei hun ar hyn gan ein hatgoffa'n benodol am bwysigrwydd S4C o ran datblygu diwylliant o ymdrech artistig o fewn y diwydiant darlledu, nid yn unig yng Nghaerdydd, ond tu allan i Gaerdydd yn ogystal.

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)

On that point, Simon, it is a year to the day since Ian Jones started his work as chief executive of S4C. I am sure that you would like to join me in congratulating him and his team for the work that they have done in that year to redirect the endeavours of S4C.

Ar y pwynt hwnnw, Simon, mae blwyddyn gron wedi mynd heibio ers i Ian Jones ddechrau ar ei waith fel prif weithredwr S4C. Rwy'n si?r yr hoffech ymuno â mi i'w longyfarch ef a'i dîm am y gwaith y maent wedi'i wneud yn y flwyddyn honno i ailgyfeirio ymdrechion S4C.

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely, and although I am sure that he will join me in hoping that broadcasting will be devolved to Wales very shortly, while we have this current situation we need a strong leadership in S4C to be part of that evolution in Wales, and I am very pleased to support that.

Mark Drakeford and Llyr Huws Gruffydd dealt with the Eos/BBC disagreement. I completely agree with what Mark and Llyr said, and the sense that this is not something for us to resolve here. However, I am glad that the Minister confirmed that the Government has written to both sides, asking for them to come to an agreement. That is a step forward, and I am glad to hear that. When I quoted R.S. Thomas earlier—'worrying the carcass of an old song'—that, I am afraid, is what Radio Cymru sounds like at the moment. We really need for to this to be resolved. It is a dreadful situation that modern Welsh culture cannot be reflected on our national radio station. It reflects badly not on the Welsh BBC, but on the fact that the BBC does not consider BBC Wales to be a national broadcaster. We need to see that being reflected.

I saw the report that the BBC produced only a couple of weeks ago, which looked at its economic impact. It said that since the move to Salford and the internal devolution of the BBC in England, there had been a £16 million decrease in its economic impact in Wales. The BBC needs to bear that in mind when it tries to resolve issues such as those with Eos. It has a debt to pay back to the people of Wales, in my opinion.

Antoinette Sandbach mentioned some excellent galleries in north Wales, and I can tell her that Ruthin Craft Centre has some of the best hot chocolate that you can get. Josie Russell's exhibition, currently in Oriol Ynys Môn, is a fantastic, heart-warming example of art and creativity coming from adversity and it really speaks to a wider audience. It is a very good example of how we go forward.

My only contribution to the arts was one day in an Urdd Eisteddfod turning the pages of the pianist and helping him to keep time for the children's choir. However, I always get massive enjoyment from the arts in Wales. They are hugely influential, with excellence all over—excellence locally and regionally, in Welsh and in English. We celebrate that excellence today, but we also celebrate its need for economic underpinning by the Government.

Yn bendant, ac er rwy'n si?r y bydd yn ymuno â mi yn fy ngobaith y bydd darlledu yn cael ei ddatganoli i Gymru yn fuan iawn, tra bo'r sefyllfa bresennol yn parhau mae angen arweinyddiaeth gref yn S4C i fod yn rhan o'r esblygiad hwnnw yng Nghymru, ac rwy'n falch o gefnogi hynny.

Soniodd Mark Drakeford a Llyr Huws Gruffydd am yr anghytundeb rhwng Eos a'r BBC. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Mark a Llyr, a'r ymdeimlad nad rhywbeth i ni ei ddatrys yma ydyw. Fodd bynnag, rwy'n falch i'r Gweinidog gadarnhau bod y Llywodraeth wedi ysgrifennu at y ddwy ochr, yn gofyn iddynt ddod i gytundeb. Mae hynny'n gam ymlaen, ac rwy'n falch o glywed hynny. Pan ddyfynnais R.S. Thomas yn gynharach—'worrying the carcass of an old song'—dyna sut y mae Radio Cymru yn swnio ar hyn o bryd, mae arnaf ofn. Mae gwir angen i hyn gael ei ddatrys. Mae'n sefyllfa ofnadwy na all diwylliant Cymraeg modern gael ei adlewyrchu ar ein gorsaf radio genedlaethol. Mae'n adlewyrchu'n wael nid yn unig ar y BBC yng Nghymru, ond ar y ffaith nad yw'r BBC yn ystyried BBC Cymru yn ddarlledwr cenedlaethol. Mae angen inni weld hynny'n cael ei adlewyrchu.

Gwelais yr adroddiad a baratowyd gan y BBC ychydig o wythnosau yn ôl, a oedd yn edrych ar ei effaith economaidd. Dywedodd, ers symud i Salford a datganoli mewnlol y BBC yn Lloegr, fod gostyngiad o £16 miliwn yn ei effaith economaidd yng Nghymru. Mae angen i'r BBC gadw hynny mewn cof pan fydd yn ceisio datrys materion megis y rhai ag Eos. Mae ganddo ddyled i'w had-dalu i bobl Cymru, yn fy marn i.

Soniodd Antoinette Sandbach am rai orielau rhagorol yn y gogledd, a gallaf ddweud wrthi bod Canolfan Grefft Rhuthun yn gweini'r siocled poeth gorau y gallwch ei gael. Mae arddangosfa Josie Russell, ar hyn o bryd yn Oriol Ynys Môn, yn enghraifft wych a chalonogol o gelf a chreadigrwydd a ddaw o adfyd ac mae'n wir yn apelio at gynulleidfa ehangach. Mae'n enghraifft dda iawn o'r ffordd y dylem fynd yn ein blaen.

Fy unig gyfraniad i'r celfyddydau oedd un diwrnod yn Eisteddfod yr Urdd yn troi tudalennau'r pianydd a'i helpu i gadw amser ar gyfer côr y plant. Fodd bynnag, rwyf bob amser yn cael mwynhad mawr o'r celfyddydau yng Nghymru. Maent yn hynod o ddyllanwadol, gyda rhagoriaeth drwyddi draw—rhagoriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn dathlu'r rhagoriaeth honno heddiw, ond rydym hefyd yn dathlu'r angen am gefnogaeth economaidd iddi gan y Llywodraeth.

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is an objection. I will therefore defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, byddaf yn gohirio pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**Cyfnod Pleidleisio****Voting Time****Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Before we proceed with the first set of votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Cyn inni symud ymlaen gyda'r gyfres gyntaf o bleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

[Canlyniad y bleidlais ar gynneg NDM5144](#)[Result of the vote on motion NDM5144](#)

*Gwrthodwyd y cynneg: O blaid 20, Yn erbyn 30, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 20, Against 30, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1](#)[Result of the vote on amendment 1](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5155 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5155 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn mynegi pryder dwys ynghylch effaith negyddol bosibl y cynigion i ad-drefnu GIG Cymru ar gleifion.

1. Expresses deep concern at the potential negative impact of Welsh NHS reconfiguration proposals on patients.

2. Yn nodi pryderon eang ynghylch y ffordd anghyson y mae byrddau iechyd lleol yn cynnwys y cyhoedd o ran newid y GIG.

2. Notes widespread concerns over the inconsistent way in which local health boards involve the public in NHS change.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'i harweiniad ar gynnwys y cyhoedd yn y broses o newid gwasanaethau'r GIG i sicrhau na ellir anwybyddu barn y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol gwasanaethau'r GIG.

3. Calls on the Welsh Government to clarify its guidance on public involvement in NHS service change to ensure that the views of the public cannot be disregarded when decisions about the future of NHS services are made.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gwasanaeth Ambiwlsans Cymru yn gallu ateb unrhyw alw ychwanegol a allai godi yn sgîl ad-drefnu GIG Cymru cyn y caiff unrhyw newidiadau eu gwneud.

4. Calls on the Welsh Government to ensure that the Welsh Ambulance Service is able to meet any additional demand that may result from reconfiguration of the Welsh NHS before any changes are implemented.

[Canlyniad y bleidlais ar gynneg NDM5144 fel y'i diwygiwyd](#)[Result of the vote on motion NDM5144 as amended](#)

*Gwrthodwyd cynneg NDM5155 fel y'i diwygiwyd: O blaid 24, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Motion NDM5155 as amended not agreed: For 24, Against 26, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynneg NDM5146](#)[Result of the vote on motion NDM5146](#)

*Derbyniwyd y cynneg: O blaid 33, Yn erbyn 17, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 33, Against 17, Abstain 0.*

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

The short debate has been postponed. That concludes today's proceedings.

Mae'r ddadl fer wedi'i gohirio. Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 p.m.*

*The meeting ended at 5.30 p.m.*